600089035V

1487. f. 31.

1/6



CRISTION WRTH Y GROES.

Gwel tudal, 38.

# TAITH Y PERERIN:

NEU

## YMDAITH Y GWIR GRISTION:

Dan rith Breuddwyd.

---

GAN JOHN BUNYAN.

---

Ymddyddenais trwy y prophwydi, a mi a amlheais weledigaethau, ac arferais gyffelybiaethau, trwy law y prophwydi; *Hos.* xii. 10.

---

DINBYCH:
CYHOEDDWYD GAN THOMAS GEE.

MDCCCLX

BODLEIAN
20·7·1897
LIBRARY

# AMDDIFFYNIAD YR AWDWR

AM

## GYHOEDDIAD EI LYFR.

---

PAN gynta'm pin mewn llaw gymmerais
I ysgrifenu, ni ddeallais
Yn y fath ddull y gwnawn lyfr bychan:
Na ddo; 'ro'wn wedi 'mroi fy hunan
I wneyd un arall: ond pan ar ddarfod,
Ar hwn dechreuais yn ddiarwybod.
  Ac felly, wrth ysgrifenu 'n gynnil
Am yrfa 'r saint yn nyddiau 'r 'fengyl,
Syrthiais yn frau ar ddull cyfflybiaeth,
Am eu taith a'u ffordd i'r gwynfyd perffaith,
Mewn mwy nag ugain o ryw bethau;
'Nol dodi rhai 'n i lawr yn ddiau,
'R oedd ugain rhagor ynw'i 'n llenwi;
A'r rhai'n drachefn yn ymgynnyddu,
Fel gwreichion tân yn esgyn fyny.
Yna meddyliais ynof f' hunan,
Os amlhau yr y'ch mor fuan,
Ar y neilldu dodaf chwithau,
Rhag i chwi fyn'd dros ben terfynau,
Ac felly 'n hollol bwyta i fyny
Y llyfr yn awr rwy 'n ysgrifenu.
Felly gwnes—ond ni fwriedais
Gyhoeddi i'r byd yr hyn 'sgrifenais
Yn y fath ddull; fy amcan didwn
Oedd gwneuthur rhywbeth a'r nas gwyddwn
Ac ni feddyliodd 'chwaith mo'm calon
Trwy hyn i foddio fy nghym'dogion:
Na ddo, ddim—fy unig amcan
Oedd rhyw foddlondeb im' fy hunan.
  *Ond gwag-oriau 'chwaith ni threuliais*
*Wrth fy llyfryn*; ac ni cheisiais

Ond difyru f' hun ar brydiau,
A chadw allan waeth meddyliau.
Ac felly, pin ar bapyr dodais,
Ar ddu a gwyn fy meddwl rhoddais:
Yna, ar ol cael pen y llwybr,
Tynais—daeth—ac felly 'n eglur
I lawr ymroddais i'w 'sgrifenu,
Nes daeth i'r hyd a'r lled y gweli.
Felly, wedi yn nghyd ei osod,
I rai dangosais, er cael gwybod
Beth a dd'wedent hwy am dano,
Pa un ai canmawl ai condemnio.
Medd rhai—"Caffed fyw 'n ddiammheu,"
Medd ereill—"Gad e' i farw 'n ddiau;"
Medd rhai—"Ioan, printia 'n ddiball;"
"Gochel wyro, paid,"—medd arall:
Medd rhai—"Gall wneuthur mawr ddaioni;"
Ereill dd'wedent, nas gwnai felly.
Yn awr mewn cyfyng-gynghor oeddwn,
Beth oedd oreu i'w wneyd, nis gwyddwn;
O'r diwedd, d'wedais, "Os ymranu
Yr ydych, mynaf benderfynu
'R mater, gan ei roi i'w brintio,
A'i gyhoeddi, doed a ddelo."
Can's meddyliais fod rhai'n sicr
Am ei weled wedi ei wneuthur,
Er nad oedd ereill o'r meddyliau:
I gael gwel'd pa un oedd oreu
Ei gynghor, rhoddais i'w argraffu,
Fel at faen-prawf i gael diweddu.
Meddyliais eilwaith, os na foddiwn
Y rhai oedd am ei wneyd yn ddidwn,
Nis gwyddwn na all'swn fod yn rhwystr
O'r hyn roi iddynt hwy fawr gysur:
Wrth y rhai ydoedd am ei guddio,
D'wedais, "Anhawdd gen'ych ddigio;
Gan fod eich brodyr yn ei hoffi,
Nes gwel'd yn mhellach, oedwch farnu.
Os nas darllenwch, rhowch lonydd iddo,
Câr rhai fwyd, rhai asgwrn-bigo."
Er gallu 'n well eu tangnefeddu,
A hwynt ymroddais i ymddadlu:—
*A allaf finnau* ddim 'sgrifenu
*Yn y fath ddull* heb gyfeiliorni?
*Fy amcan yw* 'th ddaioni penaf,

A'm hewyllys—pam nas gallaf?
Dwg cwmwl tywyll wlaw yn ddibrin,
Pan nas rhy 'r goleu mo'r diferyn.
Tywyll neu oleu—os eu dafnau
Wna i'r ddaiar roddi ffrwythau,
Caiff pob un glod yn ddiwahaniaeth,
Crynoir y ffrwyth ry'r ddau 'n ddiweniaith.
Ië, cymmysgu wneir eu ffrwythau,
Fel nas gwahaniaethir hwythau:
Os y ddaiar fydd newynog,
Ymroir i'w phorthi yn odidog;
Os llawn, ni ddyru ddim daioni,
Eithr chwyda 'r ddau i fyny;
Ac felly, llwyr ddifuddia 'r fendith
Allesid gael trwy 'r dafnau dilyth.
Edrychwch ar bysgotwr hynod,
Pa offer wna i ddal y pysgod!
Gwel fel defnyddia ei synwyrau
I wneyd genweiri, bachau, rhwydau;
Er hyn, mae pysg nas gall eu dala
A rhwyd a genweir, gwnaed ei eitha'.
Rhaid chwilio â llaw yn deg, a'u goglais,
On'te nis delir trwy un ddyfais.
Hefyd, gwel 'r adarwr gwisgi
'N dychymmyg ffyrdd (rhy faith i'w henwi)
I ddal yr adar—dryll a rhwydau,
Gwiail-cydio, cloch a goleu;
Fe 'mlusg, fe gerdd, fe saif yn llonydd,
Pwy all ddweyd ei luniau celfydd!
Ac er hyn, mae 'n methu 'n gryno
Dal 'r aderyn mae am dano.
I ddal un math, rhaid pib a chwiban—
Yr hyn, os gwna, y llall yn fuan
Ehed i'w ffordd gan fraw a dychryn.
Ac felly, cyll ei ddewis 'dderyn
Os gellir cael rhyw berlyn purlan,
Gwerthfawr iawn yn nghoryn llyffan',
A chaffael hefyd yn dra chywrain,
'R un peth yn nghragen yr ostrysen;
Os ydyw pethau gwael i'w gweled
Yn dal peth gwell nag aur, er hardded;
Pwy ddiystyra, sy'n ei garu,
Edrych yno i gael ei feddu!
*'N awr,* am fy llyfryn bychan innau,
*Er bod* yn wag o'r addurniadau

A allai ei wneuthur yn dderbyniol
Gyda hwn neu'r llall yn hollol,
Nid yw yn wag o'r pethau hyny
Mewn modd geirwir sy'n rhagori
Ar yr hyn ag fydd ('rwy'n tystio)
Mewn penau mawr, ond gwag, yn trigo.
"Wele, nid wyf yn cwbl gredu
Y saif eich gwaith pan ddel i'w brofi."
Pam? beth yw'r mater? "Y mae 'n dywyll."
Pa beth er hyny?—dichon sefyll.
"Rhyw beth dych'mygol yw eich gorchwyl."
Pa beth er hyny?—gwn, ddyn anwyl,
I rai dynion trwy 'r fath eiriau
Ag sydd mor dywyll a'm rhai innau
Wneyd y gwirionedd i ddysgleirio,
A'i belydrau 'n hardd diangho'.
"Ond y mae ynddynt ddiffyg dwysder;"
D'wed, ddyn, dy feddwl yn ddibryder:
"Y maent yn boddi 'r gwan yn ddiau,
Ein dallu mae cyffelybiaethau."
Dwysder, yn wir, sydd dra pherthynol
I ysgrifenydd pethau dwyfol:
A raid bod dwysder arna'i 'n eisieu
Am lefaru mewn cyffel'biaethau?
Oni cha'dd deddfau y Iehofah,
Ië, ei 'fengyl-ddeddfau mwyna',
Gynt eu dal allan mewn cysgodau,
A rhyw ddoethion gyff'lybiaethau,
A throell-'madroddion? ac er hyny
Anhawdd gan sobr-ddyn eu barnu,
Rhag bod yn euog o ryfela
Yn erbyn y ddoethineb ucha';
Na, 'n hytrach, 'mostwng mae, a cheisio
Deall beth mae Duw 'n ddweyd wrtho,
Trwy bob hoel a dolen hynod,
Anneirod, defaid, lloi, a hyrddod;
Adar, llysiau, gwaed ŵyn difeius;
A dedwydd ydyw 'r dyn yn ddilys,
A gaffo 'r gras a'r gwir oleuni
Sydd gynnwysedig yn y rhei'ny!
Na fydd ry ehud, ddyn, i farnu
Diffyg dwysder yn fy 'sgrifenu,
*Na'm bod hefyd* yn anweddus
*Yn fy ymadrodd*, ac anfedrus.
*Nid yw pob peth* dwys mewn golwg,

Yn wir ddwys pan ddel i'r amlwg;
Ychwaith nid y'm yn diystyru
Pob peth mewn dammeg roddir ini,
Rhag, wrth ochelyd 'chydig dd'ryswch,
Ddifuddio 'n henaid o ddyddanwch.
'Dyw tywyll a chymylog eiriau
Ond dal y gwir fel aur mewn blychau.
Mynych arferai y prophwydi
Ryw gyffelybiaethau difri,
I osod allan y gwirionedd:
Pwy bynag a edrycho 'n unwedd,
Ar Grist a'i apostolion hefyd,
Hwy gânt wel'd yn eglur hyfryd,
Fod y gwirionedd dwys hyd heddyw
Yn y fath fentyll yn ymgadw.
A ofnaf dd'wedyd fod y 'Sgrythyr,
Sy am ddull ac iaith uwch law pob synwyr,
Yn mhob lle 'n llawn o'r cyfryw bethau,
Troell-'madroddion (cyff'lybiaethau);
Eto, oddi wrth y llyfr hwnw,
Llewyrcha 'r fath oleuni hoew,
Ag fydd yn troi 'n nosweithiau t'w'llaf
Yn ganol-ddyddiau o'r goleuaf.
Fy meiwr, doed, edryched 'rawran
At ei fywyd ef ei hunan,
Rhag gweled yno dduach leinie
Nag sydd yn fy llyfr yn unlle;
Ië, gwybydded fod 'r un ffunud,
'N ei bethau goreu waeth rhai hefyd.
Pe gallem sefyll ger bron dynion
A f' ai diduedd o wraidd calon;
Am ei dlawd un anturia 'n fanwl,
Dd'od â deg a gym'rai'm meddwl,
Yn llawer gwell fel rhoddais allan,
Na'r eiddo ef mewn temlau arian.
Tyr'd, mae 'r gwir, er gwisgoedd trwsgwl,
Yn goleuo 'r farn, unioni 'r meddwl,
Yn boddio 'r deall, plygu 'r 'wyllys,
Yn llanw 'r cof o'r hyn sydd felus,
In' ei ddilyn trwy 'n holl ddyddiau;
Ac hefyd mae 'n lleihau 'n trallodau.
Gwn fod Timotheus yn ddilys,
I arfer ffurf 'madroddion iachus,
*Eithr i ochel* chwedlau gwrachaidd;
*Ond ni* waharddodd Paul, ŵr gweddaidd,

Iddo arfer doeth ddammegion,
Lle maent gwedi cuddio 'n ddyfnion
Yr aur, y perls, a'r meini costus,
Dâl cloddio am danynt yn ofalus.
Gad im' chwanegu un gair eto,
Wr Duw, a wyt ti yn tramgwyddo?
A ydwyt yn dymuno 'n ddiwall,
Pe 'sgrifenaswn mewn dull arall?
Neu pe dodaswn fy meddyliau
Allan mewn rhyw ddull mwy goleu?
Gadewch im' osod tri pheth gwiwlwys,
Ger bron fy ngwell fel ag mae'n gymhwys,
Ac yna ymostwng yn ddifwstwr,
Y cyfan oll i'r Bendith-roddwr:
1. Nid wyf yn gwel'd gwaherddir imi
Y dull yma o 'sgrifenu,
Gan nad wy'n rhoddi dianrhydedd
Ar neb darllenwyr dwys diduedd.
Ddarllenwyr! 'ngeiriau, a'm pethau gwisgwch,
Neu ynte yn anweddaidd byddwch;
Wrth ddefnyddio troell-'madroddion,
Neu ryw gyfflybiaethau doethion,
Mewn cymhwysiad, ceisio 'r ydwyf
Ddyrchafu 'r gwir trwy'r hyn 'sgrifenwyf.
Gwaherddir, dd'wedais—na, mae cenad,
(Esiamplau hefyd oddi wrth rai difrad,
Foddlonodd Duw mewn ffyrdd a geiriau
Yn well na neb sydd yn ein dyddiau)
I draethu 'meddwl fel y gweli,
Am y pethau sydd yn tra rhagori.
2. 'Rwy'n gwel'd gwyr uchel yn 'sgrifenu,
Ar ddull ymddyddan, heb gael anfri
Am wneyd felly; os di'styrant
Yr hyfryd wir, melldigaid fyddant,
A phob cyfrwysdra maent yn arfer,
I'r dyben hwnw ar bob amser,
Rho di ffordd rydd i'r gwir heb ammheu
I weithio arnat ti a minnau,
Y ffordd foddlono Duw y nefoedd:
Pwy ŵyr yn well na'r hwn a'n dysgodd
Gynta' i arddu, p'odd i dywys
Ein bryd a'n llaw i'w amcan dilys?
*Mae'n gwneyd* i bethau gwael allanol
*Drosglwyddo* i ni bethau dwyfol.
*3. Yr wyf yn* gwel'd fod sanctaidd bethau,

Mewn llawer lle 'n cytuno 'n ddiau
A'm trefn, lle geilw un peth dwys-gall
I'w ei egluro help lle arall;
Gan hyny gallaf ei ddefnyddio,
Mewn modd gweddus heb ddarnguddio
Pelydrau euraidd y gwirionedd:
Ië, mi allaf yn ddigamwedd,
Wneyd i'w belydrau hardd lewyrchu,
Fel hanner dydd o ran goleuni.
  Cyn rhoi heibio 'm pin 'sgrifenu,
Dangosa 'r lles wna 'm llyfrau iti,
Yna 'th orchymyn di a minnau
I'r llaw hono yn ddiammheu,
"Sy'n tynu i lawr y cadarn euon,
Yn gwneyd y gwan yn ddiogel ddigon."
  Mae 'n gosod allan i ti 'n hollol,
Y dyn sy'n ceisio'r perl tragwyddol;
O b'le mae'n dod, i b'le mae'n teithio,
Yr hyn mae 'n wneyd, a'r hyn mae 'n peidio;
Mae 'n dangos fel y rhed ar gyhoedd,
Gan frysio 'mlaen i borth y nefoedd;
Dengys hefyd pwy sy'n rhedeg
Fel rhai am ennill coron hardd-deg;
Cei wel'd pa'm collant eu gwaith gloew,
Ac fel ynfydion byddant feirw;
Gwna 'r llyfr hwn o honot deithiwr,
Os cymmeri e'n gynghorwr:
Fe'th dywys di i dir y bywyd,
Os dilyni ei gyf'rwyddyd.
Ië, gwna 'r llesg i weithio 'n wisgi,
A'r dall wel'd pethau dâl eu hoffi.
A wyt am rywbeth gwych a buddiol,
Am wel'd y gwir mewn chwedl ddynol?
Os byr gof? neu am gofio'n gywir,
O'r Calan ddydd i ddiwedd Rhagfyr?
Yna darllen fy nych'mygion,
Fel cyngaf glynu wnant yn gysson,
A gallant fod i'r gwan ysbrydol
Yn gysurwyr tra rhagorol,
Mi a 'sgrifenais hyn o lyfran,
Yn y dull y gweli'r awran,
Fel y gallo gael rhyw effaith
Ar feddyliau 'r gwyr di'styriaeth:
*Mae fel* peth newydd, eto 'n rhigyl
*Yn cynnwys* dim ond geiriau 'r 'fengyl;

Os am ddifyru rhag gorbrudd-der,
Cael meddwl hoff heb ddim yn ofer,
Darllen dych'mygion, a'u hystyriaeth,
Neu yn dy feddylfryd boddi ar unwaith:
Os am bigo bwyd, neu wel'd mewn cwmwl
Ddyn yn dywedyd it' ei feddwl;
Os am freuddwydio, a bod yn effro,
Neu yn chwerthin ac yn wylo;
Neu golli'th hun heb dy niweidio,
A chael dy hun drachefn heb swyno?
A wyt am ddarllen dy hun trwyddot,
A darllen hefyd beth na's gwyddot—
Gwybod ai dedwydd wyt, ai nage,
Wrth ddarllen yr unrhyw linelle?
O! gan hyny, tyred yma,
Fy llyfr hwn â'th ben cyssyllta;
A'th galon hefyd yn yr unman,
A rhwydd-deb i ti, medd JOHN BUNYAN.

# TAITH Y PERERIN.

---

FEL yr oeddwn yn rhodio trwy anialwch y byd hwn, mi a ddaethum i ryw fangre lle yr oedd ffau,[1] a gorweddais i lawr i gysgu yno: ac fel yr oeddwn yn cysgu, mi a freuddwydiais freuddwyd. Ac yn fy mreuddwyd mi a welais ŵr wedi ei ddilladu â bratiau,[2] yn sefyll ar ryw fan,[3] â'i wyneb wedi ei droi oddi wrth ei dŷ ei hun, â llyfr[4] yn ei law, a baich[5] mawr ar ei gefn; *Esa.* lxiv. 6; *Luc* xiv. 26; *Heb.* ii. 2; *Sal.* xxxviii. 4. Mi a edrychais ac a'i gwelais ef yn agor y llyfr, ac yn darllen ynddo; ac fel yr oedd yn darllen, fe wylodd ac a grynodd gan ofn: ac oblegid nad allai ymattal yn hwy, dyrchafodd ei lef yn alarus iawn, gan ddywedyd, "Beth a wnaf fel y byddwyf cadwedig?" *Act.* ii. 37; xvi. 29, 30.

Yn y cyflwr hwn efe a ddychwelodd adref, ac a ymattaliodd cyhyd ag y gallai, fel y byddai ei gystudd yn guddiedig oddi wrth ei wraig a'i blant: ond nid allai efe gelu y peth yn hir, am fod ei gyfyngder yn ymhelaethu; ac am hyny, o'r diwedd, dadguddiodd ei feddwl iddynt, a dechreuodd ymddyddan â hwy fel hyn,—"O! fy ngwraig anwyl, a chwithau blant fy ymysgaroedd! yr wyf fi, eich cyfaill anwyl, wedi fy andwyo[6] ynof fy hun, canys y mae baich trwm yn fy llethu yn dost. Heblaw hyn, fe hysbyswyd i mi yn lle gwir, y llosgir ein dinas ni (y byd) â thân o'r nefoedd (2 *Pedr* iii. 10); ac yn y difrod hwn, nid yn unig myfi, ond tithau hefyd fy ngwraig, a chwithau, fy anwyl blant bychain, a ddyfethir

[1] Mewn carchar yr ysgrifenodd yr awdwr y llyfr hwn, lle y bu yn gaeth am ddeuddeng mlynedd, am ei waith yn pregethu fel Ymneillduwr.

[2] Ei gyfiawnderau gwael ei hun.

[3] A pharodrwydd ynddo i ymadael â'r cwbl yn hytrach na bod yn golledig.

[4] Y Beibl.

[5] *Baich o bechod.*

[6] *Yr wyf yn golledig* ynof fy hun am fy mhechodau; Rhuf. vi. 23.

mewn modd echrydus, oddi eithr i ni gael (yr hwn nid wyf fi yn ei weled eto),[1] ryw ffordd i ddianc fel ein gwaredir."

Ar hyn o hanes, ei dylwyth a'i geraint a synasant yn ddirfawr, heb gredu fod y pethau a lefarodd efe wrthynt yn wirionedd:[2] ond oblegid eu bod hwy yn tybied ei fod wedi penwanu; ac am ei bod hi yn hwyrhau, a hwythau yn gobeithio y sefydlai cwsg ei ymenydd ef, hwy a'i gosodasant yn ei wely ar frys: ond yr oedd y nos mor flin iddo ef a'r dydd; gan hyny, yn lle cysgu, efe a dreuliodd y nos mewn ocheneidiau a dagrau. Tranoeth, pan y mynent wybod pa fodd yr ydoedd, efe a'u hatebodd hwynt ei fod yn waeth, ac a ddechreuodd ymddyddan â hwynt drachefn; ond dechreuasant ymgaledu, meddyliasant hefyd am yru ymaith ei drallod trwy fod yn afrywiog ac yn sarug wrtho. Weithiau hwy a'i gwatwarent ef, weithiau hwy a'i ceryddent, ac weithiau hwy a'i llwyr ddibrisient ef: gan hyny efe a ddechreuodd ymneillduo i'w ystafell i weddïo trostynt, i dosturio wrthynt, ac i ymofidio hefyd am ei drueni ei hun. Ar ryw brydiau, efe a rodiai wrtho ei hun yn bendrist yn y meusydd, weithiau yn darllen, ac weithiau yn gweddïo; ac fel hyn y treuliodd ei amser dros rai dyddiau.

Yn awr, ar ryw brydiau, mi a'i gwelwn yn rhodio yn y meusydd, ac yn ol ei arfer yn darllen yn ei lyfr (ond yn gystuddiedig iawn ei ysbryd); ac wrth ddarllen efe a dorodd allan megys o'r blaen, gan ddolefain, "Pa beth a wnaf fel y byddwyf cadwedig?"

Mi a'i gwelais hefyd yn edrych yma ac acw, fel pe buasai yn ei fryd i ffoi, eto efe a safodd yn ddiysgog; o blegid, fel y tybiwn, nis gwyddai pa ffordd i gychwyn.

Yna mi a welwn ŵr, â'i enw Efengylwr, yn nesäu ato ef, ac yn gofyn iddo, Pa ham yr wyt ti yn llefain?

Yntau a'i hatebodd ef, Syr, yr wyf yn deall wrth y llyfr sydd yn fy llaw fy mod wedi fy nghondemnio i farw, ac ar ol hyny i ddyfod i'r farn; ac nid wyf yn ewyllysgar i farw, nac yn abl i ymddangos yn y farn; *Heb.* ix. 27; *Iob* xxxvi. 20; *Ezec.* xxii. 14.

Yna, ebe Efengylwr, Pa ham yr wyt ti yn anewyllysgar i farw, gan fod y bywyd hwn mor llawn o helbul; *Iob* xvi. 1.

A'r gwr a'i hatebodd, Am fy mod yn ofni y gwesgir fi i lawr gan y baich sydd ar fy nghefn yn is na'r bedd, ac y bydd i mi syrthio i Tophet;[3] *Esa.* xxx. 33. Ac, syr, os

[1] *Nid oedd* eto yn gwybod am un noddfa.

[2] *Y mae y byd yn* barnu fod y sawl sydd yn anesmwyth am eu *pechodau wedi ynfydu.*

[3] *Uffern.*

nid wyf yn gymhwys i fyned i garchar,[1] llai o lawer yr wyf yn barod i fyned i'r farn, ac oddi yno i le y gospedigaeth. A'r meddyliau am y pethau hyn sydd yn peri i mi wylo.

Yna, ebe Efengylwr, Os wyt ti yn y cyflwr hwn, pa ham yr wyt ti yn sefyll yn llonydd?

Yntau a atebodd, Am nas gwn i ba le i fyned.

Yna Efengylwr a roddes iddo rol o femrwn, ac yr oedd yn ysgrifenedig ynddo, "Ffowch rhag y llid a fydd;" *Mat.* iii. 7.

Fe ddarllenodd y gwr y geiriau, a chan edrych ar Efengylwr yn graff, fe ofynodd iddo, I ba le y ffoaf?

Yna, ebe Efengylwr, gan gyfeirio â'i fys dros faes eang, A weli di y porth bychan acw?

Na welaf, ebe'r gŵr.

Yna, ebe y llall, A weli di y goleuni dysglaer acw?[2]

Yntau a'i hatebodd, Mi dybygwn fy mod yn ei weled.

Yna, ebe Efengylwr wrtho, cadw dy olwg yn wastadol ar y goleuni acw, a dos yn uniongyrchol tuag ato; ac felly y cei di weled y Porth; a phan y curech wrtho, fe ddangosir i ti beth fydd raid i ti ei wneuthur; *Mat.* vii. 14; *Salm* cxix. 105; *Ioan* ix. 39; 2 *Pedr* i. 19.

Yna mi a welwn yn fy mreuddwyd y gwr yn dechreu rhedeg; ac nid aethai efe yn neppell oddi wrth ei dŷ ei hun, nad oedd ei wraig a'i blant, wrth ganfod hyny, yn gwaeddi ar ei ol, gan alw arno i ddychwelyd; ond efe a osododd ei fysedd yn ei glustiau, a rhedodd yn mlaen gan grochwaeddi, "Bywyd! bywyd! bywyd tragwyddol!" Nid edrychodd yn ol, ond ffodd tua chanol y gwastadedd; *Luc* xiv. 26; *Gen.* xix. 17.

Y cymmydogion hefyd a ddaethant allan i'w weled ef yn ffoi ymaith:[3] ac fel yr oedd efe yn brysio, rhai a'i gwatwarent ef, ereill a'i bygythient, a rhai a waeddent ar ei ol, gan alw arno i ddychwelyd adref: ac yn mhlith y rhai hyny yr oedd dau a ymroisant trwy daerni i'w ddychwelyd yn ol—enw un oedd Cyndyn, ac enw y llall oedd Meddal. Ac erbyn hyn yr oedd y gwr wedi myned yn lled bell oddi wrthynt; er hyny, yn ol eu pwrpas, hwy a'i canlynasant ef, ac o fewn ychydig amser a'i goddiweddasant ef.

Yna, meddai y gwr, Fy nghymmydogion, pa ham yr ydych yn dyfod ar fy ol?

Hwythau a'u hatebasant ef, I'ch cynghori chwi i ddyfod adref gyda ni.

Ond nid allaf, ebe yntau, wneuthur felly mewn un modd.

[1] I'r bedd.

[2] Nid ellir adnabod Crist, na'r ffordd ato, heb yr Ysgrythyr.

[3] *Y mae y rhai sydd yn* ffoi rhag y llid a fydd yn ddrychau ac yn *rhyfeddodau i'r byd; Ier.* xx. 10; 1 *Cor.* iv. 9.

Yr ydych chwi yn trigo, eb efe, yn Ninas Distryw[1]—y lle hefyd y'm ganwyd innau ynddo. Yr wyf yn gwybod fod y peth yn wir. Ac os marw a wnewch chwi yno, yn gynt neu hwyrach chwi a yrir yn is na'r bedd, i le sydd yn llosgi â thân a brwmstan; *Dad.* xxi. 8. Byddwch foddlawn, gan hyny, fy nghymmydogion, a deuwch yn mlaen gyda mi.

Beth, ebe Cyndyn, a gadael ein cyfeillion a'n meddiannau yn ol!

Ië, ebe Cristion (canys felly y gelwid ef); o blegid nid yw y cyfan o'r hyn a adawsoch yn ol yn deilwng o'u cystadlu âg ychydig o'r pethau yr wyf yn dysgwyl bod yn gyfranog o honynt; *Rhuf.* viii. 18. Ac os deuwch gyda mi i ben y daith, chwi a gewch fwynhau yr unrhyw bethau daionus a minnau; canys y mae digon a gweddill i'w gael yn y lle yr wyf fi yn teithio tuag ato; *Luc* xv. 17. Deuwch a phrofwch fy ngeiriau.

*Cyndyn.* Pa bethau yr ydych chwi yn eu ceisio, gan eich bod yn ymadael â'r holl fyd fel y gallech eu meddiannu.

*Cristion.* Yr wyf yn ceisio "etifeddiaeth anllygredig, dihalogedig, a diddiflanedig, yr hon sydd yn nghadw yn y nefoedd," ac yn ddiogel yno i'w rhoddi ar yr amser nodedig i'r sawl a'i dyfal geisiant hi. Chwi a ellwch, os mynwch, ddarllen y peth felly yn fy llyfr i; 1 *Pedr* i. 4; *Heb.* xi. 16.

Pw, ebe Cyndyn, ymaith â'ch llyfr,[2] atebwch fi—a drowch chwi yn ol[3] gyda ni, ai nis gwnewch?

*Cristion.* Na wnaf: canys mi a osodais fy llaw[4] ar yr aradr; *Luc* ix. 62.

Deuwch, gan hyny, ebe Cyndyn, fy nghymmydog Meddal, a dychwelwn adref hebddo; y mae brawdoliaeth o ddynion penweinion, y rhai, pan y derbyniant ryw opiniwn i'w penau, ydynt yn ddoethach yn eu golwg eu hunain na seithwyr yn adrodd rheswm.

Peidiwch a difenwi, ebe Meddal. Os gwir a ddywed ein cymmydog, Cristion, y mae y pethau y mae yn eu ceisio yn well na'r cwbl o'n meddiannau ni: mi allwn glywed ar fy nghalon fyned gydag ef.

*Cyndyn.* Pa beth!—rhagor o ffyliaid fyth? cymmer dy reoli genyf fi, a thyred yn ol: pwy a ŵyr i ba le y'th arweinir gan y fath ddyn penwan a hwn? Dychwel, dychwel, a bydd gall.

[1] Yn eich cyflwr naturiol, heb eich troi oddi wrth eich pechodau, *i fyw yn sanctaidd.*

[2] *Beibl.*

[3] *I fyw yn annuwiol, fel cynt.*

[4] *I wasanaethu Duw.*

Nag e, ebe Cristion: eithr tyred di, Cyndyn, gyda'th gymmydog Meddal; canys yn y lle yr wyf fi yn ymdrechu myned iddo, y mae y cyfryw bethau i'w cael ag y soniais am danynt, ac amryw o bethau gogoneddus heb law hyny. Oni choeliwch fi, darllenwch yma yn y llyfr hwn am y pethau hyn: ac am wirionedd yr hyn a fynegir ynddo, wele y mae y cwbl wedi ei sicrhau â gwaed[1] yr hwn a'i gwnaeth ef; *Heb.* ix. 17—21.

Felly, fy nghymmydog Cyndyn, ebe Meddal, yr wyf yn dechreu ymsefydlu yn fy meddyliau: yr wyf yn bwriadu ymdeithio gyda'r gŵr da yma, a bwrw fy nghoelbren i mewn gydag ef:[2] eithr fy nghyfaill anwyl, eb efe, wrth Cristion, a wyddoch chwi y ffordd i'r lle dymunol hwn?

*Cristion.* Gŵr â'i enw Efengylwr a'm cyfarwyddodd i frysio tua phorth bychan sydd o'n blaen, lle y dangosir i ni y ffordd.

*Meddal.* Deuwch, gan hyny, gymmydog da: gadewch i ni gychwyn.

Yna hwy a aethant eill dau yn nghyd.

Minnau a ddychwelaf adref, ebe Cyndyn; ac ni byddaf gydymmaith i'r cyfryw ddynion pengeimion, a hudwyd oddi ar y ffordd uniawn.

Ar ol i Cyndyn ddychwelyd yn ol, mi a welwn Cristion a Meddal yn myned yn mlaen, gan siarad â'u gilydd, ar hyd y gwastadedd, ac fel hyn y dechreuasant eu hymddyddanion.

*Cristion.* Deuwch, fy nghymmydog, Meddal, pa fodd yr ydych chwi? Y mae yn dda genyf eich bod wedi eich perswadio i fyned gyda mi. Pe profasai Cyndyn ynddo ei hun nerthoedd a dychryniadau y pethau sydd eto yn anweledig,[3] megys y profais i, ni throisai efe ei gefn arnom mor ysgafn.

*Meddal.* Deuwch, fy nghymmydog, Cristion; gan nad oes yma neb ond nyni ein dau, mynegwch i mi yn awr yn mhellach, pa ryw bethau sydd i'w cael yn y lle yr ydym yn myned tu ag ato, a pha fodd y mwynheir hwynt.

*Cristion.* Gwell y gallaf eu hamgyffred yn fy meddwl na'u hadrodd â'm tafod; eto, gan eich bod yn chwennych eu gwybod, mi a ddarllenaf i chwi am danynt o fy llyfr.

*Meddal.* A ydych chwi yn tybied fod geiriau eich llyfr yn wir?

*Cristion.* Ydwyf, yn ddiau; canys y Digelwyddog yw ei awdwr ef; *Tit.* i. 2; 2 *Tim.* iii. 16; 2 *Pedr* i. 19—21.

[1] A *gwaed Crist.*
[2] *Ac i geisio* rhan o'r etifeddiaeth nefol gydag ef.
[3] *Grym cyhuddiadau cydwybod, o herwydd pechod.*

*Meddal.* Da y dywedasoch: pa bethau ydynt?

*Cristion.* Y mae teyrnas annherfynol i ni breswylio ynddi, a bywyd tragwyddol i'w roddi i ni, fel y gallom gyfanneddu yn y deyrnas hòno dros byth; *Esa.* xlv. 17; *Ioan* x. 27—30.

*Meddal.* Da y dywedasoch: a beth hefyd?

*Cristion.* Y mae coronau o ogoniant i'w cael yno, a gwisgoedd [1] a barant i ni ddysgleirio fel yr haul yn ffurfafen y nefoedd; 2 *Tim.* iv. 8; *Dad.* vii. 9; *Mat.* xiii. 43.

*Meddal.* Y mae hyn yn dra hyfryd: a beth gyda hyny?

*Cristion.* Ni bydd yno na newyn, na syched, na marwolaeth, nac wylofain, na thristwch, na phoen; o blegid fe sych Arglwydd y lle bob deigr oddi wrth ein llygaid; *Dad.* vii. 16, 17; xxi. 4.

*Meddal.* A pha gyfeillion a gawn ni yno?

*Cristion.* Ni a gawn fod yno gydag angelion, seraphiaid, a cherubiaid; sef creaduriaid a bair i'n llygaid serenu wrth edrych arnynt; *Esa.* vi. 2. Yno hefyd y cyfarfyddwn â miloedd a deng miloedd o rai a aethant o'n blaen ni i'r lle hwnw: nid oes un o honynt yn gwneuthur niwed i'r llall, ond y maent yn byw yn berffaith gariadus ac yn sanctaidd, pob un yn rhodio yn ngwydd Duw, ac yn aros yn gymmeradwy yn ei bresennoldeb ef dros byth; *Dad.* v. 11. Mewn gair, yno y cawn ni weled yr henuriaid, â'u coronau aur ar eu penau; *Dad.* iv. 4. Yno y cawn weled y gwyryfon [2] sanctaidd â'u telynau aur; *Dad.* xiv. 4. Yno y cawn ni weled y rhai a ddrylliwyd gan y byd yn ddarnau, a losgwyd yn y tân, a fwytawyd gan fwystfilod, ac a foddwyd yn y moroedd, am eu cariad at Arglwydd y lle—pob un yn holliach, wedi eu dilladu âg anfarwoldeb megys â gwisg; *Ioan* xii. 25; *Dad.* vii. 14, 15; 2 *Cor.* v. 1—5.

*Meddal.* Y mae y pethau hyn yn ddigon i dreisio calonau dynion ar eu hol: ond a ydyw y pethau hyn i'w cael? Pa fodd y deuwn i fod yn gyfranogion o honynt?

*Cristion.* Llywydd y wlad a ysgrifenodd yn y llyfr hwn, os byddwn yn wir ewyllysgar i'w derbyn hwynt, efe a'u rhydd i ni yn rhodd ac yn rhad; *Esa.* lv. 1; *Dad.* xxii. 17.

*Meddal.* Fy nghydymaith anwyl, y mae yn hoff genyf glywed y pethau hyn; awn rhagom, a cherddwn yn gyflymach.

*Cristion.* Y mae y baich sydd ar fy nghefn yn fy rhwystro i fyned mor gyflym ag y dymunwn.

Yn awr, mi a welwn yn fy mreuddwyd, wedi iddynt orphen eu hymadroddion, nesâu o honynt at ryw gors leidiog

[1] *Gwisgoedd o gyfiawnder*; *Dad.* xix. 8.

[2] *Morwynion ieuainc;* sef Cristionogion gonest, heb eu halogi â *gau-grefydd.*

yr hon oedd yn nghanol y gwastadedd; a thrwy fod yn ddiofal, hwy a syrthiasant eill dau yn ddisymmwth i'r gors— ei henw oedd Cors Anobaith: ac yno y buant hwy dros ennyd yn ymdrybaeddu, wedi eu diwyno yn erchyll gan y dom; ac fe ddechreuodd Cristion foddi yn y llaid, o achos y baich oedd ar ei gefn.

Wbwb! ebe Meddal: fy nghymmydog Cristion, yn mha le yr ydym yn awr?

Mewn gwirionedd, ebe Cristion, nis gwn i yn mha le.

Yna y tramgwyddodd[1] Meddal, ac a lefarodd yn llidiog wrth ei gydymaith, gan ddywedyd, Ai dyma y dedwyddwch a grybwyllasoch chwi am dano yr holl amser hyn? Os cawsom y fath aflwydd yn nechreu ein taith, pa beth nad allwn ddysgwyl rhwng hyn a phen ein siwrnai? Os gallaf fi ond dianc o'r lle hwn yn fyw, chwi a gewch, o'm rhan i, feddiannu y wlad dda eich hunan. Ac wedi ymdreiglo yn egnïol amryw weithiau, efe a ddaeth allan o'r gors ar yr ochr nesaf i'w dŷ ei hun; ac felly, efe a aeth ymaith, ac ni welodd Cristion mo hono mwyach.

Fel hyn y gadawyd Cristion i ymdroi yn Nghors Anobaith wrtho ei hun: eithr dan ymwthio, efe a ymdrechodd fyth i ymlusgo tua'r ochr hòno i'r gors ag ydoedd bellaf oddi wrth ei dŷ ei hun,[2] ond nesaf i'r Porth Cyfyng; yr hyn a wnaeth, ond nid allai ddyfod allan o'r gors o achos y baich oedd ar ei gefn.

Ond yna mi a welais yn fy mreuddwyd ŵr yn dyfod ato, a elwid Cymhorth, ac yn gofyn iddo, Pa beth yr wyt ti yn ei wneuthur yna?

Syr, ebe Cristion, gŵr a elwir Efengylwr a archodd i mi fyned y ffordd yma, ac efe a'm cyfarwyddodd hefyd at y porth bychan acw, fel y gallwn ffoi rhag y llid a fydd: ac fel yr oeddwn yn myned tuag yno, cwympais i mewn yma.

*Cymhorth.* Ond pa ham nad edrychasoch chwi am y ceryg?[3]

*Cristion.* Ofn a'm dilynodd mor galed, fel y ffoais ar hyd y ffordd nesaf, ac felly syrthiais yma.

Moes i mi dy law, ebe Cymhorth—a Christion a roddes iddo ef ei law; ac efe a'i tynodd i'r lan, ac a'i gosododd ef

[1] Nid yw meddalwch neu barodrwydd i wrandaw am bethau daionus yn ddigon i ddwyn dyn i'r nefoedd, er fod hyny yn un cam yn y ffordd tuag yno.

[2] Y mae y pechadur cystuddiedig am ei bechod, er ei fod mewn llawer o anobaith, eto yn ymdrechu fyth i ymbellhau oddi wrth ei dŷ ei hun, sef ymdynu nes nes at Grist, fel y gallo fod yn gadwedig. *Salm xlv. 10, 11.*

[3] *Ar yr addewidion* o drugaredd i'r credadyn edifeiriol.

ar dir caled, ac a barodd iddo gerdded ei ffordd yn y blaen; *Salm* xl. 2.

Wedi hyny, mi a neseais at y gŵr a'i tynasai allan o'r gors, ac a ofynais iddo, Syr, gan fod y ffordd o Ddinas Distryw i'r porth acw drwy y lle yma, pa ham nas cyweiriwyd y man hwn, fel y gallai ymdeithwyr tlodion deithio tuag ato yn ddiofalach? Yntau a'm hatebodd, Y mae y gors front hon yn gyfryw le nas gellir ei gwella; canys i'r gwaelod hwn y mae yr holl fryntni sydd yn canlyn argyhoeddiad o bechod yn rhedeg yn wastadol, ac am hyny y gelwir hi y Gors o Anobaith; o blegid gan gynted ag y deffroir pechadur i weled ei gyflwr colledig, y mae llawer o ddychryniadau ac ammheuon a meddyliau anghysurus yn cyfodi yn fynych yn ei enaid ef; a'r rhai hyn oll sydd yn ymgasglu yn nghyd ac yn ymsefydlu yn y fan hon: a dyma i chwi y rheswm pa ham y mae y lle yma mor ddrwg.

Nid ewyllys y Brenin yw fod y ffordd hon cynddrwg ag y mae hi; *Esa.* xxxv. 3, 4. Y mae ei weithwyr hefyd, trwy gyfarwyddiadau golygwyr ffyrdd ei Fawrhydi, wedi bod er's mwy nag un cant ar bymtheg o flyneddoedd yn gweithio yma, i edrych a ellid cyweirio y clwt tir hwn; ïe, a myfi a wn, ebe fe, lyncu yma o leiaf ugain mil, ïe myrddiynau, o fenni, yn llawn o hyfforddiadau iachus, a ddygwyd yma o bryd i bryd o bob ardal a goror yn nheyrnasoedd y Brenin, i brofi a ellid cyweirio y ffordd hon; a'r rhai a wyddent beth oedd eu defnydd, a ddywedent, mai y pethau goreu oeddynt a ellid eu cael i wneuthur y tir hwn yn sych ac yn galed. Eithr Cors Anobaith yw hi fyth; ac felly y bydd hi, er gwneuthur o bawb eu goreu i'w gwellhau.

Gwir yw, fod, trwy gyfarwyddiadau Rhoddwr y gyfraith, ryw geryg [1] mawrion a chedyrn wedi eu gosod ar hyd canol y gors; ond pan y bo'r lle yma yn chwydu i fyny lawer o fudreddi, megys y mae yn gwneuthur ar newidiad tywydd, braidd y gwelir y meini: ac os canfyddir hwy, y mae dynion, o herwydd gwendid eu penau,[2] yn troi oddi wrthynt: ac yna, wedi syrthio i'r gors, diwynir hwy yn erchyll, er fod y ceryg yno fyth. Ond y mae y ffordd yn dda (1 *Sam.* xii. 23) wedi myned i mewn unwaith trwy y porth.

Yna mi welwn yn fy mreuddwyd, fod Meddal, erbyn hyn, wedi dyfod yn ol i'w dŷ ei hun; a'i gymmydogion a ddaethant i ymweled âg ef; a rhai o honynt a'i galwasant ef yn ŵr *call, am* iddo ddychwelyd adref; a rhai a'i galwasant ef yn

[1] *Addewidion o faddeuant* pechodau, ac o fod yn gymmeradwy *trwy ffydd yn Nghrist.*

[2] *Trwy y dychryn* sydd yn eu calonau o blegid eu pechodau.

ffol, am beryglu ei hun gyda Christion; ac ereill a'i gwatwarasant ef, am ei fod cyn waned ei galon, gan ddywedyd wrtho, "Yn ddiau, wedi dechreu anturio, ni ddylasech fod mor ofnus a chefnu am ychydig o anhawsder yn y ffordd." Ac felly, dan ostwng ei war fel crwydryn, eisteddodd Meddal i lawr yn eu plith hwynt. Ond o'r diwedd, efe a ymhyfhaodd; ac yna hwy oll a droisant eu chwedlau, ac a ddechreuasant ddywedyd yn ddrwg am Gristion, druan, o'r tu cefn iddo. A digon bellach am Feddal.

Yn awr, fel yr oedd Cristion yn myned yn mlaen, heb neb gydag ef, efe a ganfyddai ŵr o hirbell yn croesi y maes; a dygwyddodd iddynt gyfarfod â'u gilydd yn y man hyny lle yr oedd y naill yn croesi ffordd y llall. Enw y gŵr boneddig a gyfarfu âg ef oedd Meistr Bydol-ddoethyn; a thrigo yr oedd efe yn Ninas Doethineb Cnawdol—tref fawr iawn, ac yn gyfagos hefyd i'r lle y daethai Cristion o hono. A'r gŵr hwn a glywsai ryw son am dano, canys mynediad Cristion allan o Ddinas Distryw a aeth ar led yn ddirfawr, nid yn unig yn y dref lle yr ydoedd efe yn preswylio ynddi, ond hefyd mewn amryw o drefi ereill oddi amgylch. Meistr Bydol-ddoethyn, gan hyny, wrth ddal sylw ar ei gerddediad cyflym, ac ar ei ocheneidiau a'i riddfanau ef, a'r cyffelyb argoelion ereill, a led-dybiodd mai hwn ydoedd Cristion, ac efe a ddechreuodd siarad âg ef fel hyn.

*Bydol-ddoethyn.* Felly yn awr, y gŵr da, i ba le yr ydych chwi yn myned yn llwythog fel hyn?

*Cristion.* Yr wyf wedi fy llwytho, yn ddiau, cyn drymed, i'm tyb i, ag y llwythwyd un creadur truan erioed; a chan i chwi ofyn tua pha le yr wyf yn teithio, dywedaf wrthych, syr, fy mod yn myned tua'r porth bychan acw, sydd gyferbyn â mi; canys fe ddywedwyd wrthyf y cawn i gyfarwyddyd yno pa fodd i gael ymwared o'm baich trwm.

*Bydol-dd.* A oes i ti wraig a phlant?

*Cristion.* Oes: eithr yr wyf fi wedi fy llwytho â'r baich yma, fel nas gallaf ymhyfrydu ynddynt hwy megys cynt; ïe, yr wyf yn teimlo fel pe bawn hebddynt.

*Bydol-dd.* A gymmeri di gynghor genyf fi, os rhoddaf ef i ti?

*Cristion.* Gwnaf; os da fydd eich cynghor, canys digon rhaid i mi wrtho.

*Bydol-dd.* Mi a fynwn i ti, gan hyny, ymdrechu cael rhyddhâd oddi wrth dy lwyth mor gynted ag y gelli; o blegid ni byddi di byth yn esmwyth yn dy feddwl, ac nid elli *fwynhau llesâd* oddi wrth y bendithion a roddes Duw i ti, *nes y gwnelych felly.*

*Cristion.* Dyna'r peth yr wyf yn ymorchestu am dano, sef cael fy nadlwytho o'm baich pwysfawr; nis gallaf fi ei fwrw i lawr fy hunan, ac nid oes neb yn ein gwlad a ddichon ei dynu ef oddi ar fy ysgwyddau; ac am hyny yr wyf yn teithio ar y ffordd hon, fel y gallwyf gael ymwared o hono.

*Bydol-dd.* Pwy a barodd i ti fyned ar hyd y ffordd yma i gael gwared o'th faich?

*Cristion.* Gŵr o wedd barchedig ac anrhydeddus, yn fy ngolwg i: ei enw, hyd yr wyf yn ei gofio, yw Efengylwr.

*Bydol-dd.* Yn nghrog y byddo am ei gynghor;—nid oes yn yr holl fyd un ffordd yn fwy peryglus a blin na'r hon y cyfarwyddodd efe tydi i ymdeithio ynddi; a thi a gai brofi hyny os dilyni ei gynghor ef. Mi a welaf wrth dom y Gors o Anobaith sydd yn glynu wrth dy ddillad di, gael o honot beth trafferth eisoes; eithr nid yw y gors hòno ond dechreuad y gofidiau sydd yn canlyn y sawl sydd yn teithio yn y ffordd yma. Gwrandaw arnaf fi—yr wyf yn hŷn na thydi; mae yn debyg y cyfarfyddi ar y ffordd yr wyt yn ymdeithio ynddi â lludded, blinder, newyn, peryglon, noethni, cleddyf, llewod, dreigiau, tywyllwch, ac i fod yn fyr, â marwolaeth:[1] a pheth nis cyfarfyddi? Y mae yn ddilys fod hyn oll yn wir; canys fe sicrhawyd y cwbl gan lawer o dystion: a pha ham y dyfethai dyn ei hunan mor ddiofal trwy goelio dyn dyeithr.

*Cristion.* Syr, y mae y baich hwn sydd ar fy nghefn yn fwy dychrynllyd i mi na'r cwbl oll a grybwyllasoch chwi am danynt; ïe, mi a dybygwn nas gwnawn gyfrif yn y byd o ddim a ddygwyddai i mi yn y ffordd,[2] pe gallwn gael ond fy nadlwytho o'm baich.[3]

*Bydol-dd.* Pa fodd y gwybuost ar y cyntaf dy fod yn llwythog?

*Cristion.* Wrth ddarllen y llyfr yma sydd yn fy llaw.

*Bydol-dd.* Felly yr oeddwn yn tybied; ac fe ddamweiniodd i ti megys ag y dygwyddodd i bobl anneallus ereill,[4] y rhai, trwy ymyraeth â phethau yn mhell uwch law eu dealldwriaeth, a gollasant eu cof yn ddisymmwth: ac y mae y gwallgof hyn, nid yn unig yn eu gosod hwynt mewn gradd îs na dynion—megys, i'm tyb i, yr wyt ti wedi dy osod ganddo—eithr y mae hefyd yn eu gyru hwynt yn mlaen i anturio ar bethau echrydus, mewn amcan i feddiannu nis gwyddant pa beth.

[1] **Marwolaeth annaturiol, megys trwy grogi neu losgi.**

[2] **Tymher calon Cristion ieuanc.**

[3] ***Y mae Cristion* yn hiraethu am gael maddeuant o'i bechodau o *flaen dim arall.***

[4] ***Nid yw Bydol-ddoethyn* foddlawn i bobl ddarllen y Beibl.**

*Cristion.* Myfi a wn beth yw fy nymuniad, sef cael fy esmwythau o'm baich trwm.

*Bydol-dd.* Eithr pa ham yr wyt ti yn ceisio esmwythâd yn y ffordd hon, gan fod cymmaint o enbydrwydd ynddi? yn enwedig pan y gallwn i, pe byddai genyt amynedd i wrandaw arnaf, dy gyfarwyddo i gael y peth yr wyt yn ei chwennychu heb y peryglon a orfydd arnat i daflu dy hunan iddynt yn y ffordd hon—ïe, y mae y cynnorthwy yn agos. Gwybydd hyn, yn mhellach, y cei yn lle y peryglon yma lawer o ddiogelwch, a charedigrwydd, a boddlonrwydd.

*Cristion.* Atolwg, syr, eglurwch i mi y dirgelwch hwn.

*Bydol-dd.* Wele, y mae yn y pentref acw a elwir, Moesoldeb,[1] ŵr boneddig, a elwir Deddfoldeb;[2] yr hwn sydd ŵr deallus iawn, â gair da iddo, ac a fedr ddadlwytho pobl o'r fath lwythau ag yw dy lwyth di; ïe, myfi a wn iddo wneuthur llawer o ddaioni yn y mater yma eisoes. Ac heb law hyn, efe a fedr iachau y sawl sydd yn agos a gwallgofi o blegid eu llwythau: ato ef, meddaf, y gelli fyned a chael help mewn ychydig amser. Nid yw ei dŷ gwbl filltir oddi yma; ac oni bydd efe ei hunan gartref, y mae ganddo fab ieuanc glân, yr hwn a elwir Geirda—ac i ddywedyd wrthyt y gwir, efe a ddichon dy gynnorthwyo gystal a'r hen ŵr boneddig ei hunan—yno, meddaf, y gelli gael dy esmwythau o'th faich. Ac onid wyt yn bwriadu dychwelyd yn ol i'th hen drigfa, (ac yn ddiau, nis mynwn i ti wneuthur felly), yna ti a elli ddanfon am dy wraig a'th blant i ddyfod i fyw gyda thi yn y pentref yma, lle y mae yn awr dai heb drigolion ynddynt, a thi a elli gael un o'r rhai hyny am ychydig o rent: y mae yno hefyd ymborth da, a newid fawr arno. Ac i wneuthur dy fywyd yn ddedwyddach, ti a elli sicrhau dy hunan, y byddi byw yno yn mhlith cymmydogion gonest, mewn cymmeriad, a dull, neu ffasiwn, o'r fath oreu.

Ar hyn, yr oedd Cristion yn ammheu, ac efe a ymresymodd ynddo ei hun, fel hyn:—Os gwir y mae y gŵr boneddig hwn yn ei ddywedyd, gwell i mi gymmeryd ei gynghor ef. A chyda hyny, eb efe wrth Bydol-ddoethyn, Syr, dangoswch i mi y ffordd i dŷ y gŵr gonest hwn.[3]

[1] Pentref o foesau neu arferion da.

[2] Sef gŵr sydd yn ceisio iachawdwriaeth trwy y ddeddf; sef trwy ei gyfiawnder a'i onestrwydd ei hun, heb ymofyn am Grist i fod yn Geidwad iddo.

[3] Ni fyn Bydol-ddoethyn i'r Pererin ddychwelyd i'w hen drigfa; hyny yw, i fyw mewn pechodau echryslawn fel cynt: ond fe fyn iddo fyned tua *Mynydd Sinai*, i gael cyfarwyddyd yno, yn mha fath fodd *i drefnu ei ymarweddiad* oddi allan, mewn sobrwydd, gonestrwydd, *a moesau (neu arferion)* gweddol ereill; ond ni fyn efe iddo fyned

*Bydol-dd.* A weli di y bryn uchel acw?

*Cristion.* Gwelaf yn eglur ddigon.

*Bydol-dd.* Rhaid i ti fyned wrth ystlys y bryn acw; a'r tŷ cyntaf yr elych ato yw ei dŷ ef.

Felly fe drodd Cristion allan o'i ffordd, i fyned i dŷ Mr. Deddfoldeb, i geisio cymhorth; ond wedi nesâu at y bryn (Mynydd Sinai), wrth ei weled mor uchel, a bod yr ochr nesaf at y ffordd yn crogi allan yn ddirfawr, efe a ofnodd fyned yn mhellach, rhag i'r mynydd syrthio ar ei ben; ac am hyny, efe a safodd yno yn llonydd, heb wybod pa beth a wnai. Yr oedd ei faich, hefyd, yn ei dyb ef, yn drymach yr awr hon na chynt, tra yr ydoedd efe yn ei ffordd. Daeth hefyd fflamau tân allan o'r mynydd, y rhai a wnaethant i Gristion ofni y llosgid ef; *Ecsod.* xix. 16, 18; *Heb.* xii. 21. Yma, gan hyny, y chwysodd ac y crynodd gan ofn. Ac yn awr, yr oedd yn ddrwg ganddo, gan iddo dderbyn cynghor Mr. Bydol-ddoethyn. A chyda hyny, fe ganfu Efengylwr yn dyfod i'w gyfarfod; ac wrth ei weled, efe a wridodd gan gywilydd. Efengylwr, gan hyny, a ddaeth ato, ac a edrychodd arno â gwynebpryd sarug ac ofnadwy, ac a ymresymodd â Christion fel hyn.

*Efeng.* Cristion, eb efe, pa beth a wnai di yma?

Ond ni wyddai Cristion pa beth a atebai iddo; ac am hyny efe a safodd ennyd bychan yn fud ger ei fron ef. Yna y dywedodd Efengylwr yn mhellach wrtho,—

Onid tydi yw 'r dyn a glywais i yn llefain yn gwynfanus o'r tu allan i furiau Dinas Distryw?

*Cristion.* Ië, barchedig syr, myfi yw y dyn hwnw.

*Efeng.* Oni chyfarwyddais i di i'r ffordd sydd yn arwain tua'r porth cyfyng?

Do, barchedig syr, ebe Cristion.

*Efeng.* Pa fodd, gan hyny, y cyfeiliornaist mor ebrwydd? canys yr wyt ti yn awr allan o'r ffordd!

tua'r porth bychan o ail-enedigaeth; i gael glendid calon, heb yr hyn, nid yw gweddeidd-dra a gonestrwydd oddi allan, ond pechodau dysglaer goreurog, a ffieidd-dra yn ngolwg yr Arglwydd, am nad ydynt ond megys celain heb enaid, a ffurf, neu lun, heb rym duwioldeb ynddynt; *Mat.* xxiii. 27, 28; *Luc* xvi. 15.

Ac yn hyn i gyd, amcan Bydol-ddoeth yn oedd perswadio y Pererin i ymddiried, megys y gwnaeth y Pharisead, yn ei gyfiawnder ei hun, fel pe gallasai efe, trwy ufudd-dod i'r gyfraith, haeddu ffafr Duw, cyfiawnhâd, a bywyd tragwyddol; ac felly fe'i trodd oddi ar ffordd Mynydd Sïon, lle yr oedd y pethau hyn i'w cael trwy haeddedigaethau Iesu Grist, i fyned tua Mynydd Sinai lle nid oeddynt i'w cael; ac am hyny drwg iawn ydoedd cynghor Bydol-ddoethyn yn y mater yma; *Luc* xviii. 9, 14; *Rhuf.* iii. 20; Ioan xiv. 6; Act. iv. 12.

*Cristion.* Mor gynted ag y daethum allan o Gors Anobaith, cyfarfyddais â gwr boneddig, yr hwn a'm perswadiodd fod un yn trigo yn y pentref o'm blaen, ag a allai fy nadlwytho o'm baich.

*Efeng.* Pa fath wr ydoedd efe?

*Cristion.* Yr oedd gwedd gwr boneddig arno; ac efe a siaradodd lawer â mi, ac o'r diwedd a wnaeth i mi fod yn foddlawn i ddilyn ei gynghor ef: ac felly mi a ddaethum yma: eithr pan welais uchder y mynydd hwn, a'r modd y mae yn crogi uwch ben y ffordd, mi a ymatteliais yn ddisymmwth oddi wrth fyned yn nes ato, rhag iddo syrthio ar fy mhen.

*Efeng.* Pa beth a ddywedodd y gŵr boneddig hwnw wrthych chwi?

*Cristion.* Efe a ofynodd i mi, i ba le yr oeddwn yn myned; ac efe a'm holodd, a oedd teulu genyf. Ac mi a fynegais iddo fy mod yn myned tua Mynydd Sïon, a bod genyf deulu; ond, ebe fi, yr ydwyf mor llwythog gan y baich sydd ar fy nghefn, fel nas gallaf ymhyfrydu ynddynt megys cynt.

*Efeng.* Pa beth a ddywedodd yntau yn nghylch hyny?

*Cristion.* Efe a'm cynghorodd i ymdrechu dadlwytho yn ebrwydd. Minnau a'i atebais ef, mai esmwythdra oedd dymuniad fy nghalon; ac, am hyny yr wyf yn myned tua'r porth acw, i gael gwybod pa le y caf ymwared. Yntau a dywedodd wrthyf, y dangosai efe i mi well a nes ffordd, ac â llai o beryglon ynddi, nag sydd yn y ffordd, syr, y gosodasoch chwi fi arni; a'r ffordd hon, eb efe, a'ch dwg chwi yn union i dŷ gŵr boneddig a all ddilwytho pobl o'r fath feichiau a hyn. Felly mi a'i credais ef, ac a droais i'r ffordd hon, oddi ar y ffordd yr oeddwn arni trwy eich cyfarwyddyd chwi, i edrych a gawn esmwythder, rywfodd, oddi wrth fy maich. Eithr pan ddaethum i'r lle hwn, a gweled y pethau sydd yma, mi a ymatteliais rhag myned yn mhellach, rhag ofn perygl; ac yn awr nis gwn pa beth a wnaf.

Yna, ebe Efengylwr, saf yn llonydd ychydig, a mi a hysbysaf i ti eiriau Duw. Ac felly efe a safodd yn ddychrynedig. A dywedodd Efengylwr wrtho fel hyn; "Edrychwch na wrthodoch yr hwn sydd yn llefaru. O blegid oni ddiangodd y rhai a wrthodasant yr hwn oedd yn llefaru ar y ddaiar, mwy o lawer nis diangwn ni, y rhai ydym yn troi ymaith oddi wrth yr hwn sydd yn llefaru o'r nef;" *Heb.* xii. 25: "A'r cyfiawn a fydd byw trwy ffydd: eithr o thyn neb yn ol, nid yw fy enaid yn ymfoddloni ynddo;" *Heb* x. 38. *Ac efe a gymhwysodd* yr Ysgrythyrau hyn at Cristion, fel *hyn:—Tydi yw y dyn* sydd yn rhedeg i'r trueni hwn; tydi

a ddechreuaist ddiystyru cynghor y Goruchaf, trwy droi oddi ar ffordd heddwch, ïe, o fewn ychydig i berygl damnedigaeth.

Ar hyn fe syrthiodd Cristion i lawr wrth ei draed megys marw, gan lefain, Gwae fi! canys darfu am danaf.

Ac wrth weled hyny, ymaflodd Efengylwr yn ei law ddeheu, gan ddywedyd, "Pob pechod a chabledd a faddeuir i ddynion: ond cabledd yn erbyn yr Ysbryd Glân," &c.; *Mat.* xii. 31: "Na fydd anghredadyn, ond credadyn;" *Ioan* xx. 27.

Yna yr ymadfywiodd Cristion ychydig drachefn, ac a safodd yn ddychrynedig, megys ar y cyntaf, o flaen Efengylwr.

A chan fyned rhagddo, llefarodd Efengylwr wrth Cristion fel hyn:—Craffa yn well ar y pethau a adroddwyf wrthyt, ac mi a ddangosaf i ti yn awr pwy oedd yr hwn a'th dwyllodd di, a phwy hefyd yw yr hwn y danfonwyd ti ato. Y gwr a gyfarfu â thi ydyw Bydol-ddoethyn; ac mewn rhan, iawn y gelwir ef felly, o blegid nad yw efe yn blasu un math o athrawiaeth ond athrawiaeth y byd hwn; ac am hyny y mae yn cyrchu yn ddibaid i dref Moesoldeb;[1] 1 *Ioan* iv. 5: ac o blegid ei fod yn caru yr athrawiaeth hono yn oreu, am ei bod yn ei gadw ef, mewn rhan, rhag y groes; *Gal.* vi. 12. Ac o herwydd ei fod ef o'r dymmer gnawdol hon, y mae yn ymdrechu troi pobl oddi ar fy ffyrdd i, er uniawned ydynt. Y mae tri peth yn nghynghor y gŵr hwn sydd raid i ti eu llwyr ffieiddio:—

1. Ei waith yn dy droi allan o'r ffordd.
2. Ei ymdrech i wneuthur y groes yn gâs yn dy olwg.
3. Ei waith yn gosod dy draed di ar y ffordd sydd yn arwain i weinidogaeth angeu.

Yn gyntaf, Rhaid i ti ffieiddio ei waith yn dy droi di allan o'r ffordd; ïe, a dy waith dithau yn cytuno âg ef yn hyny; o blegid i ti, trwy gofleidio cynghor Bydol-ddoethyn, ddiystyru cynghor Duw. "Ymdrechwch," medd yr Arglwydd, "am fyned i mewn trwy y porth cyfyng" (*Luc* xiii. 24), sef y porth tua'r hwn y cyfarwyddais di ar y cyntaf; "o blegid cyfyng yw y porth......sydd yn arwain i'r bywyd, ac ychydig yw y rhai sydd yn ei chael hi;" *Mat.* vii. 13, 14. Ac yn awr, darfu i'r dyn drwg hwn dy droi oddi wrth y porth cyfyng hwn, ac oddi ar y ffordd sydd yn arwain tuag ato, gan dy ddwyn di o fewn ychydig i ddistryw. Casâ, gan hyny, ei waith ef yn dy droi oddi ar y ffordd, a ffieiddia dy hunan am wrando arno.

Yn ail, Rhaid i ti ffieiddio ei ddiwydrwydd ef i wneuth- *ur y groes yn* adgas yn dy olwg; canys yr wyt i barchu *croes Crist yn fwy* na thrysorau yr Aipht; *Heb.* xi. 25, 26.

[1] Gweddeidd-dra oddi allan.

Heblaw hyn, Brenin y gogoniant a fynegodd i ti, y caiff yr hwn sydd yn ewyllysio cadw ei einioes, ei cholli hi; *Marc* viii. 34, 35: ac medd efe, "Os daw neb ataf fi, ac ni chasao ei dad, a'i fam, a'i wraig, a'i blant, a'i frodyr, a'i chwiorydd, ïe, a'i einioes ei hun hefyd, ni all efe fod yn ddysgybl i mi;" *Marc* viii. 34, 35; *Luc* xiv. 26. Am hyny, meddaf, rhaid i ti ffieiddio yr athrawiaeth hòno a dderbyniaist oddi wrth Bydol-ddoethyn; yr hwn a'th berswadiodd, y bydd y peth hyny yn farwolaeth i ti, heb yr hyn, medd y Gwirionedd ei hun, nid elli gael bywyd tragwyddol.

Yn drydydd, Rhaid i ti ffieiddio ei waith yn gosod dy draed ar ffordd sydd yn arwain i weinidogaeth angeu, ac felly rhaid i ti ystyried at bwy yr anfonodd efe dydi, ac hefyd mor analluog oedd y gwr hwnw i'th waredu oddi wrth dy faich.

Y gŵr, a elwir Deddfoldeb, at yr hwn y'th anfonwyd i geisio esmwythâd, yw mab y wasanaethferch, yr hon sydd yn awr dan gaethiwed, hi a'i phlant; ac mewn dirgelwch, hi ydyw y Mynydd Sinai yma, yr hwn yr ofnaist rhag iddo syrthio arnat; *Gal.* iv. 21, &c. Yn awr, os yw hi a'i phlant yn gaethion,[1] pa fodd y gelli di ddysgwyl cael dy wneuthur yn ŵr rhydd ganddynt hwy? Ac am hyny ni ddichon y Deddfoldeb hwn dy ryddhau di oddi wrth dy faich. Nis gwaredodd efe neb erioed eto oddi wrth ei faich: na ddo; ac nid oes tebyg y gwna byth. Ni chyfiawnheir neb trwy weithredoedd y ddeddf, canys ni ddichon neb trwyddynt hwy gael eu rhyddhau oddi wrth eu beichiau; *Rhuf.* iii. 29; *Act.* xiii. 38, 39. Ac am hyny, nid yw Mr. Bydol-ddoethyn ond estron, a Mr. Deddfoldeb ond twyllwr, ac nid yw ei fab Geirda ond rhagrithiwr, er ei edrychiad siriol, ac nis gall dy gynnorthwyo di. Coelia fi; nid oes dim yn holl drwst a dwndwr y dynion angeuol hyn, ond amcan i'th siomi di am dy iachawdwriaeth, trwy dy droi oddi ar y ffordd y gosodais i di arni. Ac wedi hyny fe grochwaeddodd Efengylwr am gadarnhâd o'r nefoedd i'r pethau a lefarasai efe am danynt; ac yn y fan, daeth geiriau a thân allan o'r mynydd, tan yr hwn yr arosodd Cristion druan, y rhai a wnaethant i wallt ei ben a blew ei gnawd ef sefyll i fyny. Y geiriau oeddynt y rhai hyn:—"Cynnifer ag sydd o weithredoedd y ddeddf, tan felldith y maent: canys ysgrifenwyd, Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenir yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt;" *Gal.* iii. 10.

Yn awr, nid oedd Cristion yn edrych am ddim ond marwolaeth; ac efe a ddechreuodd waeddi yn alarus, gan felldithio

[1] *Yn rhwym wrth y gyfraith i ddyoddef damnedigaeth am bechod; Rhuf. vi. 23.*

yr amser y cyfarfu efe â Mr. Bydol-ddoethyn, gan alw ei hunan fil o weithiau yn ffol, am iddo wrandaw ar ei gynghor ef. A chywilyddio yn ddirfawr a wnaeth efe hefyd, wrth feddwl i resymau cnawdol y gŵr yma ei orchfygu yn y fath fodd, fel y parent iddo ŵyro oddi ar y ffordd uniawn. Ac ar ol hyny, efe a nesaodd drachefn at Efengylwr, gan lefaru wrtho i'r pwrpas hyn.

*Cristion.* Syr, beth a dybygwch chwi? A oes gobaith? A allaf fi ddychwelyd yn awr, a myned i fyny tua'r porth bychan? Oni wrthodir fi am fy nhrosedd, ac onis gyrir fi yn ol oddi yno gyda chywilydd? Y mae yn ddrwg genyf i mi wrandaw ar gynghor y gwr hwn; eithr onis gellir maddeu fy mhechodau?

Yna y dywedodd Efengylwr wrtho, Y mae dy drosedd yn fawr iawn, canys ti a wnaethost ddau ddrwg;—ti a adewaist y ffordd dda, ac a aethost i rodio llwybrau gwaharddedig. Er hyny, ti a gai dy dderbyn gan y gŵr sydd wrth y porth, canys y mae efe yn ewyllysio yn dda i ddynion; yn unig, eb efe, gwylia rhag gwyro eto,[1] rhag dy ddyfetha "o'r ffordd pan gynneuo ei lid ef, ond ychydig;" *Salm* ii. 12.

Yna yr ymdaclodd Cristion i ddychwelyd; ac Efengylwr, ar ol ei gusanu, a wenodd arno, ac a ddywedodd, "Duw yn rhwydd" wrtho. Felly efe a aeth yn mlaen ar frys, heb ddywedyd gair wrth un dyn ar y ffordd; ac os gofynai neb ddim iddo, ni chai un ateb oddi wrtho. Yr oedd yn cerdded megys un yn troedio ar dir gwaharddedig; ac ni allai efe dybied ei hun yn ddiogel mewn unrhyw fodd, hyd oni ddaeth drachefn i'r ffordd a adawsai efe trwy gynghor Bydol-ddoethyn; ac felly, efe a ddaeth o'r diwedd hyd at y porth. Yn awr, yr oedd y geiriau hyn wedi eu hysgrifenu uwch ben y porth, "Curwch, ac fe agorir i chwi;" *Mat.* vii. 7, 8. Ac wedi iddo guro mwy nag unwaith, efe a ddywedodd,

> **A agor neb y porth i mi,**
> **A ddarfu bechu 'n 'sgeler?**
> **Os felly gwneir, mi ganaf glod**
> **Yn wastad, i'm Duw tyner.**

Yn mhen ennyd, daeth i'r porth, ŵr pwyllog, sobr, a elwid Ewyllysiwr da, ac a ofynodd, pwy oedd yno—ac o ba le yr oedd yn dyfod—a pha beth a fynai.

*Cristion.* Y mae yma bechadur truan, trwmlwythog: dyfod yr wyf o Ddinas Distryw, ond yr wyf yn myned i Fynydd Sïon, fel y gwaredir fi rhag y llid a fydd. Am hyny, syr, yn *gymmaint a chlywed* o honof mai trwy y porth hwn y mae

[1] *Gochel* droi oddi ar y ffordd.

y ffordd tuag yno, dymunwn wybod, a ydych yn ewyllysgar i fy ngollwng i mewn ?

*Ewyllysiwr da.* Yr wyf yn ewyllysgar, ebe yntau, o'm holl galon; ac ar hyny, efe a agorodd y porth.[1]

A phan oedd Cristion yn myned i mewn, Ewyllysiwr da a'i cipiodd ato.

Yna, ebe Cristion, Beth yw hyn ?

O fewn ychydig at y porth yma, ebe y llall, yr adeiladwyd castell cadarn, a Beelzebub sydd gadben arno; oddi yno y mae efe a'i filwyr yn saethu picellau at y rhai sydd yn dyfod i fyny ato, mewn bwriad i'w lladd cyn yr elont i mewn.

Weithian, ebe Cristion, yr wyf yn ymlawenychu, ac eto yn dychrynu.

Ac wedi dyfod i mewn, gofynodd y porthor iddo, pwy a'i cyfarwyddodd i fyned tuag yno.

*Cristion.* Efengylwr a barodd i mi ddyfod yma, a churo, fel y gwnaethum; ac efe a ddywedodd wrthyf y cawn wybod genych chwi, syr, pa beth sydd raid i mi ei wneuthur.

*Ew. da.* Y mae drws agored wedi ei osod o'th flaen di, ac ni ddichon neb ei gau.

*Cristion.* Yn awr yr wyf yn dechreu medi ffrwyth fy mheryglon.

*Ew. da.* Ond pa fodd y daethost heb neb gyda thi ?

*Cristion.* Am nad oedd neb o'm cymmydogion yn gweled eu perygl, fel yr oeddwn i yn gweled fy mherygl fy hun.

*Ew. da.* A oedd neb yn gwybod am dy ddyfodiad ?

*Cristion.* Oedd: canys fy ngwraig a'm plant a'm gwelsant yn cychwyn, ac a alwasant ar fy ol i geisio genyf ddychwelyd; rhai, hefyd, o'm cymmydogion a alwasant arnaf i ddychwelyd. Eithr myfi a osodais fy mysedd yn fy nghlustiau, ac a gymmerais fy ffordd.

*Ew. da.* Eithr a ganlynodd neb o honynt tydi, i'th berswadio i ddychwelyd adref ?

*Cristion.* Do: Cyndyn a Meddal a'm canlynasant; ond pan welsant na thyciai eu cynghor hwynt, dychwelodd Cyndyn dan ddifenwi, ond Meddal a ddaeth gyda mi ychydig ffordd.

*Ew. da.* Ond pa ham na ddaeth efe gyda thi o hyd ?

*Cristion.* Yn wir, nyni a ddaethom ein dau yn nghyd nes dyfod hyd at Gors Anobaith, i ba un y cwympasom yn ddisymmwth;[2] ac ar hyny fy nghymmydog Meddal a ddigalonodd, ac ni anturiai yn mhellach. Ac yna, wedi esgyn o'r

[1] Fe agorir y porth i bechaduriaid drylliedig o galon.

[2] *Fe all dyn gael cwmni* wrth ddechreu ei daith tua'r nef, ac eto *dyfod yno wrtho ei hun.*

Gors, ar yr ochr nesaf i'w dŷ ei hun, efe a ddywedodd wrthyf, y gallwn, erddo ef, feddiannu y wlad deg fy hunan.

Yna, ebe Ewyllysiwr da, Och o druan gŵr! A ydyw y gogoniant nefol mor wael yn ei olwg ef, fel nad yw efe yn cyfrif y tâl rhedeg trwy ychydig rwystrau i'w fwynhau.

Myfi a ddywedais, ebe Cristion, y gwir am Feddal; a phe dywedid yr holl wirionedd am danaf fy hun, fe geid gweled nad wyf fi fawr well nag yntau. Gwir yw, efe a ddychwelodd i'w dŷ ei hun, eithr minnau hefyd a droais i'r ffordd sydd yn arwain i farwolaeth, wedi fy annog i hyny trwy gynghor cnawdol Mr. Bydol-ddoethyn.

*Ew da.* O! a gyfarfu efe â chwi? pa beth! efe a fynai i chwi fyned at Mr. Deddfoldeb i geisio esmwythder. Twyllwyr ydynt hwy ill dau: eithr a ddilynasoch chwi ei gynghor ef?

*Cristion.* Do, can belled ag y meiddiwn: mi a aethum i ymofyn am Mr. Deddfoldeb, hyd oni thybiais y sythiai y mynydd oedd wrth ei dŷ ef ar fy mhen; ac am hyny, gorfu arnaf ymattal rhag myned yn mhellach.

*Ew. da.* Fe fu y mynydd hwnw yn ddinystr i luaws, ac fe fydd eto i laweroedd. Da ydyw i chwi ddianc, ac na faluriwyd chwi yn chwilfriw ganddo.

*Cristion.* Yn ddiau, ni wn i beth a ddygwyddasai i mi yno, oni buasai i Efengylwr, ar awr dda, gyfarfod â mi drachefn, fel yr oeddwn yn myfyrio yn fy hurtrwydd am fy nghyflwr. Eithr trugaredd Duw oedd ei ail ddyfodiad ef ataf fi; onid ê, ni ddaethwn byth yma. Ond yn awr yr wyf wedi dyfod, y fath ddyn ag ydwyf, mwy cymhwys i gael fy nystrywio gan y mynydd hwnw, nag i sefyll yma fel hyn i ymddyddan â'm Harglwydd: eithr O! pa ffafr yw hyn, bod fy math i, er hyny, yn cael fy nerbyn i mewn i'r lle hwn!

*Ew. Da.* Nid ydym ni yn edliw dim i neb, er cymmaint a wnaethant cyn dyfod yma; ac nis bwrir hwynt allan ddim; *Ioan* vi. 37. Ac am hyny, Gristion anwyl, tyred gyda mi ychydig yn mhellach, a myfi a'th ddysgaf di yn nghylch y ffordd sydd raid i ti fyned ar hyd-ddi. Edrych o'th flaen—a weli di y ffordd gul acw? Dyna y ffordd y dylit fyned ar hyd-ddi. Fe'i gwnaed hi gan y patriarchiaid, y prophwydi, a Christ a'i apostolion; ac y mae hi cyn uniawned ag y gallai rheol ei gwneuthur hi. Dyma y ffordd sydd raid i ti ei theithio.

*Cristion.* A oes yno ddim traws-ffyrdd, trwy ba rai y dichon *dyn dyeithr* golli ei ffordd?

*Ew. da.* Oes, y mae amryw o ffyrdd yn dyfod i'th ffordd; ond y maent hwy oll yn geimion ac yn llydain. Eithr wrth

hyn y gelli di adnabod yr iawn ffordd oddi wrth y croesffyrdd —*hi* yn unig sydd uniawn a chul—mae y lleill yn geimion ac yn llydain; *Mat.* vii. 13, 14.

Yna mi a glywn Cristion yn gofyn iddo yn mhellach, A allai efe ei ddadlwytho ef o'r llwyth oedd ar ei gefn; canys hyd yn hyn ni chawsai efe ymwared o hono, ac nis gallai efe mewn modd yn y byd fwrw ei faich i lawr heb gymhorth.[1]

Yntau a'i hatebodd ef, Ymfoddlona i aros dan dy faich hyd oni ddelych i'r lle o esmwythâd, canys fe gwymp oddi ar dy gefn di yno o hono ei hun.

Yna y dechreuodd Cristion wregysu ei lwynau, ac ymbarotoi i'w daith: a dywedodd y llall wrtho y deuai efe at dŷ y Deonglwr,[2] pan elai ychydig oddi wrth y porth; ac efe a barodd iddo guro wrth ei ddrws ef, a dywedodd wrtho y dangosai y Deonglwr iddo bethau rhagorol. Ac wedi hyny, fe gymmerodd Cristion ei genad, ac yntau a ddywedodd wrth Cristion, Taith rwydd i ti.

Yna efe a aeth rhagddo hyd oni ddaeth at dŷ y Deonglwr, lle y curodd lawer gwaith:—o'r diwedd, daeth un i'r drws, ac a ofynodd, Pwy sydd yna?

*Cristion.* Syr, ymdeithydd ydwyf fi; ac fe orchymynwyd i mi gan un sydd yn gydnabyddus â gŵr da y tŷ hwn, alw yma er llesâd i mi; ac am hyny, mi a ewyllysiwn ymddyddan âg ef. Felly efe a alwodd ŵr y tŷ; ac yn y man efe a ddaeth at Cristion, ac a ofynodd iddo, Pa beth yr ydych chwi yn ei geisio yma?

*Cristion.* Syr, dyn wyf fi a ddaeth allan o Ddinas Distryw, ac yr wyf yn myned tua Mynydd Sïon—fe ddywedodd y gŵr sydd yn sefyll wrth y porth yn mhen y ffordd hon wrthyf, os galwn yma, y dangosech chwi i mi bethau rhagorol—y cyfryw ag a'm cynnorthwyent yn fy nhaith.

Yna, ebe Deonglwr, tyred i mewn, a mi a ddangosaf yr hyn a fydd buddiol i ti. Felly efe a archodd i'w was oleuo canwyll, ac a barodd i Cristion ei ddilyn ef; felly efe a'i harweiniodd i ystafell ddirgel: ac wrth orchymyn ei feistr, fe agorodd y gwas ryw ddrws, ac yna, fe welai Cristion lun gŵr sobr iawn wedi ei osod wrth y pared, a dyma oedd ei wedd:—Yr oedd ei lygaid wedi eu dyrchafu tua 'r nefoedd, yr oedd y llyfr goreu yn ei law ef, a chyfraith gwirionedd yn ysgrifenedig ar ei wefusau, a'r byd o'r tu cefn iddo; yr oedd yn sefyll fel pe buasai yn dadleu â dynion, ac yr oedd coron o aur yn nghrog uwch ei ben.

[1] Nid oes ymwared oddi wrth y baich o bechod, a'i euogrwydd, *ond trwy waed Crist.*

[2] *Esboniwr,* neu un yn egluro pethau tywyll.

Yna, ebe Cristion, beth yw ystyr y peth hyn?

*Deonglwr.* Y mae y gŵr a osodir allan trwy y llun hwn yn[1] un o fil: efe a ddichon genedlu plant ac esgor arnynt, a'u meithrin hefyd, pan y genir hwynt; 1 *Cor.* iv. 15; *Gal.* iv. 19; 1 *Pedr* ii. 2. A lle y gwelaist ti ef, â'i lygaid wedi eu dyrchafu tua'r nefoedd, a'r llyfr goreu yn ei law, a chyfraith gwirionedd yn ysgrifenedig ar ei wefusau—mae hyny yn dangos i ti mai ei waith ef ydyw gwybod ac egluro pethau tywyll i bechaduriaid, fel y gwelaist ef yn sefyll megys pe buasai yn dadleu â dynion. A lle y gwelaist ti y byd fel peth wedi ei fwrw o'r tu cefn iddo, a bod coron yn crogi uwch ei ben ef, y mae hyny yn dangos ei ddibrisdod a'i ddirmyg o bethau presennol, o gariad at wasanaeth ei feistr, ac yn ei sicrhau y caiff efe ogoniant tragwyddol yn wobr yn y byd a ddaw; 1 *Pedr* v. 4.

Yn awr, ebe Deonglwr, mi a ddangosais i ti y llun hwn yn gyntaf; o herwydd y gŵr a osodir allan trwy y drych hwn, ydyw yr unig ddyn a awdurdodwyd gan Arglwydd y lle yr wyt ti yn myned tuag ato, i'th arwain di trwy bob man dyrys a gyfarfyddi yn dy daith; ac am hyny, craffa yn ddifrifol ar yr hyn a ddangosais i ti, a chofia yn fanwl y pethau a welaist rhag i ti gyfarfod yn dy daith â rhai a gymmerant arnynt dy arwain yn yr iawn ffordd, er bod eu ffordd hwy yn[2] tywys i farwolaeth.

Yna efe a ymaflodd yn ei law, ac a'i harweiniodd ef i ystafell fawr iawn, yr hon oedd yn llawn o lwch, am nad ysgubasid hi erioed; ac wedi edrych arni ennyd bychan, fe alwodd y Deonglwr am ŵr i'w hysgubo hi: a phan ddechreuodd efe ysgubo, fe gododd cymmaint o lwch o amgylch, fel y bu Cristion agos a thagu ganddo. Yna, ebe Deonglwr wrth lances oedd yn sefyll ger llaw, dwg yma ddwfr, a thaenella ef ar hyd yr ystafell; a phan wnaeth hi hyny, y lle a ysgubwyd gyda hyfrydwch.

Beth yw meddwl hyn? ebe Cristion.

Y Deonglwr a atebodd, Yr ystafell hon yw calon dyn, heb ei glanhau erioed gan ras hyfryd yr efengyl; y llwch yw ei bechod gwreiddiol ef, a'i lygredigaethau oddi fewn, y rhai a halogasant yr holl ddyn; a'r hwn a ddechreuodd ysgubo ar y cyntaf yw y gyfraith—ond yr hon a ddygodd ddwfr, ac a'i taenellodd ar hyd yr ystafell, yw yr efengyl. Yn awr, lle y gwelaist ti y llwch yn ehedeg felly o bob parth yn y man y dechreuodd y cyntaf ysgubo, fel nad allai efe lanhau yr

[1] *Sef* pregethwr yr efengyl.
[2] Yn arwain i ddamnedigaeth.

ystafell, ond ei fod yn mron dy dagu di—y mae hyn yn dangos i ti,[1] fod y gyfraith, trwy ei gweithrediad, sef trwy ei gwaith hi yn gorchymyn, yn gwahardd, ac yn bygwth, yn lle puro y galon oddi wrth bechod, yn rhoddi achlysur neu achos iddo i ymadfywio, i gasglu grym, ac i gynnyddu yn yr enaid—ïe, y pryd hyny pan y bo hi yn dadguddio ac yn gwahardd pechod; canys nid ydyw hi yn rhoddi gallu i'w ddarostwng; *Rhuf.* vii. 8, 12, &c.; 1 *Cor.* xv. 56; *Rhuf.* v. 20.

A thrachefn, megys y gwelaist y forwyn yn taenellu dwfr ar hyd yr ysfafell, trwy yr hyn y glanhawyd hi yn hawdd, y mae hyny yn dangos i ti mai pan ddelo yr efengyl i'r galon yn ei gweithrediadau hyfryd a grasol, yna, meddaf, megys y gwelaist y llances yn gostwng y llwch trwy daenelliad y dwfr ar hyd y llawr, felly hefyd y gorchfygir ac y darostyngir pechod, ac y glanheir yr enaid trwy ffydd yn yr efengyl; ac fel hyn, fe wneir y galon yn gymhwys i Frenin y gogoniant i breswylio ynddi; *Ioan* xv. 3; *Eph.* v. 26; *Act.* xv. 9.

Yna mi a welais y Deonglwr yn arwain Cristion wrth ei law i ystafell fechan, lle yr oedd dau o feibion ieuainc yn eistedd, pob un yn ei gadair—enw yr hynaf oedd Cynhwrf, ac enw y llall oedd Amynedd. Mi a dybygaswn fod Cynhwrf yn llawn o anfoddlonrwydd; ond yr oedd Amynedd yn llonydd iawn.

Yna y gofynodd Cristion, Pa ham yr oedd Cynhwrf mor anfoddlawn?

A'r Deonglwr a'i hatebodd ef, Y mynai eu Llywodraethwr hwy iddynt aros am ei bethau goreu ef, hyd ddechreuad y flwyddyn nesaf; ond fe fyn Cynhwrf gael y cwbl yr awr hon, eithr y mae Amynedd yn foddlawn i ddysgwyl hyd yr amser nodedig.

Yna mi a welwn un yn dyfod at Cynhwrf, ac yn dwyn iddo drysor mewn cwd, ac yn bwrw ei sach i lawr wrth ei draed ef—yntau a'i cyfododd hi i fyny, ac a orfoleddodd ynddi; ac heb law hyny, efe a chwarddodd yn watwarus am ben Amynedd: ond ar ol gronyn o amser, mi a welwn ei fod wedi afradloni y cwbl, ac nad oedd ganddo ddim wedi ei adael ond bratiau.

Attolwg, ebe Cristion wrth y Deonglwr, esboniwch i mi y mater yma yn eglurach.

Arwyddion yw y ddau lanc hyn, ebe Deonglwr: Cynhwrf sy'n arwyddocau dynion y byd hwn, ac Amynedd sy'n ar-

[1] Trwy ein gwylltineb a'n tueddiad i bechu, yr ydym yn cymmeryd achlysur i wneuthur drwg fwyfwy, pan y bo y gyfraith yn ceisio ein ffrwyno a'n hattal ni rhagddo; ac am hyny, pan y byddom *yn pechu, ni a ddylem* feio ein hunain, ac nid y ddeddf, canys y mae *hi yn sanctaidd, yn gyfiawn,* ac yn dda.

wyddocau dynion y byd a ddaw: canys, megys y gweli di yma, fe fyn Cynhwrf gael y cwbl yr awr hon, sef y flwyddyn hon, hyny yw, y byd presennol. Felly y mae awydd gwŷr y byd hwn i gael eu holl bethau da yn awr; nis gallant hwy aros yn esmwyth hyd y flwyddyn nesaf, hyny yw, hyd y byd a ddaw, am eu cyfran o bethau daionus. Y mae y ddiareb hòno, "Gwell yw aderyn mewn llaw na dau mewn llwyn," â mwy o bwys ynddi gyda hwy na'r holl dystiolaethau dwyfol yn nghylch daioni y byd a ddaw. Eithr megys ag y gwelaist ti Gynhwrf yn gwario y cwbl ymaith yn ebrwydd, ac nad oedd dim wedi ei adael iddo, yn mhen ychydig amser, ond bratiau; felly y bydd hi gyda phawb o'r cyfryw ddynion yn niwedd y byd hwn.

Yr wyf yn deall yn awr, ebe Cristion, mai Amynedd sydd yn meddu y ddoethineb fwyaf; yn gyntaf, o herwydd ei fod yn foddlawn i aros am y pethau goreu i'w meddiannu yn y byd a ddaw, er ei fod ef eto hebddynt; yn ail, o blegid y caiff efe fwynhau ei gyfran ogoneddus, pan na bydd dim gan y llall ond bratiau.

*Deonglwr*. Nagê; chwi a ellwch chwanegu rheswm arall, sef, o herwydd bod gogoniant y byd a ddaw yn parhau dros byth; ond y mae pethau y byd hwn yn myned ymaith yn ddisymmwth; *Diar*. xxiii. 5. Ac am hyny, nid oedd gan Cynhwrf gymmaint o achos i chwerthin am ben Amynedd, ag a fydd gan Amynedd i chwerthin am ei ben ef, er iddo gael ei bethau da yn gyntaf, ac na chafodd Amynedd mo honynt ond yn ddiweddaf: canys rhaid i gyntaf roddi lle i ddiweddaf, o blegid rhaid i ddiweddaf gael yr amser a ddaw; ond nid yw y diweddaf yn rhoddi lle i ddim arall, canys nid oes peth arall i ddyfod yn ei le ef. Rhaid, gan hyny, i'r hwn a gaiff ei ran yn gyntaf, gael amser hefyd i'w threulio; ond rhaid i'r hwn a gaiff ei gyfran yn ddiweddaf ei chael hi dros byth; ac am hyny y dywedir am Divas, "Ti a dderbyniaist dy wynfyd yn dy fywyd, ac felly Lazarus ei adfyd; ac yn awr y dyddenir ef, ac y poenir dithau;" *Luc* xvi. 25.

Mi a welaf yn awr, ebe Cristion, mai gwell yw dysgwyl am y pethau sydd i ddyfod, na thrachwantu ar ol y pethau presennol.

*Deonglwr*. Chwi a ddywedasoch y gwir; "Canys y pethau a welir sydd dros amser, ond y pethau ni welir sydd dragwyddol;" 2 *Cor*. iv. 18. Eithr er bod y mater felly, eto, gan fod y pethau presennol a'n blys cnawdol ni yn gymmydogion agos i'w gilydd; a thrachefn, o blegid fod y pethau i ddyfod a'n synwyrau cnawdol ni yn ddyeithriaid i'w gilydd; hyny yw y rheswm pa ham y mae y cyntaf o'r rhai hyn yn dyfod mor

ebrwydd i ymgyfeillachu â'u gilydd yn garedig, a bod yr ail yn aros mor bell y naill oddi wrth y llall.

Yna, mi a welais Deonglwr yn ymaflyd yn llaw Cristion, ac yn ei arwain ef i fan lle yr oedd tân wedi ei gynneu wrth fagwyr; ac un yn sefyll wrtho, ac yn bwrw llawer o ddwfr arno yn wastadol i'w ddiffodd, eto yr oedd y tân yn fflamio yn uwch ac yn boethach.

Beth sydd i ni ddeall wrth hyn? ebe Cristion.

A'r Deonglwr a atebodd, Y tân hwn yw gras Duw wedi ei weithio yn y galon, a'r hwn sydd yn bwrw dwfr arno i'w ddiffodd yw y diafol. Ond lle y gwelaist ti y tân yn llosgi yn uwch ac yn boethach, er bwrw y dwfr arno, tydi a gai weled hefyd yr achos o hyny. Ac felly, fe'i harweiniodd ef oddi amgylch i ystlys arall y fagwyr, ac efe a welai yno ŵr â llestr yn ei law, o'r hwn yr oedd efe yn tywallt allan olew yn ddibaid, eto yn ddirgel, i'r tân.

Yna, ebe Cristion, pa beth yw ystyr y pethau hyn?

Hwn yw Crist, ebe y Deonglwr, sydd yn wastadol, âg olew ei ras, yn cynnal y gwaith da a ddechreuodd efe eisoes yn nghalonau ei bobl; ac am hyny, er a allo y diafol ei wneuthur, y mae eu heneidiau hwynt yn parhau yn rasol fyth; 2 *Cor.* xii. 9; *Phil.* i. 6. Ac lle y gwelaist y gŵr yn sefyll o'r tu hwnt i'r fagwyr, i gadw y tân rhag diffodd, mae hyny yn dangos mai peth anhawdd ydyw i'r temtiedig weled pa fodd y mae gras yn cael ei gynnal yn eu heneidiau.

Canfyddais hefyd y Deonglwr yn cymmeryd Cristion drachefn wrth ei law, ac yn ei dywys i fan hyfryd, lle yr adeiladwyd llys gwych a phrydferth i'r golwg: ac wrth edrych ar y neuadd-dŷ hwn, fe ymlawenychodd Cristion yn ddirfawr, ac a welodd hefyd rai yn rhodio ar nen y tŷ wedi eu dilladu oll â gwisgoedd o aur.

Yna, ebe Cristion, a allwn ni fyned i mewn i'r tŷ hwn?

Eithr y Deonglwr a'i cymmerodd ef, ac a'i harweiniodd i fyny tua drws y palas, ac wele yr oedd lluaws mawr o bobl yn sefyll wrth y drws, megys rhai yn chwennychu myned i mewn, ond nis meiddient. Ac yr oedd gŵr hefyd yn eistedd yno, yn lled agos i'r drws, wrth fwrdd, â llyfr a chorn du ysgrifenydd o'i flaen, i ysgrifenu i lawr enwau y sawl a aent i mewn i'r llys. Ac efe a welai hefyd lawer o wŷr arfog[1]

[1] Y mae y drygionus yn gwrthwynebu y sawl sydd yn teithio tua'r nefoedd, drwy eu gorthrymu hwynt; a phan nas gallant wneuthur felly, y maent yn eu mathru dan draed â'u geiriau caledion, gan flaenlymu eu tafodau, a dodi awch arnynt megys *ar gleddyfau a saethau,* i ddrygu y gwirion; Salm lxiv. 34; a cxl. 3. *Eithr y mae y rhai grasol* yn amddiffyn eu hunain â chleddyf yr

yn sefyll ar y ffordd oedd yn arwain i'r drws, i'w chadw, wedi ymroi i wneuthur cymmaint o rwystr a niwed a allent i'r dynion a fynent fyned i mewn; *Act.* xiv. 22; 2 *Tim.* iii. 12. A synu a wnaeth Cristion wrth hyn. O'r diwedd, pan yr oedd pawb yn cilio yn ol rhag ofn y gwŷr arfog, fe welai Cristion ŵr â gwynebpryd gwrol ganddo, yn dyfod i fyny at yr hwn oedd yn eistedd yno i ysgrifenu, gan ddywedyd wrtho, Syr, dodwch i lawr fy enw i; a phan y gwnaeth efe hyny, fe welai y gŵr yn tynu ei gleddyf, ac yn gosod helm ar ei ben, ac yn rhuthro tua 'r drws ar draws y gwŷr arfog, y rhai a ymosodent yn ei erbyn ef yn gynddeiriog âg arfau angeuol: eithr nid allent hwy ei ddigaloni ef mewn modd yn y byd, ac am hyny, efe a ymladdodd â hwynt yn ddewr: ac felly, wedi ei glwyfo ganddynt, a rhoddi amryw archollion iddynt, sef i'r sawl oedd yn ceisio ei gadw ef allan, fe a wnaeth ei ffordd drwyddynt oll, ac a ymwthiodd yn mlaen i'r llys: ac ar hyny, clybuwyd llais hyfryd y rhai oedd yn y palas, sef y sawl oedd yn rhodio ar nen y tŷ, yn dywedyd,—

Tyred, tyred, 'mewn yn wrol,
Ti ennilli fraint dragwyddol.

Felly, efe a aeth i mewn, ac fe'i gwisgwyd â'r unrhyw ddillad a hwythau.

Yna, gwenodd Cristion, a dywedodd, Yn ddiau, mi dybygwn y gwn beth yw ystyr a meddwl hyn i gyd. Yn awr, gadewch i ni fyned oddi yma.

Nagê, ebe Deonglwr, aros hyd oni ddangoswyf i ti ychydig chwaneg; ac wedi hyny, ti gai fyned i'th ffordd.

Felly, fe ymaflodd yn ei law drachefn, ac a'i harweiniodd i ystafell dywyll iawn, lle yr oedd gŵr yn eistedd mewn cyffion o haiarn, wedi ei gau i fyny megys aderyn mewn cawell.

Yn awr, fe ellid tybied wrth edrych ar y gŵr, ei fod yn

Ysbryd, sef â Gair Duw, gan ddywedyd wrth yr annuwiol, nad ydynt yn ceisio ond gwasanaethu Duw yn ol ei ewyllys. A thrwy eu gwaith yn ceryddu yr annuwiol am eu pechodau, ac yn enwedig am eu casineb o'r hyn sydd dda, y mae y duwiol drwy hyny, â chleddyf yr Ysbryd, yn ymladd â'r annuwiol, ag ydynt yn clwyfo eu calonau hwynt. Eithr er cymmaint a erlidiant ar y rhai grasol, ac er cymmaint yw gwatwar a geiriau caledion y drygionus am y rhai sydd yn ofni Duw, y mae y duwiol, er hyny i gyd, yn myned yn mlaen, ac yn ymwthio i'r nefoedd o'r diwedd; *Mat.* xi. 12. Ond na thybyged pobl eu bod yn dyoddef er mwyn duwioldeb, os dyoddef y maent fel drwgweithredwyr. Ac edrychant hwythau hefyd sydd yn erlid y *rhai crefyddol,* pa un ai am eu daioni ai am eu drygioni y maent yn *gwneuthur felly; 1 Pedr* iv. 15, 16. Ac os am eu daioni, darllenant *Phil.* i. 28.

athrist iawn; canys yr oedd yn eistedd â'i olygon tua'r ddaiar, a'i ddwylaw wedi eu plethu yn nghyd; ac yr oedd efe yn ocheneidio, fel pe buasai ar dori ei galon.

Yna ebe Cristion, Pa beth sydd i mi ddeall wrth hyn?

Ar hyny, fe archodd Deonglwr iddo ymddyddan â'r gŵr.

Yna ebe Cristion wrth y dyn, Pwy wyt ti?

Yntau a'i hatebodd ef, Yr wyf yn awr yr hyn nid oeddwn gynt.

*Cristion.* Pa beth a fuost gynt?

*Gwr.* Dywedodd y gŵr wrtho, Mi a fûm dros beth amser yn broffeswr teg blodeuog, yn fy ngolwg fy hunan, ac yn ngolwg ereill hefyd. Mi a dybygais unwaith fy mod ar y ffordd i'r ddinas nefol; ac yr oedd yn llawen genyf y pryd hyny, pan feddyliwn yr awn yno.

*Cristion.* Eithr pa beth wyt yn awr?

*Gwr.* Yr wyf fi yn awr yn ddyn ag sydd yn llawn o anobaith, ac fe'm cauwyd ynddo, megys yn y cyffion haiarn yma; nis gallaf ddyfod o hono mewn modd yn y byd.

*Cristion.* Ond pa fodd y daethost i'r cyflwr hwn?

*Gwr.* Peidio gwylio a bod yn sobr a wnaethum: mi a adewais i awenau y ffrwyn syrthio ar wddf fy nhrachwantau. Mi a droseddais yn erbyn goleuni y gair, a daioni Duw; mi a dristeais yr Ysbryd Glân, ac efe a ymadawodd â myfi. Mi a demtiais y diafol, ac efe a ddaeth ataf. Myfi a gyffroais Dduw i ddigofaint, ac efe a'm gadawodd: a chaledais fy nghalon yn y fath fodd, fel nas gallaf edifarhau.

Yna, ebe Cristion wrth y Deonglwr, A oes dim gobaith i'r fath ddyn a hwn?

Gofyn iddo ef—ebe y Deonglwr.

Yna, ebe Cristion wrtho ef, A oes dim gobaith? A gedwir di dros byth yn y cawell haiarnaidd hwn o anobaith?

*Gwr.* Nid oes genyf obaith yn y byd.

*Cristion.* Y mae Mab yr hwn sydd fendigedig yn dra thosturiol.

*Gwr.* Myfi a'i hail groeshoeliais ef i mi fy hun; myfi a ddirmygais ei berson, ac a ddibrisiais ei gyfiawnder, ac a fernais ei waed ef yn aflan, ac a ddifenwais Ysbryd y Gras; ac am hyny nid oes un o'r addewidion yn nghylch trugaredd yn perthyn i mi; ac nid oes dim wedi ei adael i mi yn awr ond bygythion echrydus ac ofnadwy, yn nghylch cospedigaeth dilys, ac angerdd tân, yr hwn a'm difa megys gwrthwynebwr; *Heb.* vi. 6; *Luc* xix. 14, 27; *Heb.* x. 28, 29.

*Cristion.* Trwy ba bethau y dygasoch eich hunan i'r cyflwr hwn?

*Gwr.* *Trwy drachwantau,* meluswedd, a golud y byd hwn:

ac myfi a addewais y pryd hwnw i mi fy hunan lawer o hyfrydwch, trwy eu mwynhau hwynt; ond yn awr, y mae pob un o honynt yn fy nghnoi ac yn fy nifa megys pryf poeth gwenwynllyd.

*Cristion.* Eithr onid elli yn awr edifarhau a dychwelyd?

*Gwr.* Duw a nacaodd ac a ballodd edifeirwch i mi:[1] nid yw ei air ef yn rhoddi dim annogaeth i mi i gredu: ïe, fe'm cauodd â'i law ei hun yn y cawell haiarnaidd hwn; ac ni ddichon holl ddynion y byd fy ngollwng allan oddi yma. O! dragwyddoldeb! dragwyddoldeb! Pa fodd y dyoddefaf y trueni y gorfydd arnaf fyned tano, pan y delwyf i'th fôr annherfynol di!

Yna ebe y Deonglwr wrth Cristion, Cofia resyndod y dyn hwn—bydded hyn yn rhybudd i ti dros byth.

Wele, ebe Cristion, y mae hyn yn ofnadwy! Duw a'm cynnorthwyodd i wylio a bod yn sobr, ac i weddïo, fel y gallwyf ochelyd yr achos o drueni y dyn hwn. Syr, onid ydyw yn bryd i mi fyned i'm ffordd bellach?

*Dehong.* Aros hyd oni ddangoswyf i ti un peth yn ychwaneg, ac wedi hyny, ti a gai fyned i'th ffordd.

Felly, fe ymaflodd yn llaw Cristion drachefn, ac a'i harweiniodd i ystafell, lle yr oedd un yn cyfodi o'i wely; ac fel yr oedd efe yn gwisgo ei ddillad, yr oedd yn crynu ac yn ofni.

Yna ebe Cristion, Pa ham y mae y dyn yma yn crynu fel hyn?

A'r Deonglwr a barodd iddo fynegu i Cristion yr achos o'i ddychryndod. Yntau, ar hyny, a adroddodd iddo freuddwyd a welsai y noson hono.

Mi a welais, ebe fe, y nefoedd yn duo yn ddirfawr; *Mat.* xxiv. 19. Bu hefyd daranau a mellt mor ofnadwy fel y crynais gan ofn; ac wedi edrych i fyny gwelais y cymylau yn ymrwygo mewn modd anarferol; ac ar hyny clywais uchel sain udgorn, a gwelais ŵr (Crist) hefyd yn eistedd ar gwmwl, a miloedd o lu y nefoedd gydag ef:—yr oeddynt oll yn ymddangos megys tân fflamllyd; yr oedd y nefoedd hefyd

[1] Nid wyf yn deall wrth yr Ysgrythyrau, y dylai un dyn anobeithio yn y modd hwn am drugaredd; oddi eithr ei fod wedi pechu yn erbyn yr Ysbryd Glân: a'r pechod hwnw, mae'n debyg, yr ydys yma yn ei feddwl. Gwir ydyw, oni bydd edifeirwch, a ffydd, a sancteiddrwydd buchedd ynom, gallwn gasglu oddi wrth hyny ein bod yn bresennol heb Grist; ac o ganlyniad, ein bod mewn cyflwr o golledigaeth. Eithr er gwneuthur o honom lawer yn erbyn Duw, cyn, ac wedi ein galw, eto ni a gawn faddeuant am y cwbl, os deuwn at *Dduw yn ei ffordd* ei hun; hyny yw, trwy ffydd yn Nghrist, â chalon *edifeiriol am ein pechodau*, ac â gwir fwriad i droi oddi wrthynt *rhag llaw; Act.* xiii. 38; iii. 19; *Esa.* lv. 7.

ar dân poeth; 1 *Thes.* iv. 16; *Dan.* vii. 10, 13; *Iudas* 14, 15; 2 *Thes.* i. 7, 8; 2 *Pedr* iii. 10. Yna mi a glywais lef yn dywedyd wrth y meirw, "Cyfodwch, a deuwch i'r farn:" gyda hyny y creigiau a holltwyd, y beddau a agorwyd, a'r meirw ag oedd ynddynt a gyfodasant. Yr oedd rhai o honynt yn llawen iawn, ac yn edrych tuag i fyny; ond rhai a ymgeisient ymguddio dan y mynyddoedd; *Ioan* v. 28, 29; *Luc* xxi. 28; *Dad.* vi. 16, 17. Yna mi a welais y gwr oedd yn eistedd ar y cwmwl yn agoryd llyfrau, ac yn gorchymyn i'r byd nesâu; *Mat.* xxv. 32; *Dad.* xx. 12, 13. Eto yr oedd, o achos y fflam danllyd oedd yn dyfod oddi ger ei fron ef, ychydig o le rhyngddo ef a hwynthwy, megys rhwng y barnwr ar y frawdle a'r carcharorion wrth y bar. Myfi a glywais hefyd gyhoeddi i'r sawl oedd yn canlyn y gwr oedd yn eistedd ar y cwmwl, "Cesglwch yn nghyd yr efrau, a'r us, a'r sofl, a bwriwch hwynt i'r llyn o dân; *Mat.* iii. 12; xiii. 30; *Mal.* iv. 2. Ac ar hyny yr ymagorodd y pwll diwaelod yn gymhwys yn nghylch y fan yr oeddwn yn sefyll arno; a daeth llawer o fwg, yn nghyd â marwor tanllyd, a chrochleisiau dychrynllyd allan o'i safn. A dywedwyd hefyd wrth y gweision, "Cesglwch fy ngwenith i'm ysgubor;" *Mat.* xiii. 30. Ac ar hyny mi a welais gipio llawer i fyny, a'u dwyn ymaith i'r cymylau, eithr fe'm gadawyd i yn ol; 1 *Thes.* iv. 17. Minnau hefyd a ymdrechais ymguddio; ond nis gallwn, o blegid fod y gwr oedd yn eistedd ar y cwmwl yn cadw ei olwg arnaf yn wastadol; fy mhechodau hefyd a ddaethant i'm cof, a'm cydwybod oedd yn fy nghyhuddo am danynt; *Rhuf.* ii. 15. Ar hyn mi a ddeffroais o'm cwsg.

*Cristion.* Ond pa beth a wnaeth i chwi fod mor ofnus wrth weled y pethau hyn?

*Gwr.* Meddwl a wnaethum fod dydd y farn wedi dyfod, a'm bod yn anmharod erbyn y dydd hwnw. Ond hyn a'm dychrynodd i fwyaf—i'r angelion gasglu llawer i fyny, a'm gadael i yn ol: pwll uffern hefyd a agorodd ei safn yn agos i'r fan lle yr oeddwn yn sefyll; heb law hyny, yr oedd fy nghydwybod yn fy nhrallodi; ac, fel y tybygwn ni, yr oedd y Barnwr yn cadw ei olwg arnaf yn wastadol, gan ddangos llidiogrwydd yn ei wynebpryd.

Yna, ebe y Dehonglwr wrth Cristion, A ystyriaist ti y pethau hyn oll?

Do, ebe Cristion; ac y maent yn peri i mi obeithio ac ofni.

*Dehong.* Wele, cadw dithau y cwbl felly yn dy gof, fel y gallont fod megys symbylau yn dy ystlysau, i'th gymhell yn mlaen *yn y ffordd* sydd raid i ti fyned ar hyd ddi.

*Yna y dechreuodd* Cristion wregysu ei lwynau, ac ymbar-*otoi i gychwyn.*

Yna, ebe y Deonglwr, Cristion anwyl! y Dyddanydd a fyddo gyda thi bob amser, i'th gyfarwyddo di yn y ffordd sydd yn arwain i'r ddinas nefol.

Felly Cristion a aeth rhagddo ar hyd ei ffordd dan ganu:—

**Yma y gwelais bethau buddiol,**
**Pethau ammheuthyn a rhyfeddol,**
**Pethau hyfryd ac ofnadwy,**
**Pethau i'm gwneuthur yn safadwy.**
**Glynu a wnelwyf bob mynydyn**
**Yn y pethau 'maflais ynddyn';**
**Rhaid im' gofio ac ystyried,**
**Herwydd pa'm y ce's eu gweled.**
**A bid i mi byth (dan ammod,**
**Tra fo ynof rym na chwythod),**
**Roddi diolch i tithau beunydd,**
**Am dy gariad, fy Neonglydd.**

Yn awr mi a welais fod y brif-ffordd, ar yr hon yr oedd yn rhaid i Gristion fyned ar hyd-ddi, wedi ei chau o'r ddau tu â magwyr, ac enw y mur oedd Iachawdwriaeth; *Esa.* xxvi. 1. Cristion, gan hyny, a redodd i fyny ar hyd y ffordd hon; ond nid heb anhawsdra mawr, o achos y baich oedd ar ei gefn. Efe a redodd hyd oni ddaeth i le oedd yn esgyn ychydig, ac yr oedd croes yn sefyll ar y man hwnw; ac ychydig is law hyny, yn y goriwaered, yr oedd bedd. Yna mi a welais,[1] wedi i Gristion ddyfod i fyny at y groes, fod ei faich wedi ymddattod oddi ar ei ysgwyddau; ac ar hyny fe syrthiodd oddi ar ei gefn, ac a dreiglodd yn barhaus hyd onid aeth i eneu y bedd—lle y syrthiodd i mewn, ac ni welais mo hono mwyach!

Yna y llawenychodd Cristion, ac y llefarodd â chalon orfoleddus, gan ddywedyd, Trwy ei ofid ei hun a'i farwolaeth y rhoddodd efe esmwythdra a bywyd i mi. Yna efe a safodd ennyd yn llonydd, gan edrych a rhyfeddu; canys yr oedd yn dra rhyfedd ganddo i olwg ar y groes ei esmwythau o'i faich fel hyn. Am hyny efe a edrychodd, ac a edrychodd drachefn, hyd oni tharddodd dyfroedd allan o ffynnonau ei ben ef i waered ar hyd ei ruddiau; *Zech.* xiii. 10. Yn awr, fel yr oedd efe yn edrych ac yn wylo, wele dri o rai dysglaer gogoneddus yn dyfod ato, ac yn cyfarch gwell iddo, gan ddywedyd, Tangnefedd i ti: a dywedodd y cyntaf wrtho, O Gristion! maddeuwyd i ti dy bechodau; *Mat.* ix. 2. A'r ail a ddiosgodd ei fratiau oddi am dano, ac a'i gwisgodd ef â dillad newydd; *Zech.* iii. 4. A'r trydydd a osododd nod ar ei dalcen ef, ac a roddodd blyglyfr iddo, â sel arno, ac a

[1] *Trwy Grist croeshoeliedig y mae rhyddhad i'w gael oddi wrth bechod; ac yn ei fedd ef y mae anwireddau ei bobl wedi eu claddu.*

archodd iddo edrych ar hwnw wrth ymdeithio, a'i roddi ef i mewn yn mhorth y ddinas nefol; *Eph.* i. 13. Ar ol hyny hwy a aethant ymaith, a Christion a lamodd dair gwaith gan lawenydd, ac a aeth rhagddo dan ganu—

**Mi a ddaethum hyd yn hyn mewn gofid**
**Dan ddirfawr faich fy mhechod enbyd,**
**Yn llwythog iawn, heb allu canfod**
**Dim a allai laesu 'nhrallod,**
**Daethum yma dan ofidio;**
**'Nawr 'rwy'n cael fy llwyr gysuro:**
**A raid i'r lle bendigaid yma**
**Ddechreu fy hapusrwydd mwya'?**
**Ai yma syrth fy maich aflawen**
**Yn rhydd, yn rhwydd, oddi ar fy nghefn?**
**Ai yma torir fy rheffynau,**
**A rwymodd hwnw ar fy 'sgwyddau?**
**Bendigaid groes, a beddrod buddiol!**
**Yn hytrach tra bendigaid bythol**
**A fo'r gwr aeth yn ei unswydd,**
**Er fy mwyn i oddef gw'radwydd.**

Yna mi a welais Cristion yn myned rhagddo, hyd oni ddaeth efe i oriwaered, lle y gwelodd, ychydig allan o'r ffordd, dri o wŷr yn cysgu yn drwm, â llyffetheiriau am eu traed. Eu henwau oedd Anghall, Diog, a Rhyfyg.

Cristion, wedi eu gweled hwy yn cysgu fel hyn, a aeth atynt, i edrych a allai efe eu dihuno hwy, a gwaeddodd, gan ddywedyd, Yr ydych chwi yma fel rhai yn cysgu ar ben hwylbren, ac y mae y môr marw, sef y pwll diwaelod, oddi tanoch; *Diar.* xxiii. 34. Deffrowch, gan hyny, a deuwch ymaith; byddwch ewyllysgar hefyd, a mi a'ch rhyddhaf chwi o'ch heiyrn. Dywedodd hefyd wrthynt, Os yr hwn sydd yn rhodio oddi amgylch fel llew rhuadwy a ddaw heibio, chwi a fyddwch yn ddiammheu yn ysglyfaeth i'w ddannedd ef; 1 *Pedr* v. 8. Ar hyny hwy a edrychasant arno, ac a'i hatebasant ef fel hyn; Anghall a ddywedodd wrtho, Ni welaf fi ddim perygl—Diog a ddywedodd, Eto ychydig hepian—a Rhyfyg a ddywedodd, Rhaid i bob llestr sefyll ar ei waelod ei hun. Felly hwy a orweddasant i lawr i gysgu drachefn, a Christion a aeth i'w ffordd.

Eto yr oedd yn flin ganddo efe feddwl i wŷr oedd yn y perygl hwnw ddibrisio ei garedigrwydd ef, gan iddo gynnyg eu cynnorthwyo mor rhwydd ac mor rhad, trwy eu deffroi, eu cynghori, a thrwy ddangos ei ewyllysgarwch i'w rhyddhau o'u heiyrn. Fel yr oedd efe yn ymofidio yn nghylch hyny, *canfu ddau ŵr yn* dyfod bendramwnwgl dros y mur, ar y *llaw aswy i'r ffordd* gyfyng; a hwy a ddaethant i fyny ato

yn ebrwydd. Enw un o honynt oedd Ffurfiol,[1] ac enw y llall oedd Rhagrithiwr: yntau a ddechreuodd ymddyddan â hwy fel hyn:—

*Cristion.* Foneddigion, o ba le y daethoch chwi, ac i ba le yr ydych yn myned?

*Ffurf.* a *Rhag.* Ganwyd ni yn nhir Gwagogoniant, a myned yr ydym tua Mynydd Sïon, am glod.

*Cristion.* Pa ham na buasech yn dyfod i mewn trwy y porth sydd yn mhen y ffordd? Oni wyddoch chwi fod hyn yn ysgrifenedig—"Yr hwn nid yw yn myned i mewn trwy y drws, eithr sydd yn dringo ffordd arall, lleidr ac ysbeiliwr yw;" *Ioan* x. 1.

*Ffurf.* a *Rhag.* Hwythau a ddywedasant, fod eu holl wladwyr hwy yn cyfrif y ffordd i'r porth yn rhy bell o amgylch; ac am hyny, eu harfer hwy oedd ei chwtogi hi, a dringo dros y mur, fel y gwnaethant hwythau.

*Cristion.* Eithr oni chyfrifir hyn yn gamwedd; sef i rai droseddu fel hyn yn erbyn ewyllys ddadguddiedig Arglwydd y ddinas yr ydym yn myned tuag ati?

*Ffurf.* a *Rhag.* Hwythau a ddywedasant wrtho, nad oedd raid iddo flino ei ben yn nghylch hyny; o blegid fod ganddynt hwy ddefod am y peth yr oeddynt yn ei wneuthur, ac y gallent, pe byddai raid, ddwyn tystiolaeth a dystiolaethai hyny er's mwy na mil o flyneddoedd.

*Cristion.* Ond, ebe Cristion, a fydd eich gwaith chwi yn gymmeradwy, os profir ef wrth y gyfraith?

*Ffurf.* a *Rhag.* Hwythau a ddywedasant wrtho, y caiff defod, gan ei bod yn sefyll cyhyd, sef er's mwy na mil o flyneddoedd, ei chyfrif yn awr, yn ddiammheu, yn lle cyfraith, gan farnwr diduedd. Ac heb law hyny, ebe hwy, os daethom ni i'r ffordd, pa fater ydyw pa fodd y daethom iddi:—os ydym ynddi, yr ydym ynddi. Nid wyt ti ond yn y ffordd, yr hwn a ddaethost, fel y gwyddom ni, trwy y porth; ac yr ydym ninnau hefyd yn y ffordd, y rhai a ddaethom iddi bendramwnwgl dros y mur. Yn mha beth weithian y mae dy gyflwr di yn well na'r eiddom ni?

*Cristion.* Yr wyf fi yn rhodio yn ol rheol fy Meistr, a chwithau ydych yn rhodio yn ol eich tyb wrthun eich hunain. Yr ydych chwi yn lladron eisoes yn nghyfrif Arglwydd y ffordd; am hyny, y mae yn ddiammheu genyf na cheir mo honoch yn wŷr cywir yn ei diwedd hi; *Ioan* x. 1. Chwi a ddaethoch i mewn yn ol eich cynghor eich hunain, heb ei gyfarwyddyd ef—a chwi a gewch eich gyru allan wrthych eich hunain, heb ei drugaredd ef; *Luc* xiii. 25—27.

[1] *Un â ffurf duwioldeb ganddo, ond heb rym duwioldeb yn y galon.*

Eithr nid atebasant hwy nemawr i hyn—yn unig hwy a archasant iddo edrych ato ei hun. Yna mi a'u gwelais hwynt yn myned rhagddynt, bob un ar hyd ei ffordd, heb ymddyddan ond ychydig iawn â'u gilydd, ond yn unig ddywedyd o'r ddau ŵr yma wrth Cristion, am ddeddfau ac ordinhadau, nad oeddynt yn ammheu na chadwent y rhai hyny mor gydwybodol ag yntau—Am hyny, ni wyddom ni, ebe hwy, pa wahaniaeth sydd rhyngot ti a ninnau, ond bod y siaced yna am dy gefn di, yr hon a roddwyd i ti (dybygem ni) gan rai o'th gymmydogion, i guddio gwarth dy noethni.

*Cristion.* Ni achubir mo honoch chwi trwy ddeddfau ac ordinhadau; *Gal.* ii. 16. Ni dderbynir neb i'r ddinas nefol, ond y sawl sydd yn dyfod yno trwy y drws; *Ioan* x. 9; xiv. 6. Ac am y siaced yma sydd am fy nghefn, hi a roddwyd i mi gan Arglwydd y lle yr wyf yn myned iddo; a hyny, fel y dywedasoch chwi, i guddio fy noethni â hi. Ac yr wyf yn ei chymmeryd hi fel arwydd o'i garedigrwydd ef tuag ataf; canys nid oedd genyf ddim ond bratiau o'r blaen; ac heb law hyny, yr wyf yn cysuro fy hun yn y modd yma wrth ymdeithio. Yn ddiau, dybygaf fi, pan ddelwyf i borth y ddinas, ei Harglwydd a'm hadnebydd i yn ddigon da, gan fod genyf ei siaced ef am danaf—y siaced a roddodd efe i mi yn rhad, yn y dydd y diosgodd efe fy mratiau oddi am danaf. Y mae genyf fi hefyd nod ar fy nhalcen (yr hwn, ond odid, ni ddaliasoch sylw arno), a osodwyd yma gan un o gyfeillion anwylaf fy Arglwydd yn y dydd y syrthiodd fy maich oddi ar fy ysgwyddau. Ac mi a ddywedaf i chwi yn chwaneg, roddi i mi y pryd hyny blyglyfr wedi ei selio, i'm cysuro wrth ei ddarllen ar hyd y ffordd; ac fe orchymynwyd i mi hefyd ei roddi ef i mewn yn mhorth y ddinas nefol yn arwydd o'm mynediad sicr innau i mewn ar ei ol ef i'r fan hòno. Y mae yn sicr genyf fod arnoch chwi eisieu yr hyn oll ag yr ydych hebddynt, am na ddaethoch i mewn trwy y porth.

Nid atebasant hwy ddim iddo ef yn nghylch y materion yma—yn unig hwy a edrychasant ar eu gilydd, ac a chwarddasant. Yna mi a'u gwelais hwy oll yn myned yn mlaen, ond bod Cristion yn cerdded yn gyflymach, gan eu gadael hwy ar ei ol: ac nid ymddyddanodd efe mwyach â hwy, ond yr eodd yn myfyrio ynddo ei hun, weithiau dan ocheneidio, ac weithiau dan ymgysuro: hefyd, efe a fyddai yn darllen yn fynych yn ei blyglyfr, ac yr oedd yn cael dyddanwch mawr oddi wrtho.

Yna mi a'u gwelwn hwynt oll yn myned yn mlaen, hyd oni ddaethant i ymyl Bryn Anhawsdra—ac wrth y bryn hwnw yr *oedd ffynnon.* Ac hefyd, yn yr un lle, yr oedd dwy ffordd *arall, heb law* yr un oedd yn dyfod yn union oddi wrth y

porth—un yn troi ar y llaw aswy, a'r llall ar y llaw ddeheu, wrth droed y mynydd; ond yr oedd y ffordd gyfyng yn myned yn union i fyny y bryn. Fe aeth Cristion yn awr i'r ffynnon, ac a yfodd o honi i adfywio ei natur; *Esa.* xlix. 10. Wedi hyny, dechreuodd ddringo i fyny y bryn, dan ganu:—

> **Yr wyf yn chwennych myn'd yn gefnog,**
> **I ben y bryn sydd fawr a chribog:**
> **Er ucheled yw ei gopa,**
> **Ni'm rhwystrir i gan ddim anhawsdra.**
> **Can's mi wn mai dyma 'r hyfryd**
> **Ffordd sy'n arwain dyn i fywyd:**
> **Cyfod galon, awn yn wisgi,**
> **Llwyr yn mlaen, heb ball nac ofni.**
> **Gwell yw cerdded y ffordd union,**
> **Er bod rhwystrau yn ei chylchion,**
> **Na myn'd ar hyd y trawsaidd lwybr,**
> **Er ei fod e'n hawdd ddirwystr.**

Y ddau ereill hefyd a ddaethant hyd droed y bryn; ond pan welsant fod y bryn yn serth, a bod yno ddwy ffordd arall i fyned, a chan dybied hefyd y cyfarfyddai y ddwy ffordd drachefn â'r ffordd yr aethai Cristion i fyny ar hyd-ddi ar yr ystlys arall i'r bryn, hwy a ymroisant gan hyny i fyned ar hyd y ffyrdd yma—enw un o'r ffyrdd oedd Perygl, ac enw y llall oedd Distryw. Felly y naill ŵr a gymmerodd y ffordd a elwir Perygl, yr hon a'i harweiniodd ef i goedwig fawr; a'r llall a aeth yn union ar hyd y ffordd oedd yn arwain i Ddistryw, yr hon a'i harweiniodd ef i fan eang, yn llawn o fynyddoedd tywyll, lle y tramgwyddodd ac y syrthiodd ef, ac ni chyfododd mwyach.

Yna mi a edrychais ar ol Cristion, i'w weled ef yn dringo i fyny i ben y bryn: ac mi a'i gwelwn wedi rhedeg ar y cyntaf, yn cerdded yn awr, ac o'r diwedd yn cropian i fyny ar ei draed a'i ddwylaw, o blegid fod y llwybr yn serth ac yn llithrig. Ac yn nghylch hanner y ffordd i ben y bryn, yr oedd llwyn hyfryd o goed planedig [*gair o ras*] wedi ei osod gan Arglwydd y bryn, i adfywio ymdeithwyr diffygiol. Ac am hyny, fe aeth Cristion yno, ac a eisteddodd i lawr i gymmeryd gorphwysfa yn y lle hwnw. Yna efe a gymmerodd ei blyglyfr allan o'i fynwes, ac a ddarllenodd ynddo, ac a gafodd ddyddanwch oddi wrtho: efe a ddechreuodd hefyd yn awr ail edrych ar y siaced a roddasid iddo ef pan oedd yn sefyll wrth y groes; ac wedi iddo gael boddlonrwydd yn y pethau hyn dros ennyd, o'r diwedd efe a syrthiodd i hepian, ac ar ol hyny, i drwm-gysgu; a'r cwsg hwn a'i cadwodd yn y man hwnw, hyd onid aeth yn mron yn nos, a'i blyglyfr a syrthiodd o'i law ef wrth gysgu; *Dad.* iii. 2; 1 Thes.

v. 7, 8. Ac fel yr oedd efe yn cysgu, daeth un ato ac a'i deffrôdd, gan ddywedyd wrtho—"Cerdda at y morgrugyn, tydi ddiogyn, edrych ar ei ffyrdd ef, a bydd ddoeth;" *Diar*. vi. 6. A chyda hyny, fe neidiodd Cristion i fyny yn orwyllt, ac a aeth ar ffrwst i'w ffordd, ac a gerddodd yn ebrwydd, hyd oni ddaeth i ben y bryn.

Yn awr, pan y daeth efe i fyny i ben y bryn, fe welai ddau ŵr yn rhedeg yn gyflym tuag ato—enw un o honynt oedd Ofnog, ac enw y llall oedd Anhyderus. A Christion a ddywedodd wrthynt, Ha wŷr! pa ham yr ydych yn rhedeg tuag yma?

Ofnog a atebodd, mai myned yr oeddynt tua dinas Sïon, a darfod iddynt ddyfod i fyny o'r llethr neu y rhiw oedd anhawdd ei ddringo: eithr, ebe fe, po bellaf yr elem ni, mwyaf fyddai y perygl a gyfarfyddai â ni; am hyny ni a droisom, ac yr ydym yn myned yn ol.

Ië, ebe Anhyderus, canys yr oedd dau lew yn gorwedd yn gymhwys ar y ffordd o'n blaen (pa un ai yn cysgu, ai yn effro, ni gwyddom); ac nid allem ni dybied llai, os deuem o fewn eu cyrhaedd, na byddai iddynt yn ebrwydd ein llarpio a'n rhwygo yn ddrylliau; *Diar*. xxii. 13; xxvi. 13.

Yna, ebe Cristion, yr ydych chwi yn peri i mi ofni; ond i ba le y ffoaf i fod mewn diogelwch? Os äf yn ol i'm gwlad fy hun, y mae hono wedi ei pharotoi i dân a brwmstan; ac fe dderfydd am danaf yno yn ddiammheu: os gallaf fyned i'r ddinas nefol, y mae yn sicr genyf y byddaf yno mewn diogelwch. Rhaid i mi anturio i fyned yn mlaen: nid yw myned yn ol ddim amgen na marwolaeth, ac nid yw myned yn mlaen, ond ofn marwolaeth—ond y mae bywyd tragwyddol yn ei ganlyn ef—ac am hyny, myfi a äf rhagof eto. Felly Anhyderus ac Ofnog a redasant i waered ar hyd y llethr, a Christion a aeth rhagddo yn ei ffordd. Eithr wedi meddwl drachefn am yr hyn a glywsai efe gan y gwŷr, efe a chwiliodd yn ei fynwes am ei blyglyfr,[1] fel y gallai ddarllen ynddo, a chael cysur oddi wrtho; ond er ymofyn am dano, ni chafodd mo hono. Yna yr oedd Cristion mewn cyfyngder mawr; ac ni wyddai pa beth a wnelai, gan fod arno eisieu y peth oedd yn arfer ei adfywio, a'r peth a ddylasai fod megys *pass* (neu lythyr) yn ei law, fel y byddai iddo gael ei dderbyn i'r ddinas nefol. Yn y trallod yma, efe a gofiodd o'r diwedd iddo gysgu dan y llwyn oedd ar ochr y bryn, a chan syrthio ar ei liniau, efe a ofynodd faddeuant gan Dduw am iddo fod

[1] Wrth y plyglyfr hwn y gallwn ddeall addewidion Duw, a sicrwydd y Cristion, yn nghylch ei iachawdwriaeth: yr hwn sicrwydd sydd yn tarddu oddi wrth Ysbryd Duw, a'i ras ef yn yr enaid.

mor ynfyd a chysgu yno; ac wedi hyny, efe a ddychwelodd yn ol i ymofyn am ei blyglyfr. Ond pwy a ddichon fynegu pa faint oedd gofid ei galon ar hyd yr holl ffordd yr oedd yn dychwelyd yn ol ar hyd-ddi;—weithiau yr oedd yn ocheneidio, weithiau yn wylo, ac yn fynych yn beio arno ei hun am fod mor ynfyd a chysgu yn y lle hwnw, a wnelsid yn unig i ddadebru ychydig arno yn ei ludded. Fel hyn, gan hyny, y dychwelodd yn ol, gan edrych yn ofalus y tu yma, a'r tu arall, ar hyd yr holl ffordd yr oedd yn tramwy arni, i edrych a allai efe, ysgatfydd, gyfarfod â'i blyglyfr, yr hwn a'i cysurodd mor fynych yn ei daith. Ac yn y modd hwn y cerddodd, nes canfod y llwyn drachefn, lle y buasai yn eistedd ac yn cysgu; a'r olwg hòno a adnewyddodd ei dristwch yn fwy, trwy ddwyn ar gof iddo eilwaith ei gwsg pechadurus. Ond efe a aeth yn mlaen, gan alaru am y cysgu yma, gan ddywedyd, Ys truan o ddyn ydwyf fi!—i mi gysgu liw dydd!—i mi gysgu yn nghanol peryglon!—i mi foddhau y cnawd cyn belled, ag arfer yr orphwysfa hòno a roddasai Arglwydd y Bryn yn unig i gysuro eneidiau pererinion, fel lle o esmwythdra i'r corff! Pa sawl cam a gerddais yn ofer! Fel hyn y dygwyddodd i'r Israeliaid am eu pechodau—hwy a anfonwyd yn ol drachefn ar hyd ffordd y Môr Coch; ac yr wyf finnau yn awr yn cerdded y llwybrau hyny mewn gofid, y rhai y gallaswn eu cerdded mewn hyfrydwch, oni buasai y cwsg pechadurus hwn. Pa mor bell ar fy ffordd y gallaswn fod erbyn hyn! Y mae yn rhaid i mi gerdded dair gwaith y ffordd yma na buasai raid i mi ei cherdded ond unwaith—ïe, yn awr hefyd y mae hi yn debyg o fyned yn nos arnaf, canys y mae y dydd yn darfod. O! na buaswn heb gysgu! Erbyn hyn yr oedd efe wedi dyfod at y llwyn drachefn, ac efe a eisteddodd yno ennyd, ac a wylodd. Ond o'r diwedd (fel yr oedd rhagluniaeth yn ewyllysio), wrth edrych â chalon drom tua'r llawr, efe a ganfu ei lyfr dan y fainc; ac yn ddychrynedig efe a'i cipiodd i fyny ar frys, ac a'i gosododd yn ei fynwes: ond pwy a all fynegu mor llawen oedd y gŵr hwn pan y cafodd ei blyglyfr drachefn? Canys y llyfr hwn oedd sicrwydd ei fywyd, a'i sicrwydd yn nghylch ei dderbyniad i mewn i'r porthladd dymunol, sef i'r nefoedd: am hyny, efe a'i gosododd i gadw yn ei fynwes, ac a ddiolchodd i Dduw am gyfarwyddo ei lygaid at y fan lle yr oedd y llyfr yn gorwedd; ac wedi hyny, dan lawenhau ac wylo, efe a aeth yn mlaen yn ei ffordd. Ond, O mor fuan y cerddodd i fyny ar hyd y rhan ddiweddaf o'r bryn! Eto, cyn iddo fyned i fyny, fe fachludodd yr haul ar Cristion, yr hyn a wnaeth iddo alw ei gwsg ofer i'w gof drachefn; ac fe ddechreuodd eilwaith

gwyno wrtho ei hun fel hyn:—O! tydi gwsg pechadurus! mor debygol ydyw i nosi arnaf ar fy nhaith o'th achos di! Rhaid i mi rodio heb yr haul,[1] a thywyllwch a orchuddia fy llwybr! Ac o'th blegid di, O! gwsg pechadurus, fe orfydd arnaf glywed rhuad creaduriaid blin! Yn awr hefyd, efe a gofiodd yr hanes a ddywedasai Anhyderus ac Ofnog wrtho—y modd y dychrynwyd hwy wrth weled y llewod. Yna y dywedodd Cristion wrtho ei hun drachefn, Y mae y bwystfilod hyn yn rhodio oddi amgylch yn y nos i geisio ysglyfaeth, ac os cyfarfyddant â mi yn y tywyllwch, pa fodd y gyraf hwynt ymaith—pa fodd y diangaf rhag cael fy llarpio ganddynt? Fel hyn yr aeth rhagddo yn ei ffordd; ond tra yr ydoedd yn galaru o blegid ei gamymddygiad anhapus, efe a ddyrchafodd ei lygaid, ac a ganfu yno, yn ymyl y ffordd o'i flaen, balas gwych iawn, ac enw y palas oedd Prydferth.

Felly, mi a'i gwelais yn brysio ac yn myned rhagddo, fel, os byddai bosibl, y gallai efe gael lletty yno: ond cyn iddo fyned yn mhell, efe a ddaeth i le cul iawn, yr hwn oedd yn nghylch tair ystang oddi wrth babell y porthor, a chan edrych yn ofalus o'i flaen wrth gerdded, efe a ganfu ddau lew ar y ffordd. Yn awr, ebe fe, mi a welaf y peryglon a yrasant Anhyderus ac Ofnog i ddychwelyd yn ol [yr oedd y llewod wedi eu cadwyno, ond nid oedd efe yn gweled y cadwyni]; yna efe a ofnodd, ac a fwriadodd ddychwelyd yn ol, megys y gwnaethant hwythau, canys yr oedd efe yn meddwl nad oedd ond marwolaeth o'i flaen; ond y porthor (enw yr hwn yw Gwyliadwrus; *Marc* xiii. 34), wrth weled Cristion yn sefyll heb fyned yn mlaen, fel pe buasai ar feddwl troi yn ol, a waeddodd arno, gan ddywedyd, A wyt ti mor wangalon a hyny? Nac ofna y llewod, canys y maent wedi eu cadwyno, ac wedi eu gosod yn y fan yna, i brofi ffydd lle y mae hi, ac i ddadguddio y rhai sydd hebddi — cadw dy hun yn nghanol y llwybr, ac ni bydd niwed i ti; 2 *Pedr* ii. 4.

Yna mi a'i gwelais yn myned yn mlaen dan grynu rhag ofn y llewod; ond trwy ymgadw yn ol hyfforddiad y porthor, efe a'u clybu hwynt yn unig yn rhuo, ond ni wnaethant ddim niwed iddo: yna efe a gurodd ei ddwylaw yn nghyd, ac a aeth rhagddo, hyd oni ddaeth a sefyll o flaen y porth, lle yr oedd y porthor yn aros. Yna y dywedodd Cristion wrtho, Syr, pa dŷ yw hwn? A allaf fi gael lletty yma heno?

Y porthor a'i hatebodd, Y tŷ hwn a adeiladwyd gan Arglwydd y bryn, er mwyn adfywio a diogelu pererinion.

[1] *Fe guddia Duw ei wyneb oddi wrth ei bobl, pan y cysgant, ac y byddant yn esgeulus* yn nghylch eu hiachawdwriaeth.

Y porthor hefyd a ofynodd i Cristion, O ba le yr wyt ti yn dyfod—ac i ba le yr wyt ti yn myned?

*Cristion.* Dyfod yr wyf o Ddinas Distryw, ac yr wyf yn myned tua Mynydd Sïon; ond o blegid fod yr haul wedi machludo, yr wyf yn dymuno cael lletty yma dros noswaith.

*Porthor.* Pa beth yw eich enw?

*Cristion.* Fy enw yn awr yw Cristion; eithr fy enw ar y cyntaf oedd Diras: yr wyf yn un o hiliogaeth Iapheth, yr hwn a ennill Duw i breswylio yn mhebyll Sem; *Gen.* ix. 27.

*Porth.* Pa fodd y dygwyddodd eich bod yn dyfod cyn hwyred?—y mae yr haul wedi machludo.

*Cristion.* Buaswn yma yn gynt; ond ys truan o ddyn ydwyf fi, mi a gysgais dan y llwyn sydd yn sefyll ar ystlys y bryn—ïe, buaswn yma hyny yn gynt o lawer,[1] oni buasai i mi, wrth gysgu, golli fy sicrwydd, a dyfod hebddo hyd at ael y bryn. Ac yna, wedi ymofyn am dano, ac heb ei gael, bu raid i mi, gyda gofid calon, droi yn ol i'r lle y cysgaswn ynddo, lle y cefais ef: ond o'r diwedd, yr wyf wedi dyfod yma.

*Porth.* Wele, mi a alwaf ar un o lancesi y lle yma, yr hon (os bydd yn foddlawn i'ch ymadroddion) a'ch dwg i mewn at y teulu, yn ol defod y tŷ. Ar hyn, fe ganodd y porthor gloch; ac wrth ei sŵn hi, fe ddaeth llances sobr, brydferth, allan i'r drws [ei henw oedd Pwyllog], ac a ofynodd, pa ham yr oeddid yn galw arni hi. Y porthor a atebodd, Y gŵr hwn sydd yn ymdeithio o Ddinas Distryw i Fynydd Sïon; eithr gan ei fod yn ddiffygiol, a'i bod wedi nosi arno, efe a ofynodd i mi a allai efe gael lletty yma dros nos: felly, mi a ddywedais wrtho, y galwn arnat ti, yr hon a elli, ar ol ymddyddan âg ef, wneuthur fel y byddo da yn dy olwg, yn ol defod y tŷ.

Hithau a wenodd ar Cristion; ond yr oedd y dwfr yn sefyll yn ei llygaid: ac wedi sefyll ychydig, heb ddywedyd un gair, hi a ddywedodd, Myfi a alwaf allan ddau neu dri yn rhagor o'm teulu. Felly hi a redodd i ddrws y tŷ, ac a alwodd am Ddoethineb, Duwioldeb, a Chariad, i ddyfod allan, y rhai, wedi ymddyddan âg ef ychydig yn mhellach, a'i harweiniasant ef i mewn i'r tŷ; a llawer o honynt, gan ei gyfarfod ef

[1] Mae y rhai grasol yn colli eu sicrwydd yn nghylch eu iachawdwriaeth, ac ychydig hefyd o'u golwg ar addewidion Duw am drugaredd, pan y maent yn myned yn gysglyd yn eu heneidiau, ac yn esgeulus o wneuthur ewyllys Duw, gan ogwyddo at roddi boddlonrwydd i'w natur lygredig eu hunain—fel y gallwn weled wrth esampl Dafydd; *Salm* li. 11, 12.

wrth drothwy y drws, a ddywedasant wrtho,[1] Tyred i mewn tydi fendigedig yr Arglwydd: fe adeiladwyd y tŷ hwn gan Arglwydd y bryn i'r dyben yma, sef i groesawu pererinion ynddo. Yna efe a gyfarchodd iddynt, ac a'u canlynodd hwynt i'r tŷ. Ac wedi dyfod i mewn ac eistedd i lawr, hwy a roddasant iddo ryw beth i'w yfed, ac a gytunasant yn nghyd, mai hyd oni byddai swper yn barod, y cai rhai o honynt, er mwyn gwneuthur defnydd da o'r amser, ymddyddan â Christion yn neillduol yn nghylch pethau crefyddol; a hwy a ordeiniasant Ddoethineb, Duwioldeb, a Chariad, i chwedleua âg ef, a hwy a ddechreuasant fel hyn:—

*Duw.* Pa beth a'ch hannogodd chwi ar y cyntaf i fod yn bererin? A pha fodd y dygwyddodd i chwi ddyfod allan o'ch gwlad y ffordd yma?

*Cristion.* Fe'm gyrwyd i allan o wlad fy ngenedigaeth gan sŵn ofnadwy oedd yn fy nghlustiau, sef bod distryw anocheladwy yn fy nghanlyn, os trigwn yn y man lle yr oeddwn.

*Duw.* Ond pa beth a wnaeth i chwi ymadael â'ch gwlad eich hun, a dyfod y ffordd hon?

*Cristion.* Bu fel y mynai Duw: a phan y dychrynwyd fi âg ofn y distryw yma, ni wyddwn i ba le yr awn; ond trwy ragluniaeth Duw, fel yr oeddwn yn crynu ac yn wylo, daeth gŵr ataf a elwid Efengylwr, ac efe a'm cyfarwyddodd i'r porth cyfyng; a phe amgen, ni chawswn gwrdd âg ef byth: ac felly, efe a'm gosododd yn y ffordd a'm harweiniodd yn union i'r tŷ hwn.

*Duw.* Eithr oni ddaethoch chwi heibio i dŷ Deonglwr?

*Cristion.* Daethum, ac a welais yno y fath bethau ag y glŷn eu coffadwriaeth wrthyf tra byddwyf byw, yn enwedig tri pheth: sef, y modd y mae Crist, er i Satan wneyd ei waethaf, yn cynnal gwaith ei ras yn nghalonau ei bobl; y modd y pechodd rhyw ŵr mor echrydus, hyd onid oedd yn gwbl allan o obaith am drugaredd Duw; ac hefyd breuddwyd yr hwn a dybiasai fod dydd y farn wedi dyfod. Yr oedd fy nghalon yn crynu pan adroddodd y gŵr ei freuddwyd, eto y mae yn llawen genyf i mi ei glywed. Llawer o bethau ereill a welais ar y ffordd; ond un peth oedd fwyaf nodedig, sef, pan y gwelais un yn crogi ac yn gwaedu ar y groes—fe wnaeth yr olwg arno i'm baich syrthio oddi ar fy nghefn; a'r baich hwnw a fu yn achos o flinder mawr i mi; *Zec.* xii. 10; xiii. 1.

[1] Derbyniad y pererin i'r tŷ hwn, sydd yn gosod allan dderbyniad y pechadur edifeiriol i'r eglwys weledig yma ar y ddaiar, lle y mae *danteithion ysbrydol i'w* cael trwy y gair, y sacramentau, ac ereill o *ordinhadau Duw.*

*Doeth.* Onid ydych yn meddwl weithiau am y wlad o'r hon y daethoch allan?

*Cristion.* Ydwyf; eithr gyda llawer o gywilydd a ffieidd-dra: yn wir, pe buaswn yn meddwl gyda hyfrydwch am y wlad hòno, o'r hon y daethum allan, mi a allaswn gael amser cyfaddas i ddychwelyd yn ol: eithr yn awr, gwlad well yr wyf yn ei chwennych, hyny ydyw un nefol; *Heb.* xi. 15, 16.

*Doeth.* Onid ydych chwi eto yn canfod ynoch eich hunan rai o'r pethau yr oeddych y pryd hyny yn gynnefin â hwynt?

*Cristion.* Ydwyf; eithr y mae y pethau hyny ynof yn erbyn fy ewyllys yn fawr iawn, yn enwedig fy meddyliau cnawdol, y rhai oeddynt yn dra hoff genyf gynt: ond yn awr, y mae y meddyliau hyn oll yn flinder i mi. A phe gallwn ddewis yr hyn sydd dda, myfi a ddewiswn, nas medd-yliwn y fath feddyliau byth mwyach: eithr pan fyddwyf yn ewyllysio gwneuthur yr hyn sydd oreu, y mae yr hyn sydd waethaf yn bresennol gyda mi; *Rhuf.* vii. 21.

*Doeth.* Onid ydych yn edrych ar y pethau hyn weithiau fel pe byddent wedi eu gorchfygu, y rhai sydd brydiau ereill yn ddyrysweh a blinder i chwi?

*Cristion.* Ydwyf; ond nid yw hyny ond yn anfynych iawn: ond oriau euraidd yw y rhai hyny i mi, yn y rhai y dygwydd i mi gael yr oruchafiaeth ar fy llygredigaethau.

*Doeth.* A ellwch chwi gofio trwy ba foddion y mae y llygr-edigaethau blinderus hyn yn cael eu darostwng ynoch, fel pe byddent wedi eu gorchfygu?

*Cristion.* Gallaf:—1. Pan feddyliwyf am yr hyn a welais wrth y groes. 2. Pan yr edrychwyf ar fy siaced gyfrestrog (*embroidered*). 3. Pan ddarllenwyf yn y llyfr sydd genyf yn fy mynwes. 4. A phan fyddo fy meddyliau yn nghylch y lle yr wyf yn myned tuag ato yn ymwresogi: rhydd hyny ergyd marwol i'm llygredigaethau.

*Doeth.* A pha beth sydd yn peri i chwi fod mor chwannog i fyned i fynydd Sïon?

*Cristion.* Yr wyf yn gobeithio cael gweled yr hwn a fu farw ar y groes yn fyw yno; ac yr wyf yn gobeithio y rhydd-hëir fi yno oddi wrth yr holl wendid sydd yn fy aflonyddu hyd y dydd hwn. Y maent yn dywedyd, hefyd, nad oes marw-olaeth yno; ac y caf drigo yno gyda'r fath gymdeithion ag sydd oreu genyf. A dywedyd wrthych y gwir, yr wyf yn caru yr hwn a fu farw ar y groes, am iddo fy esmwythâu o'm baich; *Luc* vii. 47. Ac y mae fy afiechyd oddi fewn yn *oflidus i mi;* ac yr wyf yn ewyllysio bod yn y fan hono lle na *bydd nac afiechyd* na marwolaeth mwyach, a chyda'r cym-

deithion a gânt lefain yn wastadol, "Sanct, Sanct, Sanct;" *Dad.* xxi. 4; *Esa.* vi. 3.

Yna y gofynodd Cariad i Cristion, A oes i chwi deulu? A ydych yn ŵr priod?

*Cristion.* Y mae genyf wraig a phedwar o blant bychain.

*Car.* A pha ham na ddygasoch chwi hwynt gyda chwi?

Ar hyny fe wylodd Cristion, ac a ddywedodd, O! mor ewyllysgar yr oeddwn iddynt hwy ddyfod gyda mi: ond yr oeddynt oll yn gwbl anfoddlawn i'm pererindod.

*Car.* Eithr chwi a ddylasech ymddyddan â hwy, a dangos iddynt y perygl o aros yn ol.

*Cristion.* Felly y gwnaethum, ac a fynegais iddynt hefyd yr hyn a ddangosai Duw i mi am ddinystr ein dinas; ond yr oeddwn yn eu golwg hwy fel un yn cellwair, ac ni choelient mo honof; *Gen.* xix. 14.

*Car.* A ddarfu i chwi weddïo ar Dduw am fenditbio eich cynghor iddynt?

*Cristion.* Do, a hyny gyda gwresogrwydd calon; canys rhaid i chwi feddwl fod fy ngwraig a'm plant, druain, yn anwyl iawn genyf.

*Car.* Ond a fynegasoch iddynt eich gofid eich hun, a'ch ofn rhag cael eich dinystrio?

*Cristion.* Do, eilwaith ac eilwaith: a gallasent ganfod fy ofn yn ngwedd fy wynebpryd, yn fy nagrau, ac hefyd yn fy nychryn, wrth ystyried y farn oedd yn nghrog uwch ein penau: eithr nid oedd y cwbl yn ddigonol i'w hennill i ddyfod gyda mi.

*Car.* Ond pa beth a allant ei ddywedyd trostynt eu hunain, gan na ddaethant gyda chwi?

*Cristion.* Yr oedd fy ngwraig yn ofni colli ei meddiannau, a chariad dynion y byd presennol; a'm plant oeddynt yn ymroddi i ynfyd ddigrifwch ieuenctyd; ac felly hwy a rwystrwyd—rhai gan un peth, a rhai gan beth arall—hyd onis gadawsant fi i deithio wrthyf fy hun yn y modd yma.

*Car.* Ond oni ddarfu i chwi ddiwyno a halogi â'ch ymarweddiad ofer yr hyn oll a lefarasoch mewn ffordd o gynghor, i'w hannog i ddyfod gyda chwi?

*Cristion.* Mewn gwirionedd, nis gallaf ganmawl fy ymarweddiad; canys mi a wn fy mod yn llithro mewn llawer o bethau; *Iago* iii. 2. Myfi a wn hefyd y dichon dyn, trwy ei fywyd drwg, ddymchwelyd mewn ychydig amser yr hyn a osodo mewn ffordd o addysg, rheswm, cynghor, a cherydd, o flaen pobl i'w troi at yr hyn sydd dda. Eto, gallaf ddywedyd hyn, fy mod yn ofalus iawn, na byddai i mi roddi iddynt achlysur, trwy un weithred anweddus, i'w gwneuthur

yn wrthwyneb i ddyfod yn bererinion; ïe, yn mater yma, hwy a ddywedant wrthyf, fy mod yn rhy fanwl, ac fy mod yn gwadu fy hunan (er eu mwyn hwy) o ran rhyw bethau, yn y rhai nid oeddynt hwy yn gweled dim drwg ynddynt. Nag ê, yr wyf yn tybied y gallaf ddywedyd hyn; os ydoedd dim a welsant ynof yn rhwystr iddynt, mai fy ofn mawr rhag pechu yn erbyn Duw, a gwneuthur cam â'm cymmydogion, ydoedd hyny.

*Car.* Cain yn wir a gasaodd ei frawd, am fod ei weithredoedd ei hun yn ddrwg, a'r eiddo ei frawd yn dda: ac os hyn a fu yn rhwystr i'th wraig a'th blant, ac a wnaeth iddynt ddigio wrthyt, y maent trwy hyny yn ymddangos, eu bod yn anghymmodlawn i ddaioni, a thi a waredaist dy enaid oddi wrth eu gwaed hwynt: 1 *Ioan* iii. 12; *Ezec.* xxxiii. 9.

Yn awr mi a'u gwelais hwy yn eistedd fel hyn, gan ymddyddan â'u gilydd hyd onid oedd y swper yn barod: ac wedi iddynt ei barotoi, hwy a eisteddasant i fwyta; ac yr oedd y bwrdd wedi ei lenwi â phasgedigion, ac â gwin, ïe, gloew-win puredig; *Esa.* xxv. 6; *Mat.* xxii. 4. A'u holl ymddyddan hwy wrth y bwrdd oedd yn nghylch Arglwydd y bryn, yn enwedig yn nghylch yr hyn a wnaeth efe, a pha ham y gwnaeth yr hyn a wnaethpwyd ganddo, a pha ham yr adeiladodd efe y tŷ hwnw. Ac wrth yr hyn a lefarasant hwy, myfi a wybûm ei fod ef yn rhyfelwr mawr, ac iddo ymladd â'r hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, a'i ddinystrio ef; ond nid heb berygl dirfawr iddo ei hun, yr hyn a wnaeth i mi ei garu yn fwy; *Heb.* ii. 14, 15.

Ac megys y dywedasant hwy, ac yr wyf finnau yn credu, efe a gollodd lawer o waed wrth wneuthur hyny; eithr y peth sydd yn gogoneddu ei ras ef ydyw hyn, sef, iddo wneuthur y cwbl o wir gariad i'w wlad. Ac heb law hyny, yr oedd yno rai o'r teulu yn dywedyd, eu bod yn ymddyddan âg ef ar ol ei farwolaeth ar y groes, a'i adgyfodiad oddi wrth y meirw; a hwy a dystiolaethasant, iddynt glywed allan o'i eneu ef ei hun, fod ganddo gariad mawr at bererinion truain, hyd onid ellir dywedyd, nad oes gyffelyb iddo i'w gael o'r dwyrain i'r gorllewin.

Drachefn, hwy a roddasant esampl o'r hyn a ddywedasant; a hono oedd, iddo ef ymddiosg o'i ogoniant, fel y gallai efe wneuthur hyn dros y tlawd; a dywedasant iddynt hwy ei glywed ef yn dywedyd, Na phreswyliai efe yn mynydd Sïon yn unig, ond y mynai efe ereill i breswylio gydag ef yno; *Phil.* ii. 6. 7, 8; *Ioan* xxvii. 24. A hwy a fynegasant yn mhellach, iddo ef ddyrchafu llawer o bererinion i fod yn dywysogion, er eu bod hwy wrth natur wedi eu geni yn dlodion, a'u dechreuad o'r domen; 1 *Sam* ii. 8; *Dad.* i. 6.

Ac fel hyn yr ymddyddanasant, hyd onid aeth hi yn llawer o'r nos: ac wedi iddynt orchymyn eu hunain i gadwraeth eu Harglwydd, hwy a aethant i'w gwelyau; a gosodasant y pererin i orwedd mewn goruwch-ystafell eang, â'i ffenestr yn agored tua chodiad yr haul (enw yr ystafell oedd Tangnefedd) lle yr hunodd hyd y wawr-ddydd, ac yna efe a ddeffrôdd ac a ganodd:—

Yn mha le yr wyf yn gorwedd?
O! dyma ddirfawr gariad rhyfedd!
A gofal Iesu Grist am ddynion,
Y rhai a fydd yn bererinion—
Yn rhagddarbod a thosturio,
Fel y cawn fy arbed ganddo,
Ac anneddu o fewn y gwiw-lwys
Drothwy nesaf i Baradwys.

Felly hwy a gyfodasant oll y boreu dranoeth, ac wedi iddynt ymddyddan yn nghylch rhyw bethau yn rhagor, hwy a ddywedasant wrtho, na chai ymadael hyd oni ddangosent iddo dlysau y tŷ. Ac yna, hwy a'i harweiniasant i'r *study*, lle y gosodasant o'i flaen y llyfrau coffadwriaethol hynaf yn y byd; yn mha rhai y dangosasant iddo, yn gyntaf, achau Arglwydd y Bryn; sef, ei fod o dragwyddoldeb yn Fab i'r Hen Ddihenydd: ac wedi hyny ei weithredoedd ef, y rhai oeddynt wedi eu hysgrifenu yma yn gyflawn, gydag enwau llawer cant a gymmerasai i'w wasanaeth; a'r modd y cyfleuasai hwynt yn y cyfryw breswylfëydd, nad allai heneidd-dra mo'u hadfeilio; 2 *Cor*. v. 1.

Yna hwy a ddarllenasant iddo rai o'r gweithredoedd anrhydeddus a wnaethai rhai o'i weision ef; megys y modd "y goresgynasant deyrnasoedd, y gwnaethant gyfiawnder, y cawsant addewidion, y cauasant safnau llewod, y diffoddasant angerdd y tân, y diangasant rhag min y cleddyf, y nerthwyd o wendid, y modd y gwnaethpwyd hwy yn gryfion mewn rhyfel, ac y gyrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio;" *Heb*. xi. 33, 34.

Wedi hyny, hwy a ddarllenasant mewn rhan arall o lyfrau coffadwriaethol y tŷ;—a dangoswyd yno mor ewyllysgar ydoedd eu Harglwydd i dderbyn i'w ffafr bob un; ïe, pob un, er iddynt gynt anmharchu ei berson a'i ffyrdd ef, os tröent ac os deuent yn awr ato ef; *Ioan* vi. 37. Yr oedd yma, hefyd, amryw o ystoreuon am lawer o bethau enwog ereill, y rhai y cafodd Cristion eu gweled oll; sef, ystoreuon hen a newydd, yn nghyd â phrophwydoliaethau yn nghylch pethau a *gyflawnir yn* eu hamser yn ddilys, er dychryn a *syndod i elynion* Arglwydd y Bryn, ac er cysur a diddan-

wch i bererinion. Tranoeth, hwy a'i tywysasant i'r arf-dŷ, ac a ddangosasant iddo yno bob math o arfogaeth, y rhai a barotoisai eu Harglwydd i bererinion; megys cleddyf, tarian, helm, dwyfroneg, pob rhyw weddi, ac esgidiau na heneidddiant; ac yr oedd yno ddigon o honynt i arfogi cynnifer o wŷr i wasanaeth yr Arglwydd ag sydd o ser yn y nefoedd; *Eph.* vi. 14, &c.

Hwy a ddangosasant iddo hefyd rai o'r peiriannau, â'r rhai y gwnaethai rhyw wŷr enwog yn mysg ei weision ryfeddodau; megys, gwialen Moses; y morthwyl a'r hoel, â'r rhai y lladdasai Jael Sisera; y piserau, yr udgyrn, a'r lampau, â'r rhai y gyrasai Gideon fyddinoedd y Midianiaid i ffoi; y ierthu ychain, â'r hon y lladdasai Samgar chwe' chant o wŷr; y gên asyn, â'r hon y gwnaethai Samson bethau aruthrol; y ffon-dafl a'r gareg, â'r rhai y lladdasai Dafydd, Goliah o Gath; a'r cleddyf hefyd, â'r hwn y lladd eu Harglwydd fab y golledigaeth, yn y dydd y cyfodo efe i ysglyfaethu. Hwy a ddangosasant lawer o bethau rhagorol i Cristion, heb law yr hyn a enwyd, y rhai oedd dda iawn ganddo eu gweled; ac wedi hyny, hwy a aethant i'w gorphwysfaoedd drachefn.

Ac wedi cyfodi yn foreu, mewn bwriad i fyned rhagddo, atolygodd y teulu arno ef i aros hyd dranoeth: ac yna, ebe hwy, nyni a ddangoswn i chwi (os bydd y diwrnod yn eglur) y mynyddoedd hyfryd; y rhai, ebe hwy, a chwanegant at eich cysur, gan eu bod yn nes at y porthladd dymunol na'r man yr ydych ynddo yn bresennol. Felly efe a gydsyniodd, ac a arosodd. A'r boreu nesaf, aethant âg ef i nen y tŷ, ac a archasant iddo edrych tua'r deheu; ac efe a wnaeth felly: ac wele, efe a ganfu yn mhell oddi wrtho wlad dra hyfryd, wedi ei harddu â choedydd, gwinllanoedd, a ffrwythau o bob rhyw, blodau, a ffynnonau hyfryd iawn; *Esa.* xxxiii. 16, 17. Yna efe a ofynodd am enw y wlad; a hwythau a'i hatebasant ef, mai Tir Emmanuel ydoedd ei henw; ac y mae, ebe hwy, mor gyffredin i'r holl bererinion i ddyfod iddi, ac i gael croesaw ynddi, ag ydyw y Bryn yma. A phan y delych i'r wlad hono, gellir canfod porth y ddinas nefol, trwy gyfarwyddyd y bugeiliaid sydd yn byw yn y lle hwnw.

Yna efe a barotôdd i gychwyn, ac yr oeddynt yn foddlawn i hyny; eithr yn gyntaf, ebe hwynt, Awn drachefn i'r arf-dŷ. A hwy a wnaethant felly: ac a'i gwisgasant ef yno, o wadn y troed hyd y pen, âg arfau profedig, fel y gallai amddiffyn ei hunan, os byddai i neb ruthro arno yn y ffordd. Ac wedi ei arfogi fel hyn, efe a rodiodd gyda'i gyfeillion i'r porth, ac a ofynodd i'r Porthor, a welsai efe un Pererin yn myned heibio? A'r Porthor a ddywedodd wrtho, Do.

Atolwg, a adwaenoch chwi ef? ebe Cristion.

*Porth.* Myfi a ofynais ei enw, ac yntau a ddywedodd wrthyf, mai Ffyddlawn oedd ei enw.

O! ebe Cristion, yr wyf yn ei adnabod; y mae yn gymmydog agos i mi: daeth o'r dref y'm ganwyd ynddi. Pa mor bell yr ydych yn meddwl y gall fod yn mlaen.

*Porth.* Y mae erbyn hyn wedi myned is law y bryn.

Wele, Borthor anwyl, ebe Cristion, yr Arglwydd a fyddo gyda thi, ac a fawr chwanego at dy holl fendithion, am y caredigrwydd a ddangosaist i mi.

Yna y dechreuodd Cristion fyned rhagddo; eithr Pwyllog, Duwioldeb, Cariad, a Challineb, a aethant gydag ef, dan ymddyddan drachefn yn nghylch y materion y darfu iddynt chwedleua o'r blaen am danynt, nes dyfod hyd at ael y bryn.

Yna ebe Cristion, Megys yr oedd yn anhawdd esgyn i fyny, felly hefyd, hyd y gwelaf, y mae yn beryglus i ddisgyn i waered.

Y mae y peth felly, ebe Callineb; canys mater caled ydyw i ddyn fyned i waered i ddyffryn darostyngiad (fel yr wyt ti yn awr yn myned) ac heb gael cwymp ar y ffordd; a dyna y rheswm pa ham yr ydym ni yn dyfod gyda thi i droed y rhiw.

Felly, efe a ddechreuodd fyned i waered, eithr yn araf iawn, er hyny efe a lithrodd unwaith neu ddwy. Yna gwelais y cymdeithion da hyny yn rhoddi i Cristion (wedi iddo ddyfod i waered o'r bryn), dorth o fara, costrelaid o win, a swp o resins; ac wedi hyn, efe a aeth i'w ffordd.

**Tra mae 'r Cristion gyd â'i gyfeillion,**<br>
**Gwir dduwiolion Sïon blant;**<br>
**A'u haur-eneuau am ei gofidiau,**<br>
**Iawn yn ddiau iddo wnant;**<br>
**A phan y gollyngont ymaith,**<br>
**Ganddynt caiff arfogaeth gref,**<br>
**O'i ben i'w draed â dur gogleddawl,**<br>
**Yn dra rhagorawl gwisgir ef.**

Eithr yn y dyffryn yma o ddarostyngiad, bu yn galed iawn ar Cristion; canys cyn iddo fyned yn mhell yn mlaen, efe a ganfu ellyll echrydus yn dyfod ar hyd y maes i'w gyfarfod, a'i enw oedd Apolyon: a gwnaeth y drych hwn i Cristion ofni, ac i feddwl ynddo ei hunan, pa un oedd oreu iddo, ai dychwelyd yn ol, ai ynte aros yn y man. Ond efe a ystyriodd eilwaith, nad oedd ganddo ddim arfogaeth i'w gefn; ac o herwydd hyny, meddyliodd y gallai ei waith yn troi ei gefn *tuag at Apolyon roddi* iddo fwy o fantais i'w drywanu yn *hawddach â'i bicellau*; ac am hyny, efe a roddes ei fryd ar

anturio, a chadw ei sefyllfa; Canys, ebe fe, pe bawn heb edrych ar ddim amgen na chadw fy einioes, gwell yw i mi sefyll na chilio.

Felly efe a aeth rhagddo, ac Apolyon a gyfarfu âg ef. Yn awr yr oedd yr anghenfil yn ofnadwy yn ei wedd; canys yr oedd wedi ymwisgo â chèn, fel pysgodyn, y rhai yw ei falchder ef; yr oedd ganddo adenydd fel draig, a thraed fel traed arth; a thân a mwg oedd yn dyfod allan o'i fol ef; a'i safn oedd fel safn llew. A phan nesaodd at Cristion, edrychodd arno â gwynebpryd dirmygus, ac a'i holodd fel hyn:—

*Apol.* O ba le y daethoch chwi—ac i ba le yr ydych yn myned?

*Cristion.* Yr wyf yn dyfod o Ddinas Distryw, yr hon yw trigfan pob drygioni; ac yr wyf yn myned tua Dinas Sïon.

*Apol.* Myfi a wn wrth hyn, mai un o'm deiliaid i ydwyt; canys myfi a biau yr holl wlad hòno, ac myfi yw ei thywysog a'i duw hi; 2 *Cor.* iv. 4; *Eph.* ii. 2. Pa fodd, gan hyny, y rhedaist ymaith oddi wrth dy frenin? Oni bai fy mod yn gobeithio y gwnei eto i mi fwy o wasanaeth, myfi a'th darawwn yn ebrwydd âg un dyrnod i'r llawr.

*Cristion.* Fe'm ganwyd, mae yn wir, o fewn eich arglwyddiaeth chwi; eithr yr oedd eich gwasanaeth yn galed, a'ch cyflog yn gyfryw nas gallai dyn fyw arno; canys cyflog pechod yw marwolaeth; *Rhuf.* vi. 23. Ac am hyny, pan y daethum i beth oedran, myfi a ystyriais, fel y gwnaeth dynion pwyllog ereill, a allwn wellâu fy nghyflwr.

*Apol.* Nid oes un tywysog a gyll ei ddeiliaid mor ysgafn a hyn; a mi a wnaf fy ngoreu, nas collwyf finnau mo honot tithau. Ond gan dy fod yn achwyn am dy wasanaeth a'th gyflog; bydd foddlawn i fyned yn ol, ac yr wyf yn addaw yma y rhoddaf i ti ran o'r pethau goreu sydd yn ein gwlad ni.

*Cristion.* Myfi a roddais fy hunan i fod yn wasanaethwr i frenin y breninoedd; a pha fodd y gallaf, gyda gonestrwydd, dori âg ef i ddychwelyd gyda thi?

*Apol.* Tydi a wnaethost yn hyn yn ol y ddiareb, "Newid drwg am waeth;" eithr y mae yn arferol i'r rhai sydd yn addef eu hunain yn weision iddo ef, ar ol ennyd fechan, ei adael, a dychwelyd ataf fi. Gwna dithau felly, a bydd pob peth yn dda.

*Cristion.* Myfi a roddais iddo fy ngred, ac a dyngais y byddwn ufudd iddo; a pha fodd y gallaf dynu oddi wrth hyn, heb gael fy nghrogi fel bradwr?

*Apol.* Tydi a wnaethost yr un peth â minnau; ac eto, nis craffaf fi ar dy waith yn gadael fy ngwasanaeth, os dychweli yn awr yn ol.

*Cristion.* Yr hyn a addewais i ti oedd fy ieuenctyd; ac heb law hyny, myfi a wn y gall y Tywysog, dan faner yr hwn yr wyf yn awr yn rhyfela, fy rhyddhau oddi wrth fy rhwymedigaethau; ïe, a maddeu i mi hefyd fy ngwaith yn ymrwymo i fod yn was i ti. Ac i ddywedyd y gwir, O! tydi, Apolyon dinystriol! gwell genyf ei wasanaeth, ei gyflog, ei weision, ei lywodraeth, ei gyfeillach, a'i wlad ef, na'r eiddot ti: ac am hyny, na themtia fi mwyach i ddychwelyd i'th wasanaeth; canys ei was ef ydwyf fi, ac mi a'i canlynaf ef.

*Apol.* Ystyria drachefn, pan fyddi 'n bwyllog, O Gristion! pa beth yr wyt ti yn debyg o gyfarfod âg ef yn y ffordd yr wyt ti yn myned. Tydi a wyddost, fod gweision yr hwn yr wyt ti yn awr wedi ei gymmeryd yn lle dy Arglwydd gan mwyaf yn dyfod i ddiwedd drwg, am eu bod hwy yn fy ngwrthwynebu i a'm ffyrdd. Pa sawl un o honynt hwy a roddwyd i farwolaeth gywilyddus? Ac heb law hyn, yr wyt yn cyfrif ei wasanaeth ef yn well na'r eiddo fi. Gwybydd hyn, na ddaeth efe erioed eto allan o'i fangre i waredu neb o'r rhai a'i gwasanaethasant ef o'm dwylaw i; eithr am danaf fi, pa sawl gwaith, fel y gŵyr y byd yn ddigon da, y gwaredais i, naill ai trwy nerth, neu ynte trwy ddichell, y rhai a'm gwasanaethasant i yn ffyddlawn, oddi tan ei ddwylaw ef a'i eiddo, er iddynt eu dal hwynt yn eu rhwydau—ac felly y'th waredaf dithau os myni.

*Cristion.* Ei bwrpas ef, trwy beidio yn bresennol a gwaredu rhai o'i bobl o'th garcharau a'th gadwyni di ydyw, er mwyn cael prawf a ydynt hwy yn ei garu ef, ac a lynant hwy wrtho ef hyd y diwedd; *Dad.* ii. 10. Ac am y diwedd drwg yr wyt ti yn dywedyd fod rhai o honynt wedi dyfod iddo, y mae hyny yn dra gogoneddus yn eu golwg hwynt: canys nid ydynt yn dysgwyl nemawr am waredigaeth bresennol, o blegid eu bod yn aros am eu gogoniant; yr hwn a gânt yn ddilys ei fwynhau, pan ddelo eu Tywysog yn ei ogoniant gyd â'i angelion gogoneddus; *Rhuf.* viii. 18; *Col.* iii. 4.

*Apol.* Tydi a fuost anffyddlawn eisoes yn ei wasanaeth ef, a pha fodd yr wyt ti yn meddwl cael cyflog ganddo?

*Cristion.* Yn mha beth, O! Apolyon! y bûm anffyddlawn iddo?

*Apol.* Tydi a wanheaist yn dy fynediad cyntaf allan, pan yr oeddit yn mron soddi yn y llynclyn o Anobaith. Tydi a amcenaist, trwy gau foddion, i ymddadlwytho oddi wrth dy faich, lle y dylesit aros hyd oni buasai i'th Dywysog ei gymmeryd ef ymaith. Tydi a gollaist dy dlysau mewn cwsg pechadurus. *Ti a fuost* hefyd o fewn ychydig i ddychwelyd *yn dy wrthol wrth* ganfod y llewod. A phan yr wyt ti

crybwyll ac yn llefaru am dy daith, a'r hyn a glywaist, ac a welaist, y mae dy galon yn chwennychu gwag-ogoniant yn y cwbl yr wyt yn ei ddywedyd ac yn ei wneuthur.

*Cristion.* Y mae hyn oll yn wir, a llawer mwy nag a adroddaist ti; ond y mae y Tywysog, yr hwn yr wyf fi yn ei wasanaethu ac yn ei anrhydeddu, yn drugarog, ac yn barod i faddeu gwendid ei bobl. Eithr cofia hyn, O! gyhuddwr y brodyr! mai yn dy wlad di y dysgais i bech■; ac yno y sugnais i bob drwg i'm calon: ond o'r diwedd mi a ruddfenais dan lwyth fy mhechodau, gan ofidio o'u plegid hwynt; a'm Tywysog a faddeuodd i mi y cwbl.

*Apol.* Ar hyn y llefarodd Apolyon mewn cynddaredd angerddol, gan ddywedyd, Yr wyf fi yn elyn i'r Tywysog yma; ac yr wyf fi yn casâu ei berson, ei ddeddfau, a'i bobl ef: ac myfi a ddaethum allan mewn llawn fwriad i'th wrthwynebu di.

*Cristion.* Apolyon, gwylia pa beth a wnelych; canys yr wyf yn teithio ar brif ffordd y brenin, sef yn y ffordd o sancteiddrwydd, ac am hyny edrych atat dy hun; *Esa.* xxxv. 8.

*Apol.* Yna y croes-gamodd Apolyon tros holl led y ffordd, ac a ddywedodd, Nid oes arnaf fi ofn yn y mater yma; ymbarotoa i farw: canys mi a dyngais i'm ffau uffernol, nad ai di ddim pellach, ac mi a fynaf weled gwaed dy galon di yn y lle hwn; a chyda hyny efe a daflodd bicell danllyd tuag at ei ddwyfron ef. Ond yr oedd gan Gristion darian yn ei law, ac efe a amddiffynodd ei hunan â hono, ac felly efe a ymgadwodd rhag niwed y tro hwnw; *Eph.* vi. 16.

Yna y tynodd Cristion ei gleddyf allan, canys yr oedd yn ei gweled hi yn bryd iddo edrych ato ei hunan: ac Apolyon ar frys a ymosododd yn lew yn ei erbyn ef eilwaith, gan daflu picellau gan amled a'r cenllysg tuag ato; ac â'r rhai hyn, er cymmaint a allodd Cristion ei wneuthur i ymgadw rhagddynt, fe'i clwyfwyd gan Apolyon, yn ei ben,[1] yn ei law,[2] ac yn ei droed,[3]—yr hyn a wnaeth i Gristion gefnu ychydig: ac am hyny fe gwympodd Apolyon arno yn gryfach, neu yn fwy nerthol: ond fe gymmerodd Cristion galon drachefn, ac a'i gwrthwynebodd ef mor wrol ag y gallai. Yr ymladd tost yma a barhaodd am hanner diwrnod, ïe, hyd onid oedd Cristion yn mron diffygio: canys rhaid i chwi wybod ei fod, o herwydd ei glwyfau, yn myned yn wanach wanach.

[1] Yn ei ddeall, trwy ei dynu ef i ryw amryfuseddau.

[2] *Yn ei ffydd,* yr hon fel llaw sydd yn derbyn Crist—trwy ei gwanhau hi.

[3] *Yn ei ymarweddiad,* trwy beri iddo lithro i bechod.

Apolyon ar hyn, wedi cael y fath fantais, a ddaeth nes-nes at Cristion; a chan ymdrech âg ef, fe'i taflodd i lawr mewn modd echrydus, a chyda hyny y syrthiodd cleddyf Cristion allan o'i law ef. Yna, ebe Apolyon, yr ydwyf yn sicr o honot ti yn awr: a chan gwympo arno, efe a'i llethodd o fewn ychydig i farwolaeth, hyd oni ddechreuodd Cristion betruso am ei fywyd. Ond, fel yr oedd Duw yn mynu, tra yr oedd Apolyon ar roddi ei ddyrnod diweddaf i'w ladd ef, fe estynodd Cristion ei law allan yn egniol, ac a ymaflodd yn ei gleddyf, ac a ddywedodd, "Na lawenycha i'm herbyn, O! fy ngelyn; pan syrthiwyf, myfi a gyfodaf drachefn;" Mica vii. 8. A chyda hyny, efe a roddes frath angeuol i Apolyon, yr hwn a wnaeth iddo gefnu, megys un wedi derbyn ei glwyf marwol. Cristion, wrth weled hyny, a ymosododd arno drachefn, gan ddywedyd, "Nage, yn y pethau hyn oll yr ydym ni yn fwy na choncwerwyr, trwy yr hwn a'n carodd ni:" ac ar hyny, Apolyon, fel draig, a danodd ei adenydd ar led, ac a frysiodd ymaith, fel na welodd Cristion mo hono mwyach; *Rhuf.* viii. 37; *Iago* iv. 7.

Yn yr ymdrech hwn, ni ddichon calon dyn feddwl (oni buasai iddo feddwl a chlywed, fel y gwneuthum i) mor ofnadwy yr oedd Apolyon, trwy holl amser yr ymdrech, yn bloeddio ac yn rhuo, gan lefaru fel draig: ac o'r tu arall, pa ocheneidiau a gruddfanau oedd yn dyfod allan o galon Cristion. Ni welais mo hono ef trwy gydol yr amser yn edrych cymmaint ag un waith yn siriol, hyd oni wybu iddo ef glwyfo Apolyon â'i gleddyf dau-finiog; *Eph.* vi. 17; *Heb.* iv. 12. Ond gwedi dirnad hyny, efe a wenodd ac a chwarddodd.

Ac wedi gorphen yr ymdrech hwn, efe a ddywedodd, Myfi a ddiolchaf yn y lle yma i'r hwn a'm gwaredodd i o safn y llew, ac a'm nerthodd yn erbyn Apolyon; ac ar hyny efe a ganodd fel hyn:—

Beelzebub, pen tywysóg hyll,
  Yr anfad ellyll yma,
(Am ei fod ar feddwl fryd,
  Digyngyd am 'nyfetha)
A'i gyrai i maes mewn llurig gref,
  Yntef yn gynddeiriocaf,
Mewn tanllyd ac uffernol fodd,
  A chwimmwth ruthrodd arnaf.

Ond Michael, fendigedig borth,
  A ddaeth i'm cynnorthwyo;
Ac mi a'i gyrais (gwych yw'r wedd)
  A min y cledd, i gilio.
*Am hyny* boed i mi roi mawl,
  *A diolch* bythawl iddo,
*A bendithio* â llafar lef
  *Ei* enw ef heb beidio.

Wedi hyny daeth ato law, gan ddwyn iddo rai o ddail pren y bywyd; a Christion a'u cymmerodd, ac a'u rhoddodd wrth y clwyfau a gafodd efe yn yr ymladdfa; ac efe a iachâwyd yn ebrwydd; *Dad.* xii. 2. Ac efe a eisteddodd yno hefyd i fwyta bara, ac i yfed o'r gostrel a roddasid iddo ychydig o'r blaen. Felly wedi ymadfywio, efe a ymbarotodd i fyned yn mlaen, gan ddwyn ei gleddyf noeth yn ei law: Canys, eb efe, ni wn i nad oes rhyw elyn arall ger llaw. Ond ni ruthrodd Apolyon mwyach arno trwy yr holl ddyffryn yma.

Yn awr yn nghwr y dyffryn hwn yr oedd dyffryn arall a elwid Dyffryn Cysgod Angeu; ac yr oedd yn rhaid i Gristion fyned trwyddo, am fod y ffordd i'r ddinas nefol yn myned trwy ei ganol ef. Ond lle anghyfannedd iawn ydyw y lle hwn, megys yr anialwch yr aeth yr Israeliaid gynt trwyddo; *Ier.* ii. 6. Yn awr hi a fu yn waeth ar Cristion yn y dyffryn yma nag yn ei ymdrech âg Apolyon.

Yna mi a welwn, wedi i Gristion ddyfod i gyffiniau Dyffryn Cysgod Angeu, ddau ŵr yn cyfarfod âg ef, meibion i'r rhai a roisant anghlod gynt i Wlad Canaan, yn brysio i fyned yn ol (*Num.* xiii. 32), wrth y rhai y llefarodd Cristion fel hyn.

*Cristion.* I ba le yr ydych chwi yn myned ?

*Gwŷr* .Hwythau a atebasant, Yn ol, yn ol! ac nyni a fynem i chwithau hefyd wneuthur felly, os yw eich einioes neu eich heddwch yn werthfawr genych.

*Cristion.* Pa beth yw y mater ?

*Gwŷr.* Mater? ebe hwy: yr oeddym ni yn myned fel yr ydych chwithau ar hyd y ffordd yma, ac ni a aethom mor bell ag y meiddiem; ac yn wir, pe buasem yn myned ychydig yn mhellach, nid allasem byth ddyfod yn ol, ac ni chlywsit ti byth y newyddion yma o'n geneuau ni.

Eithr pa beth a welsoch ac a glywsoch chwi? Dywedwch wrthyf, ebe Cristion.

*Gwŷr.* Nyni a welsom Ddyffryn Cysgod Angeu; canys ni a ddaethom o fewn ychydig iddo, ac i'r enbydrwydd sydd ynddo; eithr trwy ddamwain dda, nyni a edrychasom o'n blaen, ac a ganfuasom y perygl cyn dyfod iddo; *Salm* xxiii. 4; a cvii. 18. Y mae y dyffryn cyn dywylled a'r pŷg; nyni a welsom yno ellyllon a dreigiau y pwll uffernol, ac a glywsom udo a chwynofain dibaid yn dyfod o'r dyffryn hwnw, megys oddi wrth ddynion yn gorwedd yn rhwym yno mewn heiyrn a thrueni annrhaethadwy. Ac y mae cymylau tew iawn, y rhai a allant daro dychryn mewn pobl, yn crogi uwch ben y dyffryn yma, ac y mae angeu hefyd yn lledu ei adenydd drosto yn wastadol: ac i fod yn fyr, y mae pob mym-

ryn o hono i'w arswydo, gan ei fod yn gwbl wrthyn ac yn ofnadwy.

Er hyn i gyd, ebe Cristion, dyma fy ffordd i tua'r porthladd dymunol.

*Gwŷr.* Bydded hi yn ffordd i ti—ni ddewiswn ni mo honi yn ffordd i ni. Felly hwy a ymadawsant, a Christion a aeth rhagddo; ond yn wastadol â'i gleddyf noeth yn ei law, rhag ofn i neb ruthro arno.

Wedi hyny, mi a welais yn fy mreuddwyd, fod ffos ddofn iawn ar yr holl ystlys ddeheu i'r dyffryn hwn; ac i'r ffos hon y bu y dall yn tywys y dall yn mhob oes, ac ynddi hi y darfu am y ddau mewn modd echrydus; *Mat.* xiv. 15. A thrachefn, wele ar y tu aswy yr oedd cors beryglus iawn—ïe, i'r hon, os syrthiai gŵr da, ni chai un gwaelod caled ynddi i'w draed sefyll arno. Ir gors hòno y syrthiodd y brenin Dafydd unwaith, ac yn ddiammheu fe ddarfuasai am dano yno, oni buasai i'r hwn sydd alluog ei dynu i'r làn; *Salm* lxix. 2, 14.

Yr oedd y llwybr hefyd yn y dyffryn hwn yn gyfyng iawn; ac am hyny y bu yn galed iawn ar Cristion yn y lle yma: o blegid pan y ceisiai efe yn y tywyllwch ochelyd y ffos ar y naill law, fe fyddai yn barod i syrthio drosodd i'r llaid ar y llaw arall; a phan y ceisiai efe hefyd ymgadw rhag y llaid, oni byddai yn dra gofalus, byddai yn barod iawn i syrthio i'r ffos. Ac fel hyn yr oedd yn myned rhagddo, ac mi a'i clywais ef yma yn ocheneidio yn dost; canys heb law y perygl a grybwyllwyd am dano uchod, yr oedd y llwybr mor dywyll, fel na wyddai yn fynych, pan y codai ei droed i fyned yn mlaen, yn mha le, nac ar ba beth, y gosodai efe ef nesaf.

Heb law hyny, yr oedd safn uffern yn nghanol y dyffryn hwn, ac yr oedd hi hefyd yn agos iawn i fin y ffordd; a phan y gwybu Cristion hyny, efe a ddywedodd, Pa beth a wnaf yn awr? Ac yr oedd y fflam, a'r mwg, a'r gwreichion, yn nghyd â gruddfanau, yn dyfod allan yn dra mynych ac yn aml iawn oddi yno. Ac o blegid nad allai Cristion â'i gleddyf wneuthur niwed i'r pethau hyn, fel y gwnaethai o'r blaen i Apolyon, efe a'i dododd yn ei wain, ac a gymmerodd arf arall yn ei law, a elwid "Pob rhyw weddi;" *Eph.* vi. 8. Ac mi a'i clywn ef yn gweddïo, "Atolwg, Arglwydd, gwared fy enaid;" *Salm* cxvi. 4. Ac er myned o hono rhagddo fel hyn dros gryn ennyd, eto, yr oedd y fflam yn ymgyrchu tuag ato yn wastadol; ac efe a glywai hefyd leisiau cwynfanus, a thrwst mawr yma a thraw, megys pe buasai rhai yn nesäu tuag ato, a hyny dros amryw filltiroedd; a'r olwg echrydus, a'r lleisiau ofnadwy yma a wnaeth iddo ofni y cai ei larpio yn ddrylliau, neu ei

sathru fel tom yr heolydd. Ac wedi dyfod i fan lle y tybiai ei fod yn clywed bagad o ellyllon yn dyfod yn mlaen i'w gyfarfod, efe a safodd, ac a ddechreuodd feddwl pa beth oedd oreu iddo wneuthur. Weithiau yr oedd yn ei fryd i droi yn ol; wedi hyny efe a ystyriodd ei fod wedi dyfod yn nghylch hanner y ffordd trwy y dyffryn; ac yn ddiweddaf, efe a feddyliodd ddarfod iddo eisoes orchfygu llawer o beryglon, ac y gallai yr enbydrwydd o fyned yn ol fod yn fwy o lawer nag o fyned yn mlaen; ac ar hyny, efe a ymrôdd i fyned rhagddo. Eithr yr oedd yr ysbrydion drwg yn dyfod yn nes-nes; a phan y daethant o fewn ychydig o ffordd ato, efe a waeddodd â llef uchel iawn, gan ddywedyd, Myfi a rodiaf yn nerth yr Arglwydd Dduw. A chyda hyny, hwy a droisant eu cefnau, ac ni ddaethant yn mhellach.

Fe ddygwyddodd un peth i Cristion, nas gallaf ei adael heb ei adrodd. Mi a ddeliais sylw, ei fod—druan gŵr—trwy y gorthrymderau hyn, megys un agos a gwallgofi, o blegid nid ydoedd yn adnabod ei leferydd ei hun; ac fel hyn y gwybûm i hyny:—Pan y daeth drosodd gyntaf gyferbyn a safn y llyn sydd yn llosgi â thân a brwmstan, daeth un o'r ysbrydion drwg y tu cefn iddo, ac a nesaodd ato yn araf, ac a wthiodd lawer o gableddau blin i'w enaid, y rhai y tybiai Cristion mai allan o'i galon ei hun yr oeddynt yn dyfod. A gwasgodd hyn arno yn fwy na dim arall a ddygwyddodd iddo; sef y meddwl iddo yn awr gablu yr hwn yr oedd efe yn ei fawr garu yn yr amser gynt: eto, yr oedd yn ystyried, pe gallasai beidio, na wnaethai mo hyny. Ond nid oedd ganddo ef mo'r ddoethineb yn awr, nac i gau ei glustiau, nac i ddirnad o ba le yr oedd y cableddau hyny yn deilliaw.

Wedi i Cristion ymdeithio cryn ennyd yn y cyflwr anghysurus hwn, efe a glywodd leferydd rhyw ŵr, yr hwn oedd yn myned o'i flaen, yn dywedyd fel hyn:—"Pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angeu, nid ofnaf niwed, canys yr wyt ti gyda mi;" *Salm* xxiii. 4. Yna efe a gymmerodd galon a chysur, a hyny o herwydd y rhesymau a ganlyn:—

Yn gyntaf, Am ei fod yn casglu oddi wrth hyny, fod y rhai oeddynt yn ofni Duw, yn ymdeithio yn y dyffryn hwn yn gystal ag ef ei hun.

Yn ail, Am ei fod yn deall fod Duw gyda hwynt (er eu bod mewn tywyllwch a chyflwr anghysurus dros yr amser presennol); Ac onid yw efe gyda minnau hefyd, ebe Cristion, er nad wyf fi yn ei weled, o achos y rhwystrau sydd yn nglŷn *wrth y lle yma?*

*Yn drydydd,* Am ei fod yn gobeithio, os gallai eu gorddiwes *hwy, y cai* efe gyfeillion yn mhen ennyd. Felly ef

a aeth rhagddo, ac a alwodd ar yr hwn oedd yn myned o'i flaen ef; ond ni wyddai hwnw pa beth a atebai, am ei fod yntau hefyd yn tybied ei fod wrtho ei hun. A gwawriodd y dydd yn mhen ychydig wedi hyny; yna y dywedodd Cristion, "Duw a drodd gysgod angeu yn foreu ddydd;" *Amos* v. 8.

A phan ddaeth y boreu, efe a edrychodd yn ol; eithr nid o chwant dychwelyd, ond i weled wrth liw dydd y peryglon yr aethai efe trwyddynt yn y tywyllwch: ac wele, efe a ganfu yn eglurach y ffos oedd ar y naill law, a'r gors oedd ar y llaw arall, ac hefyd gyfynged oedd y ffordd yr hon sydd yn arwain rhyngddynt trwy y dyffryn; efe a welodd hefyd yn awr yr ysbrydion drwg, a dreigiau y pwll diwaelod, ond oll o hirbell, canys ni ddeuent hwy yn agos wedi i'r dydd wawrio; eto hwy a amlygwyd iddo ef yn ol yr hyn a ysgrifenwyd— "Duw sydd yn dadguddio pethau dyfnion allan o dywyllwch, ac yn dwyn cysgod angeu allan i oleuni;" *Iob* xii. 22.

Yn awr, yr oedd yn dda gan Cristion gael o hono ei waredu oddi wrth holl beryglon ei ffordd anial; pa rai, er ei fod yn eu hofni yn fwy o'r blaen, eto yr oedd yn eu gweled yn eglurach yn awr, am fod goleuni y dydd yn eu gwneuthur yn amlwg iddo. Ac yn nghylch y pryd hyn y codasai yr haul—ac yr oedd hyn yn drugaredd arall i Cristion—canys rhaid i chwi wybod, er bod y rhan gyntaf o ddyffryn cysgod angeu yn enbyd, eto, yr oedd yr ail ran, i'r hon yr oedd efe yn myned yn awr (pe byddai bosibl), yn fwy enbyd o lawer; canys o'r man yr oedd efe yn sefyll arno yr awr hon, hyd at gwr eithaf y dyffryn, yr oedd yr holl ffordd cyn llawned (mewn rhai lleoedd) o faglau, o gynllwynion i dwyllo, ac o rwydau—ac mewn lleoedd ereill, cyn llawned o byllau, a thyllau dyfnion, ac o fanau yn pwyso tuag i waered—fel, pe buasai hi yn dywyll yn awr, megys yr oedd hi pan y daethai trwy y rhan gyntaf o'r ffordd, pe buasai ganddo fil o eneidiau (yn ngolwg rheswm) fe'u collasai hwynt oll. Ond yr oedd yr haul, fel y dywedais, yn awr yn codi—yna y dywedodd Cristion, "Duw a wnaeth i'w oleuni lewyrchu ar fy mhen, wrth oleuni yr hwn yr aethum trwy dywyllwch;" *Iob* xxix. 3. Ac wrth y goleuni hwn y daeth efe i gwr eithaf y dyffryn.

Wedi hyny mi a welais yn fy mreuddwyd, ac wele yn y man eithaf o'r dyffryn yma, yr oedd gwaed, esgyrn, lludw, ac aelodau cyrff rhyw ddynion, ïe pererinion (y rhai a aethant y ffordd yma gynt), yn gorwedd ar wyneb y ddaiar: a thra yr oeddwn i yn meddwl pa beth a allai fod yr achos o hyn, mi a ganfûm ogof ychydig o'm blaen, lle y buasai dau gawr yn trigo yn yr hen amser, trwy awdurdod a chreulondeb

pa rai y rhoddwyd y dynion hyny i farwolaeth boenus. Eithr Cristion a aeth heibio i'r lle hwn heb fawr o berygl, yr hyn oedd yn radd o syndod i mi; ond daethum i wybod wedi hyny, fod un o'r cawri, sef y Pagan, wedi marw er ys talm—ac am y llall, sef Mab y golledigaeth, er ei fod eto yn fyw, y mae er hyny, o achos ei henaint a'r amryw friwiau a gafodd o bryd i bryd, mor fethiantus, ac mor anystwyth yn ei gymmalau, fel na ddichon yn awr wneuthur nemawr, heb law eistedd yn ngenau ei ogof, gan chwyrnu ar y pererinion pan yn myned heibio, a chnoi ei ewinedd, am nad yw yn gallu dyfod atynt hwy; 2 *Thes.* ii. 3.

Yna mi a welwn Cristion yn myned ar hyd ei ffordd; ond wrth ganfod yr hen ŵr oedd yn eistedd yn ngenau yr ogof, ni wyddai pa beth i dybied, yn enwedig am ei fod yn llefaru wrtho (er na allai ddyfod ar ei ol ef), gan ddywedyd, Ni pheidiwch chwi byth, ac ni wellhewch, hyd oni losgir rhagor o honoch. Ond efe a dawodd a son, ac a edrychodd arno gydag wynebpryd gwrol; ac felly efe a aeth heibio, ac ni chafodd ddim niwed oddi wrtho. Yna y canodd Cristion fel hyn:—

Nid allaf ddwedyd llai â'm genau,
Na, cryn fyd o ryfeddodau
Oedd fy achub, a'm gwaredu,
Trwy 'r gofidiau a'm cyfarfu.
Tra bum yn y dyffryn yma,
Trwch dywyllwch o'r enbeitta,
Diawliaid, uffern, pechod gwrthun,
A'm cylchynent bob mynydyn—
Pyllau, rhwydau, a chroglathau,
Oedd yn llawn o bob tu'm llwybrau;
Ys truan mulaidd!—fe allesid
Dal a maglu f' enaid hefyd.
O! bendigaid byth heb derfyn,
A fo 'r llaw a'm cadwodd rhagddyn';
A chan fy mod yn fyw yr awr'on,
Boed i'r Iesu wisgo 'r goron.

Ac fel yr oedd Cristion yn myned rhagddo, efe a ddaeth i esgynfa fechan, yr hon a godasid i'r dyben o alluogi pererinion i ganfod o'u blaen; ac wedi dyfod i fyny yno, ac edrych rhagddo, efe a ganfu Ffyddlawn o'i flaen ar ei daith. Yna Cristion a waeddodd â llef uchel—Hai! Hai! Hai-how!—aroswch, a mi a fyddaf yn gydymaith i chwi! Ar hyny Ffyddlawn a edrychodd yn ei ol, a gwaeddodd Cristion arno drachefn, gan ddywedyd, Aroswch, aroswch, hyd oni ddelwyf i fyny atoch! ond Ffyddlawn a atebodd, Na wnaf—yr wyf *yn rhedeg am fy* mywyd, ac y mae dialydd y gwaed yn fy *nilyn. A Christion* a gyffrowyd ychydig ar hyn, a chan ym-

egnïo â'i holl nerth, efe a oddiweddodd Ffyddlawn yn ebrwydd, ac a redodd hefyd yn gynt nag ef—felly yr olaf a fu y blaenaf. Yna y chwarddodd Cristion yn wagogoneddgar, o olegid iddo gael y blaen ar ei frawd; eithr heb wylio yn dda ar ei draed, efe a dramgwyddodd yn ddisymmwth, ac a syrthiodd; ac nis gallai gyfodi drachefn, hyd oni ddaeth Ffyddlawn i fyny i'w gynnorthwyo.

Yna mi a'u gwelwn hwy yn myned yn nghyd yn garedig, gan ymddyddan yn hyfryd â'u gilydd am yr holl bethau a ddygwyddasai iddynt ar eu pererindod; a Christion a ddechreuodd fel hyn:—

*Cristion.* Fy anwyl frawd, Ffyddlawn, y mae yn llawen genyf i mi eich goddiweddyd, a bod Duw wedi cyd-dymmeru ein hysbrydoedd yn y fath fodd, fel y gallem rodio yn nghyd megys cymdeithion yn y llwybr yma, yr hwn sydd mor hyfryd.

*Ffyddlawn.* Gyfaill anwyl! myfi a obeithiais gael eich cymdeithas o'n tref ni o hyd; eithr chwi a gawsoch y blaen arnaf; ac am hyny, fe orfu i mi ddyfod hyd yma wrthyf fy hunan.

*Cristion.* Pa hyd yr arosasoch yn Ninas Distryw, cyn dyfod ar fy ol i ar eich pererindod?

*Ffydd.* Hyd nad allwn aros ddim yn hwy; canys yr oedd yno son mawr yn y man, wedi i chwi ymadael â ni, y byddai i'n dinas, ar fyrder, gael ei llosgi â thân o'r nefoedd, hyd y llawr.

*Cristion.* A oedd eich cymmydogion yn siarad felly? Ac a ddaeth neb o honynt allan o'r ddinas heb law chwi, i ddianc rhag y perygl yma?

*Ffydd.* Er bod yno, ac oddi amgylch mewn lleoedd ereill, son mawr y dyfethid ein dinas ni â thân a brwmstan oddi uchod; eto, nid wyf yn tybied fod ein dinasyddion yn credu hyny yn ddiymmod: canys clywais rai o honynt (pan yr oeddid yn ymddyddan fwyaf am y mater hwn) yn siarad yn watwarus am danoch chwi a'ch taith ryfygus (canys felly y galwasant eich pererindod chwi); eithr yr oeddwn i, ac yr wyf byth yn credu, mai felly y dyfethir ein dinas ni; ac am hyny myfi a ddiengais allan o honi.

*Cristion.* A glywsoch chwi ddim son am fy nghymmydog Meddal? Ac os do, pa fodd yr oedd pobl yn ymddwyn eu hunain tuag ato?

*Ffydd.* Myfi a glywais iddo eich canlyn chwi, hyd oni ddaeth i Gors Anobaith, yn yr hon y syrthiodd, meddai rhai; ond ni *fynai ef i neb* wybod hyny: ond mi a wn ei fod ef *wedi ei ddifwyno yn* ddirfawr â thòm y gors hòno. Ac wedi

iddo ddychwelyd yn ol, y mae pob math o bobl yn ei watwar ac yn ei ddirmygu; a phrin y gesyd neb ef ar waith, ac y mae yn awr yn saith gwaeth nag y bu erioed o'r blaen.

*Cristion.* Eithr pa ham y maent wedi ymosod yn ei erbyn ef felly, gan eu bod hwythau hefyd yn dibrisio y ffordd y trodd efe oddi arni?

*Ffydd.* Ow! meddant hwy! crogwch ef, crogwch ef, *Turn-coat* yw: ni bu gywir i'w broffes. Ië, yr wyf yn tybied fod gelynion Duw wedi eu gosod ar waith i'w hwtio ef, ac i'w wneuthur yn ddiareb, am iddo gilio allan o'r ffordd, a dychwelyd yn ol i Ddinas Distryw; *Ier.* xxix. 18, 19.

*Cristion.* A fu dim ymddyddan rhyngoch âg ef cyn eich dyfod oddi cartref?

*Ffydd.* Myfi a gyfarfûm âg ef unwaith yn yr heol; ond ciliodd ymaith i ystlys arall yr heol, fel un â chywilydd arno am yr hyn a wnaethai: felly nid yngenais air wrtho.

*Cristion.* Pan y dechreuais fy nhaith, yr oeddwn yn gobeithio yn dda am y gŵr hwnw; ond yn awr, yr wyf yn ofni y derfydd am dano yn nistryw y ddinas.

Yr wyf finnau yn ofni hyny, ebe Ffyddlawn; ond pwy a all rwystro yr hyn a fydd, canys dygwyddodd iddo yn ol y wir ddiareb, "Y ci a ymchwelodd at ei chwydiad ei hun, a'r hwch wedi ei golchi i'w hymdreiglfa yn y dom;" 2 *Pedr* ii. 22.

Eithr, gymmydog Ffyddlawn, ebe Cristion, gan adael Meddal, siaradwn am y materion a berthyn i ni ein hunain yn fwy arbenig. Mynegwch i mi, gan hyny, pa bethau a ddygwyddasant i chwi ar y ffordd wrth ddyfod; canys myfi a wn i chwi gyfarfod â rhyw ddrygau; os amgen, gellir ysgrifenu hyny fel rhyfeddod.

*Ffydd.* Mi a ymgedwais rhag y gors, i'r hon y syrthiasoch chwi, ac a ddaethum i fyny i'r porth, heb gael prawf o'r perygl hwnw: ond cyfarfûm âg un a elwid Trythyll, yr hon a fu debyg i wneuthur i mi niwed.

*Cristion.* Bu yn dda i chwi ddianc rhag ei rhwyd hi; y fath un a hòno a fu galed iawn i Joseph, ond yntau a ddiangodd rhagddi, er y bu agos iddo ef a cholli ei fywyd o'i phlegid; *Gen.* xxxix. 11—13. Ond beth a wnaeth hi i chwi?

*Ffydd.* Chwi a ryfeddech (oni bai eich bod yn gwybod rhyw beth) y fath dafod wenieithus oedd ganddi: bu yn galed wrthyf gan geisio genyf ŵyro gyda hi, gan addaw i mi bob math o foddlonrwydd cnawdol; ond nid y boddlonrwydd sydd yn tarddu o gydwybod dda.

*Cristion.* Diolchwch i'r Duw a'ch cadwodd rhagddi. *Y neb y byddo yr* Arglwydd yn ddig wrtho, a syrth yn y ffos *hòno; Diar.* xxii. 14.

*Ffydd.* Nag e: nis gwn pa un a wnaethum, ai dianc yn gwbl oddi wrthi ai peidio.

*Cristion.* Ow! yr wyf yn gobeithio na roddasoch le i'w themtasiynau?

*Ffydd.* Naddo; i halogi fy hun yn gorfforol gyda hi: canys yr oeddwn yn cofio hen ysgrifen a welais, yr hon oedd yn dywedyd, "Ei thraed hi a ddisgynant i angeu, a'i cherddediad a sang uffern;" *Diar.* v. 5. Am hyny, cauais fy llygaid rhag ofn cael fy llygad-dynu gan ei golygon hi; *Iob* xxxi. 2. Yna hi a'm difenwodd, a minnau a aethum i'm ffordd.

*Cristion.* A gyfarfuoch chwi âg un brofedigaeth arall wrth ddyfod tuag yma?

*Ffydd.* Wedi i mi ddyfod i odrau y bryn, a elwid Anhawsdra, cyfarfûm â gŵr oedranus iawn, yr hwn a ofynodd i mi pwy oeddwn, ac i ba le yr oeddwn yn myned? A minnau a'i hatebais, mai pererin oeddwn, yn myned tua'r Ddinas Nefol. Yna, ebe yr hen ŵr, Yr wyt ti yn edrych fel dyn gonest; a fyddi di foddlawn i aros gyda mi: os gwnei felly, rhoddaf i ti gyflog. Yna, gofynais iddo ei enw, a pha le yr ydoedd yn byw? Yntau a'm hatebodd, mai ei enw oedd Adda y cyntaf, a'i fod yn preswylio yn y dref a elwid Twyll; *Eph.* iv. 22; *Ier.* xvii. 9. Wedi hyny, gofynais iddo, pa beth oedd ei waith, a pha faint o gyflog a roddai? Yntau a'm hatebodd, mai dilyn pleserau oedd ei waith ef: ac yn lle cyflog, y cawn fod yn etifedd iddo yn y diwedd. Gofynais iddo yn mhellach, pa fath dŷ ydoedd yn ei gadw, a pha weision ereill oedd ganddo? Ac efe a'm hatebodd, fod yn ei dŷ ef holl ddanteithion y byd hwn, ac mai rhai a genedlasai ef ei hun oedd ei weision. Yna y gofynais, pa faint o blant oedd ganddo? A dywedodd yntau wrthyf, nad oedd ganddo ond tair o ferched; sef, Chwant y cnawd, Chwant y llygad,[1] a Balchder y bywyd; ac y cawn briodi un o honynt, os mynwn; 1 *Ioan* ii. 16. Yna y gofynais iddo, pa hyd y mynai i mi fyw gydag ef? Ac yntau a'm hatebodd, cyhyd o amser ag y byddai byw ei hun.

Wedi clywed hyn, yr oeddwn ar y cyntaf yn gogwyddo peth i fyned gyda yr hen ŵr, canys yr oedd yn dywedyd yn deg iawn; ond wrth edrych yn ei dalcen, gwelwn yno yn ysgrifenedig, "Dod heibio yr hen ddyn a'i weithredoedd;" *Eph.* iv. 22; *Rhuf.* xiii. 12.

Yna yr oedd hyn yn rhedeg yn fy meddwl — er mor deg ydoedd ei eiriau, y gwerthai ef yn lle caethwas, os awn i'w dŷ i gyfanneddu: ac am hyny, erchais iddo dewi a son,

[1] *Chwant ar ol swyddau a gogoniant daiarol, yr hyn sydd yn gwneuthur dynion yn falch.*

o blegid na ddeuwn yn agos i ddrws ei dŷ. Ar hyny, efe am difenwodd, ac a ddywedodd wrthyf, y danfonai y cyfryw un ar fy ol ag a wnai fy ffordd yn chwerw i'm henaid. Yna tröais i ymadael âg ef;[1] ond pan gyntaf yr ymdroais i fyned oddi yno, clywn ef yn ymaflyd ynof, ac yn rhoddi i mi y fath dynfa greulawn, gyda bwriad i'm tynu yn ol, hyd oni thybiais iddo gipio ymaith ran o'm cnawd: a gwnaeth hyn i mi waeddi allan, "Ys truan o ddyn ydwyf fi!" *Rhuf.* vii. 24. Ar ol hyny, aethum ar hyd fy ffordd tua phen y bryn; ac wedi i mi fyned yn nghylch hanner y ffordd i fyny, edrychais drach fy nghefn, ac a welwn un yn dyfod ar fy ol yn chwimmwth fel y gwynt; ac efe a'm goddiweddodd yn gymhwys yn nghylch y fan lle yr oedd llwyn wedi ei blanu. A chyn gynted ag y darfu iddo fy ngorddiwes, nid oedd ei driniaeth o honof ond gair a dyrnod; canys fe'm curodd i lawr, ac am gosododd i orwedd ar y ddaiar fel dyn marw: ond pan ddaethum ychydig ataf fy hun drachefn, gofynais iddo, Pa ham y gwnaethai felly â mi? Yntau a ddywedodd, o achos fy ngogwyddiad dirgel at Adda y cyntaf.[2] Gyda hyny, rhoddodd i mi ddyrnod angeuol arall yn fy nwyfron, ac a'm bwriodd i lawr ar fy ngefn: felly, gorweddais i lawr wrth ei draed fel dyn marw, megys o'r blaen: a phan adfywiais eilwaith, llefais arno am drugaredd: eithr efe a'm hatebodd, nas medrai ddangos trugaredd; ac ar hyny, fe'm curodd i lawr drachefn: ac yn ddiammheu efe a'm lladdasai, oni buasai i un ddyfod heibio ac erchi iddo beidio.

*Cristion.* Pwy oedd yr hwn a archodd iddo beidio?

*Ffydd.* Ni adwaenwn mo hono ar y cyntaf; ond pan yr aethum heibio iddo, canfûm dyllau yn ei ddwylaw ac yn ei ystlys ef: yna y gwybûm mai ein Harglwydd ydoedd. Felly aethum i ben y bryn.

*Cristion.* Y gŵr hwnw a'ch goddiweddodd oedd Moses. Nid yw efe yn arbed neb, ac nis gall ddangos trugaredd i'r rhai a droseddant ei gyfraith.

*Ffydd.* Mi a'i hadwaen yn ddigon da; nid y pryd hyny y cyfarfu â mi gyntaf. Efe oedd yr hwn a ddaeth ataf pan yr oeddwn yn byw yn ddiofal gartref, ac a ddywedodd wrthyf, y llosgai fy nhŷ am fy mhen os aroswn yno.[3]

[1] Y mae yr hen natur lygredig yn ymosod yn arw weithiau ar y duwiolaf.

[2] I wrandaw ar brofedigaethau y cnawd, neu natur lygredig. Y mae y gyfraith yn taro pobl i lawr â'i hargyhoeddiadau, ac â'i *bygythion.*

[3] *Nid oes dim* ond damnedigaeth i ni ddysgwyl am dano am *droseddu y ddeddf,* nes cael maddeuant pechodau trwy Iesu Grist.

*Cristion.* Eithr oni welsoch chwi y tŷ oedd ar ben y bryn, yn agos i'r lle y cyfarfu Moses â chwi?

*Ffydd.* Do, a'r llewod hefyd: ond i'm tyb i yr oeddynt yn cysgu; canys yn nghylch hanner dydd ydoedd: ac am fod genyf gymmaint o'r dydd o'm blaen, aethym heibio i'r porthor, a daethym i waered o'r bryn.

*Cristion.* Yn wir efe a ddywedodd i mi, iddo eich gweled chwi yn myned heibio; ond buasai yn dda genyf pe galwasech wrth y tŷ; canys hwy a ddangosasent i chwi gynnifer o bethau rhyfedd, fel prin yr anghofiasech hwynt yn eich bywyd. Ond atolwg, a welsoch chwi neb yn Nyffryn Darostyngiad?

*Ffydd.* Do: cyfarfûm â gŵr a elwid Anfoddlonrwydd, yr hwn a fynai fy mherswadio i ddychwelyd yn ol drachefn gydag ef, am y rheswm hwn—sef o blegid nad oedd dim anrhydedd i'w gael yn y dyffryn hwnw: ac heb law hyny, ebe fe, Os byddwch chwi mor ffol a myned y ffordd hòno, chwi a ddigiwch eich holl gyfeillion; megys, Balchder, Uchder, Hunan-dyb, Gogoniant bydol, gyda llawer ereill: y rhai, fel ag y gwyddai ef, a fawr anfoddlonent wrthyf, os gwnawn fy hun mor ffol a theithio trwy y dyffryn hwnw.

*Cristion.* Pa fodd yr atebasoch ef?

*Ffydd.* Mi a'i hatebais ef, y gallai y rhai oll a enwasai, fy arddel o ran carenydd (canys fy ngheraint oeddynt yn ol y cnawd); ond eto, pan yr aethym yn bererin, hwy a'm diarddelasant, a minnau a'u gwrthodais hwythau; ac am hyny y dywedais, nad oeddynt yn awr ddim mwy i mi na phe buasent erioed heb fod o'm cenedl: ac heb law hyny, mi a ddywedais wrtho, iddo lwyr gamddysgrifio y dyffryn yma; canys o flaen anrhydedd yr ä gostyngeiddrwydd, ond balchder sydd yn myned o flaen dinystr, ac uchder ysbryd o flaen cwymp. Ac am hyny, meddwn, gwell genyf fyned trwy y dyffryn yma i feddiannu y peth y mae y doethaf yn ei gyfrif yn anrhydedd, na dewis yr hyn yr wyt ti yn ei gyfrif yn deilwng o'm serchiadau; *Diar.* xv. 33; xvi. 18.

*Cristion.* A gyfarfuoch â neb arall yn y dyffryn hwnw?

*Ffydd.* Do: cyfarfyddais âg un a elwir Cywilydd; ond o bawb a gyfarfûm yn fy mhererindod, yr wyf yn meddwl ei fod ef yn cael ei gam enwi fwyaf. Fe dawai y llall, wedi ychydig o ymresymu âg ef, a rhyw beth arall; ond ni thawai y Cywilydd wyneb-bres hwn byth.

*Cristion.* Pa beth a ddywedodd wrthych?

*Ffydd.* Beth? Llefarodd lawer hyd yn oed yn erbyn crefydd; gan ddywedyd, mai peth gwael iawn ydoedd i ddyn feddwl am grefydd, ac nad oedd cydwybod dyner ond peth anwraidd;

ac nad oedd dyn wrth wylio ar ei eiriau a'i weithredoedd (fel y byddo dan rwymedigaeth i ymgadw oddi wrth y rhyddid gwrol y mae gwŷr beilchion y byd presennol yn ymarfer âg ef) ond gosod ei hun yn nod i bob dirmyg. Dywedodd hefyd, nad oedd nemawr o'r rhai galluog, o'r cyfoethogion, a'r doethion, o'r un feddwl a mi; ac nad oedd neb o honynt ychwaith o'm barn i, nes eu denu yn gyntaf i fod yn ffol, trwy anturio yn ewyllysgar i golli y cwbl a feddant, er meddiannu nis gŵyr neb pa beth; 1 *Cor.* i. 26; iii. 19; *Phil.* iii. 8. Heb law hyny, efe a osododd ger fy mron gyflwr isel a dirmygus y rhai oeddynt yn fwy enwedigol yn bererinion yn mhob oes. Ac edliwiodd i mi, hefyd, eu hanwybodaeth a'u hannealldwriaeth hwy yn mhob math o ddysgeidiaeth naturiol; *Ioan* vii. 48, 49. Ië, efe a ddywedodd yn mhellach, mai mater o gywilydd ydoedd fod neb yn wylo ac yn galaru dan bregethiad y gair, gan ddyfod, wedi hyny, oddi yno dan ocheneidio a griddfan; ac mai cywilydd oedd ceisio maddeuant gan gymmydogion am feiau bychain, a thalu adref yr hyn a ladratäwyd neu a gamattaliwyd oddi wrth neb. Dywedodd hefyd, fod crefydd yn peri i ddyn ymddyeithro oddi wrth y gwŷr mawr, o blegid ychydig o feiau, (i'r rhai, er eu bod yn feiau anafus, y rhoddes efe enwau teg); a dywedodd hefyd fod crefydd yn peri i rai arddel dynion tlodion a gwael, am eu bod o'r un frawdoliaeth grefyddol a hwythau. Ac onid yw hyn, ebe fe, yn gywilydd mawr?

*Cristion.* Pa beth a ddywedasoch chwithau wrtho?

*Ffydd.* Dywedyd? nis gwyddwn pa beth i'w ddywedyd ar y cyntaf; ïe, efe a'm cyffrôdd yn y fath fodd, fel y cododd fy ngwaed yn fy wyneb ar unwaith, a braidd na'm gorchfygwyd trwy y pethau a adroddodd y dyn digywilydd hwn wrthyf. Ond o'r diwedd mi a ystyriais, fod yr hyn sydd uchel gyda dynion yn ffiaidd ger bron Duw. Ac mi a feddyliais drachefn, fod y dyn digywilydd hwn, a fynai beri cywilydd ynof, er fy attal, trwy hyny, rhag myned yn mlaen gyda chrefydd—mi a feddyliais, meddaf, fod y dyn hwn yn mynegu i mi pa beth yw dynion, ond nad oedd yn dywedyd dim wrthyf pa beth oedd Duw, na ei air. Ac ystyriais, heb law hyny, na fernir ni yn nydd y farn i farwolaeth neu fywyd, wrth farn ysbryd gwrolwych y byd, ond yn ol doethineb a chyfraith y Goruchaf. Am hyny, meddwn, yr hwn y mae Duw yn ei ddywedyd ei fod yn oreu, sydd oreu yn wir, er fod holl ddynion y byd yn ei erbyn. Yn awr, gan fod *Duw yn gwneuthur* gwell cyfrif o'r grefydd a appwyntiodd *efe ei hun, ac o* gydwybod dyner, nag yr wyt ti yn ei wneuth*ur o honynt, O!* ddyn digywilydd!—a chan fod y rhai sydd

wneuthur eu hunain yn ffyliaid, er mwyn teyrnas nef-
, yn ddoethach na neb arall yn marn yr Arglwydd—a
fod y gŵr tlawd sydd yn caru Crist, yn gyfoethocach
gŵr mwyaf yn y byd sydd yn ei gasàu—dos ymaith,
ıyny, O! ddyn digywilydd! oddi wrthyf—canys gelyn
'm iachawdwriaeth! A wrandawaf arnat ti, a bod yn
wyneb i'm goruchaf Arglwydd? Os felly y gwnaf, pa
yr edrychaf yn ei wyneb yn ei ddyfodiad? A gywil-
ıf yn awr o herwydd ei ffyrdd a'i weision ef? Os felly
naf, pa fodd y gallaf ddysgwyl am ei fendith? *Marc*
34; *Mat.* x. 32. A braidd y gellais, â'r ymadroddion
yru ymaith o'm cyfeillach y dyhiryn digywilydd hwn, a
weithio cywilydd ynof, i ymwrthod â Duw, a'i ffyrdd,
obl. Ië, yr oedd yn sibrwd yn fy nghlustiau yn dra
'ch amryw o bethau, yn mha rai yr oedd pobl grefyddol
'ddangos llawer o wendid; ond o'r diwedd, mi a ddy-
is wrtho, na fyddai ei drafferth yn y gorchwyl hwn rhag
ond gwaith ofer; canys yn y pethau, meddwn, yr ydych
yn eu diystyru, yr wyf fi yn gweled y gogoniant mwyaf.
'edi gyru y dyn taer hwn ymaith, a chael gwared o hono,
genais fel hyn:—

**Y temtasiynau sy'n cyfarfod**
**Pawb sy'n teithio, mewn ufudd-dod**
**I'r wir alwad nefol hyfryd,**
**Y'nt yn aml ac yn enbyd,**
**Wedi eu trefnu a'u gweddeiddio,**
**I'n drwg natur sydd yn effro:**
**Deuant am ein penau beunydd,**
**Deuant, deuant, fyth o newydd.**
**Fel y gallom yn aflawen,**
**Naill ai 'n awr, ai rhywbryd amgen,**
**Trwyddynt gael ein dal a'n gorfod,**
**Ac o'u plegid cael ein gwrthod.**
**O! gan hyny! nac anghofied**
**Pererinion fod yn gwylied,**
**I wrth'nebu twyll drwg ddynion,**
**Cyn wroled ag y gallon'.**

*istion.* Y mae yn dda genyf, fy mrawd, i ti wrthsefyll y
hwnw mor wrol. O bawb, fel y dywedaist, yr wyf yn
wl ei fod yn cael ei gam enwi; o herwydd y mae yn
ddigon i'n dilyn yn yr heolydd, gan amcanu gwneyd
ydd i ni ger bron pawb: hyny yw, gwneuthur i ni gy-
dio o herwydd yr hyn sydd dda. Ac oni buasai ei fod
n yn ddigywilydd, ni buasai byth yn amcanu gwneuthur
mae. Ond gadewch i ni ei wrthwynebu yn wastadol;
er ei holl wroldeb, nid yw yn dyrchafu neb ond ffyliaid.
›ethion a etifeddant anrhydedd," medd Solomon,
rth fydd dyrchafiad ffyliaid;" *Diar.* iii. 35.

*Ffydd.* Y mae yn rhaid i ni weddïo yn erbyn y Cywilydd slafaidd yma, ar yr hwn sydd am i ni fod yn wrol dros y gwirionedd ar y ddaiar.

*Cristion.* Yr ydych yn dywedyd y gwir: ond a gyfarfuoch chwi â neb arall yn y dyffryn hwnw?

*Ffydd.* Naddo; canys yr oedd yr haul yn llewyrchu arnaf yn yr holl ran arall o'r ffordd, trwyddo, ac hefyd trwy Ddyffryn Cysgod Angeu.

*Cristion.* Yr oedd hyny yn dda i chwi: yr wyf yn sicr nad felly y bu gyda mi; canys mor fuan, bron, ag y daethym i'r dyffryn hwnw, bu brwydr hir ac ofnadwy rhyngof a'r ellyll aflan hwnw, Apolyon; ïe, meddyliais yn wir y buasai yn fy lladd, yn enwedig pan y cafodd fi i lawr, ac y gwasgodd fi dano fel pe buasai am fy llethu yn ddarnau mân; canys fel y taflodd efe fi i lawr, syrthiodd fy nghleddyf o'm llaw: ïe, efe a ddywedodd wrthyf, ei fod yn sicr o honof; ond llefais ar Dduw, ac efe a'm gwaredodd o'm holl drallodau. Yna aethym i Ddyffryn Cysgod Angeu, ac ni chefais ddim goleuni dros agos hanner y ffordd drwyddo. Meddyliais y cawswn fy lladd yno drachefn a thrachefn; ond o'r diwedd, gwawriodd y dydd, a chyfododd yr haul, ac aethym trwy yr hyn oedd yn ol o'r ffordd yn llawer tawelach ac esmwythach.

Hefyd, gwelais yn fy mreuddwyd, fel ag yr oeddwn yn myned yn y blaen, dygwyddodd i Ffyddlawn edrych ar y naill du, ac efe a welai ŵr a elwir Chwedleugar yn rhodio yn mhell oddi wrthynt—canys nid oedd yn y fan hòno ddigon o le iddynt gyd-deithio). Yr oedd yn ŵr mawr o gorffolaeth, ac yn decach yr olwg arno o bell nag o agos: a gofynodd Ffyddlawn iddo, Y cyfaill! i ba le yr ewch chwi? a ydych yn teithio tua 'r wlad nefol?

*Chwed.* Yr wyf yn myned tua 'r wlad hòno.

*Ffydd.* Os felly, yr wyf yn gobeithio cael eich cyfeillach?

*Chwed.* Byddaf o ewyllys calon yn gydymaith i chwi.

*Ffydd.* Awn yn nghyd, gan hyny, a threuliwn ein hamser mewn ymddyddanion yn nghylch rhyw bethau buddiol.

*Chwed.* Y mae yn dda iawn genyf siarad â chwi, ac â phawb ereill, am bethau da; ac yr wyf yn llawenychu i mi gyfarfod â rhai sydd yn tueddu i chwedleua am faterion crefyddol; canys, i ddywedyd y gwir wrthych, nid oes nemawr yn gofalu am dreulio eu hamser fel hyn wrth ymdeithio, ond dewisant yn hytrach o lawer ymddyddan am bethau anfuddiol: a bu hyn yn flinder i mi.

*Ffydd. Y mae hyny yn beth i alaru o'i blegid; canys y mae pethau Duw yn haeddu i ni siarad am danynt yma ar y ddaiar o flaen dim arall.*

*Chwed.* Yr wyf yn hoff iawn o honoch; canys y mae eich ymadroddion yn llawn o reswm da: ac ychwanegaf hyn, Pa beth sydd mor hyfryd, ac mor fuddiol, âg ymddyddanion am bethau Duw?

Pa beth sydd mor hyfryd?—ïe, os ydyw dyn yn cymmeryd dim hyfrydwch mewn pethau rhyfeddol—er esampl, os bydd yn hyfryd gan ddyn ymddyddan am ystori, neu ddirgeledigaethau mawrion; neu, os bydd dyn yn caru ymddyddan am wyrthiau, rhyfeddodau, neu arwyddion; yn mha le y caiff y pethau hyn wedi eu coffâu mor hyfryd, ac wedi eu hysgrifenu mor drefnus ag yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd.

*Ffydd.* Gwir yw; eto, wrth siarad yn nghylch y fath bethau da, ein dyben a ddylai fod i dderbyn llesâd i'n eneidiau drwy y cyfryw ymddyddanion.

*Chwed.* Dyna yr hyn a ddywedais; canys y mae ymddyddanion yn nghylch pethau Duw yn dra buddiol; o blegid trwy hyny fe ddichon dyn ddyfod i wybod llawer yn nghylch pethau daiarol, ac yn nghylch godidogrwydd pethau nefol. Ond, yn fwy neillduol, oddi wrth hyn y gall dyn ddysgu mor angenrheidiol yw ailenedigaeth—mor annigonol yw ein gweithredoedd goreu i haeddu bywyd tragwyddol—a pha fath angen sydd arnom am gyfiawnder Iesu Grist i guddio ein noethni ysbrydol. Heb law hyny, trwy hyn y dichon dyn ddysgu pa beth yw edifarhau, credu, gweddïo, dyoddef dros Grist, a chyffelyb bethau ereill—trwy hyn y dichon dyn ddysgu pa beth yw sylwedd a natur addewidion mawr a chysuron yr efengyl, er cysur i'w enaid ei hun—a pha fodd hefyd i ymgadw rhag gau opiniynau, ac i amddiffyn y gwirionedd, ac i roddi addysg i'r anwybodus.

*Ffydd.* Y mae hyn oll yn wir; ac y mae yn llawen genyf glywed y pethau hyn oddi wrthych chwi.

*Chwed.* Och! esgeulusdra pobl i ymddyddan am y cyfryw faterion, ydyw yr achos fod cyn lleied yn gweled yr angenrheidrwydd am ffydd, ac am waith gras yn eu heneidiau, i'w cymhwyso i fwynhau bywyd tragwyddol. Ac o eisieu chwedleua am y fath bethau a hyn, y mae pobl yn byw mewn anwybodaeth, gan bwyso ar weithredoedd y ddeddf er cael teyrnas nefoedd trwyddynt, er na cheir mo honi yn y ffordd hòno mewn modd yn y byd.

*Ffydd.* Ond, trwy eich cenad, rhodd Duw yw adnabyddiaeth nefol o'r pethau hyn; ac nid all un dyn eu gwybod trwy ei ymdrechiadau ei hun, nac yn unig trwy ymddyddan am danynt.

*Chwed. Mi* a wn hyny yn ddigon da; o blegid ni ddichon *dyn dderbyn dim* oni bydd wedi ei roddi iddo o'r nef—o ras

y mae'r cwbl, ac nid o weithredoedd. Gallwn roddi i chwi gant o ysgrythyrau i brofi hyny.

*Ffydd.* Am ba beth gan hyny yn neillduol, ebe Ffyddlawn, y chwedleuwn yn awr?

*Chwed.* Mi a siaradaf â chwi am y pethau a fynoch—pa un bynag ai pethau nefol ai pethau daiarol; pethau moesol neu bethau efengylaidd; pethau cyssegredig, neu bethau halogedig; pethau a fu, neu bethau a fydd; pethau mewn gwlad ddyeithr, neu bethau yn ein gwlad ein hunain: pethau mwy sylweddol, neu bethau amgylchiadol; eto, y mae 'n rhaid gwneuthur y cwbl er adeiladaeth i'n heneidiau.

*Ffydd.* Ffyddlawn, wedi clywed hyn a ryfeddodd: a chan droi at Cristion (canys yr oedd Cristion trwy yr holl amser yma yn rhodio wrtho ei hun), efe a ddywedodd wrtho, ond yn ddystaw, Y fath gydymaith da a gawsom! yn ddïau fe fydd y gŵr hwn yn bererin rhagorol.

*Cristion.* Ar hyn y gwenodd Cristion yn dirion, ac a ddywedodd, Fe dwylla y gŵr yma, yr hwn yr ydych chwi yn ei ganmawl, â'i dafod, ugain o'r rhai sydd heb ei adnabod.

*Ffydd.* A ydych chwi yn ei adnabod?

*Cristion.* Ydwyf, yn well nag y mae efe yn ei adnabod ei hun.

*Ffydd.* Atolwg—pwy ydyw?

*Cristion.* Ei enw yw Chwedleugar. Y mae efe yn trigo yn ein dinas ni; ac oni b'ai fy mod yn ystyried fod ein tref yn un fawr iawn, mi a ryfeddwn nad ydyw efe yn adnabyddus i chwithau hefyd.

*Ffydd.* Mab i bwy yw efe? ac yn nghylch pa le y mae efe yn trigo?

*Cristion.* Mab ydyw i un a elwir Ymadroddwr Da; ac yr oedd efe yn trigo yn heol Gwag-siarad: ond er teced yw ei ymadrodd, nid yw efe ond dyhiryn drwg.

*Ffydd.* Ow! fe dybygid ei fod, o ran ei grefydd, yn ddyn gwych.

*Cristion.* Hyny yw, gan y rhai sydd heb ei gwbl adnabod ef: canys oddi cartref y mae efe yn oreu; ger llaw cartref y mae yn ddigon ffiaidd. Ac yr ydych chwi yn dywedyd, mai dyn gwych yw efe: y mae hyny yn dwyn ar gof i mi yr hyn a greffais arno yn ngwaith paentiwr;—y mae y lluniau y mae efe yn eu paentio yn ymddangos yn oreu o bell, ond yn anmhrydferth o agos.

*Ffydd.* Yr wyf yn barod i dybied nad ydych ond cellwair, gan i chwi wenu.

*Cristion.* Na atto Duw i mi gellwair yn y cyfryw fater a hwn, na cham-achwyn ar neb, er i mi wenu ar eich gwaith

chwi yn canmawl y dyn yma. Myfi a hysbysaf i chwi yn mhellach pa fath ŵr ydyw efe. Y mae efe yn ddyn sydd am bob math o gyfeillach, ac am bob math o siarad. Fel y mae efe yn chwedleua â chwi yn awr, felly y chwedleua pan y byddo yn y dafarn yn mysg y meddwon; a pha fwyaf o ddiodydd meddwol fydd ynddo, mwyaf oll y bydd y pethau hyn yn ei enau ef. Nid oes gan grefydd le yn ei galon, yn ei dŷ, nac yn ei ymarweddiad ef; ond y mae hi yn sefyll yn unig ar ei dafod: a'i grefydd ef ydyw gwneuthur sŵn am bethau yr Arglwydd â'r tafod hwnw.

*Ffydd.* A ddywedwch chwi felly? Yna fe'm twyllwyd yn ddirfawr yn y gŵr yma.

*Cristion.* Twyllwyd chwi! Do yn sicr. Cofiwch y ddiareb, "Dywedant, ac nis gwnant;" ond "nid mewn ymadrodd y mae teyrnas Dduw; eithr mewn gallu;" *Mat.* xxiii. 3; 1 *Cor.* iv. 20. Y mae efe yn chwedleua am weddi, am edifeirwch, am ffydd, ac am yr adenedigaeth; ond nid oes ganddo yn ei enaid ei hun brofiad o honynt—ni fedr ond yn unig chwedleua am danynt. Mi a fum yn ei deulu ef, ac a ddeliais sylw arno gartref ac oddi cartref, ac mi a wn mai gwir ydyw yr hyn yr wyf fi yn ei ddywedyd am dano. Y mae ei dŷ cyn waced o grefydd ag ydyw gwỳn wy o flas. Nid oes yno na gweddi, nac arogl o edifeirwch am bechod; Ie, y mae yr anifail yn ei ryw yn gwasanaethu Duw yn llawer gwell nag efe; *Esa.* i. 3. Y mae crefydd yn dyoddef gogan, gwarthrudd, a chywilydd o'i achos ef; ac y mae yn anhawdd iddo gael gair da yn yr holl ran hyny o'r dref lle y mae yn preswylio ynddi, am fod ei fuchedd yn ei diwyno hi; *Rhuf.* ii. 23, 24. Fel hyn y dywed y bobl gyffredin sydd yn ei adnabod ef,—"angel pen ffordd, diawl pen pentan." Y mae ei deulu wedi cael profiad o hyn oll. Y mae efe yn ddifenwr, ac mor anfwyn, mor daeog, ac mor afresymol wrth ei weision, fel na wyddant hwy pa fodd i'w foddloni ef yn eu gwaith na'u gorchwylion, na pha fodd i lefaru wrtho heb gyffroi ei ddigofaint ef. Y mae y rhai sydd yn gwerthu pethau iddo, ac yn prynu pethau ganddo, yn dywedyd, mai gwaeth yw iddynt farchnata a masnachu âg ef nag â Thwrc; am fod y rhai hyny yn onestach nag efe yn eu bargenion a'u haddewidion. Efe a dwylla bawb os gall. Ac heblaw hyny, y mae yn dysgu ei feibion i ganlyn ei lwybrau; ac os cenfydd yn neb o'i blant ddim ammheuon ynfyd (canys felly y mae yn galw yr ymddangosiad cyntaf o gydwybod dyner sydd yn eu gogwyddo hwy at onestrwydd) efe a'u geilw yn ynfydion ac yn ddwl: ac ni esyd efe un o honynt mewn modd yn y byd, i drin llawer o'i amgylchiadau ef,

os bydd yn deall fod arnynt ofn twyllo neb: ac ni chanmawl un o honynt yn ngwydd ereill, os bydd hwnw yn tueddu at onestrwydd cyffredinol. O'm rhan i, yr wyf yn tybied iddo, drwy ei fuchedd annuwiol, beri i lawer dramgwyddo a syrthio: ac efe a fydd, oni ragflaena Duw hyny, yn achos o ddistryw i laweroedd mwy.

*Ffydd.* Wele, fy mrawd, yr wyf yn rhwym i'ch coelio nid yn unig am eich bod yn dywedyd yr adwaenoch ef, ond hefyd am eich bod chwi fel Cristion yn dadguddio beth yw y dyn yma: canys nid allaf feddwl eich bod chwi yn dywedyd y pethau hyn o ddrwg ewyllys, ond am fod y peth fel yr ydych yn dywedyd.

*Cristion.* Pe buaswn i heb ei adnabod yn ddim gwell na chwychwi, mi a allaswn, ond odid, fel chwithau, dybied mai gŵr da rhagorol ydoedd; ïe, pe buasai yn cael yr anair yma oddi wrthynt hwy yn unig ag sydd yn elynion i grefydd, mi a dybiaswn mai enllib oedd hyny; sef anghlod ag sydd yn dyfod yn fynych yn ddiachos allan o eneuau y rhai drygionus ar enwau dynion da eu proffes: eithr yr holl bethau a adroddais i am dano ef, ïe, a llawer mwy o rai cynddrwg a hwythau, a allaf o'm gwybodaeth fy hun brofi ei fod ef yn euog o honynt. Heblaw hyny, y mae ar wŷr da gywilydd o'i blegid; ni allant ei alw nac yn frawd nac yn gyfaill. Os enwir ef yn mhlith y rhai crefyddol ag sydd yn ei adnabod hwy a wridant gan gywilydd o'i herwydd.

*Ffydd.* Mi a welaf yn awr, mai un peth yw dywedyd, a pheth arall yw gwneuthur: ac o hyn allan mi a graffaf yn well ar y gwahaniaeth sydd rhwng y naill a'r llall.

*Cristion.* Y mae y ddau beth yn wir, ac mor wahanol y naill oddi wrth y llall, ag yw yr enaid a'r corff; canys megys nad yw y corff heb yr enaid, felly hefyd nid yw dywedyd yn dda, heb wneuthur yn dda, ond celain farw. Enaid crefydd yw buchedd dda; "Crefydd bur a dihalogedig ger bron Duw a'r Tad yw hyn;—Ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, a'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddi wrth y byd;" *Iago* i. 27. Nid yw Mr. Chwedleugar yn meddwl am hyn. Y mae yn tybied fod gwrandaw a dywedyd yn ddigon i wneyd dyn yn Gristion da, er nad yw gwrandaw heb ddwyn ffrwyth ond megys derbyn yr had a heuir; ac fel hyn y mae efe yn twyllo ei enaid ei hun. Nid yw gwaith dyn yn chwedleua am grefydd yn ddigon i brofi fod ganddo galon a buchedd ffrwythlawn a daionus. Gwybyddwn yn sicr, mai yn ol eu ffrwythau neu eu gweithredoedd, ac nid yn ol eu geiriau yn unig, y bernir dynion yn nydd y farn; *Dad.* xxii. 12; *Mat.* xvi. 27. Ni fydd cymmaint o holi

y pryd hyny, A ddarfu i chwi gredu a dywedyd yn dda, ag a fydd, A ddygasoch chwi ffrwythau da yn eich buchedd a'ch ymarweddiad. Dyma fydd un cwestiwn mawr y dydd hwnw, Pa un ai gwneuthurwyr y gair, ai ynte chwedleuwyr am y gair yn unig a fuoch chwi? Ac yn ol hyny y bernir dynion. Diwedd y byd a gyffelybir i'n cynauaf ni: a chwi a wyddoch nad yw dynion yn y cynauaf yn edrych ar ddim ond ffrwyth. Nid am nad all fod dim yn gymmeradwy gyda Duw oni bydd yn tarddu allan o ffydd (*Gal.* v. 6); ond yr ydwyf yn dywedyd hyn i ddangos i chwi mor ddiles y bydd proffes Mr. Chwedleugar yn y dydd hwnw, heb fod yn wneuthurwr y gair.

*Ffydd.* Y mae hyn yn dwyn ar gof i mi y peth a ddywedodd Moses am yr anifail glân: y mae ef yn gyfryw un ag sydd yn fforchogi yr ewin ac yn cnoi ei gil; *Lef.* xi. 3. Nid yr hwn sydd yn hollti yr ewin yn unig, neu yn cnoi ei gil yn unig, sydd lân; ond yr hwn sydd yn gwneuthur y ddau. Y mae yr ysgyfarnog yn cnoi ei chil, ond er hyny y mae yn aflan, am nad yw yn hollti yr ewin. Ac mewn gwirionedd y mae Mr. Chwedleugar yn gyffelyb i'r ysgyfarnog. Y mae efe yn cnoi ei gil, ac y mae yn ceisio gwybodaeth trwy fyfyrio ar y gair; ond nid yw efe yn fforchogi yr ewin, nid ydyw yn ymado â ffordd pechaduriaid. Ond megys yr ysgyfarnog—y mae ganddo droed ci neu arth, ac am hyny y mae yn aflan.

*Cristion.* Myfi a ychwanegaf un peth arall. Y mae Paul yn galw chwedleuwyr mawr, y rhai sydd heb ras yn eu calonau, yn efydd yn seinio, a symbal yn tincian; hyny yw, fel y mae efe yn deongli y geiriau mewn lle arall, pethau dienaid ydynt, sef yn rhoddi sain yn unig, a dim ond hyny: pethau dienaid ydynt; hyny yw, dynion ydynt, heb wir ffydd a gras yr efengyl yn eu calonau: ac o ganlyniad, y maent yn gyfryw rai, na chyfrifir mo honynt byth yn nheyrnas nefoedd, yn mhlith y rhai sydd yn blant y bywyd; er eu bod yn seinio, wrth chwedleua, fel pe byddai tafodau neu leferydd angelion ganddynt; 1 *Cor.* xiii. 12; a xiv. 7.

*Ffydd.* Y mae ei gymdeithas ef, yr hyn a fu ar y cyntaf yn fater o hoffder, yr awr hon yn fater o flinder i mi. Pa beth a wnawn i gael gwared o hono?

*Cristion.* Cymmerwch fy nghynghor i; ac yna, megys yr ydych chwi yn blino ar ei gymdeithas ef, y blina yntau hefyd yn ebrwydd ar eich cymdeithas chwithau, oddi eithr i Dduw droi ei galon.

*Ffydd.* Pa beth a fynech i mi ei wneuthur?

*Cristion.* Pa beth?—myned ato, ac ymddyddan âg ef yn ddifrifol yn nghylch grym crefydd; a gofynwch iddo, a ydyw

y peth yma wedi ei weithio yn ei galon, ac a ydyw hyny yn ymddangos yn ei ymarweddiad.

Yna yr aeth Ffyddlawn drachefn at Chwedleugar, ac a ofynodd iddo pa fodd yr oedd efe.

*Chwed.* Diolch i chwi, ebe yntau, yr wyf yn sionc. Mi a obeithiais y cawsem erbyn hyn lawer mwy o gydymddyddan.

*Ffydd.* Wel, os mynwch chwi, ni a ddechreuwn eilwaith; a chan eich bod wedi gosod arnaf i ofyn cwestiwn, mi a fyddaf mor eofn a gofyn i chwi, Pa fodd y dichon i ddyn wybod fod Duw wedi gweithio gras achubol yn ei galon?

*Chwed.* Mi a welaf, wrth hyn, y gorfydd i'n hymddyddan fod yn nghylch grym crefydd—da iawn yw eich gofyniad; ac yr wyf yn ewyllysgar i'ch ateb chwi. Ac yn fyr, fy ateb yw hyn:—Yn gyntaf, lle bo gras Duw yn y galon, y mae hyny yn peri i ddyn waeddi yn ddirfawr yn erbyn pechod. Yn ail, ——

*Ffydd.* Nage—aroswch—digon yw i ni ystyried un peth ar unwaith. Yr wyf yn tybied y dylasech ddywedyd, yn hytrach, fod gras yn ei amlygu ei hun trwy ogwyddo yr enaid i ffieiddio ei bechod.

*Chwed.* Pa wahaniaeth sydd rhwng gwaeddi yn erbyn pechod, a'i ffieiddio?

*Ffydd.* Ow! llawer iawn:—fe ddichon dyn waeddi yn erbyn pechod, trwy gyfrwysdra; ond ni ddichon efe gasäu pechod, ond trwy gasineb duwiol (hyny yw, gras Duw), tuag at bechod. Mi a glywais lawer yn gwaeddi yn erbyn pechod yn y pulpud, y rhai, er hyny, a gyd-ddygent âg ef, ac a ymfoddlonent ynddo (fel yr oedd yn hawdd gwybod oddi wrth eu ffrwythau hwy) yn eu calonau, eu tai, a'u hymarweddiad. Gwaeddodd meistres Ioseph â llef uchel yn erbyn pechod, fel pe buasai hi yn dra sanctaidd; ond er hyny, buasai yn ewyllysgar i fod yn aflan gydag ef. Y mae rhai yn gwaeddi yn erbyn pechod, megys ag y mae mam yn gwaeddi yn erbyn ei phlentyn ar ei harffed, gan roddi drwg enwau i'r plentyn, megys hwrswn, neu hwrli, ac wedi hyny, yn cwympo i gofleidio a chusanu y plentyn.

*Chwed.* Mi dybiwn eich bod yn amcanu fy machellu, a'm dal mewn rhwyd.

*Ffydd.* Nac ydwyf, yn ddiau; ond yn unig fy mod yn ceisio trefnu pob peth yn ei iawn le. Ond pa beth ydyw yr ail arwydd sydd genych, trwy yr hwn y mynech brofi fod gras yn y galon?

*Chwed.* Gwybodaeth fawr yn nirgeledigaethau yr efengyl.

*Ffydd.* Dylasai yr arwydd hwn fod yn gyntaf:—ond cyntaf neu olaf, y mae hwn hefyd yn dwyllodrus; canys fe

ddichon dyn gyrhaedd gwybodaeth, ïe, llawer o wybodaeth, yn nirgeledigaethau yr efengyl, ac eto bod heb ras yn ei galon; ïe, pe byddai gan ddyn bob math o wybodaeth, efe a ddichon, er hyny, fod yn ddyn anrasol; ac o ganlyniad, yn mhell oddi wrth fod yn blentyn i Dduw; 1 *Cor.* xiii. 2. Pan ofynodd Crist i'w ddysgyblion, "A ydych chwi yn gwybod y pethau hyn oll?"—hwythau a'i hatebasant ef, "Ydym." Yntau a ddywedodd wrthynt, "Os gwyddoch y pethau hyn, gwyn eich byd os gwnewch hwynt;" *Ioan* xiii. 17. Nid yw Crist yn dywedyd fod y fendith yn perthyn i'r neb sydd yn gwybod ewyllys Duw, ond i'r hwn sydd yn ei gwybod ac yn ei gwneuthur hi; canys y mae math o wybodaeth heb weithredoedd da yn ei chanlyn—"yr hwn sydd yn gwybod ewyllys ei Arglwydd, ac nid yw yn ei wneuthur;" *Luc* xii. 47. Gall fod gan ŵr gymmaint o wybodaeth ag sydd gan un o'r angelion, ac eto heb fod yn wir Gristion; ac am hyny, nid yw gwybodaeth fawr yn nirgeledigaethau yr efengyl, yn arwydd ddidwyll o ras yn y galon. Y mae gwybodaeth, yn wir, yn boddloni siaradwyr ac ymffrostwyr; ond byw, a gwneuthur yn ol ein gwybodaeth ydyw yr hyn sydd yn rhyngu bodd Duw. Y mae yn wir na ddichon i'r galon fod yn dda, ond y mae hi yn ddrwg ac heb wybodaeth; *Diar.* xix. 2. Y mae gan hyny ddau fath o wybodaeth—un yn ymfoddloni yn unig ar edrych ar bethau, er mwyn deall eu natur a'u priodoliaethau; tra y mae y llall, yr hon y mae ffydd a chariad yn nglŷn wrthi, yn gosod y dyn i wneuthur ewyllys Duw o'r galon. Y gyntaf o'r rhai hyn a foddlona y chwedleugar; ond ni foddlonir mo'r gwir Gristion heb yr ail. "Gwna i mi ddeall," ebe Dafydd, "a chadwaf dy gyfraith; ïe, cadwaf hi â'm holl galon;" *Salm* cxix. 34.

*Chwed.* Yr ydych yn ceisio fy rhwydo yn barhäus. Nid yw hyn er adeiladaeth yn y byd.

*Ffydd.* Wel, os mynwch chwi, rhoddwch arwydd arall o'r modd y mae gras, pa le bynag y mae, yn dadguddio ei hun.

*Chwed.* Na wnaf; canys gwelaf nas gallwn gytuno â'n gilydd.

*Ffydd.* Wel, oni wnewch chwi, a roddwch chwi genad i mi wneuthur hyny?

*Chwed.* Gwnewch fel y gweloch yn oreu.

*Ffydd.* Y mae gwaith gras yn yr enaid yn dadguddio ei hun, naill ai i'r hwn sydd yn ei feddiannu, neu i ereill.

I'r hwn sydd â'r gras yma ganddo, y mae yn dadguddio ei hun fel hyn:—Y mae yn argyhoeddi dyn am ei bechod, yn enwedig llygredigaeth ei natur, a'r pechod o anghrediniaeth, am ba un y mae yn gweled yn eglur y bydd yn golledig,

oddi eithr iddo gael trugaredd gan Dduw, trwy ffydd yn Iesu Grist; *Ioan* xvi. 8, 9; *Rhuf.* vii. 24; *Salm* li. 5; *Marc* lxvi. 16.

Yr olwg a'r ystyriaeth yma sydd yn gweithio ynddo dristwch a chywilydd am bechod; *Salm* xxviii. 18; *Ier.* xxxi. 19. Ac yn mhellach, y mae Iachawdwr y byd wedi ei wneuthur yn gydnabyddus iddo, a'r hollol angenrheidrwydd hefyd o fod iddo lynu wrtho am fywyd; ac o herwydd hyny, y mae yn newynu ac yn sychedu am Grist; ac i'r newyn a'r syched yma y mae addewidion Duw yn perthyn; *Gal.* i. 16; *Act.* iv. 12; *Mat.* v. 6; *Dad.* xxii. 16. Yn awr, yn ol cadernid neu wendid ei ffydd yn ei Achubwr, y mae hefyd ei serch at sancteiddrwydd, a'i ddymuniad i adnabod Crist yn well, ac i'w wasanaethu yn y byd presennol. Ond er fy mod yn dywedyd fod gwaith gras yn ymddangos fel hyn yn yr enaid lle byddo, eto ni ddichon yr enaid, ond yn anfynych iawn, farnu mai gwaith gras ydyw yr hyn y mae efe yn ei gymmeryd oddi tan yr enw hwnw; o blegid ei lygredigaeth, weithiau, a'i reswm wedi ei gamarfer, ar brydiau ereill, a rwystrant iddo iawn farnu yn nghylch y mater yma; ac am hyny, rhaid yw bod barn bwyllog iawn gan yr hwn sydd â'r gwaith yma ynddo, cyn y gall gasglu yn ddilys mai gwaith gras ydyw.

Y mae y gras yma mewn dyn yn ymddangos i ereill fel hyn:—Yn gyntaf, trwy gyfaddefiad prudd a difrifol o'i ffydd yn Nghrist; *Rhuf.* x. 10. Yn ail, trwy fuchedd gyfatebol i'r gyffes hòno, gan fod yn sanctaidd yn ei ymarweddiad ac yn ei galon—gan ymdrechu gwneuthur ei deulu yn sanctaidd, os bydd ganddo deulu—a thrwy ymarweddiad sanctaidd yn y byd, yr hyn, yn gyffredin, sydd yn dysgu iddo gasäu pechod o'i galon, i ffieiddio ei hun yn y dirgel am dano ac i ymegnïo i'w ddarostwng yn ei deulu, ac i ddyrchafu sancteiddrwydd yn y byd—nid trwy siarad yn unig, megys y gwna y chwedleugar a'r rhagrithwyr, ond trwy ymddarostyngiad beunyddiol, mewn ffydd a chariad, i nerth gair yr Arglwydd, gan ymdrechu byw yn ol y gair. Ac yn awr, syr, os oes genych ddim i'w ddywedyd yn erbyn yr eglurhâd byr yma, yn nghylch gwaith gras yn yr enaid, neu yn erbyn y modd y mae yn dadguddio ei hunan lle y byddo, mynegwch i mi hyny—onidê, rhoddwch genad i mi ofyn i chwi ail gwestiwn.

*Chwed.* Nage, nid fy rhan i yn awr ydyw gwrthddadleu ond gwrandaw. Gadewch i mi glywed, gan hyny, eich cwestiwn arall.

*Ffydd.* Fy nghwestiwn i ydyw hyn:—A oes genych brofiad ynoch eich hunan o'r rhan gyntaf o'r eglurhâd yma

waith gras yn y galon ? Ac a ydyw eich buchedd a'ch ymarweddiad yn tystiolaethu hyny ? Canys lle bo calon lân, y mae buchedd lân; *Mat.* xii. 23. Neu ynte, a ydyw eich crefydd yn gynnwysedig yn unig o eiriau ac ymadroddion, ac nid mewn gweithred a gwirionedd. Atolwg, os ydych ar fedr fy ateb yn y mater yma, na ddywedwch ddim yn rhagor nag y gwyddoch y bydd i'r Goruchaf ddywedyd Amen gydag ef; na dim hefyd, ond yr hyn y gall eich cydwybod eich cyfiawnhau ynddo—"Canys nid yr hwn sydd yn ei ganmawl ei hun sydd gymmeradwy, ond yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei ganmawl;" 2 *Cor.* x. 18. Heb law hyny, anwiredd mawr iawn ydyw i ddyn ddywedyd "Yr ydwyf fel hyn, ac fel hyn," pan y byddo ei ymarweddiad, a'i holl gymmydogion, yn dywedyd mai celwyddog ydyw.

Yna y dechreuodd Chwedleugar wrido; ond wedi dyfod o hono ychydig ato ei hun, efe a atebodd fel hyn:—Chwi a ddaethoch yn awr at brofiad, at gydwybod, at Dduw, ac i appelio ato ef am gyfiawnhâd o'r hyn a leferir—nid oeddwn yn dysgwyl am y fath ymddyddanion a hyn, ac nid wyf yn bwriadu ateb y cyfryw gwestiynau; o blegid nid wyf yn ystyried fy hun yn rhwym i hyny, oddi eithr eich bod yn cymmeryd arnoch fod yn ymholydd—a phe byddech y fath ŵr, eto, gallwn wrthod eich cymmeryd yn farnwr arnaf—ond, atolwg, a gaf fi wybod genych paham yr ydych yn gofyn i mi y cyfryw gwestiynau?

*Ffydd.* Am fy mod yn eich gweled yn hynod o siaradus; ac o blegid fy mod yn tybied nad oes dim ynoch ond gwybodaeth yn unig; ac i ddywedyd i chwi yr holl wirionedd, clywais mai gŵr ydych sydd â'i grefydd yn gynnwysedig yn unig mewn geiriau, a bod eich ymarweddiad yn hollol anghysson â'ch proffes. Dywedant hefyd mai brycheuyn ydych yn mhlith Cristionogion; bod crefydd yn dyoddef llawer o waradwydd o blegid eich annuwiol ymarweddiad; bod rhai eisoes wedi tramgwyddo o herwydd eich ffyrdd drygionus chwi; a bod llawer eto mewn perygl o gael eu cyfrgolli trwy eich esampl ddrwg chwi. Ond y mae crefydd a meddwdod yn y tafarndy, a chybydd-dod, ac aflendid, a thyngu, a rhegu, a dywedyd celwydd, a chadw cyfeillach ofer, yn cydsefyll gyda chwi. Y mae y ddiareb a ddywedir am y butain, yn wir am danoch chwi—"Ei bod yn gywilydd i'r holl wragedd!" felly yr ydych chwithau, yn gywilydd i'r holl broffeswyr.

*Chwed.* Gan eich bod cyn baroted i goelio pob chwedl, ac i farnu mor fyrbwyll, nis gallaf dybied llai nad rhyw ŵr anhywaeth, pendrwm, ydych, ac anaddas i neb ymddyddan â chwi; ac am hyny, byddwch wych!

Yna y nesaodd Cristion at Ffyddlawn, ac a ddywedodd wrtho, Fy mrawd! mynegais i chwi yn mlaen llaw yr hyn a ganlynai eich ymddyddanion grasol chwi â'r dyn yma. Gwyddwn yn ddigon da, na chytunai eich geiriau chwi â'i drachwantau ef. Gwell oedd ganddo ymadael â'ch cyfeillach, na gwelläu dim ar ei fuchedd. Ond efe aeth ymaith—gadewch iddo fyned—nid oes colled i neb ond iddo ei hun; ni roddes y drafferth i ni o ymadael âg ef yn gyntaf: os parhâ efe, megys yr wyf yn tybied y gwna, yn y cyflwr drwg y mae ynddo, ni buasai ond brycheuyn yn ein cymdeithas a dywed yr apostol, "Gochel y rhai sydd â rhith duwioldeb, eithr wedi gwadu ei grym hi;" 2 *Tim*. iii. 5; 2 *Thes*. iii. 6.

*Ffydd.* Ond y mae yn dda genyf i mi gael yr ychydig ymddyddan yma âg ef; daw y pethau hyn, ysgatfydd, i'w gof drachefn. Pa fodd bynag, gosodais bethau yn eglur o'i flaen; ac felly yr wyf yn ddieuog oddi wrth ei waed os bydd yn golledig.

*Cristion.* Da iawn y gwnaethoch, gan i chwi yn eich ymddyddan ddangos iddo mor eglur y cyflwr drwg y mae ynddo. Nid oes nemawr yn y dyddiau hyn mor ffyddlawn i'w cymmydogion yn y materion yma; a dyna un achos pa ham y mae crefydd mor ddrewllyd yn ffroenau llaweroedd: canys y siaradwyr ynfyd hyn, crefydd pa rai sydd yn sefyll yn unig ar flaen eu tafodau, gan fod yn frwnt ac ofer yn eu hymarweddiad, ydynt yn peri i'r byd synu yn y fath fodd, fel na wyddant pa beth i dybied am ddynion crefyddol, gan fod cymmaint o'r gwagsiaradwyr hyn wedi eu derbyn i'w cymdeithas—ac y mae y byd yn mesur ereill wrth y rhai hyn—ac felly, o achos diffrwythder y cyfryw ddynion syfrdanllyd, y mae crefydd yn cael ei hanurddo, a'r rhai diragrith yn cael eu tristäu. Dymunwn i bawb eu hargyhoeddi hwy, megys y darfu i chwi argyhoeddi y Chwedleuwr hwn; canys trwy ymdrin felly â'r fath ddynion, fe'u gwneid naill ai yn fwy cydffurfiol â chrefydd, neu ynte, byddai cyfeillach y saint yn rhy wresog iddynt. Yna y canodd Ffyddlawn fel hyn:—

> Dechreuodd y Chwedleuwr serfyll,
> Ar y cyntaf ddercha'i esgyll,
> Gan ryfygu cwympo a gorfod
> Pawb o'i flaen, wrth nerth ei dafod.
> Mor hyawdlaidd y chwedleuodd!
> Ond pan gyntaf y dechreuodd
> Ffyddlawn son am ras iachusol,
> Fe aeth y cyfaill yn ei wrthol.
> Fel y lloer o'i llawn oleuni,
> Sy'n myn'd lai—lai hyd at ei geni,
> Felly hefyd yr â 'r holl ddynion,
> Ond sy'n adnabod gwaith y galon.

Ac fel hyn, hwy a aethant yn mlaen, gan siarad yn nghylch y pethau a welsant yn eu taith; a thrwy hyny, hwy a wnaethant y ffordd hòno yn ddifyr, yr hon, yn ddiammheu, heb y cyfryw ymddyddanion, fuasai yn anhyfryd iddynt; canys yr oeddynt mewn anialwch yr holl amser hwn.

Yn awr, wedi dyfod o honynt o fewn ychydig allan o'r anialwch, dygwyddodd i Ffyddlawn daflu ei olwg o'r tu ol, a gweled un yn dyfod ar eu hol hwynt; ac yr oedd yn ei adnabod ef. O! ebe Ffyddlawn wrth ei frawd, pwy sydd yn dyfod acw?

Yna yr edrychodd Cristion, ac a ddywedodd, Fy hen gyfaill, yr hwn a fu dda i mi—Efengylwr yw efe.

Ië, ebe Ffyddlawn, bu yn dda i minnau hefyd; canys efe a'm gosododd ar y ffordd oedd yn arwain tua'r porth.

Ar hyn, daeth Efengylwr i fyny atynt, ac a'u cyfarchodd fel hyn:—Tangnefedd i chwi, fy anwyl garedigion, ac i bawb o'ch cynnorthwywyr.

*Cristion*. Croesaw! croesaw! Efengylwr anwyl; wrth weled eich wynebpryd, nis gallaswn lai na chofio eich hen garedigrwydd, a'ch llafur diflin er fy nhragywyddol ddaioni.

A chroesaw fil o weithiau! ebe Ffyddlawn ddewrwych—pa mor ddymunol, O anwyl Efengylwr! yw dy gyfeillach i ni, bererinion truain.

Yna, ebe Efengylwr, Pa fodd y bu gyda chwi, gyfeillion, er pan ymadawsom ddiweddaf; â pha beth y cyfarfuoch, a pha fodd yr ymddygasoch?

Yna Cristion a Ffyddlawn a fynegasant iddo y cwbl oll a ddygwyddasai iddynt yn y ffordd—pa fodd, a pha mor anhawdd oedd iddynt ddyfod i'r lle hwnw.

A llawen iawn wyf finnau, ebe Efengylwr, nid am i chwi gyfarfod â phrofedigaethau, ond am i chwi fod yn goncwerwyr, ac am i chwi ddal yn mlaen yn eich ffordd, er eich amryw wendidau, hyd y dydd hwn. Yr wyf yn dra llawen, meddaf, am y pethau hyn, yn gystal er fy mwyn fy hun, ag er eich mwyn chwithau. Myfi a heuais, a chwithau a fedasoch; ac y mae y dydd yn dyfod, yn yr hwn y caiff yr hwn sydd yn hau, a'r hwn sydd yn medi, lawenychu yn nghyd (hyny yw, os parhewch hyd y diwedd yn eich ffordd), canys yn ei iawn bryd y medwch oni ddiffygiwch. Y mae coron anllygredig o'ch blaen: felly rhedwch, fel y caffoch afael arni. Y mae rhai yn myned allan i geisio meddiannu y goron hon, ac wedi myned yn mhell am dani, y mae arall yn dyfod ac yn ei dwyn hi oddi arnynt. Deliwch, gan hyny, yr hyn sydd genych, fel na ddygo neb eich coron chwi. Nid ydych eto allan o gyrhaedd ergydion Satan. Ni wrthwynebasoch eto

hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod; *Heb.* xii. 4. Bydded teyrnas nefoedd yn wastadol o flaen eich llygaid, a bydded fod genych ffydd gadarn yn nghylch y pethau sydd anweledig. Na choeliwch fod ein hapusrwydd yn gynnwysedig mewn dim sydd y tu yma i'r nefoedd; ac yn bendifaddeu, edrychwch yn fanwl at eich calonau eich hunain, a'ch trachwantau, canys y maent yn fwy eu twyll na dim, ac yn ddrwg diobaith; *Ier.* xvii. 10. Gosodwch eich wynebau fel callestr yn eu herbyn; y mae yr hwn sydd Hollalluog yn y nef ac ar y ddaiar o'ch plaid.

Yna y diolchodd Cristion iddo am ei gynghor, gan ddymuno arno, yn ei enw ei hunan a Ffyddlawn, eu hyfforddi yn mhellach pa fodd i fyned y rhan olaf o'u ffordd; O blegid, eb efe, ni a wyddom yn ddilys mai prophwyd ydych, ac y gellwch ragfynegu y pethau a ddygwyddant i ni rhag llaw yn ein taith, ac hefyd hysbysu i ni pa fodd y gallwn wrthwynebu a gorchfygu y profedigaethau y cyfarfyddwn â hwynt.

Yna ebe Efengylwr, Fy mhlant anwyl! chwi a glywsoch allan o'r Ysgrythyr, mai trwy lawer o orthrymderau y mae yn rhaid i ni fyned i mewn i deyrnas Dduw, ac hefyd fod rhwymau a blinderau yn ein haros yn mhob dinas; ac am hyny, na ddysgwyliwch fyned yn mhell ar eich pererindod hebddynt, mewn rhyw fodd neu gilydd. Cawsoch rai profion o'r gwirionedd hwn yn barod, a chewch ychwaneg yn fuan; canys yr ydych yn awr, fel y gwelwch, ar fyned allan o'r anialwch hwn, a chwi a ddeuwch yn ebrwydd i dref, yr hon a ganfyddwch yn y man o'ch blaen, ac yn y dref hòno y gwarchëir arnoch yn galed gan elynion ,y rhai a ymdrechant â'u holl nerth i'ch lladd. A byddwch sicr o hyn, y gorfydd ar un o honoch, oni orfydd ar y llall, selio â'i waed y dystiolaeth yr ydych yn ei dal; ond byddwch ffyddlawn hyd angeu, a'r Brenin a rydd i chwi goron y bywyd; *Dad.* ii. 10. A'r hwn a fydd marw yno, er y bydd ei farwolaeth yn annaturiol, a'i boenau, ond odid, yn ddirfawr, a gaiff y goreu er hyny ar ei gyfaill—nid yn unig o herwydd y derbynir ef yn gynt i'r ddinas nefol, ond hefyd o blegid y bydd iddo ddianc rhag llawer o drueni a helbulon, y rhai a ddygwyddant i'r llall cyn ei ddyfod i ben ei daith. Ond pan ddeloch i'r dref, a gweled yr hyn oll a ragfynegais i chwi yma wedi eu cyflawnu, yna, cofiwch fi, eich cyfaill, ac ymwrolwch, a gorchymynwch gadwedigaeth eich heneidiau i Dduw, megys i Greawdwr ffyddlawn, gan wneuthur yr hyn sydd dda yn ei olwg ef; *1 Pedr iv. 19.*

*Yna mi a welais yn fy mreuddwyd, pan ddaethant gyntaf allan o'r anialwch,* **iddynt ganfod tref ar eu cyfer, â'i henw**

Gwagedd; ac ynddi hi y cedwir ffair trwy yr holl flwyddyn, yr hon a elwir Ffair y Gwagedd, am fod y dref lle yr ydys yn ei chadw yn ysgafnach na gwagedd; ac hefyd, am nad yw y cwbl a werthir yno, neu sydd yn dyfod yno, yn ddim amgen na gwagedd, megys y dywedodd y gŵr doeth, "Gwagedd yw y cwbl;" *Esa.* xl. 17; *Preg.* i. 2.

Nid ffair newydd, ond hen ffair ydyw hon—dangosaf i chwi ei dechreuad hi:—

Er's yn agos i bum mil o flyneddoedd, yr oedd pererinion yn ymdeithio tua'r ddinas nefol; a Beelzebub, Apolyon, yn nghyd â'r cythreuliaid ereill, a wybuant, wrth y llwybr a wnaethai y pererinion, fod eu ffordd i'r ddinas nefol yn myned trwy ganol tref Gwagedd; ac am hyny hwy a ddychymygasant godi ffair yma, i barhau trwy gydol y flwyddyn, yn yr hon y gwerthid pob math o wagedd. Am hyny, fe werthir ynddi bob rhyw farsandïaeth; megys tai, tiroedd, celfyddydau, swyddau uchel, anrhydedd, gwledydd, teyrnasoedd, trachwantau; trythyllwch o bob math, megys putteiniaid a'u llatteion, gwragedd, gwŷr, plant, meistriaid, gweision, bywydau. gwaed, cyrff ac eneidiau pobl, arian, aur, perlau:—a pha beth nas ceir ar werth yma?

Ac heb law hyny, ceir gweled yn y ffair hon bob amser, hudolwyr, twyllwyr, chwarëyddion, ynfydion, eppaod, cnafiaid, a dyhirwyr o bob math; lladron, llofruddion, godinebwyr, ac anudonwyr, wedi eu diwyno â gwaed gwirion.

Ac megys ag y mae mewn ffeiriau ereill, llai eu bri, felly hefyd y mae yma, amryw heolydd, dan eu henwau priodol, lle y gwerthir y cyfryw farsiandïaeth. Y mae yma heol y Prydeiniaid, heol y Ffrancod, heol yr Italiaid, heol yr Yspaenwyr, a heol y Germaniaid, lle y mae amryw fath o wagedd ar werth. Ond megys mewn ffeiriau ereill, y mae rhyw bethau mwy neillduol i'w cael ar werth, felly, marsiandïaeth Rhufain sydd yn cerdded oreu yn y ffair yma, ond bod y Prydeiniaid, ac ereill, yn dibrisio y farsiandïaeth hòno.

Yn awr, fel y dywedais, y mae y ffordd i'r ddinas nefol yn myned yn union trwy y dref hon; a'r neb a fyno fyned i'r ddinas hòno, heb fyned yno trwy y dref yma, rhaid iddo fyned allan o'r byd; 1 *Cor.* v. 10. Gorfu i dywysog y tywysogion, pan yr oedd ar y ddaiar, fyned trwy y dref a'r ffair hon i'w wlad ei hun; ac fe'i gwahoddwyd ef gan Beelzebub, penllywodraethwr y ffair, i brynu o'i wagedd ef—ïe, cynnygiodd ei wneuthur yn arglwydd y ffair, pe buasai ond ymgrymu iddo ef, a'i addoli wrth fyned trwy y dref; ac o blegid *bod y tywysog* yn dra anrhydeddus, dygodd Beelzebub ef o *heol i heol, gan* ddangos iddo holl deyrnasoedd y byd mewn

mynyd awr, fel y gallai, pe buasai bosibl, ddenu y bendigedig hwnw i brynu peth o'i wagedd ef. Ond nid oedd ganddo ef ddim serch at y cyfryw farsiandïaeth; ac am hyny, efe a aeth ymaith o'r dref, heb wario cymmaint ag un hatling ar y gwagedd yma. Y mae y ffair hon, gan hyny, yn hen beth, o hir barhâd, ac yn ffair fawr iawn: *Mat.* iv; *Luc* iv.

Yn awr, fel y dywedais, yr oedd yn rhaid i'r pererinion hyn fyned trwy y ffair yma: ond cyn gynted ag y daethant yno cyffröwyd yr holl werin oedd yn y ffair, a'r holl dref a ymgasglasant o'u hamgylch, fel pe buasent mewn terfysg a syndod; a hyny o herwydd amryw bethau:—

Yn gyntaf, yr oedd y pererinion wedi eu dilladu â'r cyfryw wisgoedd, nad ydoedd gan neb yn y dref a'r ffair hòno mo'u bath; ac o blegid hyny, yr oeddynt yn llygadrythu yn rhyfeddol arnynt. Rhai a ddywedent mai ffyliaid oeddynt, rhai mai gwallgofiaid, ac ereill a ddywedent mai gwŷr o wlad ddyeithr oeddynt.

Yn ail, megys yr oeddynt yn rhyfeddu wrth weled eu dillad, felly hefyd yr oeddynt yn rhyfeddu wrth glywed eu hiaith hwynt; canys nid oedd nemawr yn deall yr hyn a lefarent. Iaith Gwlad Canaan ydoedd eu iaith hwy, ond gwŷr y byd hwn oedd pobl y ffair; canys yr oeddynt yn tyngu ac yn rhegu, ac yn offrwm eu heneidiau i'r diafol yn dra mynych: ac felly, o'r naill ben o'r ffair i'r llall, yr oedd y pererinion, a'r rhai oedd yn marchnata yno, megys barbariaid y naill i'r llall; 1 *Cor.* ii. 7, 8.

Yn drydydd, y peth rhyfeddaf gan y marsiandwyr ydoedd, fod y pererinion yma yn llwyr ddibrisio eu holl farsiandïaeth hwy, canys ni wnaent gymmaint ag edrych ar y pethau oedd ar werth yno; ac os gelwid arnynt i brynu dim, hwy a osodent eu bysedd yn eu clustiau, ac a waeddent, "Tro heibio fy llygaid, rhag edrych ar wagedd," ac a edrychent i fyny, gan arwyddocâu trwy hyny, fod y nwyddau a'r pethau yr oeddynt hwy yn ymofyn am danynt i'w cael yn unig yn y nefoedd; *Salm* cxix. 37; *Phil.* iii. 19, 20.

Dygwyddodd i ryw watwarwr, wrth ddal sylw ar eu hymddygiad, ofyn iddynt, Pa beth a brynwch chwi? A hwythau, yn sobr iawn, a'i hatebasant ef, Ein hewyllys ni yw prynu y gwirionedd. Ac ar hyny, y cymmerwyd mwy o achlysur i'w dirmygu hwynt; canys rhai yn awr a'u gwatwarent, rhai a'u henllibient, a rhai a annogent ereill i'w curo hwynt. O'r diwedd, yr oedd yr holl ffair mewn terfysg a chythrwfl, hyd onid oedd pob peth allan o drefn. Yna y mynegwyd hyny i arglwydd y ffair; ac yntau a ddaeth i waered yn ddioed, ac a archodd i rai o'i gyfeillion ffyddlonaf holi yn fanwl y rhai a wnaethant y fath gynhwrf trwy yr holl ffair.

Felly, fe ddygwyd y gwŷr o flaen y rhai a appwyntiwyd i'w holi; a gofynwyd iddynt, o ba le yr oeddynt yn dyfod, ac i ba bwrpas y daethant yno yn y fath wisgoedd anarferol. Hwythau a'u hatebasant, mai dyeithriaid a phererinion oeddynt yn y byd hwn, a'u bod yn myned tua'u gwlad eu hunain, sef y Ierusalem nefol, ac na roddasent hwy ddim achos, nac i wŷr y dref, nac i'r marsiandwyr ychwaith, i'w hanmharchu ac i'w rhwystro ar eu taith; oddi eithr bod hyn yn achos—sef, pan y gofynodd un iddynt pa beth a brynent, iddynt hwythau ateb, mai y gwir a brynent.

Eithr ni choeliai y swyddogion eu bod ddim amgen na gwallgofiaid, a dynion allan o'u cof, neu ynte mai pobl oeddynt wedi dyfod yn bwrpasol i wneuthur cynhwrf yn y ffair. Am hyny, hwy a gurasant y pererinion, gan eu trybaeddu â thom; ac wedi hyny, hwy a'u gosodasant mewn cawell, fel y byddent yn ddrychau i'r holl ffair.

> Mae'r pererinion yn Ffair Gwagedd,
> Yn cael eu dal a'u curo'n giaidd;
> Felly'r aeth ein Iesu heibio
> Ac a fu farw ar Galfaria.

Ac yno y buont dros ennyd, yn wrthddrychau i watwarwyr a maleiswyr; ac yn y cyfamser, yr oedd arglwydd y ffair yn chwerthin wrth eu gweled yn cael eu hanmharchu yn y modd yma. Ond yr oedd y gwŷr yn amyneddgar iawn, heb roddi sen am sen; ond i'r gwrthwyneb, yr oeddynt yn bendithio, gan roddi geiriau da am rai drwg, a pharch am anmharch.

Ond rhai o'r ffair, wrth graffu yn well ar y pererinion, ac heb farnu yn fyrbwyll am danynt, megys ereill, a ddechreuasant geryddu a beio y bobl gyffredin, am eu bod yn wastadol yn gwneuthur â'r dyeithriaid yma yn y fath fodd dirmygus. Hwythau yn llidiog a atebasant y rhai oedd yn eu ceryddu, gan ddywedyd wrthynt eu bod hwy cynddrwg a'r gwŷr oedd yn y carchardy, a'u bod hefyd, yn ol pob tebygolrwydd, mewn cynghrair â hwynt, am eu bod yn eiriol drostynt; ac am hyny, y caent fod yn gydgyfranogion o'u haflwydd hwynt. A'r lleill a ddywedasant, am ddim ar a welsent hwy, fod y dynion yn llonydd ac yn sobr, heb ddymuno drwg i neb; a bod bagad yn marchnata yn y ffair, y rhai a haeddent eu carcharu, ïe, a'u gosod yn y gwddfgyffion, yn hytrach na'r dyeithriaid hyn. Ac wedi ymdaeru digon â'u gilydd, a'r pererinion yr holl amser yn ymddwyn yn ddoeth ac yn bwyllog iawn ger eu bron, hwy a ruthrasant y naill ar y llall, gan guro a chlwyfo eu gilydd.

Yna y dygwyd y ddau bererin drachefn o flaen y swydd-

ogion, i'w holi yn fanylach; ac achwynwyd arnynt, mai hwy oedd yr achos o'r terfysg diweddar fuasai yn y ffair. Ac am hyny fe'u curwyd yn ddidrugaredd, a gosodwyd hwy mewn heiyrn, a dygwyd hwy mewn cadwynau i fyny ac i waered trwy yr holl ffair, er esampl a dychryn i ereill, rhag dywedyd o neb ddim yn eu plaid, nac ymgyfeillachu ac ymgyssylltu â hwynt. Eithr Cristion a Ffyddlawn a ymddygasant yn ddoethach eto, gan dderbyn y sarhâd a'r dirmyg a gawsant gyda chymmaint o amynedd a llarieidd-dra, fel yr ennillasant trwy hyny lawer o bobl y ffair o'u plaid, er nad oeddynt ond nifer fechan mewn cymhariaeth i'r lleill. A gwnaeth hyn i'r blaid arall gynddeiriogi yn fwy; a dywedasant wrth y ddau ŵr, na chai carchar a heiyrn wasanaethu mo'u tro, ond y caent eu gosod i farwolaeth am y cynhwrf a wnaethant, ac am hudo rhai o'r ffair i fod ar eu rhan.

Yna y danfonwyd hwy drachefn i'r carchar, hyd oni chymmerwyd cwrs yn mhellach â hwynt; ac yn y carchar, fe ddodwyd eu traed yn sicr yn y cyffion.

Ac yno y daeth i'w cof yr hyn a ddywedasai eu hanwyl gyfaill, Efengylwr, wrthynt; a hwy a gadarnhawyd yn fwy yn eu ffyrdd a'u dyoddefiadau, gan iddo ef ragfynegu yr hyn a ddygwyddasai iddynt. Dechreuasant hefyd yn awr gysuro y naill y llall, gan farnu mai yr hwn a ddyoddefai farwolaeth gyntaf, a gai y goreu ar y llall; ac am hyny, yr oedd pob un yn chwennych yn ei galon i gael y rhagorfraint hòno. Ond gan eu gorchymyn eu hunain i ddoeth Ragluniaeth, yr hwn sydd yn llywodraethu pob peth, hwy a ymroisant, gyda llawer o foddlonrwydd, i ddwyn eu croes, hyd oni threfnid iddynt ryw gyflwr arall.

Yna, wedi penodi amser cyfaddas, fe'u dygwyd allan i'r frawdle, i gael eu barnu gan eu gelynion. Enw y barnwr oedd Casawr pob Daioni. Eu cyhuddiad ydoedd yr un mewn sylwedd, er ei fod yn ddau mewn ffurf a dull. Y mater cynnwysedig ynddo ydoedd hyn:—

Fod y pererinion yma yn elynion i'w crefftau a'u marsiandïaeth; a gwneuthur o honynt derfysg ac ymryson yn y dref, gan hudo llaweroedd i dderbyn eu hopiniynau peryglus gan ddiystyru a dirmygu cyfraith eu tywysog trwy wneuthur felly.

Yna Ffyddlawn a atebodd drosto ei hun, gan ddywedyd, Ni wrthwynebais neb, ond y sawl oedd wrthwyneb i'r hwn sydd uwch na'r uchaf ar y ddaiar; ac ni wnaethum ddim *terfysg, gan fy* mod yn ŵr heddychlawn; ac am y rhai a *ennillwyd o'm* plaid, fe'u hennillwyd trwy ystyried y gwir*ionedd a'r dini*weidrwydd sydd ynom; ac y maent wedi eu

troi yn unig oddi wrth yr hyn sydd waeth at yr hyn sydd well. Ac am y brenin yr ydych yn son am dano, gan mai Beelzebub ydyw, sef gelyn mawr ein Harglwydd, yr wyf yn ei ddiystyru ef a'i holl angelion.

Yna y cyhoeddwyd, os oedd gan neb ddim i'w ddywedyd yn mhlaid eu harglwydd frenin Beelzebub, yn erbyn y carcharor wrth y frawdle, ymddangos o honynt ar frys i roddi eu tystiolaeth i'r llys: ac ar hyny y daeth tri o dystion i mewn. Eu henwau oedd, Cenfigenus, Coelgrefyddol, ac Ifan lygad y bwyd.[1] Yna y gofynwyd iddynt, a adwaenent y carcharor wrth y bar? A pha beth oedd ganddynt i'w ddywedyd yn ei erbyn, tros eu harglwydd frenin.

Yna y safodd Cenfigenus i fyny, ac a ddywedodd fel hyn—Fy arglwydd ustus—myfi a adwaen y gwr yma er ys talm o amser, a thystiolaethaf ar fy llw, o flaen yr orseddfainc anrhydeddus hon, ei fod ef ————

*Barnwr*. Arafwch—rhoddwch ei lw iddo. Wedi gwneuthur felly, dywedodd Cenfigenus—Nid yw y gŵr hwn, er mor deg yw ei enw, ond un o'r dynion diffaethaf yn ein gwlad: nid yw yn gwneuthur pris yn y byd o'n tywysog, nac o honom ninnau ei ddeiliaid, o'n cyfreithiau nac o'n defodau; ond y mae yn gwneuthur a allo i lanw penau pobl â rhyw opiniynau gwrthwyneb i ufudd-dod i'r awdurdodau goruchel. Y mae yn galw yr opiniynau hyn yn "egwyddorion ffydd a sancteiddrwydd." Ac yn neillduol, clywais ef â'm clustiau fy hun yn taeru, fod Cristionogaeth a defodau ein tref yn gwbl wrthwyneb i'w gilydd, ac nas gellir eu cymmodi byth: a thrwy yr ymadrodd hwn, fy arglwydd ustus, y mae efe ar unwaith yn condemnio, nid yn unig ein holl weithredoedd canmoladwy ni, ond ninnau hefyd sydd yn eu gwneuthur hwynt.

Yna y gofynodd y barnwr iddo, A oes genych ddim mwy i'w ddywedyd?

*Cenfig*. Fy arglwydd—gallwn ddywedyd llawer mwy; ond ni fynwn flino y llys: eto, os bydd raid, wedi i'r boneddigion ereill roddi eu tystiolaeth i mewn, yn hytrach nag y caiff dim fod yn eisieu i wneuthur diwedd o hono, myfi a helaethaf fy nhystiolaeth yn ei erbyn.

Yna, archwyd i Cenfigenus sefyll naill du, a galwyd Coelgrefyddol; a gorchymynwyd iddo edrych ar y carcharor wrth y frawdle, a gofynwyd iddo, pa beth a allai ddywedyd dros eu harglwydd frenin yn ei erbyn; ac wedi rhoddi ei lw iddo, llefarodd fel hyn:—

[1] *Truthiwr* neu wenieithwr; a wiria yr hyn a ddywed arall, bid *gwir, bid celwydd*, mewn gobaith am gael croesaw, a bwyd, a chwrw, *ac arian, oddi wrth y* sawl y mae yn tyngu drosto.

*Coelgref.* Fy arglwydd farnwr—nid ydwyf hanner cydnabyddus â'r gŵr hwn, ac nid wyf yn chwennych bod yn fwy cydnabyddus âg ef: er hyny, myfi a wn hyn, oddi wrth ryw ymddyddan a fu rhyngof ag ef y dydd o'r blaen yn y dref yma, mai dyn diriaid a thra pheryglus ydyw; canys clywais ef y pryd hyny yn dywedyd, fod ein crefydd ni yn ddrwg, sef yn gyfryw un ag nad yw bosibl i neb foddloni Duw trwyddi. Ac oddi wrth yr ymadroddion hyn, fy arglwydd, gwyddoch yn ddigon da fod hyn yn canlyn; sef, mai ofer yw ein haddoliad ni yn wastadol, a'n bod eto yn ein pechodau, ac y byddwn yn ddamnedig yn y diwedd. Hyn yna sydd genyf i'w ddywedyd.

Yna y rhoddwyd Ifan lygad y bwyd ar ei lw, ac archwyd iddo ddywedyd yr hyn a wyddai, yn mhlaid ei arglwydd frenin, yn erbyn y carcharor wrth y frawdle.

*Ifan.* Fy arglwydd, a chwithau wŷr boneddigion oll—myfi a adwaen y cyfaill yma er ys talm o amser, ac a'i clywais ef yn difenwi ein harddercbog dywysog Beelzebub, ac yn llefaru yn ddirmygus am ei gyfeillion anrhydeddus; sef, am yr Arglwydd Henddyn, yr Arglwydd Hyfrydwch Cnawdol, yr Arglwydd Gloddest, yr Arglwydd Trachwantus am wag ogoniant, yr hen Arglwydd Anlladrwydd, Syr Cybydd Anghawr, yn nghyd â phawb ereill o'n pendefigion: ac efe a ddywedodd yn mhellach, pe byddai pawb o'r un feddwl ag ef, os byddai bossibl, na chai un o'r rhai hyn aros yn hwy yn y dref yma. Heb law hyny, fy arglwydd, nid arswydodd eich difenwi chwithau hefyd, yr hwn sydd yn awr wedi ei osod i fod yn farnwr arno, gan eich galw yn filain annuwiol, a bytheirio allan lawer o eiriau enllibaidd ereill am danoch chwi, ac am y rhan fwyaf o fawrion ein tref.

Wedi i Ifan ddywedyd ei chwedl, trodd y barnwr at y carcharor wrth y frawdle, gan ddywedyd wrtho: Tydi, y crwydrad, yr heretic, a'r gwrthgiliwr, a glywaist beth a dystiolaethodd y gwŷr gonest hyn i'th erbyn?

*Ffydd.* A roddwch chwi ganiatâd i mi ddywedyd ychydig drosof fy hun?

*Barn.* Syr, syr—yr ydych yn haeddu cael eich gosod i farwolaeth, yn ddiattreg, yn y fan hon; ond eto, fel y gallo pawb weled ein amynedd tuag atoch, rhowch glywed pa beth sydd genych, y crwydryn budr, i'w ddywedyd drosoch eich hunan.

*'Nawr, chware'r gwr, O! Ffyddlawn!*
*Llefara dros dy Dduw,*
*Nac ofna di mo falais,*
*Na gwialen neb dyn byw;*

Llefara 'n hy, O! ddewrddyn!
  Mae 'r gwir o'th blaid a'th du,
Bydd farw drosto yma,
  Cei goron freiniol fry.

*Ffydd.* 1. Am yr hyn a lefarodd Mr. Cenfigenus—yr wyf yn ateb, na ddywedais ddim ond hyn; sef, fod y rheolau, y cyfreithiau, y defodau, a'r bobl hyny sydd yn wrthwyneb i air Duw—fod y rhai hyny i gyd, meddaf, yn wrthwyneb i Gristionogaeth. Os dywedais ar fai yn hyn, yr wyf yn barod, ond i chwi ddangos i mi fy nghamsyniad, i alw fy ngeiriau yn ol.

2. Am y peth a dyngodd Mr. Coelgrefyddol i'm herbyn—hyn yn unig a ddywedais; sef, fod ffydd ddwyfol yn beth gofynol yn addoliad Duw; ond na ddichon ffydd ddwyfol fod heb ddadguddiad dwyfol o ewyllys Duw. Ac am hyny, pa bethau bynag a wesgir i mewn i addoliad Duw, heb fod yn gytunol â'r dadguddiad dwyfol hwnw, trwy ffydd ddynol y gwneir hyny, yr hon nid yw yn arwain i fywyd tragwyddol.

3. Am yr hyn a dyngodd Mr. Ifan lygad y bwyd, yr wyf yn ateb (heb ddal sylw ar ei waith yn haeru fy mod yn difenwi, &c.) fod Beelzebub, tywysog y ddinas hon, a'r holl dorf o'i weision, yn gymhwysach i fod yn uffern, nag yn y wlad neu y ddinas yma. Felly Duw a drugarhâo wrth fy enaid.

Yna y dywedodd y barnwr wrth y rheithwyr, y rhai dros yr holl amser a safasant gyferbyn, i wrandaw ac i ddal sylw—Chwychwi, foneddigion, y rheithwyr, a welwch y gŵr yma, o achos pa un y bu cymmaint o gynhwrf yn ddiweddar yn ein tref: clywsoch pa bethau a dystiolaethodd y boneddigion hyn yn ei erbyn; ac hefyd ei atebion a'i gyfaddefiad ef ei hun. Y mae yn sefyll arnoch chwi yn awr, ei golli, neu ei gadw. Ond eto yr wyf yn gweled hyn yn beth cymhwys, sef, eich addysgu yn natur ein cyfreithiau.

Yn nyddiau y brenin Pharaoh, gwas i'n tywysog Beelzebub, y gwnaethpwyd cyfraith, yn yr hon y gorchymynwyd bwrw plant gwrywaidd yr Israeliaid i'r afon, rhag ofn i'r rhai oedd o grefydd wrthwyneb i'w grefydd ef amlhau, a myned yn drech nag ef. Gwnaethpwyd deddf hefyd yn nyddiau Nebuchodonozor Fawr, gwas arall i'n tywysog, y byddai i bwy bynag na syrthiai i lawr, ac addoli ei ddelw aur ef, gael eu bwrw i ffwrn o dân poeth. Gwnaethpwyd deddf, hefyd, yn nyddiau Darius, y byddai i'r sawl a alwai ar un Duw dros *ryw amser terfynedig*, ond yn unig arno ef, gael ei daflu i *ffau y llewod; Ecsod.* i; *Dan.* iii. a'r vi. Yn awr y mae y

gwrthryfelwr yma wedi troseddu y cyfreithiau hyn i gyd, nid yn unig mewn meddwl, ond hefyd mewn gair a gweithred; yr hyn nis gellir ei ddyoddef.

Pharaoh a wnaeth ei gyfraith, i ragflaenu ac i luddias anghydfod a niwed; canys nid oedd un bai eto yn weledig fel y mae beiau yn weledig yma. Am yr ail a'r drydedd gyfraith, clywsoch fel y mae y carcharor yn dadleu yn eu herbyn trwy ddywedyd yn erbyn ein crefydd: ac yn awr, y mae yn haeddu marw am y bradwriaeth y cyfaddefodd iddo.

Yna yr ymneillduodd y rheithwyr:—eu henwau ydoedd, Mr. Dall, Mr. Diddaioni, Mr. Maleisus, Mr. Anllad, Mr. Oferddyn, Mr. Pengaled, Mr. Ucheldrem, Mr. Gelyniaeth yn erbyn pob Daioni, Mr. Celwyddog, Mr. Creulondeb, Mr. Casawr y Goleuni, a Mr. Anghymmodlawn. Y rhai hyn i gyd a roisant eu barn yn benodol yn erbyn y carcharor yn eu plith eu hunain; ac wedi hyn, hwy a gytunasant yn unfryd ei ddwyn ef i mewn yn euog o farwolaeth o flaen y barnwr. Ond yn gyntaf, yn eu plith eu hunain, ebe Mr. Dall, y blaenor, Myfi a welaf yn eglur mai heretic ydyw y dyn yma. Ymaith â'r cyfryw un oddi ar y ddaiar, ebe Mr. Diddaioni. Ië, ebe Mr. Maleisus, ymaith âg ef, canys y mae yn gas genyf yr olwg arno. Ni ellais i erioed aros mo hono, ebe Mr. Anllad. Na minnau ychwaith, ebe Mr. Oferddyn, canys fe fyddai bob amser yn beio ac yn condemnio fy ffyrdd. Crogwch ef, crogwch ef, ebe Mr. Pengaled. Nid yw ef ond dyhiryn salw, ebe Mr. Ucheldrem. Mae fy nghalon i yn codi yn ei erbyn ef, ebe Mr. Gelyniaeth yn erbyn pob Daioni. Gwilliad brwnt yw, ebe Mr. Celwyddog. Mae crogi yn rhy dda iddo, ebe Mr. Creulondeb. Gadewch i ni yn ebrwydd ei ddanfon allan o'r byd, ebe Mr. Casawr y Goleuni. Pe rhoddid i mi yr holl fyd, nid allwn ymheddychu âg ef, ebe Mr. Anghymmodlawn. Gadewch i ni gan hyny yn ebrwydd ei ddwyn ef i mewn yn euog o farwolaeth. Ac felly y gwnaethant: ac am hyny y barnodd y barnwr i fyned âg ef oddi wrth y frawdle i'r carchar drachefn, ac oddi yno i'r dienyddfa, i ddyoddef y farwolaeth greulonaf a'r a ellid ei dychymygu.

Yna hwy a'i dygasant ef allan i'w ddienyddio, yn ol eu cyfraith hwynt: ond yn gyntaf, hwy a'i fflangellasant ac a'i cernodiasant ef; ac wedi hyn hwy a frathasant ei gnawd ef â chyllyll, ac a'i llabyddiasant ef â meini; ac yn ddiweddaf, wedi ei wanu ef trwyddo â'u cleddyfau, hwy a'i llosgasant *ef yn ulw wrth* y dienydd-bawl. A dyma i chwi ddiwedd *Ffyddlawn.*

*Ond mi a welais* o'r tu ol i'r fintai oedd yn bresennol wrth

sgi ef, gerbyd â chwpl o geffylau yn dysgwyl am dano: an gynted ag y bu farw trwy y poenau hyn, dygwyd ef ɪrbyd, ac yn ddisymwth cipiwyd ef i fyny trwy'r cymylau â sain udgorn, y ffordd nesaf i'r ddinas nefol.

Ffyddlawn enwog am dduwiol-fryd,
Da mewn gair a gweithred hefyd;
Ni allai barnwr, rhaith, na thystion,
Wneuthur i ti ddim niweidion.
Ond yn lle d' orchfygu 'n hyrwydd,
Dangosasant gynddeiriogrwydd;
Pan b'ont hwy a'u henwau'n feirwon,
Byddi byth yn mhlith y bywion.

:thr hwy a arbedasant Cristion y tro yma, gan ei ddan-ɪf yn ol i'r carchar, lle y gadawsant ef dros ryw ennyd. Duw, yr hwn sy'n goruwch-reoli pob peth, gan fod gan-allu i ffrwyno eu cynddaredd hwynt, a wnaeth ffordd ddianc y pryd hwn rhag malais ei elynion; ac felly efe th ar hyd ei ffordd dan ganu:

Ffyddlawn, cywir a fuost ti,
I'th unig Ri rhagorol;
Gyda'r hwn oei ar ol hyn,
Fawr wynfyd yn dragwyddol.

Pan fyddo'r anffyddloniaid fflwch,
A'u holl ddigrifwch ofer,
Yn uffern boeth yn udo'n rhost,
Yn ddigon tost eu cyflwr.

Cân, Ffyddlawn! cân! bo i'th enw mad,
Barch a pharhad tragwyddol;
Er cael dy ladd, gwirionedd yw,
Dy fod yn fyw'n wastadol.

n awr mi a welais yn fy mreuddwyd, nad aethai Cristion ith yn unig wrtho ei hunan; canys yr oedd yno un a en-Gobeithiol, calon pa un a gyffyrddwyd, ac a wnaethpwyd beithiol, trwy ddal sylw ar eiriau ac ymddygiad Cristion yddlawn dan eu dyoddefiadau yn y ffair, yr hwn a lyn-wrth Cristion, ac a wnaeth gyfammod brawdol âg ef, ddywedyd wrtho y byddai efe yn gydymaith iddo yn ei ı. Fel hyn y bu un farw i ddwyn tystiolaeth i'r gwir-dd; ac wele un arall yn cyfodi o'i ludw ef i fod yn gyf-i Cristion yn ei bererindod. A dywedodd Gobeithiol ı Cristion, fod llawer o bobl yn y ffair hono, y rhai mewn er oeddynt debyg i'w canlyn hwynt.

phan gynted ag y daethant allan o'r ffair, hwy a orddi-ısant ŵr a elwid Camddybenion: a hwy a ofynasant —*Syr, gŵr o ba wlad ydych chwi? A pha belled yr h chwi yn teithio ar hyd y ffordd hon?* Yntau a'u

hatebodd hwynt, ei fod ef yn dyfod o dref Teg-ymadrodd, a'i fod yn myned tua'r Ddinas Nefol; ond ni fynegodd iddynt ei enw.

*Cristion.* A ddichon dim da, ebe Cristion, ddyfod allan o dref Teg-ymadrodd? *Diar.* xxvi. 25.

*Camddybenion.* Dichon, yr wyf yn gobeithio; ebe Camddybenion.

*Cristion.* Atolwg, syr, beth yw eich enw chwi?

*Camddy.* Yr wyf fi yn ddyeithr i chwi, a chwithau i minnau; os ydych yn trafaelio y ffordd hon, fe fydd yn dda iawn genyf gael eich cwmni; onid ydych, rhaid i mi fod yn foddlawn i fyned yn mlaen fy hun.

*Cristion.* Myfi a glywais son am y dref yma, sef, Teg-ymadrodd, ebe Cristion; a hyd yr wyf fi yn cofio, hwy a ddywedent ei bod hi yn lle cyfoethog.

*Camddy.* Ydyw, ar fy ngair i; ac y mae i mi lawer o geraint cyfoethogion yn byw yno.

*Cristion.* Pwy yw eich ceraint chwi yno?

*Camddy.* Yr holl dref, gan mwyaf; ond yn enwedigol yr Arglwydd Chwyldroi, yr Arglwydd Gwasanaethydd Amser, yr Arglwydd Teg-ymadrodd, oddi wrth henafiaid pa un y cafodd y dref ei henw; ac hefyd Mr. Tafod-llyfn, Mr. Dauwynebog, Mr. Pobpeth; a pherson ein plwyf, Mr. Daudafod, yw fy ewythr, brawd fy mam: ac i ddywedyd i chwi y gwir, yr wyf fi yn awr yn ŵr boneddig, o gymmeriad mawr, ac enw da; er nad oedd fy hen daid i ond morwr, yn rhwyfo un ffordd, ac yn edrych ffordd arall; ac wrth y gelfyddyd hono yr ennillais innau y rhan fwyaf o'm golud.

*Cristion.* A ydych chwi yn ŵr priod?

*Camddy.* Ydwyf; ac y mae fy ngwraig i yn llawn o rinweddau da, a merch ydyw hi i'r Arglwyddes Rhagrithiol; a chan fod ei thylwyth hi yn anrhydeddus, hwy a roisant y cyfryw ddygiad i fyny iddi, fel y medr hi ymddwyn yn weddaidd, yn gystal o flaen y tywysog ag o flaen y cyffredin. Gwir yw, fod peth gwahaniaeth mewn crefydd rhyngom ni a'r gwyr o'r sect fanylaf; eto, nid yw hyny ond mewn dau o bynciau bychain. Yn gyntaf, nid ydym ni yn ymdrechu un amser i rwyfo yn erbyn y gwynt a'r llanw. Yn ail, yr ydym ni bob amser yn awyddus i fod yn grefyddol, pan y byddo crefydd yn myned yn ei sandalau arian; canys da iawn genym rodio gyda hi yn yr heolydd, os bydd yr haul yn tywynu arni, a'r bobl yn ei chlodfori.

*Yna Cristion* a drodd ychydig o'r neilldu at ei gyfaill Gobeithiol, ac a ddywedodd wrtho, Yr wyf fi yn tybied mai Mr. Camddybenion, o dref Teg-ymadrodd, yw'r dyn hwn: ac o

efe ydyw y gŵr, y mae genym yn ein cwmni gymmaint cnaf a'r penaf yn y parthau hyn.

*Gob.* Gofynwch iddo beth yw ei enw; yn sicr mi dybygwn na ddylai efe gywilyddio i ddadguddio ei enw.

Felly Cristion a aeth ato drachefn, ac a ddywedodd, Syr, yr ydych chwi yn siarad megys un yn tybied ei fod yn deall rhyw bethau yn well na llaweroedd ereill; ac os nad wyf yn eich camgymmeryd, mi dybygwn fy mod yn eich hanner adnabod: ac onid ydych yn byw yn nhref Teg-ymadrodd?

*Camddy.* Nid Camddybenion yw fy enw i; eithr gwir ydyw, fod rhai o'm caseion yn fy llysenwi felly: ac y mae yn rhaid i mi ddyoddef eu hanmharch, megys y dyoddefodd gwŷr da ereill o'm blaen.

*Cristion.* A roisoch chwi ddim achos erioed i neb eich galw wrth yr enw hwn?

*Camddy.* Na ddo erioed! Ond fe gymmerodd pobl achlysur i'm galw wrth yr enw hwnw, am fy mod yn tueddu yn wastadol i farnu yr un fath a phobl ereill, beth bynag fyddai hyny—myn'd yn wastad gyda'r amseroedd, gyda'r lli', wyddoch':—ac yr oeddwn i yn lwcus iawn i ennill llawer o arian wrth wneuthur felly—yr oedd yn ateb yn dda i mi. Ac os cesglais gyfoeth yn y modd hwn, rhaid i mi ei gyfrif yn fendith: ond na anmharched y maleisus fi am hyn o beth.

*Cristion.* Yr oeddwn i yn tybied yn wir mai chwi oedd y gŵr y clywais i son am dano: ac i ddywedyd wrthych chwi fy meddwl, yr wyf fi yn ofni fod yr enw hwn yn perthyn yn fwy priodol i chwi nag y mynech i ni dybied ei fod.

*Camddy.* Wele, os mynwch ddychymygu pethau felly, ni allaf fi wrthych: ond os byddwch mor fwyn a'm cymmeryd i'ch cymdeithas, chwi a'm cewch yn gydymaith teg ar eich taith.

*Cristion.* Os deuwch chwi gyda ni, rhaid i chwi fyned yn erbyn gwynt a llanw, yr hyn sy'n wrthwyneb i'ch barn chwi; a rhaid i chwi hefyd ymddangos dros grefydd, pan y byddo hi yn ei hen gadachau, yn gystal a phan y byddo hi yn ei sandalau arian; a'i harddel hi hefyd pan y byddo hi yn rhwym mewn cadwynau, yn gystal a phan y byddo hi yn rhodio yr heolydd mewn anrhydedd.

*Camddy.* Nid oes i chwi arglwyddiaethu ar fy ffydd i: gadewch fi yn ŵr rhydd, a deuaf gyda chwi.

*Cristion.* Na ddeuwch gam yn mhellach gyd â ni, os na wnewch fel yr ydym ninnau yn gwneuthur.

Yna, ebe Camddybenion, nid ymadawaf fi byth â'm hen *brif-bynciau a'm dybenion*, gan eu bod yn ddiniwed ac yn *fuddiol: oni chaf* fi deithio gyda chwi, rhaid i mi fyned

wrthyf fy hun, fel y gwnaethum cyn eich gorddiwes chwi, nes y delwyf i fysg rhai y byddo da ganddynt fy nghwmni.

Yn awr, mi a welwn, yn fy mreuddwyd, Cristion a Gobeithiol yn ei adael ef ar eu hol: eithr dygwyddodd i un o honynt edrych drach ei gefn; ac efe a welai dri o wŷr yn dyfod ar ol Mr. Camddybenion. Ac wele, pan y darfu iddynt nesâu ato, efe a ymgrymodd iddynt hyd y llawr, a hwythau hefyd a ymgrymasant iddo yntau. Enwau y gwŷr oedd Mr. Cofleidio y Byd, Mr. Llygad-arian, a Mr. Crintach sef gwŷr y buasai Mr. Camddybenion gynt yn gydnabyddu â hwynt: canys cydysgoleigion a fuasent yn eu hieuenctyd Eu meistr hwy oedd Mr. Dal-gafael ar y Byd, yn nhref Car elw, yr hon sydd dref farchnad yn sir Trachwant yn y gogledd: a'u hathraw a ddysgodd iddynt y gelfyddyd o elwa naill ai trwy drais, twyll, gweniaith, dywedyd celwydd, neu ynte trwy wneuthur lliw o grefydd. A'r pedwar pendefig yma a ddysgasant gymmaint o gelfyddyd eu hathraw, hyd oni fedrai pob un o honynt gadw yr unrhyw ysgol ag yntau

Ac ar ol iddynt, fel y dywedais, gyfarch gwell i'w gilydd gofynodd Mr. Llygad-arian i Mr. Camddybenion, Pwy ydyw y rhai acw sydd o'n blaen ar y ffordd? Canys yr oedd Cristion a Gobeithiol eto o fewn golwg iddynt.

*Camddy.* Dau ŵr o wlad bell ydynt, y rhai sydd yn myned ar bererindod.

*Llygad-arian.* Och! Pa ham nad arosant, fel y caffom ei cwmni da hwy: canys y maent hwy, a minnau, a chwithau syr, yr wyf yn gobeithio, yn myned ar bererindod.

*Camddy.* Yr ydym ninnau felly yn wir; ond y mae y gwŷr acw, sydd o'n blaen, mor ystyfnig ac mor anystwyth, trwy garu eu hopiniynau eu hunain, gan ddibrisio opiniynau ereill, fel, bydded gŵr mor dduwiol ag y myno, oni bydd yn cytuno â hwy yn mhob pwnc, nid ymgyfeillachant âg ef

*Mr. Crint.* Drwg iawn yw hyny: yr ydym ninnau yn darllen am rai sydd yn rhy gyfiawn: ac y mae ystyfnigrwydd y fath wŷr yn eu gyru hwynt i farnu a chondemnio pawb ond eu hunain. Eithr, atolwg, pa fath, a pha sawl un oedd y pethau yr oeddych yn anghytuno â hwy yn eu cylch?

*Camddy.* Yr oeddynt hwy, yn ol eu hystyfnigrwydd, yn barnu, mai eu dyledswydd hwy ydoedd teithio trwy bob tywydd; a minnau wyf dros ddysgwyl am wynt â llanw. Y maent hwy am anturio y cwbl oll a feddant dros Dduw mewn mynyd; a minnau wyf am ddysgwyl pob cyfleusdra i sicrhau fy einioes a'm golud. Y maent hwy am arddel eu crefydd, pe byddai yr holl fyd yn eu herbyn; eithr yr wyf finnau dros grefydd gan belled ag y byddo yr amseroedd a'm diogelwch

fy hun yn rhoddi lle i hyny. Y maent hwy am ymlynu wrth grefydd pan y byddo hi mewn dirmyg a diystyrwch; eithr yr wyf finnau am lynu wrthi pan y byddo hi yn rhodio yn ei sandalau auraidd, a'r haul yn llewyrchu arni, a'r holl bobl yn ei chlodfori.

*Mr. Cofleidio y Byd.* Mr. Camddybenion—da iawn y gwnewch chwi, os parhewch felly byth; canys i'm tyb i, y mae'r dyn hwnw yn ynfyd, yr hwn a gyll ei feddiannau pan y gallo eu cadw hwynt. Byddwn ddoeth fel seirff:—Da trin y gwair tra y byddo'r haul yn llewyrchu. Chwi a welwch fel y mae y wenynen yn llechu yn y gauaf, ac yn llafurio yn unig pan y gallo hi gael budd gyda phleser. Y mae Duw yn rhoddi gwlaw weithiau, a thegwch brydiau ereill; os bydd neb mor ynfyd a myned trwy y dymmestl, gadewch iddo fyned: eto, o'n rhan ein hunain, gadewch i ni fod yn foddlawn i orphwys, hyd oni chaffom y tywydd yn deg, a'r hin yn dawel. O'm rhan i, yr wyf fi yn caru y grefydd hono yn oreu, ag a safo gyd â'r sicrwydd mwyaf y bydd i ni fwynhau y bendithion a roddes yr Arglwydd i ni; canys y mae yn hawdd i ni ddeall, os nad ydym wedi gwallgofi, y myn Duw i ni gadw, er ei fwyn ef, yr holl bethau daionus a gawsom oddi wrtho i'n cynnal ni yn y byd hwn. Abraham a Solomon a ymgyfoethogasant, er eu bod yn grefyddol. Ac y mae Eliphaz yn dywedyd, y rhydd gŵr da aur i gadw fel llwch. Nid felly y dywed y gwŷr o'n blaen, os ydynt y cyfryw rai ag y dywedasoch chwi eu bod.

*Mr. Crint.* Yr wyf yn meddwl ein bod oll wedi cytuno yn y mater yma; ac am hyny nid oes achos siarad yn mhellach am dano.

*Mr. Llygad-ar.* Nid rhaid, yn ddiau, dywedyd gair yn mhellach yn nghylch y mater yma; canys yr hwn nid yw yn credu nac Ysgrythyr na rheswm—a chwi a welwch fod y ddau ar ein plaid—nid yw hwnw yn adnabod, ychwaith, mo'i ryddid, nac yn ceisio ei ddiogelwch ei hun.

*Camddy.* Fy mrodyr—yr ydym oll yn awr, fel y gwelwch, yn myned ar bererindod; ac er mwyn mwynhau yr amser yn well, rhoddwch genad i mi ofyn i chwi y cwestiwn hwn:—Bwriwch fod gweinidog, neu grefftwr, &c., mewn cyfleusdra i ennill bendithion daionus y bywyd hwn; eto nid all, mewn modd yn y byd, fod yn gyfranog o honynt, oddi eithr iddo, o'r hyn lleiaf mewn ymddangosiad, fod yn dra gwresog, tu hwnt i arfer cyffredin y wlad, mewn rhai pynciau crefyddol, y rhai nad oedd efe erioed o'r blaen yn eu harddel—a ddichon efe wneyd hyny, er mwyn cyrhaedd ei ddyben, ac *eto bod yn wr gonest* iawn?

*Mr. Llygad-arian.* Yr wyf yn gweled eich cwestiwn i'r gwaelod; a thrwy genad y pendefigion hyn, mi a wnaf fy ngoreu i roddi ateb iddo. Ac yn gyntaf am y gŵr eglwysig, yn benodol. Bwriwch fod gweinidog, yr hwn sydd yn ŵr gweddol, a chanddo ond personoliaeth neu ficeriaeth fechan iawn; ond y mae â'i olwg ar un a fyddo mwy a brasach a chyfoethocach o lawer, ac yr awr hon y mae ganddo gyfle i'w chael. Eto y mae yn rhaid iddo fod yn fwy astud i fyfyrio, a phregethu yn fwy mynych, ac yn fwy gwresog; ac os bydd tymmer y bobl yn gofyn hyny, rhaid newid rhai o'i egwyddorion:—o'm rhan i, nid wyf yn gweled rheswm yn y byd, nad allai gŵr wneuthur hyny (yn enwedig os bydd ganddo alwad i'r peth), ïe, a llawer mwy na hyn, ac eto bod yn ŵr gonest. Canys—

1. Y mae ei waith yn dymuno personoliaeth a fyddo mwy yn gyfreithlon—nis gellir gwadu hyny—gan ei bod wedi ei gosod o'i flaen gan ragluniaeth; ac am hyny efe a ddichon ei chymmeryd, os gall, heb ofyn un cwestiwn er mwyn cydwybod.

2. Y mae ei waith yn dymuno y bersonoliaeth hòno yn ei wneuthur yn fwy gofalus i ddilyn ei lyfrau, i fod yn bregethwr gwresocach, i gynnyddu yn ei ddoniau, ac hefyd i fod yn well gŵr; yr hyn oll sydd yn gysson âg ewyllys Duw.

3. Yn awr am ei waith yn cydymffurfio â thymmer ei bobl, trwy ymadael â rhai o'i egwyddorion i'w boddloni hwynt, y mae hyny yn argoeli—1af. Ei fod yn ŵr a ddichon ymwadu âg ef ei hun. 2il. Ei fod o ymddygiad hyfryd ac ennillgar. 3ydd. Ac o herwydd hyny yn fwy cymhwys i'r weinidogaeth.

4. Yr wyf yn dal, gan hyny, na ddylid barnu y gweinidog hwnw yn ŵr bydol, yr hwn a newid bersonoliaeth fechan am un a fyddo mwy; ond yn hytrach, gan ei fod trwy hyny wedi cynnyddu yn ei ddoniau a'i ddiwydrwydd yn ei weinidogaeth, fe ddylid ei gyfrif yn ŵr sydd yn dilyn ei alwad yn well, ac yn un a wnaeth ddefnydd da o'r achlysur a'r cyfleusdra a roddwyd ger ei fron i wneuthur daioni.

Ac yr awr hon, i roddi ateb i'r ail ran o'ch cwestiwn, sef yn nghylch y crefftwr:—Bwriwch nad oes gan grefftwr ond ychydig tuag at ei gynnal yn y byd; ond trwy ddyfod i broffesu crefydd, fe ddichon gael cyfle i wellhâu ei gyflwr, naill ai trwy gael gwraig gyfoethog, neu ynte trwy ennill mwy a gwell prynwyr i'w siop:—o'm rhan i, nid wyf yn gweled rheswm yn y byd, nas gellir gwneuthur hyn yn gyfreithlawn; *canys, 1. Rhin*wedd mawr yw bod yn grefyddol, pa fodd *bynag y delo* dyn i fod felly. 2. Nid yw yn anghyfreithlawn *i geisio* gwraig gyfoethog, neu fwy o brynwyr i'm siop.

3. Heb law hyny, y mae y gŵr a ennill y pethau hyn trwy fod yn grefyddol, yn ennill yr hyn sydd dda, oddi wrth y sawl sydd dda, trwy ddyfod ei hun yn dda: felly, dyma wraig dda, prynwyr da, ac elw da, a'r rhai hyn i gyd wedi eu hennill a thrwy ddyfod i broffesu crefydd, yr hyn sydd beth da; ac am hyny, gwaith da a buddiol ydyw bod yn grefyddol, er mwyn ennill yr holl bethau hyn.

Wedi i Mr. Llygad-arian roddi yr ateb hwn i ofyniad Mr. Camddybenion, hwy a ganmolasant ei ateb yn ddirfawr, ac a farnasant fod y cwbl a lefarodd yn dra buddiol a chywir. Ac o blegid eu bod yn tybied nad oedd neb a allai ddywedyd dim yn wrthwyneb i'r ateb yma; ac o herwydd fod Cristion a Gobeithiol yn ymyl, hwy a gytunasant yn unfryd, mor gynted ag y byddai iddynt eu gorddiwes, i osod y gofyniad hwn ger eu bron; yn enwedig o blegid iddynt o'r blaen wrthwynebu Mr. Camddybenion yn y mater yma. Felly hwy a alwasant ar y pererinion, a hwythau a safasant yn yr un fan hyd oni ddaeth y lleill atynt; ond wrth ddyfod tuag atynt, hwy a gytunasant, mai nid Mr. Camddybenion, ond yr hen ŵr, Mr. Cofleidio y Byd, a gai ofyn y gofyniad iddynt; o herwydd eu bod yn tybied, y byddent yn fwy tyner wrtho, ac na fyddent mor danbaid ag y buont ychydig o'r blaen wrth ymadael â Mr. Camddybenion.

Felly hwy a ddaethant hyd atynt; ac wedi iddynt gyfarch gwell i'w gilydd, Mr. Cofleidio y Byd a osododd y gofyniad ger bron Cristion a'i gydymaith, gan ddymuno arnynt ei ateb, os gallent.

Yna ebe Cristion, Gallai baban mewn crefydd ateb deng mil o'r fath ofyniadau a'r rhai hyn; canys, gan ei bod yn awr, fel yr oedd gynt, yn anghyfreithlawn i ddilyn Crist er y torthau bara, pa faint mwy ffiaidd ydyw ei wneuthur ef a chrefydd yn stôldroed er cyrhaedd a mwynhau mwy o'r byd? ac ni bu neb ond cenedloedd, rhagrithwyr, diafliaid, a swynwyr o'r meddwl hwn.

1. Cenedloedd: canys pan ewyllysiai Hamor a Sichem gael merch ac anifeiliaid Iacob, a phan y gwelsant nad oedd modd yn y byd i'w mwynhau ond trwy dderbyn yr enwaediad, dywedasant wrth eu cyfeillion, Os enwaedir ein holl wrywiaid, fel y maent hwy wedi eu henwaedu, oni fydd eu hanifeiliaid, a'u cyfoeth, a'u holl ysgrubliaid yn eiddom ni? Y ferch a'r anifeiliaid oedd y cwbl yr oeddynt yn dysgwyl am danynt, a'u crefydd oedd y stôl y safasant arni er eu cyrhaedd; *Gen.* xxxiv.

2. Y *Phariseaid* rhagrithiol oeddynt, hefyd, o'r grefydd yma; canys dan rith hir weddïo, eu dyben hwy oedd llwyr

fwyta tai gwragedd gweddwon: ac am hyny y bygythiodd Crist hwy â damnedigaeth mwy echrydus na damnedigaeth troseddwyr ereill; *Luc* xx. 47.

3. Yr oedd Iudas y cythraul hefyd o'r grefydd yma. Yr oedd efe yn grefyddol er mwyn y gôd; gan obeithio y gallai trwy hyny feddiannu yr arian oedd ynddi: ond efe a gyfrgollwyd, ac a fwriwyd ymaith, ac yr oedd yn wir fab y golledigaeth.

4. Simon y swynwr oedd hefyd o'r grefydd yma: canys efe a ddymunai gael yr Ysbryd Glân, fel y gallai wneuthur elw o hono; a'i gondemniad o enau Pedr oedd yn ol hyny; *Act.* viii. 18—21.

5. Ac nis gallaf dybied llai na werth hwnw ei grefydd am y byd, yr hwn a'i proffesodd er mwyn y byd; canys mor sicr ag yr oedd Iudas yn amcanu ennill arian trwy fod yn grefyddol, mor sicr y gwerthodd efe grefydd ei feistr am arian. Ac i roddi ateb i'ch gofyniad, gwybyddwch hyn—pe dywedwn, fel y dywedwch chwi yn y mater yma, da y gelli fy ngalw, megys y gellir galw pob un o honoch chwi, yn bagan, yn rhagrithiwr, ac yn gythraul, y rhai y bydd eu cyflog yn ol eu gweithredoedd.

Yna hwy a safasant, gan lygadrythu y naill ar y llall; ac nid allent roddi ateb yn y byd i Cristion yn nghylch y peth yma. Gobeithiol, hefyd, a gytunodd yn yr hyn a lefarodd Cristion wrthynt; ac felly y bu dystawrwydd mawr yn eu plith. Ar hyn, Mr. Camddybenion, a'i gyfeillion, a safasant yn ol, fel y gallai Cristion a Gobeithiol gael y blaen arnynt, am eu bod yn chwennych cael gwared o'u cwmpeini.

Yna, ebe Cristion wrth ei gyfaill, Os nas gall y gwŷr hyn sefyll o dan farn dynion, pa fodd y safant dan farn Duw? Ac os ydynt yn fudion pan eu trinir gan lestri pridd, pa beth a wnant pan y ceryddir hwy gan fflamau o dân ysol?

Yna Cristion a Gobeithiol a'u gadawsant drachefn, nes iddynt ddyfod i wastadedd hyfryd, yr hwn a elwid Esmwythdra: a hwy a deithiasant yno gyda boddlonrwydd mawr; a chan nad oedd y gwastadedd yma ond bychan iawn, aethant drosto yn ebrwydd. Yn awr, yr oedd yn nghwr eithaf y gwastadedd hwn fryn bychan, a elwid Elw; ac yn y bryn hwn yr oedd mwnglawdd arian; i weled pa un y gŵyrdroasai bagad yn yr amser gynt wrth fyned heibio; o herwydd bod y cyfryw leoedd yn anaml iawn: ac wrth fyned yn rhy agos at ymyl y pwll, y tir, gan ei fod yn siomedig oddi danynt, a ymollyngodd, a hwythau a ddyfethwyd: ac ereill o honynt a anafwyd, ac ni lwyr iachâwyd hwynt hyd ddydd eu marwolaeth.

Yna y gwelwn yn fy mreuddwyd, ychydig dros y ffordd, ar gyfer y mwnglawdd arian, Demas yn sefyll fel gŵr boneddig, gan alw fforddolion i droi yno; ac efe a ddywedodd wrth Cristion a'i gyfaill, Hai! trowch yma: a mi a ddangosaf i chwi rywbeth godidog.

*Cristion.* Pa beth sydd yn y lle yma mor odidog, a allai ein temtio i droi oddi ar y ffordd i'w weled?

*Dem.* Dyma gloddfa arian, a rhai yn cloddio ynddi am drysor; os deuwch yma, gellwch ymgyfoethogi drwy ond ychydig o boen.

Yna ebe Gobeithiol, Awn i weled y peth yma.

Nac äf ddim, ebe Cristion: clywais son am y lle yma cyn hyn, a pha nifer a ddyfethwyd yma; ac heb law hyn, y mae y trysor acw yn fagl i'r rhai sydd yn ei geisio; canys y mae yn eu rhwystro ar eu pererindod.

Yna Cristion a alwodd ar Demas, gan ddywedyd wrtho, Onid yw y lle yna yn beryglus?

*Dem.* Nac ydyw yn beryglus iawn, oddi eithr i'r rhai sydd yn ddiofal: ac wrth ddywedyd hyny, efe a wridodd.

Yna ebe Cristion wrth Gobeithiol, Gadewch i ni gadw ein ffordd, ac nac ysgown droedfedd oddi arni.

*Gobeith.* Yn ddiau, pan ddelo Camddybenion heibio, os gwahoddir ef fel y gwahoddwyd ni, efe a dry acw.

*Cristion.* Diammheuol yw hyny; canys y mae opiniynau Camddybenion yn ei arwain at y cyfryw deganau: a chan punt i geiniog, onis dyfethir ef.

Yna Demas a alwodd arnynt drachefn, gan ddywedyd, Oni ddeuwch drosodd, a gweled yr hyn sydd yma?

Cristion a'i hatebodd yn dra sarug, gan ddywedyd, Demas, yr wyt yn elyn i uniawn ffyrdd yr Arglwydd, wedi dy euogfarnu eisoes gan un o farnwyr ei Fawrhydi; a pha ham yr wyt yn ceisio ein denu ninnau i'r un ddamnedigaeth? Ac heb law hyny, os trown fymryn oddi ar y ffordd, fe glyw ein Brenin: ac yna y cawn ddyoddef cywilydd, lle y gallasem sefyll yn ei ŵydd yn hyderus.

Yna Demas a waeddodd drachefn arnynt, ac a ddywedodd mai un o'u brawdoliaeth hwy oedd yntau; ac os arosent ychydig, y deuai gyda hwynt.

Yna ebe Cristion, Onid Demas yw dy enw di?

Ië, Demas yw fy enw, ac yr wyf yn fab i Abraham.

*Cristion.* Mi a'th adwaen: Gehazi oedd dy hen daid, a Suddas oedd dy dad; a thi a rodiaist yn eu llwybrau: gwaith y cythraul yr wyt yn ei wneuthur, trwy ymdrechu hudo pobl *oddi ar ffordd yr Arglwydd.* Fe grogwyd dy dad am deyrn-*fradwriaeth;* ac nid wyt tithau yn haeddu gwell gwobrwy.

Bydded hysbys i ti, mai pan ddelom at y Brenin, y gwnawn ef yn gydnabyddus o'th ymddygiad tuag atom. Ar ol hyny hwy a aethant i'w ffordd.

Erbyn hyn, Mr. Camddybenion, a'i gyfeillion, oeddynt wedi dyfod drachefn i'r golwg; ac ar yr amnaid gyntaf, hwy a aethant drosodd at Demas. Yn awr, pa un a wnaethant, wrth edrych dros ymyl y pwll, ai syrthio iddo, ai myned i lawr i gloddio o'r mŵn arian, neu ynte gael o honynt eu tagu gan y tarth sydd yn arfer ymgodi o'r manau hyny, nis gwn:—ond hyn a ddeliais sylw arno; sef, na welsom mo honynt mwyach ar y ffordd.

**Mae Camddybenion a Demas arian,**
**Eill dau yn ymgytuno 'n fuan:**
**Mae un yn galw a'r llall yn rhedeg,**
**Am ran o'r elw yn ddiattreg:**
**Yn rhoi ei serch ar fyd presennol,**
**Gan syrthio yn fyr o'r fraint dragwyddol;**
**Yn ol cael elw gwael i'w cyfran,**
**Yn marw yn y mŵnglawdd arian.**

Yna y daeth y pererinion i ryw fan lle yr oedd hen golofn fawr yn sefyll ar fin y brif-ffordd: a hwy a ryfeddasant yn ddirfawr wrth weled ei dull a'i gwedd anghyffredin; canys yr oedd yn ymddangos megys gwraig wedi ei throi yn golofn. A hwy a safasant yno dros dro, gan edrych yn fynych arni; ond nis gwyddent, dros ennyd, pa beth a wnaent o honi: ond o'r diwedd, Gobeithiol a ganfu beth yn ysgrifenedig ar ei phen, mewn ysgrifenlaw anarferol: ond, gan ei fod yn ŵr anllythyrenog, efe a alwodd ar Cristion ato (canys yr oedd efe yn ŵr dysgedig) i edrych a allai ddarllen yr ysgrifen: ac wedi i Cristion gyssylltu y llythyrenau yn nghyd, efe a ddeallodd mai hyn oedd y geiriau—"Cofiwch wraig Lot." Ac efe a'u darllenodd i'w gydymaith; yna y gwybuant, mai hòno ydoedd y golofn o halen i'r hon y trôwyd gwraig Lot, am edrych drach ei chefn â chalon drachwantus am y pethau a adawsai yn ol yn Sodom, pan yr oedd yn dianc allan o honi am ei bywyd: a'r golofn yma a fu yr achos iddynt ymddyddan fel hyn.

*Cristion.* Ah! fy mrawd! dyma olwg a welsom mewn amser cyfaddas, ychydig ar ol i Demas ein gwahodd i weled y bryn lle yr oedd y mŵn arian ynddo; a phe buasem yn myned yno fel yr oedd yn dymuno, a thithau fy mrawd yn ewyllysio, gwnaethid ninnau fel y gwnaethpwyd hithau, am ddim ar a wn i, yn ddrych i'r rhai a ddeuent ar ein hol i edrych arnom.

*Gobeith.* Y mae yn ddrwg genyf fy mod mor ynfyd; ac yr

wyf yn rhyfeddu nad ydwyf yn awr fel gwraig Lot; canys pa wahaniaeth sydd rhwng ei phechod hi a'r eiddof innau? Yn unig, hi a edrychodd drach ei chefn, a minnau a ewyllysiais fyned a gweled. Diolch sydd yn ddyledus i Dduw am fy nghadw rhag myned i fryn yr arian; a chywilydd i minnau am fod y fath duedd erioed yn fy nghalon i fyned yno.

*Cristion.* Cymmerwn hyn yn rhybudd rhag llaw: y wraig hon a ddiangodd rhag un farnedigaeth—canys ni ddystrywiwyd mo honi yn ninystr Sodom—eto, dyfethwyd hi trwy farnedigaeth arall, megys y gwelwn hi yma heddyw wedi ei throi yn golofn o halen.

*Gobeith.* Gwir yw: gall fod yn rhybudd ac yn siampl i ni rhag llaw; yn rhybudd i ni ochelyd ei phechod, neu yn arwydd o'r farnedigaeth a ddygwydd i'r sawl na chymmerant rybudd oddi wrthi. Felly Corah, Dathan, ac Abiram, a'r deng ŵr a deugain a dau cant a ddyfethwyd yn eu pechod, a wnaed yn rhybudd neu yn siampl i ni ochelyd eu drwg weithredoedd. Ond yr wyf yn rhyfeddu yn ddirfawr am un peth tu hwnt i ddim arall; sef, pa fodd y gall Demas a'i gyfeillion sefyll acw mor hyderus i chwilio am y trysor hwnw, am ba un y cafodd y wraig yma (yr hon ni wnaeth ond yn unig edrych drach ei chefn gan ei serchu ef) ei throi yn golofn o halen: canys nid ydym yn darllen iddi fyned droedfedd oddi ar y ffordd, yn enwedig gan i'r farnedigaeth a'i goddiweddodd ei gwneuthur yn siampl gyferbyn a'r fan lle y maent yn preswylio ynddo: canys nid allant lai na'i chanfod, os dyrchafant eu golygon i fyny.

*Cristion.* Gwir yw, ei fod yn beth rhyfeddol; ac y mae yn dangos fod eu calonau wedi eu caledu yn ofnadwy yn y cyflwr hwnw: ac nis gwn i bwy y gellir eu cyffelybu yn well nag i'r rhai fyddant yn pigo pocedau ger bron y barnwr, neu i rai a feiddiant ladrata dan y crogbren. Dywedir am bobl Sodom, mai pechaduriaid dirfawr oeddynt, am eu bod yn bechaduriaid ger bron yr Arglwydd; hyny yw, yn ei ŵydd ef, er cymmaint o garedigrwydd a ddangosodd tuag atynt: canys yr oedd tir Sodom y pryd hyny megys gardd Eden gynt, yr hyn a wnaeth i Dduw fod yn fwy eiddigeddus, a'u pläau hwythau can boethed ag y gallai tân yr Arglwydd o'r nefoedd eu gwneuthur. Y mae yn sefyll, gan hyny, gyda rheswm, y bydd i'r cyfryw bobl a hyn fod yn gyfranogion o'r barnedigaethau tostaf; sef, y cyfryw bobl ag y sydd yn pechu yn ei ŵydd ef, a hyny hefyd mewn dirmyg o'r fath esamplau, y rhai sydd wedi eu gosod yn wastadol ger bron eu llygaid er eu hattal rhag pechu yn erbyn Duw.

*Gob.* Yn ddiammheu, ti a ddywedaist y gwir: ond y fath

drugaredd ydyw hon—nad wyt ti, ac yn enwedig myfi, wedi ein gwneuthur yn esampl yn y modd yma? Y mae y mater hwn yn rhoddi achlysur i ni fod yn ddiolchgar i'r Arglwydd, ac i arswydo ger ei fron, gan gofio gwraig Lot yn wastadol.

Wedi hyny, mi a'u gwelais hwynt yn myned yn mlaen, hyd oni ddaethant at afon hyfryd, yr hon a alwai y brenin Dafydd yn Afon Duw. Ond Ioan a'i geilw hi Afon dwfr y bywyd. Yn awr, yr oedd eu ffordd yn myned yn union ar hyd glan yr afon:—yma, gan hyny, yr ymdeithiodd Cristion a'i gydymaith gyda hyfrydwch mawr; a hwy a yfasant hefyd o ddwfr yr afon, yr hwn oedd ddymunol, gan iddo adfywio eu heneidiau diffygiol. Ac heb law hyny, yr oedd ar hyd glan yr afon yma, o bob tu, goed iraidd, yn dwyn pob math o ffrwythau; a hwy a fwytasant o ddail y coed, i ragflaenu glythineb, a chlefydau ereill sydd yn arferol o ddygwydd i ymdeithwyr, pan wedi gwresogi eu gwaed wrth deithio. Yr oedd hefyd, o ddeutu glan yr afon, weirglodd yn llawn o lili, ac yn wyrddlas trwy yr holl flwyddyn. Yn y weirglodd yma y gorweddasant ac y cysgasant; oblegid gallent gysgu yma mewn diogelwch: a phan y deffroisant, hwy a fwytasant drachefn o ffrwythau y coed, ac a yfasant eilwaith o ddwfr yr afon, ac wedi hyny, hwy a orweddasant i lawr i gysgu drachefn:—fel hyn y gwnaethant dros amryw ddyddiau a nosweithiau. Yna hwy a ganasant y gân hon:—

Gwelwch fel y rhed yn glau,
  Grisialaidd ffrydiau gloewon,
Wrth fin y ffordd, er mawr ddidrwch,
  Ddyddanwch pererinion;

A'r gweirgloddiau teg eu gwedd,
  A pher arogledd ganddynt,
Yn rhoddi (trwy ddoeth drefniad Ion)
  Ddidwyll ddanteithion iddynt.

Yr hwn sy'n gwybod rhin eu gwŷdd,
  A'r dail, a'r ffrwythydd ddygant,
A werth ei feddiant oll yn wir,
  I brynu'r tir lle tyfant.

Ac wedi myned ychydig yn mlaen (canys nid oeddynt eto wedi dyfod i ben eu taith), gwelsant fod yr afon yn ymadael â'r ffordd dros ennyd—yr hyn a fu yn ofid dirfawr iddynt; ond eto, ni feiddient fyned oddi ar y ffordd. Yn awr, yr oedd y ffordd—yr hon oedd yn myned oddi wrth yr afon—yn arw a charegog, ac yr oedd eu traed hwythau yn ddolurus o herwydd eu teithiau; a chyfyng oedd ar eneidiau y pererinion o herwydd y ffordd; *Num.* xxi. 4. Ac am hyny, yr oeddynt yn wastadol, wrth fyned yn mlaen, yn dymuno cael gwell ffordd. Yn awr, ychydig o'u blaen, yr oedd ar y llaw

aswy i'r ffordd, weirglodd, a chamfa i fyned drosodd iddi—a'r weirglodd hòno a elwir Gweirglodd y Traws-lwybr.[1] Yna ebe Cristion wrth ei gydymaith, Os ydyw y weirglodd hon yn gorwedd o hyd ar ystlys y ffordd, gadewch i ni droi iddi. Yna efe a aeth i ben y gamfa i edrych, ac efe a welai 'r llwybr yn myned o hyd, o'r tu mewn i'r weirglodd, gydag ymyl y ffordd. Y mae hyn yn ol fy ewyllys i, ebe Cristion. Gobeithiol, fy nghyfaill anwyl! tyred drosodd yma, canys dyma y ffordd esmwythaf!

*Gob.* Ond pa beth os arwain y llwybr yma ni dros y ffordd?

*Cristion.* Nid yw hyny yn debygol—gwel fel y mae yn myned o hyd gydag ymyl y ffordd.[2] Felly Gobeithiol, wedi ei berswadio gan ei gyfaill, a aeth ar ei ol dros y gamfa. Ac wedi iddynt fyned drosodd, a dyfod i'r llwybr, hwy a'i cawsant yn esmwyth iawn i'w traed; ac wrth edrych o'u blaen, hwy a welent ŵr yn teithio yno fel hwythau—ei enw oedd Gwaghyderus: felly hwy a alwasant arno, ac a ofynasant iddo i ba le yr oedd y ffordd hono yn myned. Yntau a ddywedodd, Tua 'r porth nefol. Gwelwch, ebe Cristion, oni ddywedais i felly wrthych?—wrth hyn y gellwch weled ein bod ar yr uniawn ffordd. Felly hwy a'i canlynasant ef; ond hi a hwyrhaodd arnynt yn y man, ac a aeth yn dywyll iawn, hyd oni chollasant eu golwg ar y gŵr, yr hwn oedd o'u blaen hwynt.

Gwaghyderus, gan hyny, o ddiffyg gweled y ffordd o'i flaen, a syrthiodd ar ei ben i bwll dwfn, yr hwn a gloddiwyd yno o bwrpas gan arglwydd y tiroedd hyny, i ddal ynfydion gwagymffrostus ynddo; a thrwy ei gwymp, efe a ddrylliwyd yn chwilfriw.

Yn awr, Cristion a'i gydymaith a'i clywsant ef yn syrthio, a hwy a alwasant arno i wybod beth oedd y mater; ond nid atebodd efe ddim iddynt—yn unig hwy a'i clywsant ef yn gruddfan yn y pwll. Yna ebe Gobeithiol, Yn mha le yr ydym yn awr? A chyda hyny, yr aeth Cristion yn fud, gan ofni iddo arwain ei gydymaith oddi ar y ffordd. Ac yn awr, yr oedd gwlaw, a tharanau, a mellt; a llif a gododd yn yr afon nes eu brawychu hwynt.[3]

Yna y gruddfanodd Gobeithiol ynddo ei hun, gan ddywedyd, O na buaswn yn cadw fy ffordd!

[1] Mae un brofedigaeth yn gwneuthur ffordd i brofedigaeth arall.

[2] Y mae Cristionogion cryfion weithiau yn arwain rhai gweiniaid allan o'r ffordd.

[3] *Gwelwch yma beth sydd yn dilyn gwneuthur cydnabyddiaeth yn ddisymmwth â dyeithriaid, [fel y gwnaeth y pererinion hyn â Gwaghyderus.*

*Cristion.* Pwy fuasai yn dychymygu y buasai y llwybr hwn yn ein harwain allan o'r ffordd?

*Gob.* Yr oeddwn yn ofni hyn ar y cyntaf, ac o blegid hyny rhybuddiais chwi yn addfwyn;—buaswn yn dywedyd fy meddwl yn eglurach, oni buasai eich bod yn hŷn na mi.

*Cristion.* Fy mrawd anwyl! na ddigia wrthyf—y mae yn ddrwg genyf i mi dy arwain allan o'r ffordd, a'th ddwyn i'r fath enbydrwydd mawr; atolwg, maddeu i mi, canys nid o ddrwgfwriad y gwnaethym hyn.

*Gob.* Bydd gysurus, fy mrawd—yr wyf yn maddeu i ti; ac yr wyf yn credu hefyd y bydd hyn er daioni i ni.

*Cristion.* Y mae yn llawen genyf fod gyda mi frawd trugarog; ond ni ddylem sefyll fel hyn—edrychwn a allwn fyned yn ein hol.

*Gob.* Ond fy mrawd anwyl!—gadewch i mi fyned o'ch blaen.

*Cristion.* Nagê: os rhynga bodd i chwi, gadewch i mi fyned yn mlaenaf, fel, os bydd dim perygl, y gallwyf fi fod ynddo yn gyntaf; canys trwy fy nghamsyniad i yr aethom ein dau allan o'r ffordd.

Nagê, ebe Gobeithiol; ni chewch chwi fyned yn mlaenaf; canys fe ddichon i drafferth eich meddwl eich tynu oddi ar y ffordd eto. Yna, er mawr gysur iddynt, hwy a glywsant leferydd un yn dywedyd wrthynt, "Gosod dy galon tua'r brif-ffordd; y ffordd yr aethost, dychwel;" *Ier.* xxxi. 21. Erbyn hyn, yr oedd y dyfroedd wedi codi yn uchel, ac o herwydd hyny, yr oedd y ffordd i fyned yn ol yn enbyd iawn (yna mi a feddyliais mai hawddach ydyw myned allan o'r ffordd, pan y byddom arni, na dyfod iddi, pan y byddom allan o honi)—eto hwy a anturiasant fyned yn ol; ond yr oedd cyn dywylled, a'r llif mor uchel, fel y buont agos a boddi ddengwaith wrth ddychwelyd.

Methasant, y noson hòno, er cymmaint eu hymgais, a dyfod yn ol at y gamfa. Ond o'r diwedd, wedi dyfod i le cysgodol, hwy a eisteddasant i lawr, hyd oni wawriodd y dydd; ond gan eu bod yn ddiffygiol, hwy a gysgasant yno. Yn awr, yr oedd, o fewn ychydig i'r man lle yr oeddynt yn gorwedd, gastell, a elwid Castell Ammheus—ei berchenog oedd y Cawr Anobaith: ac ar ei dir ef yr oeddynt hwy yn awr yn cysgu; ac efe wrth rodio, yn ol ei arfer, yn y boreuddydd ar hyd ei gaeau, a gafodd Cristion a Gobeithiol yn cysgu ar ei dir ef. Yna, â lleferydd garw a sarug, efe a *archodd iddynt* ddihuno; a gofynodd hefyd iddynt, gwŷr o *ba wlad oeddynt*, a pha beth yr oeddynt yn ei wneuthur ar *ei dir ef?* Hwythau a fynegasant iddo, mai pererinion oedd-

ynt, ac iddynt golli eu ffordd. Yna, ebe y cawr wrthynt, Fe ddarfu i chwi neithiwr droseddu yn fy erbyn trwy sathru fy nhir, a gorwedd arno; ac am hyny, y mae yn rhaid i chwi ddyfod gyda mi. Felly, fe orfu iddynt fyned gydag ef, o herwydd ei fod yn drech na hwynt; ac hefyd, nid oedd ganddynt nemawr i'w ddywedyd yn ei erbyn, canys yr oeddynt yn gwybod eu bod ar fai. Y cawr, gan hyny, a'u gyrodd o'i flaen, ac a'u gosododd yn ei gastell (*Salm* cvii. 16, 17), mewn daiardy tywyll iawn, yr hwn oedd ffiaidd a drewllyd i ysbrydoedd y ddau bererin.

Mae 'r pererinion, i foddloni
'R cnawd, yn ceisio ei esmwythdere;
Ond O! fel maent yn cael trwy hyny,
Ofidiau newydd yn ei le:
Y mae'r rhei'ny sydd am foddio
'R cnawd trwy droi i lwybrau gau,
Yn andwyo yn dost eu hunain—
Yn cael anghysur mawr a gwae.

Yno y buant yn gorwedd, o fore dydd Mercher hyd nos Sadwrn, heb gymmaint a thamaid o fara, na dyferyn o ddwfr, nac un math o oleuni, na dyn na dynes i ofyn pa fodd yr oeddynt: yma, gan hyny, yr oeddynt yn ddrwg eu cyflwr, yn mhell oddi wrth eu carenydd a'u cyfathrach, a phob math o gydnabyddiaeth. Yma hefyd y cafodd Cristion dristwch dau-ddyblyg—un am eu bod yn garcharorion, a'r llall am mai trwy ei gynghor annoeth ef y dygasid hwy i'r dyryswch hwn.

Yn awr, yr oedd gan y Cawr Anobaith wraig, a'i henw hi oedd Anhyderus; ac wedi iddo fyned i'w wely, efe a fynegodd iddi yr hyn oll a wnaethai—sef iddo ddal dau garcharor, a'u taflu i'w ddaiardy, am iddynt droseddu ar ei dir. Ac efe a ofynodd hefyd iddi, pa beth oedd oreu iddo wneuthur iddynt yn mhellach. Hithau a ofynodd pwy oeddynt—o ba le yr oeddynt yn dyfod—ac i ba le yr oeddynt yn myned? Yntau a fynegodd iddi. Yna hi a'i cynghorodd ef, pan gyfodai yn y bore, iddo eu curo yn ddidrugaredd. Felly, pan gyfododd bore dranoeth, efe a gymmerodd lawffon gref, ganghenog, o afallen sur, ac a aeth i waered atynt i'r daiardy: ac yno, yn gyntaf, efe a ddechreuodd eu difenwi, megys pe buasent gŵn (er na roddasant hwy iddo ef erioed air anweddus), wedi hyny, efe a ruthrodd arnynt, ac a'u curodd yn y fath fodd, fel nas gallent nac amddiffyn eu hunain nac ymdroi ar y llawr. Wedi iddo wneuthur felly, efe a aeth ymaith, ac a'u gadawodd yno i gydgwyno i'w gilydd, ac i alaru dan eu cystudd: felly hwy a dreuliasant yr holl ddiwrnod

hwnw mewn ocheneidiau a galarnadau chwerwon. Yr ail nos, Anhyderus a ymddyddanodd â'i gŵr yn eu cylch drachefn; a chan ddeall eu bod yn fyw eto, hi a'i hannogodd ef i'w cynghori i wneuthur diwedd arnynt eu hunain. Felly, pan ddaeth y bore, efe a aeth atynt mewn modd sarug fel o'r blaen, a chan wybod eu bod yn glwyfus iawn dan y cleisiau a roddasai efe iddynt o'r blaen, efe a ddywedodd wrthynt fel hyn :—Gan nad yw yn debyg y deuwch byth allan o'r lle yma, y peth goreu a wnewch yw gwneuthur diwedd arnoch eich hunain yn ebrwydd—naill ai â chyllyll, cebystrau, neu â gwenwyn; canys pa ham, ebe fe, yr ydych yn dewis bywyd, a chwithau yn gweled fod cymmaint o flinderau yn nglŷn wrtho? Ond hwy a atolygasant arno eu gollwng ymaith. A chyda hyny, efe a edrychodd arnynt â golwg erchyll—ac a ruthrodd arnynt. Diammheu y buasai efe ei hun yn eu lladd y pryd hwnw, oni buasai iddo syrthio mewn llewyg (canys yr oedd efe weithiau, ar dywydd tesog, yn cael ambell lewygfa) a cholli grym ei law dros amser. Gan hyny, efe a aeth ymaith, ac a'u gadawodd hwynt, megys o'r blaen, i ystyried pa beth a wnaent. Yna, y carcharorion a ymgynghorasant â'u gilydd pa un oedd oreu—ai cymmeryd cynghor y cawr, ai peidio; ac fel hyn y dechreuasant ymddyddan :—

*Cristion.* Fy mrawd! ebe Cristion, pa beth a wnawn? Y mae y bywyd yr ydym yn ei fyw yma yn druenus iawn: o'm rhan i, nid wyf yn gwybod pa un oreu, ai byw fel hyn, ai ynte gwneuthur diwedd o honom ein hunain yn ebrwydd—y mae fy enaid yn dewis ymdagu yn fwy na hoedl; *Iob* vii. 15. Ac y mae y bedd yn fwy esmwyth i mi na'r daiardy tomlyd hwn :—a wnawn ni gynghor y cawr, ai nis gwnawn?

*Gobeith.* Mewn gwirionedd, y mae ein cyflwr presennol yn ofnadwy; a gwell o lawer fyddai genyf farw na byw fel hyn dros byth: ond er hyny, cofiwn i Arglwydd y wlad yr ydym yn teithio tuag ati, ddywedyd, "Na ladd"—ïe, na ladd un arall—mwy o lawer, gan hyny, y mae yn gwahardd i ni dderbyn cynghor y cawr, sef ein lladd ein hunain. Heb law hyn, nid all yr hwn sydd yn lladd un arall, ond lladd ei gorff ef; ond y mae yr hwn a laddo ei hun, yn lladd ei enaid a'i gorff ar unwaith. Ac yn mhellach, fy mrawd, yr wyt yn son am esmwythdra yn y bedd; ond a anghofiaist ti uffern, lle y gorfydd i'r lleiddiaid, yn ddiammheu, aros dros byth; canys ni chaiff un lleiddiad etifeddu bywyd tragwyddol; *1 Ioan iii. 15.* Cofiwn hefyd, nad yw yr holl gyfraith, yn nghylch bywyd a rhyddid pobl, yn sefyll yn llaw y Cawr Anobaith: daliwyd ereill, mor belled ag yr wyf fi yn deall, yn

ei rwydau yn gystal a ninnau, ac eto diangasant o'i ddwylaw —pwy a ŵyr na symmud Duw y cawr hwn trwy farwolaeth allan o'r byd; neu na bydd iddo, rywbryd neu gilydd, anghofio cloi y drws arnom; neu, o bosibl, y bydd iddo yn fuan eto syrthio mewn llewyg ger ein bron, a cholli grym ei aelodau; ac os dygwydd y fath beth a hyn eto iddo, o'm rhan i, yr wyf yn bwriadu cymmeryd calon, a bod yn wrol i ymdrechu, hyd eithaf fy ngallu, i ddianc oddi tan ei law ef. Bum yn ffol iawn na buaswn yn gwneyd hyny eisoes; er hyny, fy mrawd, byddwn amyneddgar, a dyoddefwn ychydig, ef allai y cawn ymwared dedwydd oddi wrtho mewn amser; ond na laddwn ein hunain mewn modd yn y byd. Ac â'r geiriau hyn y llonyddodd Gobeithiol calon drom ei frawd Cristion: ac felly, hwy a arosasant yn nghyd yn y carchar tywyll, y diwrnod hwnw, yn eu cyflwr athrist a galarus.

A phan hwyrhaodd hi, fe aeth y cawr i waered i'r daiardŷ drachefn, i edrych a oedd ei garcharorion wedi gwneuthur yn ol ei gynghor ef. Ond wedi iddo ddyfod yno, efe a'u cafodd hwynt yn fyw; ac yn sicr dyna'r cwbl: canys yn awr, o eisieu ymborth, ac o achos y clwyfau a gawsant pan y curodd efe hwynt, braidd yr oedd anadl yn eu geneuau. Ond efe a'u cafodd, megys y dywedais, yn fyw; ac ar hyny efe a aeth yn gynddeiriog, ac a ddywedodd wrthynt, mai yn gymmaint ag nad ufuddhasant i'w gynghor ef, y cai eu cyflwr hwy fod yn waeth na phe buasent erioed heb eu geni.

Ar hyn hwy a ddychrynasant yn ddirfawr; ac yr wyf yn tybied i Cristion syrthio mewn llewyg. Eithr pan ddadebrodd efe ychydig, hwy a adnewyddasant eu hymddyddanion yn nghylch cynghor y cawr, ac a ddechreuasant ystyried, pa un oedd oreu iddynt, ai dilyn ei gynghor ef ai peidio. Yr oedd Cristion drachefn am wneuthur yn ol ei gynghor ef, ond Gobeithiol eilwaith a'i gwrthwynebodd fel hyn:—

*Gob.* Fy mrawd! ebe fe, onid wyt ti yn cofio mor ddewrwych y buost ti gynt? Methodd Apolyon dy orchfygu di; methodd hefyd yr holl bethau a welaist, a glywaist, ac a deimlaist ti yn Nyffryn Cysgod Angeu dy orchfygu di; pa galedi, dychryn a syndod, yr aethost ti eisoes trwyddynt—ac a wyt ti yn awr mor ofnus? Ti a weli fy mod i yn y carchar gyda thi, yr hwn ydwyf wrth natur yn wanach gŵr o lawer na thydi. Fe'm harchollwyd gan y cawr yma yn gystal a thithau; fe'm cadwyd hefyd oddi wrth bob ymborth a lluniaeth yn y byd, ac yr ydwyf yn galaru yma yn y tywyllwch gyda thi; atolwg, gad i ni fod yn amyneddgar dros ychydig *amser eto. Cofia* fel yr ymddygaist fel gŵr yn Ffair Gwag*edd, ac nad oeddit* yn ofni y gadwen na'r carchar, nac un

math o farwolaeth waedlyd ychwaith: gâd i ni gan hyny, rhag cywilydd, yr hyn nid yw gymmesur glywed fod Cristion yn gorwedd tano, ddyoddef trwy amynedd hyd eithaf ein gallu.

Yn awr, wedi i'r nos ddyfod drachefn, a myned o'r Cawr a'i wraig i'w gwely, hi a ofynodd iddo beth a ddaethai o'r carcharorion, ac a wnaethent hwy yn ol ei gynghor ef ai peidio. Yntau a'i hatebodd, mai dyhirwyr pengaled oedd-ynt; a gwell oedd ganddynt ddyoddef pob math o galedi na dyfetha eu hunain. Yna, ebe hi, cymmer hwynt yfory i gyn-tedd y castell, a dangos iddynt esgyrn a phenglogau y rhai a ddyfethaist ti eisoes, a gwna iddynt goelio y bydd i ti cyn pen wythnos eu rhwygo hwy yn ufflon, fel y rhwygaist eu cyfeillion o'u blaen hwynt.

Felly pan ddaeth y bore, y cawr a aeth atynt drachefn, ac a'u cymmerth i gyntedd y castell, ac a ddangosodd iddynt yr esgyrn a'r penglogau, megys y gorchymynasai ei wraig iddo. Yr oedd y rhai hyn, ebe fe, yn pererinio unwaith fel chwithau, a darfu iddynt droseddu ar fy nhir i megys y gwnaethoch chwithau: a phan y gwelais i fod yn dda, mi a'u drylliais hwynt yn chwilfriw; a chyn pen deng niwrnod mi a'ch drylliaf chwithau yr un modd. Ewch i waered i'ch lloches eto! A chyda hyny efe a'u curodd hwynt o hyd, nes iddynt ddyfod i'w gwâl; ac yno y buont yn gorwedd yr holl ddydd Sadwrn mewn cyflwr gofidus, megys y buasent o'r blaen. Yn awr, wedi iddi nosi, a myned o Meistres Anhy-derus a'r cawr ei gŵr i'w gwely, dechreuasant ymddyddan drachefn â'u gilydd yn nghylch y carcharorion; a rhyfeddu yn ddirfawr a wnaeth yr hen gawr ei fod ef yn methu, trwy ei ffonnodiau a thrwy ei gynghorion, eu dwyn hwy i ddiwedd drwg. Ac ar hyny ei wraig a ddywedodd wrtho, Yr wyf yn ofni, ebe hi, eu bod hwy yn gobeithio y daw rhywrai i'w gwaredu hwynt; neu y mae ganddynt rhyw offerynau i agor cloion â hwy, trwy ba foddion y maent yn gobeithio dianc. A wyt ti yn dyweyd felly, fy anwylyd, ebe 'r cawr. Myfi a ddyfal chwiliaf eu llogellau a'u dillad hwynt bore yfory, i edrych a oes ganddynt y cyfryw beiriannau.

Ac wele, nos Sadwrn, yn nghylch hanner nos, hwy a ddechreuasant weddïo, ac a barhasant mewn gweddi yn agos hyd y wawrddydd.

Yn awr, ychydig cyn ei bod hi yn ddydd, Cristion, fel un wedi hanner anmhwyllo, a waeddodd allan yn gythryblus fel *hyn, Pa mor* ffol, ebe fe, ydwyf yn gorwedd yn y modd yma *mewn daiardŷ* drewllyd, pan y gallaf rodio mewn rhyddid: *y mae genyf* agoriad yn fy mynwes, a elwir Addewid, yr hwn,

mae yn ddiammheu genyf, a ddadgloa bob clo yn Nghastell Ammhëus.

Yna, ebe Gobeithiol, dyma newydd da, fy mrawd anwyl: tyn ef allan o'th fynwes, a gwnawn brawf o hono.

Yna Cristion a'i cymmerodd allan o'i fynwes, ac a ddechreuodd ar ddrws y ddaiargell: a chan gynted ag y trodd yr agoriad yn y clo, aeth y follt yn ei hol, a'r drws a ymagorodd yn ebrwydd; a Christion a Gobeithiol a ddaethant allan eill dau. Yna y daethant at y drws nesaf i gyntedd y castell, yr hwn hefyd a agorodd Cristion â'i allwedd yn ddiattreg. Wedi hyny efe a ddaeth at y porth haiarn, canys yr oedd yn rhaid agor hwnw hefyd: eithr peth anhawdd iawn ydoedd agor clo y porth yma, eto fe'i hagorwyd â'r allwedd hwn: ac wedi hyn, hwy a wthiasant y porth led y pen yn agored, fel y gallent ddianc ar ffrwst. Ond y porth, wrth ei agor, a wnaeth y fath drwst, fel y deffrowyd y cawr, yr hwn a gyfododd yn ebrwydd i ddilyn y carcharorion; eithr ei aelodau a ballasant, canys ei lewygfeydd a'i cymmerasant drachefn, fel na allai mewn modd yn y byd fyned ar eu hol hwynt. Yna hwy a aethant ymaith, ac a ddaethant i brif-ffordd y brenin. Erbyn hyn yr oeddynt yn ddiogel, gan eu bod allan o diroedd ac arglwyddiaeth y cawr.

Yn awr, wedi iddynt fyned dros y gamfa, hwy a ddechreuasant ddychymygu ynddynt eu hunain, pa nôd a osodent yma, i rwystro y sawl a ddeuent ar eu hol i ddyfod dan ddwylaw y Cawr Anobaith. A hwy a gytunasant godi yno golofn, ac argraffu ar ei hystlys yr ysgrifen yma:—Dyma y gamfa sydd yn tywys i'r Castell Ammhëus, lle y mae y Cawr Anobaith yn byw, yr hwn sydd yn dirmygu Brenin y wlad nefol, ac yn ceisio hefyd ddyfetha y sanctaidd bererinion.

Llawer, gan hyny, o'r rhai a'u canlynasant, a ddarllenasant yr ysgrifen, ac a ddiangasant rhag y perygl yma. Ac ar ol hyny, hwy a ganasant fel hyn:—

Trwy droi o'r ffordd nyni brofasom,
Beth yw rhodio 'n anghyfreithlawn:
Gocheled y rhai a'n canlynant,
Wyro a phrofi 'r un aflwyddiant,
Pan eu delir yn garch'rorion,
Gan y cawr a'i wraig echryslawn.

Wedi hyny hwy a aethant yn mlaen hyd oni ddaethant i'r Mynyddoedd Hyfryd, y rhai a berthynant i Arglwydd y Bryn, am yr hwn y soniais i o'r blaen. Felly hwy a aethant i fyny i'r mynyddoedd i weled y gerddi, y perllanau, y gwinllanoedd, a'r *ffynnonau dyfroedd* oedd yno; lle yr yfasant o'r dwfr ac yr *ymolchasant*, ac y bwytasant o'r grawnwin yn rhad. Yn

awr, yr oedd ar benau y mynyddoedd hyn Fugeiliaid[1] yn porthi eu praidd, ac yr oeddynt yn sefyll yn agos i fin y ffordd fawr. Y pererinion gan hyny a aethant atynt, a chan bwyso ar eu ffyn, fel y mae yn arferol i bererinion diffygiol pan y byddant yn sefyll i ymddyddan â neb ar y ffordd, hwy a ofynasant iddynt, Eiddo pwy yw y mynyddoedd hyfryd hyn? A phwy biau y defaid sydd yn pori arnynt?

*Bugeiliaid.* Y mynyddoedd hyn ydynt Dir Immanuel, ac y maent hwy yn ngolwg ei ddinas ef; ei eiddo ef ydyw y defaid hefyd, ac efe a osododd ei einioes i lawr drostynt.

*Cristion.* Ai dyma'r ffordd i'r Ddinas Nefol?

*Bug.* Yr ydych yn gymhwys ar y ffordd.

*Cristion.* Pa mor bell ydyw hi oddi yma?

*Bug.* Rhy bell i bawb, ond i'r sawl sydd yn myned tuag yno mewn gwirionedd.

*Cristion.* A ydyw y ffordd yn ddiogel, neu ynte yn beryglus?

*Bug.* Diogel i'r cyfiawn; ond troseddwyr a dramgwyddant ynddi; *Hos.* xiv. 9.

*Cristion.* A oes yn y lle yma letty ac ymgeledd i bererinion llesg a lluddedig i'w gael?

*Bug.* Fe orchymynodd Arglwydd y lle hwn i ni, nad anghofiem lettygarwch; ac am hyny chwi a ellwch gael rhan o'r pethau da sydd yma; *Heb.* xiii. 2.

Mi a welais hefyd yn fy mreuddwyd, mai pan wybu y Bugeiliaid mai fforddolion oeddynt, hwythau hefyd a ofynasant gwestiynau iddynt, a'r pererinion a roddasant yr unrhyw atebion iddynt hwy ag a roddasant i ereill; megys, Gwŷr o ba wlad ydych? A pha fodd y daethoch i'r ffordd? Trwy ba foddion y parhasoch ynddi fel hyn? canys nid oes ond ychydig o'r rhai sydd yn dechreu dyfod tuag yma, yn dangos eu hwynebau ar y mynyddoedd hyn. Ond pan glybu y Bugeiliaid eu hatebion hwynt, fe'u boddlonwyd yn fawr: a hwy a edrychasant yn gariadus arnynt, ac a ddywedasant wrthynt, Croesaw i'r mynyddoedd hyfryd!

A'r Bugeiliaid, meddaf, y rhai a elwid Gwybodaeth, Proffiad, Gwyliadwrus, a Phurdeb, a'u cymmerasant erbyn eu dwylaw, ac a'u harweiniasant i'w pebyll, ac a osodasant ger eu bron yr hyn oedd barod ganddynt. A hwy a ddywedasant yn mhellach wrthynt, Nyni a ewyllysiem i chwi aros gyda ni ryw ychydig o amser, fel y galloch fod yn gydnabyddus â nyni, ac hefyd fel y caech ychydig o esmwythyd a dyddanwch, trwy fod yn gyfranogion o'r pethau daionus sydd i'w cael yn y mynyddoedd hyfryd yma. A'r pererinion a ddy-

[1] Gweinidogion yr efengyl.

wedasant wrthynt, eu bod hwy yn foddlawn i aros; ac felly hwy a aethant i'w gorphwysfa y noson hono, canys yr oedd hi yn hwyr iawn.

A'r bore dranoeth mi a glywn y Bugeiliaid yn galw ar Cristion a Gobeithiol i ddyfod gyda hwy i rodio ar y mynyddoedd; felly hwy a aethant allan gyda hwynt, ac a rodiasant ennyd, ac a ganfuasant fod y tir yn dra ffrwythlawn a hyfryd ar bob tu. Yna, ebe'r Bugeiliaid wrth eu gilydd, A gawn ni ddangos rhyw ryfeddodau i'r pererinion hyn? Ac wedi iddynt gytuno gwneuthur felly, hwy a'u tywysasant hwynt yn gyntaf i ben y bryn a elwid Cyfeiliorni, yr hwn oedd yn serth iawn ar yr ystlys bellaf oddi wrthynt; a'r Bugeiliaid a archasant iddynt edrych tua'r gwaelod. Felly Cristion a Gobeithiol a edrychasant tua gwaelod y bryn; a hwy a welent, wrth droed y bryn, nifer fawr o ddynion wedi eu dryllio yn ddarnau gan gwymp a gawsant yno. Yna, ebe Cristion, Pa beth yw hyn? Y Bugeiliaid a'u hatebasant, Oni chlywsoch chwi son am y rhai a ddadymchwelwyd o ran eu ffydd, trwy goelio athrawiaeth Hymenëus a Philetus, y rhai o ran y gwirionedd a gyfeiliornasant, gan ddywedyd ddarfod yr adgyfodiad eisoes; 1 *Tim.* i. 19, 20; 2 *Tim.* ii. 17, 18—ac o ganlyniad na bydd adgyfodiad i'r meirw drachefn. A'r pererinion a ddywedasant, Do, ni a glywsom son am danynt.

Yna, ebe'r Bugeiliaid, Y rhai a welwch chwi eu haelodau yn gorwedd yn ddarnau wrth odre y bryn yma, ydyw'r bobl hyny; ac fe'u gadawyd hwy yma heb eu claddu hyd y dydd hwn, fel y gwelwch, er esampl i ereill, i ochelyd na ddringont yn rhy uchel, ac na ddelont yn rhy agos at ymylau y mynydd hwn.

Yna mi a'u gwelais hwy yn eu harwain i ben mynydd arall, yr hwn a elwid Gocheliad; a'r Bugeiliaid a archasant iddynt edrych yn mhell oddi wrthynt; yr hyn, pan y gwnaethant, hwy a dybient eu bod yn canfod llawer o ddynion yn rhodio i fyny ac i waered yn mysg beddau y rhai oedd yno; a hwy a ddeallasant fod y gwyr yn ddeillion, am eu bod yn tramgwyddo weithiau wrth y beddau, ac am eu bod yn methu dyfod allan oddi yno.

Yna ebe Cristion, Pa beth sydd i ni ddeall wrth y pethau hyn?

Y Bugeiliaid a atebasant, Oni welsoch chwi y gamfa, ychydig islaw y mynyddoedd hyn, yr hon sydd yn arwain i weirglodd, o'r tu aswy i'r ffordd yma? A'r Pererinion a atebasant, Gwelsom. Yno, ebe'r Bugeiliaid, y mae llwybr yn myned o'r gamfa hono, yr hwn sydd yn tywys yn gymhwys i *Gastell Ammhëus*, yn yr hwn y mae y Cawr Anobaith yn trigo; a'r gwyr acw, y rhai a welwch yn mysg y beddau,

a fuont yn bererinion fel yr ydych chwi yn awr, hyd oni ddaethant at y gamfa hono. Ac o herwydd bod yr iawn ffordd yn arw yn y fan hyny, hwy a droisant i'r weirglodd hono, ac yno y daliwyd hwy gan y Cawr Anobaith, ac efe a'u carcharodd yn ei gastell; ac wedi iddo eu cadw hwy dros dalm o amser yn ei ddaiardŷ, efe o'r diwedd a dynodd allan eu llygaid hwy, ac a'u harweiniodd i blith y beddau acw, lle y gadawodd efe hwynt i grwydro hyd y dydd heddyw, fel y cyflawnid ymadrodd y gŵr doeth, "Dyn yn myned ar gyfeiliorn oddi ar ffordd deall, a orphwys yn nghynnulleidfa y meirw;" *Diar.* xxi. 16. Yna Cristion a Gobeithiol a edrychasant y naill ar y llall, a'r dagrau yn dyferu ar hyd eu gruddiau; er hyny, ni ddywedasant ddim wrth y Bugeiliaid.

Wedi hyny mi a welwn y Bugeiliaid yn myned â hwynt i le arall, mewn pant, lle yr oedd drws yn ochr bryn; a hwy a agorasant y drws, ac a barasant iddynt edrych i mewn: a hwy a wnaethant felly. Ac wele yr oedd y lle oddi fewn yn dywyll ac yn fyglyd iawn, a hwy a dybygent hefyd eu bod yn clywed megys sŵn rhyw dân, a lleisiau rhai yn dyoddef poenau dirfawr, a'u bod yn arogli arogl brwmstan.

Yna, ebe Cristion, Pa beth yw hyn?

Y Bugeiliaid a'u hatebasant gan ddywedyd, Trawslwybr i uffern ydyw hwn; dyma'r ffordd y mae Rhagrithwyr yn myned i mewn yno, yn enwedig y sawl sydd yn gwerthu eu genedigaeth-fraint gydag Esau—y rhai a werthant eu Meistr gyda Suddas—y rhai sydd yn cablu'r efengyl gydag Alexander—y rhai sydd yn dywedyd celwydd ac yn rhagrithio gydag Ananias a Sapphira ei wraig.

Yna ebe Gobeithiol wrth y Bugeiliaid, Yr wyf fi yn deall fod gan y rhai hyn, ïe, pob un o honynt, wisg pererinion, fel y mae genym ninnau yr awr hon: onid oedd y peth felly?

*Bug.* Oedd yn ddiau, a hwy a barhasant felly hefyd yn hir o amser.

*Gob.* Pa mor bell y gallent hwy (sydd yn awr wedi eu cyfrgolli yn echrydus yn y modd yma) fyned ar bererindod yn yr amser gynt?

*Bug.* Rhai a aethant yn mhellach, a rhai ni ddaethant cyn belled a'r mynyddoedd hyn.

Yna, ebe y pererinion wrth eu gilydd, Rhaid i ni alw ar yr Hollalluog am nerth.

*Bug.* Gwir yw hyny: a rhaid i chwi wneuthur defnydd o *hono wedi ei gael.*

*Erbyn hyn* yr oedd y pererinion yn ewyllysio myned yn *mlaen, a'r b*ugeiliaid oeddynt foddlawn i hyny: felly hwy a

rodiasant yn nghyd hyd gŵr eithaf y mynyddoedd. Yna, ebe y bugeiliaid wrth eu gilydd, Gadewch i ni ddangos oddi yma byrth y Ddinas Nefol i'r pererinion, os medrant edrych trwy ein hyspienddrych ni: a'r pererinion oeddynt dra diolchgar. Felly hwy a'u cymmerasant i ben bryn uchel, yr hwn a elwid Eglur, ac a roddasant iddynt y drych i edrych trwyddo: ond wrth adgofio y peth diweddaf a ddangosasai y bugeiliaid iddynt, yr oedd eu dwylaw yn crynu gan ofn; ac o herwydd hyny methasant edrych yn ddiysgog trwy y drych; er hyny tybiasant eu bod yn gweled rhywbeth tebyg i'r porth, ac hefyd gradd o ogoniant y lle.

**O'r mynyddoedd hyfryd 'nawr esgyn'sant,**
**Lle y mae bugeiliaid syth,**
**Y rhai iddynt ddangosasant**
**Bethau yn denu eu serch am byth:**
**Trwy ffydd ac ofn mae 'r pererinion**
**Yn cael eu cadw 'n ffordd y gwir,**
**Yn ddiogel rhwng peryglon,**
**Nes d'od i Sïon uniawn dir.**

Pan yr oeddynt ar ymadael, un o'r bugeiliaid a roddodd iddynt ysgrifen o hysbysrwydd yn nghylch eu ffordd; a'r llall a archodd iddynt ochelyd y dyn gwenieithus; a'r trydydd a archodd iddynt ochelyd rhag cysgu ar y tir a reibiwyd; a'r pedwerydd a ddywedodd wrthynt, Duw fyddo yn rhwydd i chwi! Yna hwy a aethant ymaith, ac a ganasant—

**Y mae 'r bugeiliaid yn dadguddio**
**Pethau cudd rhag pawb o'r byd;**
**Atynt hwy mae myn'd yn gryno,**
**Os ydym am gael gwel'd mewn pryd**
**Bethau mawrion, pethau dyfnion,**
**Pethau tra chuddiedig sydd:**
**Pethau dirgeledig ddigon,**
**Hyd 'n oed i'r saint nes gwawrio 'r dydd.**

Yna mi a gysgais, ac a freuddwydiais drachefn, a gwelwn y ddau bererin yn myned i waered o'r mynyddoedd, ar hyd y ffordd fawr tua'r ddinas nefol. Yn awr, ychydig islaw y mynyddoedd yma, ar y llaw aswy, yr oedd gwlad Hunan-dyb yn sefyll; ac o'r wlad hon yr oedd ffordd droellog (neu lôn fechan) yn dyfod i mewn i'r ffordd yr oedd y pererinion ynddi; ac yma y cyfarfuant â llanc pert a ffraeth, yr hwn oedd yn teithio o'r wlad hòno—ei enw oedd Anwybodaeth. Felly Cristion a ofynodd iddo, o ba le yr oedd yn dyfod, ac i ba le yr oedd yn myned?

*Anwyb.* Syr, fe'm ganwyd yn y wlad acw, ychydig ar y llaw aswy; ac yr wyf yn myned tua 'r Ddinas Nefol.

*Cristion.* Ond pa fodd yr ydych yn meddwl myned i mewn

trwy y porth; canys chwi a ellwch gyfarfod â rhyw anhawsder yno?

*Anwyb.* Fel y mae pobl dda ereill yn myned.

*Cristion.* Ond pa beth sydd genych i'w ddangos yno, fel y byddo iddynt agor y porth i chwi?

*Anwyb.* Mi a wn ewyllys fy Arglwydd, ac a fûm yn fucheddwr da:—yr wyf yn talu i bawb ei eiddo; yr wyf yn gweddïo, yn ymprydio, yn talu fy negymau, ac yn rhoddi elusenau; a gadewais fy ngwlad er mwyn y lle yr wyf yn myned iddo.

*Cristion.* Ond ni ddaethost i mewn trwy y porth cyfyng, yr hwn sydd yn mhen y ffordd yma: ond tydi a ddaethost i mewn i'r ffordd hon trwy y llwybr cam acw. Gan hyny yr wyf yn ofni, pa beth bynag yr wyt yn tybied am danat dy hun—pan ddelo y dydd cyfrif, y rhoddir i'th erbyn, mai lleidr ac ysbeiliwr wyt, ac na chei fyned i mewn i'r ddinas.

*Anwyb.* Foneddigion! yr ydych yn ddyeithriaid i mi—nid adwaen mo honoch; byddwch foddlawn i ddilyn crefydd eich gwlad; a minnau a ddilynaf grefydd fy ngwlad innau. Yr wyf yn gobeithio y bydd pob peth o'r goreu. Ac am y porth y soniasoch am dano, fe ŵyr yr holl fyd fod hwnw yn mhell o'n gwlad ni: nid wyf, ychwaith, yn tybied fod neb yn ein holl barthau yn gwybod y ffordd tuag yno; ac nis gwaeth pa un a'u bod yn ei gwybod ai peidio, gan fod genym, fel y gwelwch, lôn hyfryd yn dyfod i lawr o'n gwlad yn uniawn i'r ffordd yma.

Pan y gwelodd Cristion fod y gŵr yn ddoeth yn ei olwg ei hun, efe a ddywedodd wrth Gobeithiol yn ddystaw, Gwell yw'r gobaith am ffol nag am dano ef; *Diar.* xxvi. 12. Ac efe a ddywedodd yn mhellach, "Y ffol pan rodio ar y ffordd, sydd â'i galon yn pallu, ac y mae yn dywedyd wrth bawb ei fod yn ffôl;" *Preg.* x. 3. Pa beth a wnawn? A siaradwn âg ef yn mhellach? neu ynte myned o'i flaen yn bresennol, gan adael iddo fyfyrio ar yr hyn a glywodd eisoes; ac yna ei aros drachefn, i edrych a allwn, bob yn ychydig, wneuthur daioni iddo.

Anwybodaeth 'nawr myfyried,
Ychydig ar a ga'dd ei glywed;
Cynghor da gocheled wrthod,
Rhag cael aros byth heb wybod
Dim am ei wir a'i brif ddaioni,
A chael ei hollol gyfrgolli;
Can's y mae Duw yn dweyd yn ddiwall,
Am y rhai y sydd heb ddeall,
Er mai fe yw eu Creawdwr,
Na fydd iddynt yn Waredwr.

Yr wyf yn tybied, ebe Gobeithiol, nad yw yn dda dywedyd y cwbl ar unwaith wrtho; gadewch i ni ei adael yn awr, os mynwch, a siaradwn âg ef yn y man, fel y byddo efe yn abl i dderbyn ein haddysg a'n cynghorion.

Felly hwy a aethant yn mlaen ill dau, ac Anwybodaeth a aeth ar eu hol. Yn awr, wedi iddynt ei ragflaenu ychydig, daethant i heol fechan dywyll iawn, lle y cyfarfuant â gŵr wedi ei rwymo gan saith gythraul (*Mat.* xii. 45), â saith o raffau cedyrn (*Diar*. v. 22); ac yr oeddynt yn ei gario yn ol i'r drws a welsant ar ochr y bryn. Cristion, a'i gyfaill Gobeithiol, yn awr a ddechreuasant arswydo a chrynu yn aruthr. Eto, fel yr oedd y cythreuliaid yn dwyn ymaith y gŵr, Cristion a edrychodd yn graff arno, i weled a ydoedd yn ei adnabod; a thybiodd mai un Tor-broffes ydoedd, yr hwn oedd yn byw yn nhref Gwrthgiliad; ond nid allai weled ei wyneb yn amlwg, gan ei fod yn gostwng ei ben i lawr fel lleidr wedi ei ddal; ond wedi iddo fyned heibio, Gobeithiol a edrychodd ar ei ol, ac a ganfu bapyr ar ei gefn, â'r ysgrifen hwn arno—*Proffeswr anllad, a gwrthgiliwr damnedig.*

Yna y dywedodd Cristion wrth ei gydymaith, Yn awr yr wyf yn adgofio yr hyn a fynegwyd i mi am beth a ddygwyddodd i ŵr da o ddeutu y fan yma. Ei enw ef oedd Ychydig Ffydd; eithr gŵr da a rhinweddol ydoedd; ac yr oedd yn byw yn Nhref Diragrith. Hyn oedd y mater:—yn mhen y ffordd yma y mae heol fechan, yn dyfod i waered o borth y ffordd lydan, a elwir Heol y Dyn marw; a gelwir hi felly, o achos y llofruddiaeth a wneir yno yn fynych: a'r gŵr yma (yr hwn a elwir Ychydig Ffydd) oedd yn myned ar bererindod, megys yr ydym ninnau yn awr; a dygwyddodd iddo eistedd i lawr a chysgu yno. Yn awr, fe ddamweiniodd y pryd hyny i dri o wylliaid cryfion ddyfod i waered ar hyd y lôn o borth y ffordd lydan—eu henwau ydoedd Gwan-galon, Gwan-gred, ac Euogrwydd,—tri brawd; a phan ganfuant Mr. Ychydig Ffydd yn gorwedd yno, hwy a ddaethant ato ar ffrwst. Yn awr yr oedd y gŵr da newydd ddihuno o'i gwsg, â'i fryd ar godi i fyned i'w daith. Felly hwy a ddaethant oll i fyny ato, a chan fygwth yn arw, a archasant iddo sefyll. Ar hyn, Ychydig Ffydd a gollodd ei liw, ac a aeth mor wyn a'r pared; ac nid oedd ynddo na chalon i ymladd, na gallu i ffoi. Yna, ebe Gwan-galon, Rhowch i mi eich pwrs. Ond ni frysiodd i wneuthur felly, canys yr oedd yn anhawdd ganddo golli ei arian. Gwan-gred, gan hyny, a redodd i fyny ato, a chan wthio ei law i'w gôd, efe a dynodd allan ddyrnaid o arian. Yna efe a waeddodd yn groch, "Lladron,

Lladron! Ar hyny, Euogrwydd[1] a darawodd Ychydig Ffydd ar draws ei ben â ffon fawr, yr hon oedd ganddo yn ei law, ac â'r ffonod hòno efe a'i bwriodd ar ei hyd ar y llawr, lle y bu yn gwaedu, a'i waed yn ffrydio fel un a fuasai yn gwaedu hyd angeu: a'r lladron yn y cyfamser yn sefyll yn ei ymyl. Ond o'r diwedd, hwy a glywent megys trwst rhai yn dyfod i waered ar hyd y ffordd; a chan ofni mai un Gras Mawr ydoedd, yr hwn sydd yn trigo yn nhref Hyder-dda, hwy a gymmerasant y traed, ac a adawsant Ychydig Ffydd i ymdaro drosto ei hun fel y gallai. Yn awr, yn mhen ennyd, efe a ddaeth ato ei hun, a chan gyfodi ar ei draed, efe a ymdrechodd ymgropian i fyned ymaith.

*Gobeith.* Ond a ddygasant hwy oddi arno gymmaint oll ag a feddai?

*Cristion.* Na ddo; nid aethant i'r lle yr oedd ei dlysau[2] yn nghadw: felly efe a gadwodd y rhai hyny o hyd. Ond clywais ei bod yn gyfyng iawn ar y gŵr da hwn o herwydd ei golled; canys y lladron a'i hysbeiliasant o'i holl arian traul, bron i gyd. Yr hyn a ddiangodd eu dwylaw, fel y dywedais o'r blaen, oedd ei dlysau; ac nid oedd yr ychydig arian oedd ganddo ond prin ddigon i'w ddwyn i ben ei daith; 1 *Pedr* iv. 18. Nac oedd: o blegid oni chamddywedwyd wrthyf, gorfu arno gardota, a hel ei fwyd ar y ffordd hòno—canys nid allai werthu ei dlysau. Ond er cardota a gwneuthur a allai, efe a aeth, fel y dywedwn, â'i gylla yn wag y rhan fwyaf o'r ffordd oedd yn ol i ben ei daith.

*Gobeith.* Ond rhyfedd yw, na ddygasant ei ysgrif-dyst oddi arno, trwy yr hon yr oedd i gael ei dderbyn i mewn yn mhorth y Ddinas Nefol.

*Cristion.* Y mae hyny yn rhyfeddod: ond ni chawsant hi. Er na ddygwyddodd hyny o herwydd unrhyw gyfrwysdra o eiddo Mr. Ychydig Ffydd; o herwydd nid oedd ganddo allu na medr i guddio dim, gan ei fod mewn syndod a braw trwy eu dyfodiad ato. Felly, trwy ragluniaeth ddaionus yr Arglwydd, yn fwy na thrwy ei ddyfalwch a'i ofal ef, y methasant gael y peth gwerthfawr hwnw; 2 *Tim.* i. 14.

*Gobeith.* Ond yr oedd yn gysur mawr iddo na ddygasant ei dlysau oddi arno.

*Cristion.* Gallasai hyny fod yn gysur mawr iddo, pe buasai yn gwneuthur defnydd o hyny fel y dylasai; ond y rhai a adroddasant wrthyf yr hanes yma, a ddywedasant, na wnaeth ond ychydig ddefnydd o'r peth yr holl ran arall o'r ffordd;

[1] *Y mae* Gwan-galondid, a Gwan-gred, ac Euogrwydd am bechod, *yn taro* Cristion gwan i lawr.

[2] *Sef y gras oedd yn ei galon ef.*

a hyny o herwydd y braw a gawsai, pan y dygasant ymaith ei arian. Gwir yw, iddo anghofio yr hyn a'i cysurai y rhan fwyaf o'r ffordd oedd yn ol o'i daith; ac heb law hyny, pan ddygwyddai iddo ar un amser ei adgofio, ac y byddai yn dechreu cael cysur oddi wrtho, yna meddyliau newydd yn nghylch ei golled am ei arian [1] a lyncai bob math o fyfyrdodau ereill.

*Gobeith.* Och! O! druan ŵr! nid oedd modd nad oedd hyny yn dristwch mawr iddo.

*Cristion.* Y mae hyny yn ddiammheu. Oni buasai yn dristwch i ni, pe gwnaethid â ni megys y gwnaethpwyd âg ef; sef ei ysbeilio, a'i glwyfo hefyd, a hyny mewn lle dyeithr, fel yr oedd efe ynddo? Rhyfeddod ydyw, na buasai, druan, yn marw dan ei ofid! Myfi a glywais ei fod yn dolefain ac yn cwynfan yn alarus y rhan fwyaf o'r ffordd wedi hyny, gan achwyn wrth bawb a'i goddiweddasant, ac wrth y sawl yr oedd yntau yn eu gorddiwes ar y ffordd—gan achwyn, meddaf, yn mha le yr ysbeiliwyd ef, a pha fodd, a phwy oedd y gwŷr a wnaethant hyny, a pha beth a gollasai, a'r modd y clwyfwyd ef, ac mai prin y diangodd yn fyw.

*Gobeith.* Ond peth rhyfeddol ydyw, na pharodd ei angen iddo werthu neu wystlo rhai o'i dlysau, fel y gallai wneyd ei angen ei hun i fyny ar ei daith.[2]

*Cristion.* Yr wyt yn siarad megys un o'r ynfydion; canys am ba beth y gwystlai ei dlysau? neu i bwy y gwerthai hwynt? Nid oeddid yn gwneuthur cyfrif yn y byd o'i dlysau yn yr holl wlad hòno, sef yn yr hon yr ysbeiliwyd ef; ac nid oedd arno eisieu dim o'r fath gymhorth ag oedd gan bobl y wlad hòno i'w gweini iddo. Heb law hyny, pe buasai ei dlysau yn eisieu wrth borth y Ddinas Nefol, fe'i cauasid allan o'r etifeddiaeth oedd yno—a hyny a wyddai yn ddigon da: a gwaeth a fuasai hyny iddo nag ymddangosiad a chreulondeb myrddiwn o ladron.

*Gobeith.* Pa ham yr wyt mor chwerw, fy mrawd? Fe werthodd Esau ei enedigaeth-fraint, a hyny am phiolaid o gawl; *Heb.* xii. 16: a'r enedigaeth-fraint hòno oedd ei dlws penaf ef. Ac os gallasai efe wneuthur hyny, pa ham nas gallasai Ychydig Ffydd wneuthur felly hefyd?

*Cristion.* Gwir yw; Esau a werthodd ei enedigaeth-fraint: yr hyn beth y mae llawer o rai ereill yn ei wneuthur. Ac y maent drwy hyny yn cau eu hunain allan oddi wrth feddiannu y fendith benaf, megys y gwnaeth y drygddyn hwnw.

[1] Y mae colledion bydol yn rhwystro dyn rai prydiau i dderbyn *cysuron nefol, y rhai* sydd yn tarddu oddi ar ras Duw yn y galon.
[2] *Bod heb dlodi.*

Ond y mae yn rhaid i chwi wneuthur peth gwahaniaeth rhwng Esau ac Ychydig Ffydd, ac hefyd rhwng eu cyflyrau. Yr oedd genedigaeth-fraint Esau yn gysgodol, ond nid oedd tlysau Ychydig Ffydd felly. Bol Esau oedd ei dduw, ond nid felly yr oedd bol Ychydig Ffydd. Yr oedd eisieu Esau yn gorwedd yn ei flys naturiol, ond nid felly gydag Ychydig Ffydd. Heb law hyny, nid oedd Esau yn edrych am ddim ond am gyflawnu ei drachwantau; canys, "Wele fi yn myned i farw," ebe fe, "a pha les a wna yr enedigaeth-fraint hon i mi? *Gen.* xxv. 32. Ond Ychydig Ffydd a dybiodd mai rhan o'i etifeddiaeth ef oedd ei ffydd ef, er gwaned oedd hi; a thrwy y ffydd hono efe a gadwyd rhag y fath afradlondeb, ac a ddysgwyd i iawn brisio ei dlysau yn lle eu gwerthu hwynt, megys y gwerthodd Esau ei enedigaeth-fraint. Nid ydych yn darllen fod gan Esau ffydd yn y mesur lleiaf; ac am hyny nid yw yn rhyfedd, lle byddo'r cnawd yn unig yn llywodraethu, megys y gwna yn y dyn hwnw lle na byddo ffydd i'w wrthwynebu os gwerth efe ei enedigaeth-fraint, a'i enaid, a'r cwbl oll sydd ganddo, a hyny hefyd i ddiafol uffern; canys y mae y cyfryw ddynion yn debyg i'r asen wyllt, yr hon wrth ei hachlysur nis gellir ei throi ymaith: *Ier.* ii. 24. Felly hwythau, pan y byddant wedi gosod eu bryd ar gyflawnu eu trachwantau, a fynant y pethau y maent yn eu blysio, pa beth bynag a gostiant iddynt. Ond yr oedd Ychydig Ffydd o dymmer arall, ac yr oedd ei feddwl ef ar bethau nefol; o bethau ysprydol, ac oddi uchod yr oedd ei gynnaliaeth ef. I ba ddyben gan hyny y gwerthai efe, yr hwn ydoedd o'r cyfryw dymmer, ei dlysau, pe buasai yno un a'u prynasai hwynt, i borthi ei drachwantau â phethau gweigion? A ddyry gŵr geiniog am gael llanw ei fol â gwair? neu a ellwch chwi beri i'r durtur ymborthi ar furgyn, megys y gwna y gigfran? Ac er y dichon y rhai digred wystlo neu werthu yr hyn oll a feddant, er mwyn cyflawnu eu trachwantau cnawdol, a'u hunain hefyd yn y fargen; eto, ni ddichon y rhai sydd â ffydd ganddynt, sef ffydd[1] iachusol, wneuthur felly, er nad yw eu ffydd ond ffydd wan iawn. A dyma dy gamgymmeriad di, fy mrawd!

*Gob.* Yr wyf fi yn cydnabod hyny; eto bu eich gwaith chwi yn troi arnaf mor sarug yn agos a pheri i mi ddigio wrthych.

*Cristion.* Pa ham? ni wnaethym ond dy gyffelybu i rai o'r adar gwylltion, y rhai a redant yma a thraw ar hyd llwybrau anhygyrch, â'r plisg ar eu penau; ond gâd heibio hyny

[1] Y ffydd sydd ynglŷn wrth iachawdwriaeth.

fy mrawd, ac ystyria y peth sydd mewn llaw genym, ac fe fydd pob peth o'r goreu rhyngot ti a minnau.

*Gob.* Yr wyf yn credu yn fy nghalon nad oedd y tri chyfaill hyny ond gwŷr llyrfion; pe amgen, a redasent hwy ymaith, dybygech chwi, fel y gwnaethant wrth glywed trwst rhyw un dyn yn dyfod yn unig ar hyd y ffordd fawr? Pa ham na buasai Ychydig Ffydd yn cymmeryd gwell calon? Yr wyf yn tybied y gallasai ddal un frwydr â hwy, a rhoi i fyny pan y buasent yn gwasgu yn rhy galed arno.

*Cristion.* Mi a glywais lawer fel chwithau yn eu barnu hwy yn llwrf; eithr nid oes ond ychydig a brofasant y peth felly mewn awr o brofedigaeth. Ac am fod yn fwy gwrol, nid allai Ychydig Ffydd fod o'r fath galon a hyny. Ac mi a dybygwn wrthyt tithau, fy mrawd, pe buasit yn ei le ef, na fuasit fawr well nag yntau; canys nid wyt ti ond tros daro unwaith, ac wedi hyny rhoi i fyny. Ac yn ddiammheu, gan mai uchder dy feddwl sydd yn peri i ti siarad yn y modd yma, am eu bod hwy yn awr yn mhell oddi wrthym, pe dygwyddai iddynt ymddangos i ti, megys y gwnaethant iddo ef, hwy a allent beri i ti newid dy feddyliau.

Ond ystyria drachefn, mai lladron ar gyflog ydynt, yn gwasanaethu tywysog y pwll diwaelod; yr hwn, os bydd raid, a ddaw ei hun i'w cynnorthwyo, a'i lais sydd fel rhuad llew: 1 *Pedr* v. 1. Bûm fy hun yn y frwydr yma, fel y bu Mr. Ychydig Ffydd, a dychrynllyd iawn oedd y peth yn fy marn i. Y tri dyhiryn yma a ruthrasant arnaf, a minnau a ddechreuais, fel cristion, eu gwrthsefyll; ond ni wnaethant ond rhoddi un floedd, a'u meistr, ar godiad llaw, a ddaeth atynt:—yna, megys y mae y ddiareb, y rhoddaswn fy mywyd er ceiniog—ond fel yr oedd Duw yn mynu, yr oeddwn wedi fy ngwisgo âg arfogaeth brofedig; ac eto, er fy mod wedi fy arfogi felly, bu yn anhawdd iawn i mi ymgadw fel gŵr. Ni ddichon neb draethu pa fodd y mae arnom yn yr ormes hòno, ond y neb sydd wedi bod yn y frwydr ei hun.

*Gobeith.* Ond hwy a ffoisant pan y tybiasant fod gŵr a elwir Gras Mawr ar y ffordd.

*Cristion.* Y mae yn wir y darfu iddynt hwy a'u meistr hefyd ffoi yn fynych, pan na wnai Gras Mawr ond ymddangos; ac nid rhyfedd, canys prif ryfelwr y Brenin yw efe. Ond yr wyf yn tybied y gwnewch ychydig wahaniaeth rhwng Ychydig Ffydd a phrif gawr y Brenin. Nid cawri y Brenin yw ei holl ddeiliaid; ac nis gallant ychwaith, pan y profir hwynt, wneuthur y fath orchestwaith mewn rhyfel ag y dichon iddo ef ei wneuthur. Ai gwiw coelio y gallasai rhyw fachgenyn bychan drin Goliah fel y gwnaeth Dafydd?—neu fod

nerth ych yn y dryw? Y mae rhai yn gryfion, a rhai yn weiniaid; y mae rhai â llawer o ffydd ganddynt, ond nid oes ond ychydig ffydd gan ereill. Un o'r rhai gweiniaid oedd y gwr hwn, ac am hyny y syrthiodd i'r clawdd.

*Gobeith.* Myfi a ddymunaswn pe buasai Gras Mawr yno, er eu mwyn hwynt.

*Cristion.* Pe buasai efe yno, gallasai gael ei lawn waith; canys rhaid i mi ddywedyd hyn wrthych chwi, er fod Gras Mawr yn dra medrus ar ei arfau i'w amddiffyn ei hun; ac er gwneuthur o hono lawer; ac er y dichon efe eto wneuthur llawer yn erbyn y gelynion hyn, tra y ceidw efe hwynt wrth flaen ei gleddyf;—er hyny, os gall Gwan-galon, Gwan-gred, ac Euogrwydd ddyfod yn nes ato, a chael gafael arno, deugain i un na chwympant ef; a phan elo gŵr i lawr, pa beth a all efe ei wneuthur wed'yn?

Pwy bynag a edrycho yn graff yn ngwyneb Gras Mawr, caiff weled y fath greithiau a thoriadau yno, y rhai a wiriant yr hyn a leferais i am dano. Ië, mi a glywais iddo ddywedyd unwaith, a hyny pan yr oedd yn y frwydr, "Yr wyf yn ofni y collaf fy mywyd!" Fel y gwnaeth y dyhirwyr cyndyn yma, a'u cyfeillion, i Dafydd ruddfan, galaru, a rhuo! Ië, gorfu i Hezeciah a Heman hefyd, er eu bod yn gawri yn eu dyddiau, ymdrechu yn galed pan y rhuthrodd y rhai hyn arnynt; ac er hyny i gyd hwy a gawsant eu trybaeddu yn dost ganddynt. Fe chwennychodd Pedr am ryw amser brofi pa beth a allai efe wneuthur; ond er bod rhai yn dywedyd mai efe oedd tywysog yr apostolion, eto fe drinodd y gwŷr hyn ef yn y cyfryw fodd, fel y parasant iddo o'r diwedd ofni morwynig wael.

Heblaw hyn, y mae eu brenin hwy yn barod wrth eu chwibaniad; nid yw efe un amser allan o glyw iddynt: ac os ar ryw achlysur y dygwydda gael o honynt y gwaethaf, os bydd bosibl efe a ddaw ei hun i mewn i'w cynnorthwyo hwynt; ac am dano ef, gellir dywedyd, mewn rhan, yr hyn a ddywedir am y lefiathan:—"Cleddyf yr hwn a'i tarawo, ni ddeil; y waewffon, y bicell, na'r llurig. Efe a gyfrif haiarn fel gwellt, a phres fel pren pwdr. Ni phâr saeth iddo ffoi: ceryg tafl a dröed iddo yn sofl. Picellau a gyfrifir fel soflyn; ac efe a chwardd wrth ysgwyd gwaewffon;" *Iob* xli. 26, &c. Pa beth a all gŵr ei wneuthur yn y cyflwr hwn? Gwir yw, pe byddai gan ŵr farch Iob bob amser, a medr a grymusder i'w farchogaeth ef, efe a allai wneuthur pethau nodedig: "*Canys ei wddf* sydd wedi ei wisgo â tharan; a ddychryni di *ef fel ceiliog* y rhedyn? dychryn ydyw ardderchogrwydd ei *ffroen ef.* Ei draed ef a gloddiant yn y dyffryn, ac efe a

lawenycha yn ei gryfder: efe a ä allan i gyfarfod arfau. Efe a ddiystyra arswyd, ac ni ddychryna efe; ac ni ddychwel yn ei ol rhag y cleddyf. Y cawell saethau a drystia yn ei erbyn, y ddysglaer waewffon a'r darian. Efe a lwnc y ddaiar gan greulondeb a chynddaredd: ac ni chred mai llais yr udgorn yw. Efe a ddywed yn mhlith yr udgyrn, Ha, ha; ac a arogla o bell ryfel, twrf tywysogion, a'r bloeddio;" *Iob* xxxix.

Ond am y fath wŷr traed a thi a minnau, na fydded i ni byth ddymuno cyfarfod â gelyn, nac ymffrostio, fel pe gallem ni wneuthur yn well, pan glywom i ereill gael eu baeddu; nac ymfalchïo wrth feddwl am ein gwroldeb ein hunain; canys y cyfryw rai fynychaf a orchfygir pan brofir hwynt. Y mae yr Apostol Pedr yn esampl yn y mater yma, am yr hwn y crybwyllais o'r blaen; efe a arferai eiriau uchel, ïe, a pha beth nis gwnai? Efe a wnai (megys yr oedd ei galon dwyllodrus yn ei annog ef i ddywedyd) fwy na neb, ac a safai gyda'i Feistr pan y gadawai pawb ef; ond pwy a gafodd y fath gwymp, a phwy a orchfygwyd gan y dyhirwyr hyn fel y gorchfygwyd ef?

Nyni a ddylem gan hyny gyflawnu dwy ddyledswydd, pan y clywom wneuthur y fath anrheithiadau ar ffordd fawr y Brenin. Yn gyntaf, arfogi ein hunain pan yr elom allan yn nghylch ein gorchwylion; a bod yn sicr o gymmeryd ein tarian gyda ni; canys dyma yr achos (sef, am ei fod heb y darian hon) pa ham y methodd yr hwn a osododd mor gefnog ar y lefiathan ei orchfygu ef; canys mewn gwirionedd, os bydd hono yn eisieu, nid ofna efe mo honom. Am hyny y dywedodd yr hwn oedd fedrus, "Uwchlaw pob dim, cymmerwch darian y ffydd, â'r hwn y gellwch ddiffoddi holl bicellau tanllyd y fall;" *Eph.* vi. 16.

Da fyddai i ni hefyd alw ar y Brenin am gynnorthwy; ïe, ar iddo ddyfod ei hun gyda ni: canys dyna y peth a wnaeth i Dafydd orfoleddu, pan yr oedd efe yn Nyffryn Cysgod Angeu; a gwell oedd gan Moses farw yn y fan lle yr oedd yn sefyll, na myned gymmaint ag un cam heb ei Dduw gyd âg ef. O fy mrawd! os efe a ä gyda ni, pa raid i ni ofni rhag myrddiwn o rai a ymosodant i'n herbyn; ond hebddo ef, y cynnorthwywyr beilchion a grynant, ac a syrthiant; *Salm* xxiii. 4; *Ecs.* xxviii. 15; *Salm* xxvii. 1—3; *Iob* ix. 13.

O'm rhan i, mi a fûm yn y frwydr hon cyn hyn: ac er dianc o honof yn fyw, trwy ddaioni a gallu yr Hollalluog, eto, nid oes achos genyf i ymffrostio o'm gwroldeb. Bydd yn llawen genyf, os na chyfarfyddaf ar ol hyn â'r fath ymdriniaeth: *yr wyf yn ofni nad aethŷm eto tu hwnt i bob enbydrwydd.* Pa fodd bynag, gan na ddarfu i'r llew na'r

arth mo'm difa hyd yn hyn, yr wyf yn gobeithio hefyd y gwared Duw ni oddi wrth y Philistiad dienwaededig nesaf. Yna y canodd Cristion fel hyn:—

Ychydig Ffydd, p'le buost ti,
Ai yn nghwmpeini lladron?
Ai felly gwnaeth yr anwir bla,
Ai'th boced a 'speiliason'?

Cais gan hyny 'chwaneg ffydd,
Os myni dorfeydd orfod:
Fel hyn dros ddengmil yr ai di,
Onidê mae tri yn ormod.

Felly hwy a aethant yn mlaen, ac Anwybodaeth a'u canlynodd, hyd oni ddaethant lle yr oedd ffordd arall yn dyfod i'w ffordd hwynt, yr hon a ymddangosai mor uniawn a'r ffordd oedd ganddynt hwy i fyned ar hyd-ddi; ac ni wyddent hwy yma pa un o'r ddwy a gymmerent, canys yr oedd y ddwy yn union o'u blaen hwynt; ac am hyny hwy a safasant am dro i ystyried. Ac fel yr oeddynt yn myfyrio yn nghylch y ffordd, wele ŵr o wynebpryd lled ddu yn dyfod atynt, wedi ei ddilladu â gwisg wen iawn, ac yn gofyn iddynt pa ham yr oeddynt yn sefyll yno. Hwythau a'i hatebasant ef, eu bod yn myned tua'r Ddinas Nefol; ond nas gwyddent pa un o'r ddwy ffordd a gymmerent. "Dilynwch fi," ebe'r gŵr, "canys yno yr wyf finnau yn myned." Felly hwy a'u canlynasant ef ar hyd y ffordd newydd, yr hon oedd yn arwain i'r brif-ffordd; a'r ffordd yma bob yn ychydig a drodd, ac a drodd, ac a'u harweiniodd hwynt oddi wrth y ddinas yr hon yr oeddynt yn chwennychu myned iddi, hyd nes oeddynt mewn ychydig amser wedi troi eu hwynebau oddi wrthi; er hyny, hwy a'i canlynasant ef. Ond yn mhen ennyd, efe a'u tywysodd hwy i rwyd yn ddiarwybod iddynt, yn yr hon y maglwyd hwy eu dau, fel na wyddent pa beth a wnaent; ac ar hyny, y wisg wen a syrthiodd oddi ar gefn y gŵr du; yna y gwybuant yn mha le yr oeddynt; ac yno y buont ryw dalm o amser yn cwyno, ac yn ocheneidio, canys yr oeddynt yn methu dyfod allan o'r rhwyd.

*Cristion.* Yna ebe Cristion wrth ei gydymaith, Yn awr yr wyf yn gweled fy nghamsyniad. Oni archodd y Bugeiliaid i ni ochelyd y Gwenieithwr? Y mae genym brofiad yr awr hon mai gwir a ddywedodd y gŵr doeth; sef, "Y gŵr a ddywedo weniaith wrth ei gymmydog, sydd yn taenu rhwyd i'w draed ef;" *Diar.* xxix. 5.

*Gobeith.* Hwy a roddasant i ni hefyd ysgrifen i'n cyfarwyddo am y ffordd, fel y gallem ni ei chadw hi yn sicrach;

ond fe ddarfu i ni anghofio darllen hono hefyd, ac nid ymgadwasom rhag llwybrau yr ysbeilydd. Yn hyn yr oedd Dafydd yn ddoethach na ni: canys, ebe fe, "Tuag at am weithredoedd dynion, wrth eiriau dy wefusau yr ymgedwais rhag llwybrau yr ysbeilydd;" *Salm* xvii. 4. Fel hyn y buont yn cwyno ac yn ymofidio, am eu bod mewn cyflwr truenus yn y rhwyd. O'r diwedd hwy a ganfuent ŵr mewn gwisg ddysglaer yn dyfod tuag atynt, â fflangell o fân reffynau yn ei law; ac wedi iddo ddyfod tuag atynt, efe a ofynodd iddynt o ba le yr oeddynt yn dyfod. Hwythau a ddywedasant, mai pererinion tlodion oeddynt, yn myned tua Sïon, ond wedi eu hudo allan o'r ffordd gan ŵr du, wedi ei ddilladu mewn gwisg wen; yr hwn, ebe hwy, a archodd i ni ei ganlyn ef; canys yr oedd yntau, meddai ef, yn myned tuag yno hefyd. Yna, ebe yr hwn oedd â'r fflangell yn ei law, Gwenieithwr ydyw ef, a gau apostol, "yr hwn a ymrithiodd fel angel y goleuni;" *Diar.* xxix. 5; *Dan.* xi. 32; 2 *Cor.* xi. 13, 14. Felly efe a dorodd y rhwyd, ac a'u gollyngodd hwynt allan. Yna, ebe fe wrthynt hwy, Canlynwch fi, fel y gosodwyf chwi ar eich ffordd drachefn. Felly efe a'u tywysodd yn eu hol i'r ffordd yr hon a adawsent hwy i ganlyn Gwenieithwr. Yna efe a ofynodd iddynt, Yn mha le y llettyasoch neithiwr? Hwythau a atebasant, Gyd â'r Bugeiliaid ar y mynyddoedd hyfryd. Gofynodd iddynt yn mhellach, Oni chawsoch gan y bugeiliaid ysgrifen o hyspysrwydd am y ffordd? Hwythau a atebasant, Cawsom. Ond, ebe fe, pan yr oeddych yn ammheu yn nghylch y ffordd, a edrychasoch chwi ar yr ysgrifen hono er cael cyfarwyddyd am dani? Na ddo, ebe hwythau. Pa ham nas gwnaethoch felly? ebe yntau. Ni a anghofiasom wneuthur felly, ebe'r pererinion. Yna y gofynodd efe iddynt yn mhellach, Oni rybuddiodd y Bugeiliaid chwi i ochelyd Gwenieithwr? Do, ebe hwy; eithr nid allem ni dybied mai y gŵr tafod-lyfn yma ydoedd efe; *Rhuf.* xvi. 18.

Yna mi a glywn y gŵr dysglaer yn gorchymyn iddynt orwedd i lawr. Pan y gwnaethant hyny, efe a'u curodd hwy yn dost; i beri iddynt gofio yn well y ffordd dda, yr hon y dylasent rodio ynddi; ac wrth eu fflangellu, efe a ddywedodd, "Yr wyf fi yn argyhoeddi, ac yn ceryddu y sawl yr wyf yn eu caru; am hyny, bydded genyt sêl, ac edifarhâ." Ac wedi iddo wneuthur felly, efe a archodd iddynt fyned i'w ffordd, ac i fod yn fwy gofalus i ddal sylw rhag llaw ar hyfforddiadau ereill y Bugeiliaid; *Deut.* xxv. 2; 1 *Cron.* vi. 26, 27; *Dad.* iii. 19. Felly hwy a ddiolchasant iddo am ei holl *garedigrwydd*, ac a aethant yn araf ar hyd y ffordd *uniawn, dan ganu—*

Y sawl sy'n rhodio llwybrau 'r saint,
  Edrychwch faint yw 'r archoll
A gafodd Pererinion gwâr,
  Am fyned ar gyfyrgoll.

Mewn rhwydau, maglau myglyd, maith,
  Eu dal yn gaeth a wnaethpwyd,
Am eu gwaith yn gwrthod gwir
  Gynghorion difyr, dofwyd.

Gwir ydyw, i'w Gwaredydd pur,
  Eu dwyn o'u cur a'u cystudd:
Ond derbyniasant fflangell drwch—
  Am hyn, cymmerwch rybudd!

Yn awr, yn mhen ennyd, hwy a ganfuant o hirbell un yn dyfod yn araf wrtho ei hun, ar hyd y ffordd fawr, i'w cyfarfod hwynt. Yna, ebe Cristion wrth ei gydymaith, Dacw ŵr â'i gefn tua Sïon, ac y mae yn dyfod i'n cyfarfod.

*Gobeith.* Mi a'i gwelaf ef yn dyfod—edrychwn atom ein hunain yn awr, rhag iddo yntau hefyd fod yn wenieithwr. Felly efe a ddaeth nes-nes; ac o'r diwedd, efe a ddaeth i fyny atynt. Ei enw ef oedd Atheist;[1] ac efe a ofynodd iddynt, i ba le yr oeddynt yn myned?

Yr ydym yn myned, ebe Cristion, i fynydd Sïon.

Yna y chwarddodd Atheist yn groch iawn.

Pa ham yr ydych yn chwerthin? ebe Cristion.

*Ath.* Yr wyf yn chwerthin wrth weled eich anwybodaeth, ac am i chwi gymmeryd siwrnai mor flin; pan nad ydych yn debyg o gael dim ond poen yn lle eich llafur.

*Cristion.* Pa ham, ddyn? Ai tybied yr wyt na dderbynir mo honom i'r Ddinas Nefol?

*Ath.* Eich derbyn! Nis oes mo'r cyfryw le ag yr ydych yn breuddwydio am dano, yn yr holl fyd yma.

*Cristion.* Ond y mae yn y byd a ddaw.

*Ath.* Pan yr oeddwn gartref yn fy ngwlad fy hun, mi a glywais rai yn siarad megys yr ydych chwi yr awr hon, am y cyfryw ddinas; ac wrth glywed hyny, ymadewais â'm gwlad, ac a fûm yn ymofyn am y ddinas hon er ys ugain mlynedd: ond ni bûm ddim gwell er hyny; ac ni welais fwy o honi na'r dydd cyntaf yr aethym allan; *Preg.* x. 3.

*Cristion.* Nyni a glywsom, ac yr ydym yn credu fod y cyfryw le i'w gael.

*Ath.* Oni buasai i minnau gredu hyny pan yr oeddwn gartref, ni buaswn yn dyfod mor bell a hyn i ymofyn am dani; ond gan na chefais y fath le (ac eto myfi a'i cawswn, pe buasai i'w chael; canys mi a aethym i ymofyn am y ddinas hon yn mhellach na chwi), yr wyf yn myned yn ol drachefn,

[1] Dyn nad yw yn credu fod Duw.

ac ymdrechaf adfywio fy hun â'r pethau a fwriais ymaith y pryd hyny, mewn gobaith am fwynhau y pethau yr ydwyf yn gweled yn awr nad ydynt i'w cael.

Yna, ebe Cristion wrth ei gydymaith—Gobeithiol! Ai gwir yw yr hyn a ddywed y gŵr yma?

*Gobeith.* Gwiliwch, un o'r gwenieithwyr ydyw; cofiwch beth a gostiodd i ni eisoes am wrandaw ar y fath gymdeithion a'r rhai hyn. Pa beth! nid oes mo'r fath le a mynydd Sïon? Oni welsom byrth y ddinas oddi ar benau y Mynyddoedd hyfryd? Ac hefyd, onid ydym yn awr i fyw wrth ffydd, ac nid wrth olwg? 2 *Cor.* v. 7. Awn rhagom, ebe Gobeithiol, rhag i'r gŵr â'r fflangell ein gorddiwes eto.

Chwi a ddylasech ddysgu y wers yma i mi, yr hon a ddysgaf yr awr hon i chwi. "Fy mab, paid a gwrandaw ar addysg a bair i ti gyfeiliorni oddi wrth eiriau gwybodaeth." Fy mrawd, meddaf, paid a gwrandaw arno ef, "a chredwn i gadwedigaeth yr enaid;" *Heb.* x. 39.

*Cristion.* Fy mrawd, ni ofynais y gofyniad yma i ti o herwydd fy mod yn ammheu dim o'r gwirionedd, yr hyn yr y'm ni yn ei gredu, ond i'th brofi di; ac i gael gweled ffrwyth gonestrwydd dy galon. Ac am y gŵr yma, mi a wn ei fod wedi ei ddallu gan Dduw y byd hwn: awn rhagom, gan wybod ein bod yn credu y gwirionedd, yn yr hwn nid oes gelwydd: 1 *Ioan* ii. 21.

*Gobeith.* Yr wyf yn gorfoleddu yn awr, mewn gobaith o feddiannu gogoniant Duw: felly hwy a droisant eu cefnau ar y gŵr; ac yntau a aeth i'w ffordd dan chwerthin.

Yna y gwelwn yn fy mreuddwyd y pererinion yn myned yn mlaen, hyd oni ddaethant i ryw wlad lle yr oedd yr awel yn naturiol yn peri i ddynion gysgu, yn enwedig os dyeithriaid fyddent: ac yma y dechreuodd Gobeithiol fod yn farwaidd iawn, ac yn drwm gan gwsg; am hyny, ebe fe wrth Cristion, Yr wyf yn awr mor gysglyd, fel mai prin yr ydwyf yn gallu cadw fy llygaid yn agored; gorweddwn yma a chymmerwn hûn.

*Cristion.* Na wnawn, ebe fe, mewn modd yn y byd, rhag wedi cysgu na ddeffroem mwyach.

*Gobeith.* Pa ham, fy mrawd? melus yw hûn y gweithiwr, efallai yr adfywid ni os cysgwn ychydig.

*Cristion.* Onid ydych yn cofio i un o'r bugeiliaid erchi i ni ochelyd rhag y tir a reibiwyd? Ei feddwl wrth ddywedyd felly ydoedd, am i ni ochelyd cysgu: am hyny na chysgwn fel rhai ereill, eithr gwyliwn a byddwn sobr; 1 *Thes.* v. 6.

*Gobeith.* *Yr wyf yn* cydnabod fy mod ar fai; a phe buaswn *yma yn unig, buaswn yn* debyg o gysgu hyd angeu. Gwelaf

mai gwir a ddywedodd y gŵr doeth; "Gwell dau nag un." Trugaredd fawr a fu dy gyfeillach i mi hyd yn hyn; "a thi a dderbyni wobr am dy lafur:" *Preg.* iv. 9.

Yna ebe Cristion, Gadewch i ni ymddyddan yn nghylch rhyw bethau buddiol, fel y byddo i ni trwy hyny gadw ein hunain yn effro.

O ewyllys fy nghalon—ebe Gobeithiol.

*Cristion.* Pa le y dechreuwn?

*Gobeith.* Dechreuwn, os gwelwch fod yn dda, yn nghylch y modd y dechreuodd Duw weithio arnom.

Ond, ebe Cristion, mi a ganaf yn gyntaf i chwi y gân hon—

Pan fyddo'r duwiol werin,
A chwsg i'w trwblo 'n dra-blin;
Gwrandawent yr ymddyddan clau,
Sydd rhwng y ddau bererin.

A dysgent gym'ryd cyffro,
A'u cadw eu hun yn effro,
Rhag cael arnynt ormod gwall,
A bod i'r fall eu twyllo.

Am hyn, i'r sawl sy berffaith,
Cwmpeini'r saint sydd odiaeth;
I gadw eu llygaid rhag cau yn nghyd,
Er gwaetha'r ysbryd diffaeth.

Yna Cristion a ddechreuodd, ac a ddywedodd, Mi a ofynaf i chwi un cwestiwn.—Pa fodd y daethoch ar y cyntaf i feddwl am y pethau yr ydych yn awr yn eu gwneuthur?

*Gobeith.* Ai meddwl yr ydych, pa fodd y daethym ar y cyntaf i ymofyn am iachawdwriaeth fy enaid?

*Cristion.* Ië: hyny yw fy meddwl.

*Gobeith.* Mi a fûm dalm o amser yn cymmeryd hyfrydwch yn y pethau a welid ac a werthid yn ein ffair; pethau yr wyf yn credu yr awr hon, pe buaswn yn eu canlyn yn wastadol, a fuasent yn fy arwain i golledigaeth a dystryw.

*Cristion.* Pa bethau oeddynt?

*Gobeith.* Holl drysorau a chyfoeth y byd. Ac hefyd mi a gymmerais hyfrydwch mawr mewn cyfeddach, meddwdod, tyngu, rhegu, gan offrwm fy enaid i'r diafol, dywedyd celwydd, aflendid, tori y Sabbath; a pheth nis gwnawn? er fod hyny yn tueddu i ddinystrio fy enaid. Ond deallais, o'r diwedd, wrth wrandaw ac ystyried geiriau Duw, y rhai a glywais allan o'ch genau chwi, ac hefyd o enau Ffyddlawn fendigedig (yr hwn a ddyoddefodd yn ffair Gwagedd, am ei ffydd a'i fuchedd dduwiol); sef, mai diwedd y pethau hyn yw marwolaeth: ac mai o blegid y pethau hyn y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod; Rhuf. vi. 21; Eph. v. 6.

*Cristion.* A syrthiasoch yn ddioed i dderbyn yr argyhoeddiad hwnw?

*Gobeith.* Na ddo; nid oeddwn yn foddlawn ar unwaith i adnabod y gwenwyn a'r drwg sydd mewn pechod, na'r ddamnedigaeth sydd yn ei ddilyn; ond pan ddechreuodd fy nghalon grynu dan y gair, ymdrechais i gau fy llygaid yn erbyn goleuni y gair.

*Cristion.* Ond pa beth oedd yr achos i chwi ymddwyn fel hyn dan weithrediadau cyntaf yr Ysbryd Glân ynoch?

*Gobeith.* Yr achosion oeddynt—Yn gyntaf, Nis gwyddwn mai gwaith Ysbryd Duw oedd yr argyhoeddiadau yma; ac ni wybûm erioed o'r blaen, mai trwy ddeffroad am bechod yr oedd Duw yn dechreu gweithio tröedigaeth pechadur. Yn ail, Yr oedd pechod yn felus eto i'm cnawd; ac yr oedd yn anhawdd genyf ymadael âg ef. Yn drydydd, Ni wyddwn pa fodd yr ymadawn â'm hen gyfeillion, gan mor ddymunol oedd eu cwmpeini, eu hymadroddion, a'u gweithredoedd genyf. Yn bedwerydd, Yr oedd yr oriau hyny, yn y rhai yr argyhoeddid fi am fy mhechod, mor gythryblus ac mor ddychrynllyd i mi, fel nas gallaswn gymmaint a meddwl am danynt heb arswyd calon.

*Cristion.* Y mae yn debyg, wrth hyny, eich bod weithiau yn cael esmwythdra oddi wrth y gofid yr oedd yr argyhoeddiadau hyn yn ei weithio ynoch.

*Gobeith.* Oeddwn, yn ddiau: eithr hwy a ddeuent i'm cof drachefn; ac yna y byddwn mor ddrwg, ïe yn waeth, fy nghyflwr nag erioed o'r blaen.

*Cristion.* Pa ham?—beth oedd yn peri i chwi adgofio eich pechodau drachefn?

*Gobeith.* Llawer o bethau; megys—1. Pan y cyfarfyddwn â gŵr duwiol ar y ffordd. 2. Pan glywn neb yn darllen y Beibl. 3. Pan ddechreuai dolur yn fy mhen. 4. Pan y clywn fod rhai o'm cymmydogian yn gleifion. 5. Pan y canai cloch am fod rhyw un wedi marw. 6. Pan feddyliwn am farw fy hunan. 7. Pan y clywn am angeu disyfyd a ddygwyddodd i rai o'm cymmydogion. 8. Yn benaf dim, pan y meddyliwn y gorfyddai arnaf fy hun ddyfod i'r farn ar fyrder.

*Cristion.* Ond a allech un amser fwrw ymaith euogrwydd pechod yn hawdd, pan y cymmerai afael arnoch trwy un o'r pethau hyn?

*Gobeith.* Na allwn; canys y pryd hyny hwy a wasgent yn drymach ar fy nghydwybod. Ac yna, os meddyliwn am droi yn ol at fy mhechodau, er fod genyf fwriad i ymadael â hwynt, byddai hyny yn boen dyblyg i mi.

*Cristion.* A pha fodd y gwnaethoch y pryd hyny?

*Gobeith.* Mi a feddyliais, fod yn rhaid i mi wellâu fy muchedd; onidê, meddwn, y mae yn sicr genyf y byddaf damnedig.

*Cristion.* A ddarfu i chwi ymdrechu i wneuthur hyn?

*Gobeith.* Do; gan droi nid yn unig oddi wrth fy mhechodau, ond hefyd oddi wrth bob cwmpeini annuwiol a drygionus; ac ymroddais i gyflawnu dyledswyddau crefyddol; megys gweddïo, darllen, galaru am fy mhechodau, dywedyd y gwir wrth fy nghymmydogion, &c. Dyna y pethau a wnaethym; a llawer ereill, gormod i'w hadrodd yn awr.

*Cristion.* A oeddych yn tybied eich bod y pryd hyny mewn cyflwr da?

*Gobeith.* Oeddwn dros ennyd; ond o'r diwedd, daeth gofid ar fy nhraws bendramwnwgl drachefn, ar wddf fy holl ddiwygiadau.

*Cristion.* Pa fodd y dygwyddodd hyny, gan eich bod wedi diwygio?

*Gobeith.* Yr oedd amryw o bethau yn peri i'r gofid hwnw ddyfod arnaf drachefn, yn enwedig y cyfryw ymadroddion a'r rhai hyn; "Ein holl gyfiawnderau sydd megys bratiau budron: Ni chyfiawnhëir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf: Wedi i chwi wneuthur y cwbl oll a'r a orchymynwyd i chwi, dywedwch, gweision anfuddiol ydym; *Esa.* lxiv. 6; *Rhuf.* iii. 20; *Luc* xvii. 10: yn nghyd â llawer mwy o'r cyfryw ymadroddion. Ac oddi wrth hyny yr oeddwn yn ymresymu ynof fy hun fel hyn—Os ydyw fy holl gyfiawnderau fel bratiau budron, os na chyfiawnhëir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf, ac os nad ydym ond gweision anfuddiol, wedi gwneuthur y cwbl oll a orchymynwyd; yna ffolineb mawr yw ceisio y nefoedd trwy weithredoedd y ddeddf. Meddyliais hefyd, yn mhellach, fel hyn—Os ä gŵr i ddyled siopwr am gant o bunnau, a thalu am yr hyn oll a brynir ganddo o'r siop wedi hyny; eto, er hyny i gyd, os bydd ei hen ddyled yn aros ar y llyfr yn wastadol, heb ei chroesi, dichon i'r siopwr syrthio arno am ei hen ddyled, a'i fwrw yn ngharchar hyd oni thalo efe hi.

*Cristion.* Wel, pa ddefnydd a wnaethoch o'r pethau hyn?

*Gobeith.* Meddyliais ynof fy hun fel hyn—Myfi, trwy fy mhechodau, a redais yn mhell i ddyled yn llyfr Duw; a nid yw fy ngwellâd presennol yn talu mo'r ddyled hono: ac am hyny dylwn feddwl yn wastadol, dan fy holl gyfnewidiadau, pa fodd y rhyddhëir fi oddi wrth y ddamnedigaeth sydd ddyledus am fy nhroseddiadau gynt.

*Cristion.* Defnydd da iawn ydoedd hyny; atolwg, ewch rhagoch.

*Gobeith.* Peth arall a'm blinodd, er pan y dechreuais i wellâu fy muchedd, ydoedd hyn: sef, pan edrychwyf yn fanwl ar y pethau goreu yr wyf yn eu gwneuthur yr awr hon, yr wyf yn canfod pechod yn wastadol (ïe, pechodau newydd) yn gymmysg â'm gweithredoedd goreu, hyd onid ydwyf yn rhwym yn awr i farnu (er fy holl feddyliau ffol a balch am danaf fy hun a'm dyledswyddau o'r blaen) ddarfod i mi droseddu digon mewn un dydd i beri fy nhaflu i uffern, pe buasai fy muchedd flaenorol yn ddifeius.

*Cristion.* Pa beth a wnaethoch wedi hyn?

*Gobeith.* Gwneuthur! nis gwyddwn pa beth a wnawn, hyd oni adroddais fy meddwl wrth Ffyddlawn; canys yr oeddym yn gydnabyddus iawn â'n gilydd. Ac efe a ddywedodd wrthyf, oddi eithr i mi gael cyfiawnder un na phechasai erioed, nas gallai na'r eiddo fy hun na chyfiawnderau yr holl fyd fy achub.

*Cristion.* A oeddych yn tybied ei fod yn dyweyd y gwir?

*Gobeith.* Pe buasai yn dyweyd felly wrthyf, pan yr oeddwn yn ymhyfrydu ac yn ymfoddloni yn ngwellâd fy muchedd, mi a'i galwaswn ef yn ynfyd am ei waith; ond yn awr, gan fy mod yn gweled fy ngwendid fy hun, a'r pechodau sydd yn nglyn wrth fy nghyflawniadau goreu, gorfu i mi fod o'r un meddwl ag yntau.

*Cristion.* Ond a oeddych yn tybied, pan y dywedodd efe hyny wrthych gyntaf, fod y fath ŵr i'w gael, am yr hwn y gellid dywedyd yn hyf, "ni wnaeth bechod?"

*Gobeith.* Y mae yn rhaid i mi gyfaddef ei bod braidd yn rhyfedd genyf glywed y geiriau hyn ar y cyntaf; ond ar ol ymddyddan âg ef yn mhellach, a chael o honof ychydig yn chwaneg o'i gyfeillach, efe a roddes i mi gyflawn foddlonrwydd am y peth.

*Cristion.* A ofynasoch chwi iddo pwy oedd y gŵr hwn; a pha fodd y gallech chwi gael eich cyfiawnhau trwyddo?

*Gobeith.* Do: ac efe a ddywedodd mai yr Arglwydd Iesu ydoedd, yr hwn sydd yn eistedd ar ddeheulaw y Goruchaf. Ac fel hyn, ebe fe, y cyfiawnheir chwi trwyddo ef—trwy ymddiried yn yr hyn a wnaeth efe yn nyddiau ei gnawd a'r hyn a ddyoddefodd pan y bu yn nghrog ar bren; *Heb.* x; *Rhuf.* iv; *Col.* i; 2 *Pedr* i. Gofynais iddo hefyd yn mhellach, pa fodd y gallai cyfiawnder y gŵr hwn fod yn effeithiol i gyfiawnhau un arall ger bron Duw? Ac efe a ddywedodd, mai Duw Hollalluog ydoedd efe, ac iddo wneuthur yr hyn a wnaeth, a marw hefyd, nid drosto ei hun, ond drosof fi; ac *y cyfrifid ei ufudd*-dod a'i haeddiant ef i mi, os credwn *ynddo.*

*Cristion.* A pha beth a wnaethoch wedi hyny?

*Gobeith.* Mi a ddywedais nas gallwn gredu fod Crist yn ewyllysgar i'm hachub.

*Cristion.* Pa beth a ddywedodd Ffyddlawn wrth hyny?

*Gobeith.* Efe a archodd i mi fyned ato, a phrofi pa un a wnai efe fy achub ai peidio. Yna minnau a'i hatebais, mai rhyfyg oedd hyny. Yntau a ddywedodd, Nage, canys fe'th wahoddwyd i ddyfod ato; *Mat.* xi. 28. Yna efe a roddodd i mi lyfr a ysgrifenwyd gan Iesu ei hun i'm hannog i ddyfod ato yn hyfach. Ac efe a ddywedodd am y llyfr hwnw, fod pob iod a phob tipyn o hono yn fwy safadwy na'r nefoedd a'r ddaiar; *Mat.* xiv. 35. Yna mi a ofynais iddo, pa beth a wnawn pan ddeuwn ato. Dywedodd yntau wrthyf, fod yn rhaid i mi ymbil ar fy ngliniau, â'm holl galon, ac â'm holl enaid, ar fod i'r Tad ei ddadguddio i mi; *Salm* xcv. 6; *Ier.* xxix. 13; *Gal.* i. 16. Wedi hyny, gofynais iddo yn mhellach, yn mha le y gallwn gael cyfarfod âg ef? Yntau a'm hatebodd, Dos; a thi a gai ei gyfarfod ar orseddfa ei drugaredd (*Ecsod.* xxv. 22) lle y mae yn eistedd trwy yr holl flwyddyn, i roddi maddeuant a gollyngdod i'r sawl a ddeuant ato. Minnau a ddywedais, nas gwyddwn pa beth i'w ddywedyd wrtho, pan y deuwn ato. Yna, ebe ef, Dywed wrtho fel hyn:—O! Dduw! bydd drugarog wrthyf bechadur; a phâr i mi adnabod Iesu Grist, a chredu ynddo; canys gwelaf, pe buasai ei gyfiawnder ef heb fod, ac oni bydd genyf finnau ffydd i gredu y cyfiawnhëir fi trwy ei gyfiawnder ef, y derfydd am danaf yn dragywydd. Arglwydd! clywais dy fod yn Dduw trugarog, ac i ti ordeinio dy Fab, Iesu Grist, i fod yn Iachawdwr y byd; ac yn mhellach, dy fod yn ewyllysgar i'w roddi ef i fod yn Achubwr i'r fath bechadur truan ag ydwyf fi—ac, yn wir, yr wyf yn bechadur mawr! Cymmer, gan hyny, Arglwydd, y cyfleusdra hwn, a gogonedda dy ras yn nghadwedigaeth fy enaid i, trwy dy Fab, Iesu Grist. Amen.

*Cristion.* A wnaethoch chwi fel y gorchymynwyd i chwi?

*Gobeith.* Do—drachefn, a thrachefn, a thrachefn.

*Cristion.* A ddadguddiodd Duw ei Fab i chwi?

*Gobeith.* Na ddo, y tro cyntaf, na'r ail, na'r trydydd, na'r pedwerydd, na'r pummed, nac eto y chweched gwaith.

*Cristion.* Pa beth a wnaethoch ar ol hyny?

*Gobeith.* Pa beth a wnaethym?—nis gwyddwn pa beth a wnawn.

*Cristion.* Oni ddarfu i chwi feddwl rhoi heibio gweddïo?

*Gobeith.* Do—gannoedd o weithiau.

*Cristion.* Pa ham na buasech yn gwneyd felly?

*Gobeith.* Am fy mod yn credu mai gwir oedd yr hyn a

ddywedwyd wrthyf—nas gallai yr holl fyd fy achub heb gyfiawnder Crist; ac am hyny, meddyliais ynof fy hun, os rhoddwn heibio weddïo, mai marw a wnawn; ac nas gallwn ond marw pe parhawn i weddïo o flaen gorseddfainc y gras. Ac ar hyny, daeth y geiriau hyn i'm cof; "Os erys y weledigaeth, dysgwyl am dani; canys gan ddyfod y daw, ac nid oeda;" *Hab.* ii. 3. Felly, mi a ddyfal-barhëais yn gweddïo, hyd oni ddadguddiodd Duw ei Fab i mi: *Gal.* i. 16.

*Cristion.* A pha fodd y dadguddiodd Duw ef i chwi?

*Gobeith.* Ni welais i mo hono â'm llygaid corfforol, ond â llygaid fy meddwl; ac fel hyn y bu:—Yr oeddwn un diwrnod yn athrist iawn—i'm tyb i, yn fwy felly nag y bum un amser yn fy oes: a'r tristwch hwn a ddaeth arnaf wrth weled o newydd fawredd a ffieidd-dra fy mhechodau; a chan nad oeddwn, y pryd hwnw, yn dysgwyl am ddim ond uffern a damnedigaeth dragwyddol i'm henaid, tybiais yn ddisymmwth weled o honof yr Arglwydd yn edrych i lawr o'r nefoedd arnaf, ac yn dywedyd wrthyf, "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi;" *Act.* xvi. 31. Ond mi a atebais, "Arglwydd, yr wyf yn bechadur; O! yn bechadur mawr dros ben!" Yntau a atebodd, "Digon i ti fy ngras i;" 2 *Cor.* xii. 9. Yna y dywedais, "Arglwydd, pa beth yw credu?" Ac wedi hyny y deallais oddi wrth yr ymadrodd yma—"Yr hwn sydd yn dyfod ataf fi, ni newyna; a'r hwn sydd yn credu ynof fi, ni sycheda un amser;" *Ioan* vi. 35—mai yr un peth yw credu yn Nghrist a dyfod ato; a bod yr hwn sydd yn dyfod ato—hyny yw, yr hwn sydd yn sychedu yn ei galon am iachawdwriaeth trwy Grist—fod hwnw, meddaf, yn credu ynddo mewn gwirionedd. Yna, â'r dagrau yn sefyll yn fy llygaid, gofynais yn mhellach, "Arglwydd, a ddichon i'r fath bechadur mawr ag wyf fi gael ei dderbyn genyt, a bod yn gadwedig trwyddo?" Ac yntau a atebodd, "Yr hwn a ddel ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim;" *Ioan* vi. 37. Yna mi a ddywedais, "Ond pa fodd, Arglwydd, y mae yn rhaid i mi dy ystyried ti, wrth ddyfod atat, fel y byddo fy ffydd wedi ei gosod yn union arnat?" Yna efe a ddywedodd, "Crist Iesu a ddaeth i'r byd i gadw pechaduriaid;" 1 *Tim.* i. 15. "Crist yw diwedd y ddeddf, er cyfiawnder i bob un sydd yn credu;" *Rhuf.* x. 4. "Efe a draddodwyd dros ein pechodau ni, ac a gyfodwyd i'n cyfiawnhau ni;" *Rhuf.* iv. 25. "Efe a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddi wrth ein pechodau yn ei waed ei hun;" *Dad.* i. 5. Y mae "Cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion;" 1 Tim. ii. 5. "Mae efe yn byw bob amser i erfyn drosom ni;" Heb. vii. 24, 25. Oddi wrth hyn oll, cesglais y byddai yn rhaid i mi ddysgwyl

am gyfiawnder yn unig yn ei Berson ef, ac am iawn dros fy mhechodau trwy ei waed ef, ac nid trwy ddim arall. A mi a gesglais yn mhellach, fod yr hyn a wnaeth efe mewn ufudddod i gyfraith ei Dad, a'i ddarostyngiad i ddyoddef cospedigaethau am waith rhai yn troseddu y gyfraith hòno—fod hyn oll, meddaf, wedi ei wneuthur, nid drosto ei hun, ond dros y sawl a'i derbyn ef yn Iachawdwr iddynt, ac a fyddent ddiolchgar iddo. Ac yn awr yr oedd fy nghalon yn llawn o lawenydd, fy llygaid yn llawn o ddagrau, ac yr oedd genyf serchiadau rhyfeddol tuag at enw, pobl, a ffyrdd yr Arglwydd Iesu Grist.

*Cristion.* Dyma ddadguddiad o Grist i'ch enaid mewn gwirionedd; ond dywedwch i mi yn fwy neillduol pa effaith a gafodd hyn ar eich ysbryd chwi.

*Gobeith.* Fe wnaeth hyn i mi weled fod yr holl fyd, er ei holl gyfiawnderau, mewn cyflwr o ddamnedigaeth; gwnaeth i mi weled, er bod Duw y Tad yn gyfiawn, y dichon iddo, er hyny i gyd, gyfiawnhau y pechadur a ddel ato. Gwnaeth hyn i mi gywilyddio yn ddirfawr am fryntni fy muchedd gynt; ac fe'm gwaradwyddwyd yn ddirfawr wrth feddwl faint oedd fy hen anwybodaeth; canys ni feddyliodd fy nghalon erioed o'r blaen fod Iesu Grist mor hawddgar. Fe wnaeth i mi hoffi buchedd sanctaidd, a hiraethu am wneuthur rhywbeth er anrhydedd a gogoniant i enw yr Arglwydd Iesu.Ië, yr wyf yn tybied yn awr, pe byddai yn bosibl fod genyf fil o alwyni o waed yn fy nghorff, y gallwn golli pob dafn o hono er mwyn yr Arglwydd Iesu.

Yna y gwelwn, yn fy mreuddwyd, Gobeithiol yn edrych drach ei gefn; ac efe a ganfu y gŵr a elwid Anwybodaeth, yr hwn a adawsent ar eu hol, yn eu canlyn hwynt. Gwelwch, eb efe, wrth Cristion, fel y mae y glaslanc acw yn loitran ar ein hol.

*Cristion.* Ië, ïe, mi a'i gwelaf ef; ond ni waeth ganddo fawr am ein cymdeithas ni.

*Gobeith.* Ond yr wyf yn tybied na chafodd efe niwed yn y byd wrth gyd-deithio â ni hyd yn hyn.

*Cristion.* Gwir iawn yw hyny: ond mi warantaf i chwi ei fod yn meddwl yn wahanol.

*Gob.* Felly yr wyf finnau yn tybied, ond er hyny gadewch i ni aros am dano. Ac felly y gwnaethant.

Yna Cristion a alwodd arno, ac a ddywedodd wrtho, Deuwch yn mlaen, ŵr ieuanc, paham yr ydych yn sefyll ar ol fel yna?

*Anwyb.* Y mae yn well genyf rodio wrthyf fy hunan, na chyda chymdeithion, oni bai fy mod yn caru eu cymdeithas yn well na'ch cymdeithas chwi.

Yna, ebe Cristion yn ddystaw wrth Gobeithiol, Oni ddywedais wrthych nad oedd awydd arno am ein cyfeillach ni? Ond pa fodd bynag, eb efe, deuwch a siaradwn â'n gilydd, er difyru yr amser yn y lle anghyfannedd hwn. Yna, gan gyfeirio ei ymadrodd at Anwybodaeth, efe a ddywedodd, Pa fodd yr ydych? Pa fodd y mae pethau yn sefyll rhwng Duw â'ch enaid yn awr?

*Anwyb.* O'r goreu, yr wyf yn gobeithio; canys yr wyf yn wastadol yn llawn o deimladau duwiol, y rhai a redant drwy fy meddyliau i'm cysuro ar fy nhaith; *Diar.* xxviii. 26.

*Cristion.* Atolwg, dywedwch i mi pa deimladau da ydyw y rhai hyny.

*Anwyb.* Yr wyf yn meddwl am Dduw, ac am y nefoedd.

*Cristion.* Y mae y cythreuliaid ac eneidiau y damnedigion yn gwneuthur hyny hefyd.

*Anwyb.* Ond yr ydwyf yn meddwl am danynt, ac yn dymuno cael eu mwynhau.

*Cristion.* Y mae llawer yn dymuno yr un peth, y rhai nad ydynt byth yn debyg o gyrhaedd y nefoedd: "Enaid y diog a ddeisyf, ac ni chaiff ddim;" *Diar.* xii. 14.

*Anwyb.* Ond yr ydwyf fi yn meddwl am danynt, ac mi a ymadewais â'r cwbl er mwyn cael eu mwynhau.

*Cristion.* Yr wyf yn ammheu hyny; canys mater caled yw ymadael â'r cwbl: ïe, y mae yn beth anhaws i'w wneuthur nag y mae llawer yn ei dybied. Ond pa beth sydd yn dy berswadio i goelio dy fod wedi ymadael â'r cwbl er mwyn Duw a'r nefoedd?

*Anwyb.* Y mae fy nghalon yn tystiolaethu hyny.

*Cristion.* Y gŵr doeth a ddywed, "Y neb a ymddiriedo yn ei galon ei hun, sydd ffol;" *Diar.* xxxviii. 26.

*Anwyb.* Y mae efe yn son yn y fan yna am galon ddrwg; ond y mae fy nghalon i yn dda.

*Cristion.* Pa fodd y gwyddost hyny?

*Anwyb.* Am fod fy nghalon yn fy nghysuro, mewn gobaith y caf y nefoedd.

*Cristion.* Fe ddichon hyny fod trwy dwyll dy galon; *Ier.* xvii. 9. Canys fe all calon dyn ei gysuro, mewn gobaith am rywbeth na bydd ganddo un sail i obeithio am dano.

*Anwyb.* Ond y mae fy nghalon a'm buchedd yn gyfatebol i'w gilydd; ac am hyny, y mae gan fy ngobaith sylfaen dda.

*Cristion.* Pwy a ddywedodd wrthyt fod dy galon a'th fuchedd yn cytuno â'u gilydd?

*Anwyb.* Fy nghalon sydd yn dywedyd felly wrthyf.

*Cristion.* Os gofynir i'th fam, pwy sydd leidr? hi a etyb, *Nid fy mab*:—er y dichon ei fod mewn gwirionedd. Felly,

os dywed dy galon ei bod hi a'th fuchedd yn cytuno â'u gilydd, oni bydd gair Duw yn dwyn yr un dystiolaeth, ni thal tystiolaeth dy galon un hatling.

*Anwyb.* Onid ydyw y galon hono yn dda, yn yr hon y mae meddyliau da? Ac onid buchedd dda ydyw yr un sydd yn cael ei threfnu yn ol gorchymynion Duw?

*Cristion.* Gwir ydyw, mai calon dda ydyw hono yn mha un y mae meddyliau da yn cartrefu, a buchedd dda ydyw hòno ag sydd yn cyfateb i orchymynion Duw. Ond un peth yw bod â'r rhai hyn mewn gwirionedd ynom, a pheth arall yw tybied hyny.

*Anwyb.* Atolwg, pa feddyliau a ystyriwch yn dda? A pha fuchedd a ystyriwch yn gyfatebol i orchymynion Duw.

*Cristion.* Y mae amryw fath o feddyliau da,—rhai yn perthyn i ni ein hunain, rhai i Dduw, rhai i Grist, a rhai i bethau ereill.

*Anwyb.* Pa rai ydyw y meddyliau da sydd yn perthyn i ni ein hunain?

*Cristion.* Y cyfryw sydd yn gysson â gair Duw.

*Anwyb.* Pa bryd y mae y meddyliau am danom ein hunain yn gysson â gair Duw?

*Cristion.* Pan fyddom yn rhoddi yr un farn arnom ein hunain ag y mae y gair yn ei roddi. Ond er dangos y mater yn eglurach—mae gair Duw yn dweyd am ddynion yn eu cyflwr naturiol, fel hyn :—"Nid oes neb cyfiawn, nac oes un: nid oes un yn gwneuthur daioni;" *Rhuf.* v. 10, 12. Y mae y gair yn dywedyd hefyd, "fod holl feddylfryd calon dyn yn unig yn ddrygionus bob amser;" *Gen.* vi. 5. A thrachefn, "fod calon dyn yn ddrygionus o'i ieuenctyd;" *Gen.* viii. 21. Yn awr, pan fo genym y cyfryw dyb a hyn am danom ein hunain, gan fod teimlad o hyny yn ein calonau, yna y mae ein meddyliau yn dda o herwydd eu bod yn gysson â gair Duw.

*Anwyb.* Ni choeliaf byth fod fy nghalon mor ddrwg a hyn.

*Cristion.* Am hyny, ni bu genyt erioed, yn dy holl fywyd, gymmaint ag un meddwl da am danat dy hun. Eithr dyro genad i mi ddywedyd hyn wrthyt yn mhellach; megys y mae gair Duw yn rhoddi barn ar ein calonau, felly hefyd y mae yr un gair yn rhoddi barn ar ein ffyrdd; a phan y byddo ein barn ni ein hunain, yn nghylch ein calonau a'n ffyrdd, yn gysson â'r farn y mae gair Duw yn ei rhoddi arnynt, yna y mae y ddau yn dda am eu bod yn cytuno â gair Duw.

*Anwyb.* Eglurhewch eich meddwl yn well.

*Cristion.* Y mae gair Duw yn mynegu bod ffyrdd dyn yn geimion; ac nid yn dda, ond yn gyndyn; a bod dynion,

wrth naturiaeth, allan o'r ffordd dda—heb ei hadnabod hi: *Diar.* ii. 15; *Rhuf.* iii. 12, 17. Yn awr, pan y bydd dyn wedi cael prawf o hyn oll ynddo ei hunan; a phan y bo, yn ostyngedig, yn barnu fel hyn am dano ei hun a'i ffyrdd, yna y mae yn synied yn dda am ei galon ei hun a'i ffyrdd, oblegid bod ei farn ef yn gysson â barn gair yr Arglwydd.

*Anwyb.* Pa beth ydyw y meddyliau da am Dduw?

*Cristion.* Pan fyddom (megys y dywedais am danom ein hunain) yn synied am Dduw yn ol yr hyn y mae ei air yn ei osod ef allan; hyny yw, pan fyddom yn meddwl am ei hanfod a'i briodoliaethau ef megys ein dysgir yn ei air—am yr hyn nis gallaf yn awr draethu yn helaethach. Ond i ddywedyd am dano mewn perthynas â ni ein hunain—y mae genym, y pryd hyny, dyb da a chymhwys am Dduw, pan y byddom yn synied ei fod ef yn ein hadnabod yn well nag yr ydym yn ein adnabod ein hunain, ac y dichon efe weled pechod ynom, pan nad allwn ni ei ganfod; a phan yr ydym yn cydnabod ei fod yn gwybod ein meddyliau dirgelaf, a bod ein calonau a'n holl ddwfn fwriadau bob amser yn noeth ac yn agored i'w olygon ef; ac hefyd, pan yr ydym yn tybied fod ein holl gyfiawnderau ein hunain yn drewi yn ei ffroenau ef, ac am hyny na ddichon efe hoffi ein gweled yn sefyll yn ei wyddfod pan y byddom yn hyderu ar ein cyfiawnderau ein hunain, ïe, neu ar ein dyledswyddau goreu, am gael iachawdwriaeth trwyddynt.

*Anwyb.* A ydych yn tybied fy mod mor ynfyd a meddwl na ddichon Duw weled dim pellach nag y gallaf fi weled? neu y deuwn at Dduw, gan bwyso ar fy nyledswyddau fy hun, er cystal y byddant.

*Cristion.* Pa fodd yr wyt ti yn synied ar y pwnc yma?

*Anwyb.* Wel, i fod yn fyr, yr wyf yn meddwl fod yn rhaid i mi gredu yn Nghrist am gyfiawnhâd.

*Cristion.* Pa fodd? Ai tybied yr wyt, fod yn rhaid i ti gredu yn Nghrist, cyn gweled o honot yr angenrheidrwydd am hyny. Nid wyt yn gweled ynot na phechod gwreiddiol na phechod gweithredol; ac y mae genyt y fath dyb dda am danat dy hunan a'th weithredoedd, ag sydd yn dangos yn eglur dy fod heb wybod erioed fod yn rhaid i ti wrth y cyfiawnder a gyflawnodd Crist yn ei berson ei hun ger bron Duw. Pa fodd, gan hyny, y meiddi ddywedyd, dy fod yn credu yn Nghrist.

*Anwyb.* Yr wyf yn credu ynddo yn dda ddigon er hyny.

*Cristion.* Pa fodd yr wyt yn credu?

*Anwyb.* Yr wyf yn credu i Grist farw dros bechaduriaid, ac y cyfiawnhëir fi ger bron Duw oddi wrth y felldith, trwy

ei rasol dderbyniad ef o'm hufudd-dod i'w gyfraith. Neu fel hyn:—y mae Crist yn gwneuthur fy nyledswyddau crefyddol i yn gymmeradwy gyda ei Dad, trwy rinwedd ei haeddedigaethau ei hun. Fel yna y caf fy nghyfiawnhau.

*Cristion.* Yr wyf yn ateb i'r gyffes yma o'th ffydd fel hyn:— Yn 1af, Nid ydyw dy ffydd ond un ffugiol; am nad yw yn gynnwysedig mewn un rhan o air Duw. Yn 2il, Ffydd gau sydd genyt, am dy fod yn ymwithod â chyfiawnhâd trwy y cyfiawnder a gyflawnodd Crist yn ei berson ei hun; ac am dy fod hefyd yn dysgwyl cael dy gyfiawnhau trwy dy weithredoedd dy hun. Yn 3ydd, Nid yw dy ffydd yn gwneuthur Crist yn gyfiawnhäwr o'th berson, ond o'th weithredoedd; ac yn gyfiawnhäwr o'th berson er mwyn dy weithredoedd— yr hyn sydd gyfeilornus. Yn 4ydd, Am hyny y mae dy ffydd yn dwyllodrus; ïe, y mae yn gyfryw ag a'th adawa dan ddigofaint yn nydd y Duw Hollalluog; canys y mae y wir ffydd, trwy ba un ein cyfiawnhëir, yn peri i'r eneidiau, sydd yn deimladwy o'u cyflwr colledig trwy y gyfraith, i ffoi am noddfa at gyfiawnder Crist, i gael eu cyfiawnhau trwy hyny. A'r cyfiawnhâd yma nid yw weithred o ras, trwy ba un y mae Crist yn gwneuthur dy ufudd-dod yn gymmeradwy gyda Duw, fel y byddo i ti gael dy gyfiawnhau trwy dy ufudd-dod dy hun: ond yn hytrach gweithred o ras, trwy ba un y mae yr enaid yn cael ei gyfiawnhau er mwyn yr ufudd-dod a gyflawnodd Crist yn ei berson ei hun, gan wneuthur a dyoddef trosom yr hyn oll y mae y gyfraith yn ei ofyn ar ein dwylaw ni. Y cyfiawnder hwn, meddaf, o eiddo Crist, y mae gwir ffydd yn ei dderbyn, dan gysgod pa un y mae yr enaid yn llechu. Ac wedi ei gyflwyno yn ddifrycheulyd fel hyn ger bron Duw, y mae yn cael ei dderbyn yn gymmeradwy ganddo, ac yn cael ei waredu oddi wrth ddamnedigaeth dragwyddol.

*Anwyb.* Pa beth! A fynwch chwi i ni ymddiried yn yr hyn a wnaeth Crist yn ei berson ei hun—hebom ni? Y cyfryw dyb a hon a ollyngai awenau ein trachwantau yn rhyddion, ac a oddefai i bob dyn fyw fel y myno; oblegid ni waeth pa fodd y byddwn byw, os cawn ein cyfiawnhau trwy gyfiawnder personol Crist yn unig—ond credu hyny.

*Cristion.* Anwybodaeth yw dy enw; ac fel y mae dy enw, felly hefyd y mae dy ddealltwriaeth: a'th atebion a wiria yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd. Yr wyt yn anwybodus am gyfiawnder Crist, trwy ba un ein cyfiawnheir; ac yr wyt yn anwybodus hefyd am y modd i ddiogelu dy enaid, trwy ffydd ynddo, oddi wrth ddigofaint Duw. Ië, yr wyt yn anwybodus o wir effeithiau ffydd fywiol yn nghyfiawnder Crist; sef, plygu ac ennill y galon at Dduw yn Nghrist, i garu ei enw, ei air

ei ffyrdd, a'i bobl; ac nid i ddilyn eu trachwantau, ac i fyw fel y mynont, megys yr wyt ti yn dychymygu.

*Gob.* Gofynwch a ddadguddiwyd Crist erioed iddo?

*Anwyb.* Pa beth! Gŵr ydych chwi am ddadguddiadau! Yr wyf yn coelio nad yw yr hyn a ddywedasoch eich dau, a'r hyn y mae pawb ereill o honoch yn ei ddywedyd, ar y mater yma, ond ffrwyth ynfydrwydd a gwendid eich penau.

*Gob.* Pa ham? Y mae Crist mor guddiedig yn Nuw oddi wrth ddeall naturiol pob dyn cnawdol, fel nas dichon un dyn ei wir adnabod heb i'r Tad ei ddadguddio iddo.

*Anwyb.* Dyna yw eich ffydd chwi, ac nid fy ffydd i; ac eto nid wyf yn ammheu nad yw fy ffydd i cystal a'ch ffydd chwithau; er nad oes yn fy nghopa gynnifer o opiniynau gwag ag sydd yn eich penau chwi.

*Cristion.* Rhoddwch genad i minnau i lefaru un gair. Ni ddylech siarad mor ysgafn ar y pwnc yma; canys hyn a ddywedaf yn eofn, megys y dywedodd fy nghydymaith anwyl o'r blaen, na ddichon un dyn adnabod Iesu Grist, oddi eithr i'r Tad ei ddadguddio iddo; *Mat.* xi. 25: ïe a'r ffydd hefyd, â'r hon y mae yr enaid yn dal gafael ar Grist, os gwir ffydd yw, a weithir yn nghalon dyn trwy ryfeddol a mawr allu Duw. Ond yr wyf yn dirnad, O! Anwybodaeth! na wyddost, druan, ddim yn y byd yn nghylch gweithrediad y ffydd yma yn dy enaid dy hun. Deffro, gan hyny, a dwys ystyria dy drueni dy hun, a ffo at yr Arglwydd Iesu; a thrwy ei gyfiawnder ef, yr hwn yw cyfiawnder Duw (canys y mae efe ei hun yn Dduw,) fe 'th waredir rhag damnedigaeth.

*Anwyb.* Yr ydych yn cerdded mor gyflym fel nas gallaf gydgerdded â chwi:—ewch rhagoch; y mae yn rhaid i mi aros ychydig ar ol; *Salm* cxxv. 5. Yna y pererinion a ganasant fel hyn—

**Anwybodaeth, Ow! pa hyd!**
**A fyddi ynfyd eilwaith?**
**A wrthodi gynghor ffri,**
**A'i gynnyg i ti ganwaith?**

**Os gwrthodi, mewn modd syn,**
**Cydnebydd hyn yn fanwl,**
**Cyn pen nemawr, cai 'n ddinam**
**Roi cyfrif am y cwbl.**

**Mewn pryd ac amser, cofia hyn,**
**Darostwng ddyn, nac ofna**
**Gynghor da; os cym'ri fo,**
**A'th achub, gwrandaw arna'.**

**Os byddi byw mewn cyflwr caeth,**
**Mewn anwybodaeth rhyfedd;**

Gwybydd hyn, y byddi'n siwr
Golledwr yn y diwedd.

Yna Cristion a lefarodd wrth ei gydymaith fel hyn:—

*Cristion.* Tyred, fy nghydymaith Gobeithiol, mi a welaf fod yn rhaid i ni ymdeithio wrthym ein hunain eto.

Felly mi a welwn y ddau yn cerdded yn mlaen yn fuan; ac Anwybodaeth a ddaeth dan grychneidio ar eu hol.

Yna, ebe Cristion wrth ei gydymaith, Y mae yn ddrwg iawn genyf dros y gŵr gresynus yma; y mae yn ddiammheu genyf y bydd yn galed arno yn y diwedd.

*Gob.* Och! Och! y mae llawer o'n tref yn ei gyflwr, sef teuluoedd, ïe heolydd cyfain—a'r rhai hyny, mewn proffes, o leiaf, yn bererinion hefyd. Ac os oes cynnifer yn ein parthau ni, pa sawl un sydd yn y fan lle y ganwyd hwn?

*Cristion.* Yn wir y mae y gair yn dywedyd, "Efe a ddallodd eu llygaid fel na welent," &c. Ond yn awr yr ydym wrthym ein hunain:—Pa beth a feddyliwn am y cyfryw ddynion a hwn? A ydynt ar rai prydiau, tybed, dan argyhoeddiad am bechod, ac o ganlyniad, mewn ofn am eu cyflwr?

*Gob.* Nag ê; atebwch y cwestiwn hwnw eich hunan; canys yr ydych yn henach na mi.

*Cristion.* Yr wyf yn ateb, gan hyny, eu bod hwy weithiau, i'm tyb i, dan argyhoeddiadau ac arswyd; ond o herwydd eu bod wrth naturiaeth yn anwybodus, nid ydynt yn deall fod yr argyhoeddiadau hyny er daioni iddynt; ac am hyny y maent yn ymdrechu eu tagu a'u llethu, ac yn parhau yn rhyfygus i rodio yn ffyrdd eu calonau twyllodrus, gan lefaru heddwch wrth eu heneidiau yn y cyflwr hwnw.

*Gob.* Yr ydwyf yn credu fod y peth megys yr ydych yn dywedyd; sef bod ofn yn gwasanaethu yn fawr i weithio, trwy gymhorth Ysbryd Duw, ddaioni mewn dynion, ac i'w cymhwyso i fyned ar bererindod pan y dechreuant eu taith.

*Cristion.* Diammheu yw hyny—os bydd fel y dylai fod. Canys felly y mae y gair yn dywedyd, "Dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd;" *Iob* xxviii. 28; *Diar.* ix. 10.

*Gob.* Pa fodd y deallwn beth yw gwir ofn yr Arglwydd?

*Cristion.* Gwir ofn Duw a adnabyddir wrth y tri pheth yma:—Yn gyntaf, Wrth ei ddechreuad, yr hwn ydyw argyhoeddiadau iachusol o bechod. Yn ail, Y mae yn gyru yr enaid i ddal gafael yn dŷn yn Nghrist am iachawdwriaeth. Yn drydydd, Y mae yn gweithio ac yn cynnal i fyny barch mawr i'r gwir Dduw, ei air, a'i ffyrdd, gan gadw yn yr enaid *dynerwch calon,* yn nghyd â gofal ac arswyd rhag troi oddi *wrthynt, ar y llaw* ddeheu na 'r aswy, at ddim a ddichon *ddianrhydeddu* Duw, dori heddwch yr enaid, dristäu yr

Ysbryd Glân, a rhoddi achlysur i elynion yr Arglwydd gablu; *Rhuf.* ii. 23; *Salm* li. 8; *Esay* lxiiii. 10; 2 *Sam.* xii. 14.

*Gob.* Chwi a ddywedasoch yn dda: yr wyf yn credu i chwi ddywedyd y gwir. A ydym ni, yr awr hon, agos a myned dros y tir a reibiwyd?

*Cristion.* Pa ham yr ydych yn gofyn hyny; a ydych yn blino ar yr ymddyddan yma?

*Gob.* Nac ydwyf, yn wir; ond dymunwn wybod yn mha le yr ydym?

*Cristion.* Nid oes genym, yn awr, ond oddeutu dwy filltir o'r tir a reibiwyd i fyned drosto. Eithr dychwelwn at y mater oedd genym mewn llaw. Nid yw dynion anwybodus yn deall fod yr argyhoeddiadau yma, sydd yn peri ofn a braw ynddynt, er daioni; gan hyny y maent yn ceisio eu diffodd.

*Gob.* Pa fodd y maent yn ceisio eu diffodd?

*Cristion.* 1. Y maent yn tybio mai y cythraul sydd yn gweithio y dychryniadau hyn ynddynt, er yn ddiau mai oddi wrth Dduw y maent: ac o herwydd eu bod yn tybied felly, y maent yn eu gwrthsefyll, megys pethau ag sydd yn rhagddarparu eu dinystr. 2. Y maent o'r opiniwn yma hefyd: fod y dychryniadau hyn yn tueddu i anrheithio eu ffydd hwy, pan nad oes ganddynt, druain, ffydd o fath yn y byd; ac am hyny y maent yn caledu eu calonau yn eu herbyn hwynt. 3. Heblaw hyn, y maent yn meddwl na ddylent ofni un amser; ac am hyny, gan ddirmygu y cyfryw ddychryniadau, y maent yn dygwydd bod yn bobl ryfygus a thra hyderus, er nad oes ganddynt reswm yn y byd am yr hyder hyny. Ac yn 4. Y maent yn gweled fod y dychryniadau hyn yn rhagddarparu i ddwyn oddi arnynt eu gwael sancteiddrwydd eu hunain; ac am hyny y maent yn eu gwrthwynebu â'u holl egni.

*Gob.* Yr wyf yn gwybod peth o hyn trwy brofiad; o blegid cyn i mi fy adnabod fy hun, dyna fel yr oedd hi gyda mi.

*Cristion.* Gadawn yr ymchwedleua hyn yn nghylch ein cymmydog Anwybodaeth ar hyn o bryd: a gadewch i ni ymddyddan ar ryw fater arall mwy buddiol.

*Gob.* O lwyr ewyllys fy nghalon; ond dechreuwch chwi.

*Cristion.* Oni adwaenech chwi ŵr, oedd yn byw yn eich parthau chwi yn nghylch deng mlynedd yn ol, a elwid Amserol (*Mat.* xiii. 20, 21), yr hwn oedd yn dangos, yn ngolwg dynion, lawer o sel mewn crefydd y pryd hyny?

*Gob.* Ei adnabod? oeddwn yn dda ddigon. Yr oedd yn byw yn nhref Di-ras, yr hon sydd yn nghylch dwy filltir oddi *wrth y dref* a elwir Gonestrwydd; ac yr oedd yn byw y *drws nesaf i* ŵr a elwid Troi yn ol.

*Cristion.* Gwir a ddywedwch: yr oeddynt ill dau yn byw

dan yr un to. Wel, yr oedd y gŵr hwnw wedi ei ddeffroi yn fawr; oblegid yr wyf yn credu iddo gael peth golwg, y pryd hyny, ar ei bechodau, ac ar y cyflog dyledus am danynt.

*Gob.* Yr wyf fi o'r un meddwl a chwithau; canys efe a ddeuai yn fynych ataf fi, o herwydd nid oedd fy nhy oddi ar dair milltir oddi wrtho ef, â'r dagrau yn dyferu i lawr ar hyd ei ruddiau. Yn wir, yr oeddwn yn tosturio wrtho, ac yr oedd genyf obaith da am dano; ond gan iddo droi ei gefn ar grefydd, gallwn gasglu oddi wrth hyny mai "nid pob un sydd yn dywedyd, Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd."

*Cristion.* Efe a ddywedodd wrthyf unwaith, ei fod yn bwriadu myned ar bererindod, megys yr ydym ninnau yn awr; ond yn ddisymmwth efe a aeth i gydnabyddiaeth âg un Cadw ei hunan, ac yna efe a aeth yn ddyeithr i mi.

*Gob.* Yn awr, gan ein bod ni yn siarad am dano ef, gadewch i ni ystyried, beth allai fod yr achosion o'i wrthgiliad disymmwth, a llawer ereill o'i fath.

*Cristion.* Y mae, yn fy marn i, bedwar o resymau am hyny:—

*Gob.* Bydd hyny yn fuddiol iawn:—dechreuwch.

Yn gyntaf. Er bod cydwybodau y cyfryw ddynion wedi eu deffroi; eto nid oes dim cyfnewidiad yn eu calonau hwy; ac am hyny, pan y byddo grym euogrwydd eu pechodau wedi ei wisgo ymaith oddiar eu cydwybodau, fe dderfydd am yr hyn sydd yn eu cyffroi i fod yn grefyddol; ac yna troant yn naturiol i'w hen ffyrdd llygredig drachefn; megys y gwelwn gi, pan y byddo yr hyn a fwytaodd yn pwyso arno: tra parhao ei glefyd ef y mae yn chwydu ac yn bwrw y cwbl i fyny; nid yw yn gwneuthur hyny o'i fodd, ond o herwydd fod y peth a fwytaodd yn gorwedd yn drwm ar ei gylla; eithr pan y gwellhao, a phan y clywo ei gylla yn ysgafn ac yn esmwyth, nid yw ddim llai ei awydd er hyn i gyd at ei chwydiad, ond y mae yn troi ato drachefn ac yn llyfu y cwbl i fyny; ac am hyny, gwir yw yr hyn sydd yn ysgrifenedig, "Y ci a ymchwelodd at ei chwydiad ei hun;" 2 *Pedr* ii. 22. Felly y mae y peth yn sefyll gyda'r dynion hyn: y maent yn wresog am y nefoedd yn unig rhag ofn poenau uffern; ond fel y mae eu hystyriaethau am uffern ac ofn damnedigaeth yn oeri ac yn lleihau, felly y mae eu dymuniadau am nefoedd ac iachawdwriaeth yn oeri hefyd, ac y maent yn dychwelyd at eu drwg arferion drachefn.

Yr ail reswm yw hyn:—Mae ofn slafaidd yn arglwyddiaethu arnynt. Yr wyf yn dywedyd yn awr am eu gwaith yn ofni dynion; "Canys ofn dyn sydd yn dwyn magl;" *Diar.* xxix. 25. Ac am hyny, er eu bod yn ymddangos yn

fywiog ac yn wresog am y nefoedd, pryd y bydd tân uffern o amgylch eu clustiau, eto, pan el yr arswyd hwnw heibio hwy a fyddant o feddwl arall, sef,[1] mai da yw bod yn ddoeth, ac nid rhedeg y perygl o golli yr oll a feddent er mwyn crefydd; neu o leiaf i daflu eu hunain i ofidiau anocheladwy ac afreidiol. Felly syrthiant i ymgyfeillachu â'r byd drachefn.

Yn drydydd, Y mae y cywilydd o fod yn nglŷn wrth grefydd yn gorwedd megys maen tramgwydd ar eu ffordd. Y maent yn uchel ac yn feilchion, ac y mae crefydd yn beth gwael a dirmygus yn eu golwg hwynt; ac am hyny, pan yr anghofiant boenau uffern a'r llid a fydd, hwy a ddychwelant at eu drwg fucheddau drachefn.

Yn bedwerydd, Y mae myfyrio am[2] euogrwydd pechod a'r cospedigaethau dychrynllyd y gorfydd ar yr annuwiolion eu dyoddef yn uffern, yn flinderus iddynt. Nid ydynt yn foddlawn i ddwys-ystyried eu trueni cyn y delo arnynt; er y gallai yr olwg arno, ysgatfydd, pe dewisent edrych arno, beri iddynt ffoi i'r lle y mae y cyfiawn yn ffoi iddo, ac yn cael diogelwch: eithr o herwydd eu bod hwy, fel y dywedais o'r blaen, yn casäu myfyrdodau am euogrwydd a dychryn, am hyny, pan y caffont wared unwaith o'u myfyrdodau a'r braw sydd yn canlyn hyny, yn nghylch digofaint Duw, y maent o'u bodd yn caledu eu calonau, ac yn dewis y cyfryw ffyrdd a moddion ag a'u caledo fwyfwy.

*Cristion.* Yr ydych chwi yn cyfeirio yn union at y nôd; canys sylfaen y cwbl yw diffyg cyfnewidiad yn eu meddwl a'u hewyllys. Ac am hyny, nid ydynt ond megys lleidr sydd yn sefyll o flaen y barnwr, yr hwn sydd yn crynu ac yn arswydo yn ddirfawr, ac yn ymddangos fel pe byddai yn edifeiriol o'i galon am ei ddrygioni: eithr nid yw y cwbl ond rhag ofn y gosp, ond nid o herwydd ei fod yn casäu ei weithredoedd drwg, megys y mae yn eglur; o blegid os caiff y gwr hwn ei ryddid, efe a fydd yn lleidr drachefn. Ond pe byddai cyfnewidiad grasol ynddo, byddai yn amgenach gŵr.

*Gob.* Yn awr, myfi a ddangosais i chwi yr achosion o'u hymadawiad â chrefydd; dangoswch chwithau i minnau y dull neu y modd yr ymadawant.

*Cristion.* Mi a wnaf hyny yn ewyllysgar:—

1. Y maent yn gŵyrdroi eu meddyliau, cyn belled ag y gallant, oddi wrth feddwl—(1) am Dduw; (2) am farwolaeth; (3) am y farn a fydd.

2. Wedi hyny, y maent bob yn ychydig yn rhoddi heibio

[1] Cyfrwysdra cnawdol yw hyn.

[2] *Euogrwydd yw y rhwymedigaeth yr ydym yn gorwedd dano, i ddyoddef cospedigaethau amserol a thragwyddol am ein pechodau.*

dyledswyddau neillduol; megys gweddi ddirgel, ffrwyno eu trachwantau, gwylio, galaru am bechod, a'r cyffelyb.

3. Yna, maent yn ymgadw rhag cwmpeini Cristionogion bywiog a gwresog mewn crefydd a duwioldeb.

4. Ar ol hyny, y maent yn myned yn ddifraw ac oerllyd yn nghylch dyledswyddau cyhoeddus; megys gwrandaw, darllen, ymddyddanion duwiol, a'r cyffelyb.

5. Mewn amser hwy a chwiliant am ryw wendidau, fel y dywedwn, mewn rhai o'r gwŷr duwiolaf; a hyny fel y gallant gael rheswm, o herwydd rhyw wendid a welwch mewn dynion da, i daflu crefydd o'r tu ol i'w cefnau.

6. Yna hwy a ddechreuant lynu wrth, ac ymgyfeillachu â dynion cnawdol, ofer, a drwg.

7. Wedi hyny, hwy a roddant le yn y dirgel i ymddyddanion cnawdol a thrythyll: a hoff iawn fydd ganddynt os gallant weled y fath bethau mewn rhai a gyfrifir yn gywir, fel y gallant siarad yn hyfach am y cyfryw faswedd.

8. Yna hwy a ddechreuant chwareu â phechodau bychain yn gyhoeddus.

9. Wedi eu caledu, ymddangosant yn eu lliw eu hunain. Ac ar ol llithro o honynt fel hyn i'r llynclyn o drueni, oddi eithr i ryfeddol ras Duw eu rhagflaenu, fe dderfydd am danynt yn dragywydd yn eu twyll a'u hudoliaethau eu hunain.

Yn awr, mi a welais yn fy mreuddwyd, fod y pererinion erbyn hyn wedi myned dros y tir a reibiwyd, ac yn dechreu myned i wlad Beulah; *Esa.* lxii. 4.—gwlad iachus a hyfryd. Ac yr oedd y ffordd yn myned yn uniawn trwyddi, ac yma hwy a gymmerasant esmwythyd dros ryw ysbaid.

Yr oeddynt yma yn wastadol yn clywed yr adar yn canu, ac yn gweled y blodau o ddydd i ddydd yn ymddangos ar y ddaiar, ac yr oeddynt yn clywed llais y durtur yn y tir yma; *Can.* ii. 10, 11, 12. Yn y wlad hon hefyd, yr oedd yr haul yn tywynu nos a dydd. Ac erbyn hyn, yr oeddynt yn mhell oddi wrth Ddyffryn Cysgod Angeu, ac hefyd o gyrhaedd y Cawr Anobaith; ac nid allent ychwaith gymmaint a gweled Castell Ammheus o'r fan yma. Yr oeddynt yma wedi dyfod o fewn golwg i'r ddinas yr oeddynt yn myned iddi. Hwy a gyfarfuant yma hefyd â rhai o drigolion y wlad; canys yr oedd y rhai dysglaer[1] yn rhodio yn gyffredinol yn y wlad hon, am ei bod ar gyffiniau y nefoedd. Yn y wlad hon yr adnewyddwyd y cyfammod rhwng y Priod-fab a'r Briodferch; ïe, "â llawenydd priod-fab am y priod-ferch" y llawenychodd eu Duw o'u plegid hwynt; *Esa.* lxii. 5.

*Nid oedd* arnynt eisieu na gwin nac yd; canys hwy a

[1] Yr angelion.

gawsant yma ddigònolrwydd o'r cwbl oll a fuasent yn ymofyn am danynt yn eu holl bererindod. Hwy a glywsant yma lef uchel yn dyfod allan o'r ddinas, yn cyhoeddi, "Dywedwch wrth ferch Sïon, Wele, dy iachawdwriaeth yn dyfod, wele ei gyflog gydag ef;" a holl drigolion y wlad a'u galwasant yn bobl sanctaidd, gwaredigion yr Arglwydd.

Yn awr, wrth ymdeithio yn y wlad hon, hwy a gawsant fwy o ddyddanwch nag a gawsant mewn parthau oedd bellach oddi wrth y deyrnas i ba un yr oeddynt yn myned; ac fel yr oeddynt yn nesäu at y ddinas, yr oedd hi yn ymddangos yn eglurach iddynt nag o'r blaen: ac yr oedd wedi ei hadeiladu â pherlau ac â meini gwerthfawr; yr oedd ei holl heolydd wedi eu palmantu âg aur. Cristion, wrth weled gogoniant naturiol y ddinas, a thywyniad pelydr yr haul arni, a glafychodd o wir serch ati. Gobeithiol hefyd a gafodd loes neu ddwy o'r un clefyd; gan hyny, buant am dro yn gorwedd, gan waeddi allan yn eu llewygfeydd, "Os gwelwch fy anwylyd, mynegwch iddo fy mod yn glaf o gariad."

Eithr wedi iddynt welläu a chryfhau ychydig, hwy a aethant i'w ffordd, ac a ddaethant yn nes at y fan lle yr oedd y perllanau, y gwinllanoedd, a'r gerddi, a'u pyrth yn agored tua 'r brif ffordd. Yn awr, wedi dyfod o honynt i fyny at y lleoedd yma, wele y garddwr yn sefyll ar y ffordd; a'r pererinion a ofynasant iddo, Eiddo pwy yw y gwinllanoedd a'r gerddi hyfryd hyn? Yntau a atebodd, Eiddo y brenin ydynt; a hwy a blanwyd yma er difyrwch iddo ei hun a dyddanwch i bererinion. Felly y garddwr a'u dygodd hwynt i mewn i'r gwinllanoedd, ac a archodd iddynt loni eu hunain â'r danteithion oedd yno: efe a ddangosodd iddynt hefyd rodfeydd y brenin, a'r llwynau lle yr oedd efe yn hoffi rhodio ynddynt a thanynt; ac yma yr arosasant ac y cysgasant.

Yr awr hon, deliais sylw yn fy mreuddwyd, eu bod hwy yn siarad mwy yn eu cwsg y pryd hyn nag un amser yn eu holl daith: a thra yr oeddwn yn rhyfeddu eu clywed, dywedodd y garddwr wrthyf, Pa ham yr wyt yn rhyfeddu yn nghylch hyn? Y mae grawn y gwinllanoedd yma mor felus, fel y parant i wefusau y rhai sydd yn cysgu lefaru.

Felly, wedi iddynt ddeffroi, mi a'u gwelwn yn ymdaclu i fyned tua 'r ddinas nefol. Ond, fel y dywedais, yr oedd tywyniad yr haul ar y ddinas, canys yr oedd hi o aur pur (*Dad.* xxi. 18), yn ogoneddus dros ben, fel nad allent edrych arni â'u llygaid, ond trwy beiriannau a wnaethpwyd i'r perwyl hwnw; *1 Cor.* iii. 12. Felly, fel yr oeddynt yn myned yn mlaen, mi a welwn ddau ŵr yn cyfarfod â hwynt, mewn

gwisgoedd yn dysgleirio fel aur, a'u hwynebau yn llewyrchu fel yr haul.

Y gwŷr hyn a ofynasant i'r pererinion, o ba le yr oeddynt yn dyfod. A hwy a fynegasant iddynt y gwirionedd. Gofynasant hefyd, yn mha le y buasent yn llettya: a pha anhawsder a pherygl, pa gysuron a difyrwch, a gawsant hwy ar eu ffordd? Hwythau a adroddasant y cwbl oll iddynt. Yna, ebe y gwŷr, Nid oes i chwi mwyach ond dau anhawsder i fyned trwyddynt, ac wedi hyny byddwch yn y ddinas.

Yna Cristion a'i gydymaith a atolygasant ar y gwŷr i ddyfod gyda hwynt; hwythau a ddywedasant, y deuent; Ond, ebe y gwŷr, y mae yn rhaid i chwi ennill hyny trwy eich ffydd eich hunain. Felly, mi a'u gwelwn yn myned yn nghyd, nes y daethant i olwg y porth.

Yn awr, mi a welwn yn mhellach, fod afon[1] rhyngddynt a'r porth, heb un bont i fyned drosti; a'r afon oedd yn ddofn iawn: a'r pererinion, pan welsant yr afon yma, a synasant yn ddirfawr. A'r gwŷr a ddaethant gyda hwynt, a ddywedasant, Mae yn rhaid i chwi fyned trwy yr afon yma, onid ê nid ellwch chwi ddyfod at y porth.[2]

Yna y pererinion a ddechreuasant ymofyn, ai nid oedd ffordd arall i fyned at y porth. Hwythau a atebasant, Oes: ond ni chafodd neb ond dau, er pan seiliwyd y byd, droedio y llwybr hwnw, sef Enoch ac Elias: ac ni chaiff neb ei droedio hyd oni seinia yr udgorn diweddaf; 2 *Cor.* xv. 51, 52. Yna y pererinion, yn enwedig Cristion, a ddechreuasant ddigaloni yn ddirfawr, gan edrych yma a thraw; ond ni fedrent gael ffordd yn y byd i ochelyd yr afon. Yna, hwy a ofynasant i'r gwŷr, a oedd yr afon yn mhob man o'r un dyfnder. Nac ydyw, ebe hwy; ond nid allent eu cynnorthwyo yn hyn: Canys, ebe hwy, chwi a'i cewch yn ddyfnach neu yn fasach, fel y byddoch yn credu yn Mrenin y lle.

Yna hwy a ymbaratoisant i fyned i'r dwfr; a phan yr aethant i mewn iddo, Cristion a ddechreuodd soddi; a chan waeddi ar Gobeithiol, efe a ddywedodd wrtho, Yr wyf yn soddi mewn dyfroedd dyfnion; "y tonau a'r llifeiriaint a aethant dros fy mhen;" *Salm* xlii. 7; a lxix. 1—3.

Yna, ebe y llall, Bydd gysurus, fy mrawd, yr wyf yn teimlo y gwaelod; ac y mae yn galed ac yn dda. Yna ebe Cristion, Ah, fy nghyfaill, gofidiau angeu a'm cylchynasant; ni chaf weled y tir sydd yn llifeirio o laeth a mel. A chyda hyny, tywyllwch mawr a dychryndod a syrthiodd ar Cristion, fel *nad allai weled* yr hyn oedd o'i flaen: yma hefyd y pallodd

[1] *Marwolaeth.*

[2] *Nid yw natur yn rhoddi croesaw i angeu, er ein bod yn myned drosodd trwy farwolaeth o'r byd hwn i ogoniant.*

ei synwyrau, mewn mesur mawr, fel na fedrai gofio nac ymddyddan yn drefnus am ddim o'r holl bethau y cawsai ei loni trwyddynt yn ei bererindod; ond cymmaint ag a ddywedodd efe, ydoedd yn arwyddocau ei fod mewn pryder meddwl ac arswyd calon, rhag iddo soddi yn yr afon, ac na chaffai byth fyned i mewn i'r porth. Yma hefyd y deallodd y rhai oedd yn sefyll ger llaw iddo ei fod yn gythryblus yn ei feddwl, o herwydd y pechodau a wnaethai cyn ac wedi iddo ddechreu ei bererindod. Daliwyd sylw hefyd, ei fod yn cael ei flino, wrth weled, fel y tybiai, ellyllon ac ysbrydion drwg, fel y gellid dirnad yn fynych wrth ei eiriau. Gobeithiol, gan hyny, a gafodd yma ei lawn waith i gadw pen ei frawd uwch law y dwfr; ïe, weithiau efe a suddai dan y dòn, ac yn mhen ennyd efe a gyfodai i fyny drachefn yn hanner marw. Gobeithiol hefyd a geisiai ei gysuro, gan fynegu iddo, Fy mrawd, mi a welaf y porth, a gwŷr yn sefyll wrtho, i'n derbyn i mewn. Ond Cristion a atebai, Am danoch chwi y maent yn dysgwyl; o blegid yr oeddych yn obeithiol pan gyntaf yr adnabûm chwi. Felly y buoch chwithau, eb efe wrth Cristion. Ah, fy mrawd, atebai yntau, diau, pe bawn yn wir gristion, fe ddeuai Crist i'm cynnorthwyo; eithr, o herwydd fy mhechodau, efe a'm dygodd i'r fagl, ac a'm gadawodd ynddi. Yna, ebe Gcbeithiol, Fy mrawd, ti a lwyr anghofiaist y testyn, lle y dywedir am yr annuwiolion, "Nid oes rwymau yn eu marwolaeth, a'u cryfder sydd heinyf: nid ydynt mewn blinder fel dynion eraill; ac ni ddialeddir arnynt hwy gyda dynion eraill;" *Salm* lxxxiii. 4, 5. Nid yw y gofidiau a'r blinderau yr ydych yn myned trwyddynt yn y dyfroedd hyn yn arwydd yn y byd fod Duw wedi eich gadael; ond hwy a ddanfonwyd i'ch profi, i edrych a gofiwch y trugareddau a dderbyniasoch oddi ar ei law eisoes, gan fyw arno ef yn eich cyfyngderau.

Yna y gwelwn Cristion mewn syn-fyfyrdod dros ennyd, a Gobeithiol a ddywedodd wrtho drachefn, Bydd gysurus, y mae yr Arglwydd Iesu yn dy iachau di; *Esa.* xl. 1, 2. Ar hyny y gwaeddodd Cristion â llef uchel, O mi a'i gwelaf ef drachefn, ac y mae yn dywedyd wrthyf, "Pan elych trwy y dyfroedd, myfi a fyddaf gyda thi; a thrwy y dyfroedd fel na lifont drosot;" *Esa.* xliii. 2. Yna hwy a ymwrolasant ill dau; a'r gelyn wedi hyny a fu mor llonydd ac mor ddiysgog a'r gareg, hyd oni aethant trosodd. Yna Cristion a gafodd dir caled yn ebrwydd i sefyll arno; ac fe ddygwyddodd nad oedd y rhan arall o'r afon ond bas; ac fel hyn yr aethant *drosodd.* Yn awr, ar lan yr afon, hwy a ganfuasant y ddau

ŵr mewn gwisgoedd dysglaer drachefn yn dysgwyl am danynt hwy yno. Cyn gynted ag y daethant allan o'r afon, hwy a gyfarchasant well iddynt, gan ddywedyd, Ysbrydion gwasanaethgar ydym ni, wedi ein danfon i weini er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth; *Heb.* i. 14. Fel hyn yr aethant yn nghyd tua 'r porth. Yn awr, y mae yn rhaid i chwi wybod fod y ddinas yn sefyll ar fryn uchel; eithr y pererinion a aethant i fyny y bryn hwn yn esmwyth, am fod y ddau ŵr yn eu tywys erbyn eu dwylaw; a hwy a adawsant eu gwisgoedd marwol ar eu hol yn yr afon; canys er eu bod wedi eu gwisgo â'r dillad hyny pan aethant i'r afon, eto hwy a ddaethant allan o honi hebddynt. Hwy a aethant i fyny, gan hyny, yn chwimwth ac yn fuan iawn, er fod y sylfaen, ar yr hon yr oedd y ddinas wedi ei hadeiladu, yn uwch na'r cymylau. Hwy a aethant, gan hyny, trwy ardaloedd yr awyr trwy ymddyddan yn ddifyr ac yn gysurus; oblegid iddynt ddyfod trwy yr afon yn ddiberygl, a bod ganddynt y cyfryw gyfeillion gogoneddus i weini iddynt.

Yr ymddyddan rhyngddynt â'r rhai dysglaer oedd yn nghylch gogoniant y lle; a'r gwyr a ddywedasant fod ei ogoniant a'i brydferthwch yn annhraethadwy. Yno, ebe hwy, y mae mynydd Sïon, y Ierusalem nefol, yno y mae lliaws aneirif o angelion ac ysbrydoedd cyfiawn y rhai a berffeithiwyd; *Heb.* xii. 22, 23, 24. Yr ydych chwi yn awr, ebe hwy, yn myned i baradwys Duw, lle y cewch weled pren y bywyd, a bwyta o'i ffrwyth anniflanedig ef; a phan ddeloch yno, fe roddir i chwi "wisgoedd gwynion;" *Dad.* iii. 4. A chwi a gewch gydrodio ac ymddiddan â'r Brenin beunydd; ïe, a hyny dros holl ddyddiau tragwyddoldeb. Ni chewch weled yno mwyach y fath bethau a'r a welsoch pan oeddych yn y parthau isaf, yn ardal y ddaiar; sef tristwch, clefyd, blinder, a marwolaeth: *Dad.* xxi. 4:—canys y pethau cyntaf a aethant heibio. Yr ydych yn myned yn awr at Abraham, Isaac, a Iacob, ac at y prophwydi, y rhai a gymmerodd Duw ymaith o flaen y drygfyd oedd ar ddyfod, y rhai ydynt yn awr yn gorphwys yn eu hystafelloedd, pob un yn rhodio yn ei uniondeb; *Esa.* lvii. 1—3. Yna, y pererinion a ofynasant iddynt, Pabeth a allwn ni ddysgwyl am dano, a pha beth fydd i ni i'w wneuthur yn y lle sanctaidd hwnw? Hwythau a atebasant, Yno y derbyniwch ffrwyth eich holl lafur; yno y cewch lawenydd yn lle tristwch, yno y medwch yr hyn a hauasoch, sef ffrwyth eich holl weddïau, eich elusenau, eich dagrau, a'ch dyoddefiadau dros y Brenin ar hyd y ffordd. Yno y cewch wisgo coronau o aur, a mwynhau tragwyddol bresennoldeb y Sanctaidd hwnw, "Canys yno chwi

a gewch ei weled ef megys ag y mae;" 1 *Ioan* iii. 2. Yno hefyd y gwasanaethwch yn wastadol â mawl, llawenydd, a diolchgarwch, yr hwn yr oeddych yn chwennychu ei wasanaethu yn y byd; er fod hyny gyda llawer o anhawsder, o herwydd gwendid eich cnawd.

Yno y bydd hoff gan eich llygaid weled, a'ch clustiau glywed, hyfryd lais yr Hollalluog. Yno y cewch fwynhau eich cyfeillion drachefn, y rhai a aethant i'r ddinas o'ch blaen chwi; ac yno y derbyniwch yn groesawus, gyda llawenydd mawr, gynnifer ag a ddelo ar eich hol i'r lle sanctaidd hwnw. Yno hefyd y'ch gwisgir chwi â gogoniant ac ardderchogrwydd: chwi a gewch y fath wisgoedd trwsiadus ag a'ch gwna yn gymhwys i farchogaeth gyda Brenin y gogoniant. A phan y del gyda sain udgorn ar y cymmylau, megys ar adenydd y gwynt, chwi a gewch ddyfod gydag ef; a phan eisteddo ar orsedd barn, chwi a gewch eistedd yn ei ymyl; ïe, a phan roddo efe farn ar weithredwyr anwiredd, pa un bynag ai angelion ai dynion fyddant, chwithau hefyd a gewch roddi eich gair yn ei blaid yn y farn hono; o herwydd eu bod yn elynion iddo ef ac i chwithau hefyd. A phan ddychwelo i'r ddinas, chwithau a gewch fyned gydag ef â sain udgorn, lle y cewch breswylio yn dragywydd yn ei wydd ef; 1 *Thes.* iv; *Iudas* 14; *Dan.* vii. 9, 10; 1 *Cor.* vi. 2, 3.

Yn awr, tra yr oeddynt fel hyn yn nesâu tua'r porth, wele luaws o'r llu nefol yn dyfod allan i'w cyfarfod, wrth ba rai y dywedodd y ddau ŵr dysglaer, Dyma y gwyr a garasant ein Harglwydd pan oeddynt yn y byd, ac a ymadawsant â'r cwbl er mwyn ei enw sanctaidd ef; ac efe a'n danfonodd ni i'w cyrchu hwynt; ac ni a'u dygasom hyd yma yn eu taith ddymunol, fel y gallont fyned i mewn, ac edrych ar wyneb eu Prynwr gydâ llawenydd. Yna y llu nefol a floeddiasant yn groch, gan ddywedyd, "Bendigedig yw y rhai a elwir i swper neithior yr Oen;" *Dad.* xix. 9.

Daeth allan hefyd ar yr amser hyny amryw o udganwyr y brenin i'w cyfarfod hwynt, wedi eu gwisgo â dillad gwynion dysglaer, y rhai â'u peraidd gerdd a'u hyfryd lais soniarus, a wnaethant i'r nefoedd ddadseinio. Yr udganwyr hyn a gyfarchasant well i Cristion a'i gydymaith, ac a ddywedasant, Croesaw wrthych filoedd o weithiau o'r byd! a hyn a wnaethant gyda bloedd a sain udgyrn.

**'Nawr, gwelwch fel mae 'r pererinion**
**Yn marchogaeth fry i Seion;**
**Cymylau yw 'r cerbydau dedwydd,**
**Angelion anwyl eu harweinydd;**

Pwy na anturiai dros yr Iesu,
Yr hyn oll mae yn feddiannu?
Yr hwn y sy, o'i gariad cu,
'N darparu yn rhagorol,
Bethau anwyl, mor ddymunol,
Dros ei eiddo yn dragwyddol.

Ar ol hyn hwy a'u cylchynasant ar bob tu; a rhai a aethant y tu blaen a rhai yn ol, rhai ar y llaw ddehau a rhai ar yr aswy, megys i'w gwarchod a'u cadw trwy y parthau uchaf, dan seinio yn ddibaid â phob rhyw felus-gerdd hyfryd, hyd oni thybiai y sawl a allai eu gweled hwynt ddisgyn o'r nefoedd i'w cyfarfod hwy. Ac fel hyn, hwy a aethant yn mlaen yn nghyd: ac fel yr oeddynt yn rhodio, yr oedd yr udganwyr yn canu yn fynych gyda llais llawen a hyfryd, gan ymddwyn yn dirion ac yn garuaidd tuag at Cristion a'i frawd, gan arwyddocau trwy eu hymddygiad hyfryd tu ag atynt, y croesaw oedd iddynt i'w cymdeithas, ac mor llawen y daethant i'w cyfarfod hwynt; ac yn awr, yr oedd y ddau megys yn y nefoedd cyn iddynt ddyfod ati; ac yr oeddynt yn ymfoddloni yn ddirfawr wrth weled yr aneirif lu o angelion oddi amgylch, ac wrth wrando ar eu melus-gerdd a'u peraidd gân soniarus. Erbyn iddynt ddyfod i olwg y ddinas, hwy a ddychymygent glywed yr holl glychau yn canu i'w croesawu yno; eithr uwch law y cwbl, yr oedd eu calonau wedi eu llenwi o lawenydd, pan y meddylient y caent breswylio yn y ddinas hono yn dragwyddol gyda'r fath gyfeillion. O! pa bin ysgrifenu neu dafod sydd yn abl i ddadgan eu llawenydd gogoneddus! Ac fel hyn y daethant i fyny at y porth.

Yn awr, pan ddaethant at y porth, yr oedd yn ysgrifenedig uwch ei ben mewn llythyrenau aur, "Gwyn eu byd y rhai sydd yn gwneuthur ei orchymynion ef, fel y byddo iddynt fraint yn mhren y bywyd, ac y gallont fyned i mewn trwy y pyrth i'r ddinas;" *Dad.* xxii. 14.

Yna y clywais y gwyr dysglaer yn erchi iddynt guro wrth y porth: a phan y gwnaethant felly, rhai o'r gwŷr oddi fewn a edrychasant dros y porth, sef Enoch, Moses, ac Elias, &c. Ac fe ddywedwyd wrthynt, Dyma bererinion wedi dyfod o ddinas distryw, o herwydd y cariad oedd ganddynt at frenin y lle yma. Ac ar hyny y pererinion a roddasant i mewn iddynt bob un ei dystiolaeth, y rhai a dderbyniasant yn nechreuad eu taith. Hwythau a'u dygasant i mewn ac a'u dangosasant i'r brenin; ac wedi iddo eu darllen, efe a ofynodd, *Pa le y mae'r gwŷr?* Hwythau a atebasant, Y maent yn *sefyll wrth y porth.* Yna y brenin a orchymynodd agor y

porth—"Fel y del," ebe fe, "y genedl gyfiawn i mewn, yr hon a geidw wirionedd;" *Esa.* xxvii. 2.

Yn awr gwelwn, yn fy mreuddwyd, ddau ŵr yn myned i mewn trwy y porth; ac wele, cyn gynted ag yr aethant i mewn fe newidiwyd eu gwedd, ac fe'u gwisgwyd â dillad yn dysgleirio fel aur. Yno cyfarfu â hwynt rai â thelynau a choronau ganddynt, y rhai a roddasant iddynt y telynau i ganu mawl â hwynt, a'r coronau yn arwydd o anrhydedd. Yna, mi a glywais holl glychau y ddinas yn canu drachefn o wir lawenydd; a dywedwyd wrth y pererinion, "Ewch i mewn i lawenydd eich Arglwydd." Ac mi a glywais y gwyr eu hunain yn canu â llef uchel, gan ddywedyd, "I'r hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainc, ac i'r Oen, y byddo y fendith, a'r anrhydedd, a'r gogoniant, a'r gallu, yn oes oesoedd;" *Dad.* v. 13.

Yn awr, cyn gynted ag yr agorwyd y porth i ollwng y pererinion i mewn, mi a edrychais ar eu hol hwynt, ac wele yr oedd y ddinas yn dysgleirio fel yr haul; yr heolydd hefyd oeddynt wedi eu palmantu âg aur, a nifer fawr o wŷr yn rhodio ynddi â choronau ar eu penau a phalmwydd yn eu dwylaw, a thelynau aur i ganu mawl â hwynt.

Yr oedd yno rai hefyd âg adenydd ganddynt: ac yr oeddynt yn ateb y naill y llall heb orphwys ddydd na nos, gan ddywedyd, "Sanct, Sanct, Sanct, yw Arglwydd y lluoedd;" *Esa.* vi. 2, 3. Ac o'r diwedd hwy a gauasant y pyrth: a phan y gwelais hyny, mi a ddymunais fod yn eu mysg.

Yn awr, fel yr oeddwn yn meddwl ynof fy hun am yr holl bethau a welswn, mi a edrychais yn fy ol, ac a ganfûm Anwybodaeth yn dyfod at lan yr afon. Ond efe a ddaeth drosodd yn ebrwydd; gan na chyfarfyddodd â hanner y rhwystr a gawsai y ddau ŵr arall wrth ddyfod trwyddi. Oblegid fe ddygwyddodd, y pryd hyny, fod yno fadwr, yr hwn a elwid Gwagobaith, yr hwn a'i dygodd trosodd yn ei fad: felly efe a esgynodd i'r bryn i ddyfod tua'r porth fel y lleill; eithr efe a ddaeth wrtho ei hunan; canys ni ddaeth neb i'w gyfarfod ef i roddi iddo y cysur lleiaf yn y byd. A phan ddaeth efe i fyny at y porth, efe a edrychodd ar yr ysgrifen yr hon oedd uwch ben. Ac wedi hyny, efe a ddechreuodd guro, gan dybied y cawsai ei dderbyn i mewn yn ddiattreg. Ond y gwŷr a edrychent dros y porth a ofynasant, o ba le yr oedd yn dyfod, a pha beth a fynai. Yntau a atebodd, "Mi a fwyteais ac a yfais yn ngŵydd y brenin, ac efe a ddysgodd yn ein heolydd ni;" *Luc* xiii. 26, 27. Yna hwy a ofynasant iddo am ei dystiolaeth, fel y gallent fyned i mewn a'i dangos i'r brenin. Felly, efe a chwiliodd yn ei

fynwes, ond ni chafodd efe un. Yna, ebe hwy, A oes un genych? Ond nid atebodd efe iddynt un gair. Felly hwy a fynegasant y cwbl i'r brenin. Ond efe a nacaodd ddyfod i waered i'w weled ef; ond a orchymynodd i'r ddau ŵr dysglaer, y rhai a fuasent yn cyfarwyddo ac yn cynnorthwyo Cristion a Gobeithiol i ddyfod i'r ddinas, i ddyfod allan a chymmeryd Anwybodaeth, a rhwymo ei draed a'i ddwylaw, a'i ddwyn ymaith; *Mat.* xxii. 13. A hwy a'i cymmerasant ac a'i dygasant trwy'r awyr i'r drws a welais ar ochr y bryn, ac a'i bwriasant i mewn yno. Yna gwelais fod ffordd i uffern o borth y nefoedd, yn gystal ag o ddinas dystryw.

Felly mi a ddeffroais, ac wele breuddwyd oedd.

---

## Y DIWEDDGLO.

Yn awr, ddarllenydd, dywedais iti
Fy mreuddwyd—cais im' ei ddeongli
I ti dy hunan, neu'th gymmydog:
Rhag camddeongli, bydd wagelog;
Can's, yn lle gwneuthur it' ddaioni,
Ni ddaw i ti ond yr anfri:—
Trwy gamddeongli pethau tywyll,
Y mae yn dygwydd ddrygau erchyll.
Na fydd ry fanwl yn dy amcan,
Wrth chwareu â'm breuddwyd o'r tu allan;
Na äd i'm cysgod neu'm cyff'lybiaeth.
Dy yru i chwerthin, neu lid diffaith;
Gad hyn i fechgyn ac ynfydion,
Cais di wel'd sylwedd fy 'madroddion.
Tro heibio 'm lleni, i mewn edrych
Trwy'm cyff'lybiaethau, gwel na fethych;
Yno cai, os chwili'n ddirwest,
Ryw bethau da i feddwl onest.
Beth byna' o'm sorod yno weli,
Tafl ef ymaith heb bryderu;
Ond eto cadw 'r aur yn hygar,
Mae'n werthfawr iawn er bod mewn daiar.
Beth er bod fy aur i'n guddiedig
Mewn mŵn priddlyd? Pwy ddyn diddig
A deifl ymaith beraidd afol,
Am fod plisg cnewyll yn ei ganol?
Os tefli 'r cwbl fel gwagbeth heibio,
Nis gwn na bydd im' ail freuddwydio.

---

DINBYCH: ARGRAFFWYD GAN THOMAS GEE.